



Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD MAWRTH, 14EG GORFFENNAF, 2026**

**(NODER: CYNHELIR CYFARFOD BRIFFIO I'R AELODAU AM 10:00YB)**

Lleoliad

**Hybrid - Siambr Dafydd Orwig, Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon LL55 1SH**

**\* NODER \***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**[https://gwynedd.public-i.tv/core//cy\\_GB/portal/home](https://gwynedd.public-i.tv/core//cy_GB/portal/home)**

Pwynt Cyswllt

**Jasmine Jones**

**01286 679667**

**[jasminejones@gwynedd.llyw.cymru](mailto:jasminejones@gwynedd.llyw.cymru)**

# **PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI**

## **AELODAETH (18)**

### **Plaid Cymru (12)**

Y Cynghorwyr

Jina Gwyrfai  
Gareth Tudor Jones  
Gwynfor Owen  
Dyfrig Siencyn  
Elin Walker Jones  
Geraint Wyn Parry

Dawn Lynne Jones  
Olaf Cai Larsen  
Huw Rowlands  
Rhys Tudur  
Sian Williams  
[sedd wag]

### **Annibynnol (6)**

Y Cynghorwyr

Elwyn Jones  
Beth Lawton  
John Pughe Roberts

Gwilym Jones  
Dewi Owen  
Richard Glyn Roberts

### **Aelodau Ex-officio**

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

### **Aelodau Eraill a Wahoddwyd**

## AELODAU CYFETHLEDIG:

### Hefo pleidlais ar faterion addysg yn unig

[sedd wag]

Eglwys yng Nghymru

Colette Owen

Yr Eglwys Gatholig

{sedd wag]

Cynrychiolydd Rhieni/Llywodraethwyr  
Meirionnydd

Gweno Glyn Williams

Cynrychiolydd Rhieni/Llywodraethwyr  
Dwyfor

Sharon Roberts

Cynrychiolydd Rhieni/Llywodraethwyr  
Arfon

### Heb Bleidlais:

Elise Poulter

NEU

Gwilym Jones

NASUWT

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYN

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. ADRODDIAD PERFFORMIAD CYLLID

5 - 42

Er mwyn i Aelodau'r Pwyllgor graffu ar faterion perfformiad o fewn yr Adran.

## 5. ADRODDIAD YMCHWILIAD CRAFFU TREFNIADAU DIOGELU MEWN YSGOLION

43 - 128

Ystyried cynnwys yr Adroddiad a gwneud sylwadau, gofyn unrhyw gwestiynau perthnasol gan gynnig unrhyw welliannau a chymeradwyo'r Adroddiad.

## 6. ADFYWIO CANOL TREF

129 - 240

Derbyn diweddariad ar y gwaith ac ystyried beth yw eu heffaith.

## 7. BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI 2026/27

241 - 244

Cyflwyno rhaglen waith ddrafft y Pwyllgor ar gyfer 2026/27 i'w mabwysiadu.

# Eitem 4

<b>CYFARFOD</b>	Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
<b>DYDDIAD</b>	14 Gorffennaf 2026
<b>TEITL</b>	Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Cyllid
<b>RHESWM DROS GRAFFU</b>	Cyfle i Aelodau drafod a chraffu mesurau a blaenoriaethau gwella'r Adran
<b>AWDUR</b>	Dewi Morgan, Pennaeth yr Adran Gyllid
<b>AELOD CABINET</b>	Cynghorydd Huw Wyn Jones, Aelod Cabinet Cyllid

## 1. Pam fod angen ei graffu?

Er mwyn i Aelodau'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi gael eu bodloni fod gennyf i, yr Aelod Cabinet Cyllid, afael ar faterion perfformiad o fewn yr Adran.

## 2. Cefndir / Cyd-destun

Pwrpas yr adroddiad yma yw eich diweddarau ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Cyllid. Mae hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yng Nghynllun y Cyngor a gwaith dydd i ddydd yr Adran am y flwyddyn i ddiwedd Mawrth 2026.

Rydym yn gweithredu ar Gynllun y Cyngor 2023-28, ac yma rwyf yn adrodd ar y cynnydd a wnaed hyd at ddiwedd Mawrth 2026. Nodir bod y gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth wedi trosglwyddo i reolaeth yr Adran Gwasanaethau Corfforaethol ers 1 Ebrill 2026, ond gan mai perfformiad 2025/26 sydd dan sylw yn yr adroddiad yma mae'r gwasanaethau digidol wedi eu cynnwys yn adroddiad yr Adran Gyllid. Bu'r trosglwyddiad yn un llyfn a rwyf yn parhau i fod yn Aelod Cabinet dros Cyllid a Thechnoleg Gwybodaeth ill dau yn 2026/27.

Mae'r holl faterion o dan fy nghyfrifoldeb wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu gennyf mewn cyfarfodydd herio a chefnogi perfformiad, ac rwyf yn fodlon gyda pherfformiad yr Adran.

### **3. Rhesymeg a chyfiawnhad**

#### **3.1 Perfformiad Prosiectau Cynllun y Cyngor**

Yn 2025/26, roedd yr Adran Gyllid yn arwain ar ddau o flaenoriaethau yng Nghynllun y Cyngor 2023-2028, sef:

- Rheoli effaith toriadau cyllidol cenedlaethol
- Cynllun Digidol

Rwy'n fodlon iawn gyda'r gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2025/26, ac amlinellir y cynnydd yn erbyn y cerrig milltir a osodwyd ar gyfer blaenoriaeth ar gyfer y llynedd yn Atodiad 1a ac 1b.

Mae'r angen i gyflawni arbedion ariannol ar draws y Cyngor yn parhau'n flaenoriaeth er mwyn sicrhau cydbwysedd cyllidebol yn y tymor canolig a chadw cynnydd Treth Cyngor o fewn ffiniau rhesymol. Er bod gwaith yr Adran Gyllid yn y maes hwn yn gadarn ac yn effeithiol, mae'n parhau'n her i sicrhau gweithrediad llwyddiannus ym mhob gwasanaeth.

Mae'r Cynllun Digidol yn cynnwys nifer o brosiectau sydd wedi'u hanelu at wella gweithrediad y Cyngor a sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau posibl o'r adnoddau sydd ar gael. Mae mwyafrif y prosiectau hyn yn rhai tymor canolig i hir, i'w gweithredu dros sawl blwyddyn ariannol. O ganlyniad, ni ddisgwylid i'r rhan fwyaf ohonynt fod wedi'u gweithredu'n llawn erbyn diwedd 2025/26. Ar y cyfan, rwyf yn fodlon gyda'r cynnydd sy'n cael ei wneud ar draws y prosiectau hyn.

#### **3.2 Gwaith dydd i ddydd yr Adran**

Mae Atodiad 2a a 2b yn amlinellu'r mesurau perfformiad ar draws gwasanaethau'r Adran yn 2025/26. Mae'r data diweddaraf yn dangos perfformiad cadarn ar y cyfan, er bod nifer fechan o feysydd yn parhau i dderbyn sylw penodol.

Yn gyffredinol, mae perfformiad y mwyafrif o wasanaethau yn gryf, gyda nifer o fesurau'n dangos canlyniadau rhagorol. Ymhlith y rhain mae lefelau cydymffurfiaeth sawl pennawd hyfforddiant mandadol bron i 100%, ynghyd â gwasanaethau craidd yn gweithredu'n brydlon ac yn effeithiol. Mae trefniadau Cyllid a Chyfrifeg yn parhau i berfformio'n gadarn, yn enwedig o safbwynt gosod cyllidebau a chau cyfrifon yn amserol. Ar yr un pryd, mae gwasanaethau cymorth allweddol megis Cyflogau a Phensiynau yn cynnal safon uchel o berfformiad.

Mae gwasanaethau digidol bellach o fewn strwythur yr Adran Gwasanaethau Corfforaethol, ac yn parhau i wneud cyfraniad sylweddol at weithrediad yr Adran a

blaenoriaethau ehangach y Cyngor. Mae'r data yn dangos lefel uchel o alw, gyda dros 15,000 o geisiadau wedi'u cofnodi yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, mae'r mwyafrif helaeth yn cael eu datrys o fewn amserlenni priodol, gan adlewyrchu gwasanaeth effeithlon a dibynadwy sy'n cefnogi gweithrediad dydd i ddydd.

Ceir cryfder pellach yn ansawdd a sefydlogrwydd y gwasanaethau, gyda lefelau uchel iawn o fodlonrwydd defnyddwyr, cydymffurfiaeth â hyfforddiant mandadol, a darpariaeth gadarn o seilwaith digidol. Mae hyn yn darparu sylfaen gref ar gyfer cyflawni gwasanaethau'r Cyngor yn effeithiol.

Yn ystod y cyfnod, gweithredwyd nifer o welliannau sylweddol i gryfhau'r cynnig digidol a gwella effeithlonrwydd. Mae'r rhain yn cynnwys moderneiddio dyfeisiau, uwchraddio systemau, ehangu dulliau gweithio digidol, a rhesymoli'r seilwaith. Mae'r camau hyn hefyd wedi cyfrannu at gyflawni arbedion ariannol.

Er gwaethaf y cynnydd hwn, mae rhai meysydd o fewn yr Adran Gyllid yn parhau i beri pryder. Yn benodol, mae lefel y ddyled hirdymor a oruchwylir gan y Gwasanaeth Incwm yn parhau'n sylweddol, a dyma'r unig fesur sydd gan yr Adran sy'n parhau yn y categori coch. Serch hynny, mae arwyddion diweddar o welliant, gyda chynlluniau cadarn ar waith i liniaru'r risg ymhellach.

Er bod perfformiad casglu Treth Cyngor ac Ardrethi Annomestig wedi gwella, mae'n parhau'n is na lefelau hanesyddol. Yn ystod y misoedd nesaf, bwriedir cyflwyno cymorth digidol ychwanegol i'r gwasanaeth er mwyn cefnogi gwaith dydd i ddydd, gyda'r disgwyliad y bydd hyn yn gwella perfformiad ymhellach.

O safbwynt Archwilio Mewnol, mae cyfradd cwblhau'r cynllun archwilio yn parhau ychydig yn is na'r targed. Gellir priodoli hyn yn bennaf i amseriad rhai adolygiadau, a bydd y sefyllfa'n cael ei monitro'n barhaus wrth symud ymlaen.

Yn y maes digidol, er bod y gwasanaeth yn sefydlog ar y cyfan, cofnodwyd nifer gyfyngedig o ddigwyddiadau seibr a thoriadau gwasanaeth. Mae hyn yn amlygu'r angen i barhau i gryfhau gwytnwch a diogelwch y seilwaith.

Mae'r holl faterion uchod yn cael eu monitro'n rheolaidd drwy drefniadau Herio a Chefnogi Perfformiad ac mae'r Adran mewn sefyllfa gadarn, gyda ffocws clir ar fynd i'r afael â'r meysydd sydd angen sylw er mwyn sicrhau gwelliant parhaus.

## Adroddiadau Archwilwyr Allanol

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, derbyniwyd dau adroddiad gan Archwilwyr Allanol, a hoffwn dynnu sylw atynt yma mewn perthynas â pherfformiad yr Adran.

Cyhoeddwyd adroddiad **Rheolaeth Strategol ar Falansau a Chronfeydd wrth Gefn – Cyngor Gwynedd** ym Medi 2025.

Fe'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 11 Medi 2025. Roedd yr adroddiad yn cynnwys un argymhelliad: *“Er mwyn sicrhau bod ei gronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio'n strategol, dylai'r Cyngor gryfhau ei drefniadau presennol drwy fabwysiadu strategaeth cronfeydd wrth gefn sy'n cynnwys meini prawf i benderfynu pryd a sut y dylid sefydlu a blaenoriaethu cronfeydd wrth gefn a dull cymesur i gefnogi'r rhesymeg y tu ôl i'r symiau a gedwir mewn cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn.”*

Cymeradwyodd y Pwyllgor ymateb y rheolwyr, oedd yn nodi byddwn yn datblygu strategaeth cronfeydd wrth gefn sydd yn ymgorffori'r materion hyn yn ogystal â materion perthnasol eraill a hynny erbyn 31 Mawrth 2026.

Cyhoeddwyd adroddiad “ISA260” - **Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon** - gan Archwilio Cymru ym mis Tachwedd 2025 a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 13 Tachwedd. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi prif ganfyddiadau archwiliad yr Archwilydd Cyffredinol o'r Datganiad o'r Cyfrifon 2024-25. Cyhoeddwyd barn ddiamod ar y cyfrifon ac nid oedd yr adroddiad yn cynnwys unrhyw argymhellion.

## 4. Ymgynghori

Mae'r adroddiad hwn wedi'i lunio ar sail gwybodaeth a drafodwyd yn y cyfarfodydd Herio a Chefnogi Perfformiad diweddaraf ar gyfer yr Adran Gyllid (19 Mai 2026) a'r Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth (22 Mai 2026). Mynychwyd y cyfarfodydd gan y Pennaeth Adran, Penaethiaid Cynorthwyol, rheolwyr gwasanaeth a'r Aelod Cabinet, gyda'r Prif Weithredwr hefyd yn bresennol yn y cyfarfod sy'n ymwneud â Thechnoleg Gwybodaeth.

## Atodiadau

**Atodiad 1a:** Adroddiadau cynnydd cerrig milltir prosiectau Cynllun y Cyngor Cyllid

**Atodiad 1b:** Adroddiadau cynnydd cerrig milltir prosiectau Cynllun y Cyngor Technoleg Gwybodaeth

**Atodiad 2a:** Mesuryddion Perfformiad yr Adran Gyllid

**Atodiad 2b:** Mesuryddion Perfformiad Technoleg Gwybodaeth

**Gwynedd Effeithlon: Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau bod y Cyngor yn perfformio'n dda ac yn effeithiol**

Adran a Prosiect	Trosolwg	Beth ydym am ei gyflawni yn ystod y DRYDEDD flwyddyn 2025-26 (cerrig milltir):	Ydi'r garreg filltir wedi ei chwblhau	Beth sydd wedi ei gyflawni yn ystod y flwyddyn a'r effaith (neu effaith tebygol) ar bobl Gwynedd? Dylid hefyd cynnwys gwybodaeth neu dystiolaeth i gadarnhau hyn (mesurau neu ddata sy'n cadarnhau ayyb)
<p><b>Cyllid – Rheoli effaith toriadau cyllidol cenedlaethol</b></p>	<p>Mae'r Cyngor eisoes wedi torri ei gyllidebau er mwyn arbed dros £43m ers 2015/16, ond yn sgil y sefyllfa economaidd bresennol, nid yw'r arian bydd y Cyngor yn ei dderbyn gan y Llywodraeth yn ddigonol i ymdopi â chwyddiant a phwysau gwario newydd. Rydym yn wynebu toriadau ariannol sylweddol dros oes y cynllun yma.</p> <p>Byddwn yn ymdrechu i wneud popeth y gallwn i leihau'r effaith ar y gwasanaethau a ddarperir i bobl Gwynedd gan dderbyn na fydd modd gosod cyllideb hafal heb gyfres faith o arbedion/toriadau a chynyddu'r dreth Cyngor. yn uwch nag a fyddem yn ei ddyddio.</p>	<p>1. Monitro fod yr arbedion a thoriadau gwerth £3,463,390 ar gyfer 2025/26, a gafodd eu cymeradwyo gan y Cyngor Llawn 06/03/2025, ynghyd ag unrhyw arbedion sydd eto ar ôl i'w gwireddu o flynyddoedd blaenorol yn cael eu blaenoriaethu gan yr Adrannau i'w gwireddu yn ystod y flwyddyn ariannol <a href="#">Atodiad 3 - Arbedion a Thoriadau</a></p> <p>2. Monitro fod yr Adrannau yn blaenoriaethu gwireddu arbedion sydd wedi llithro o flynyddoedd ariannol blaenorol.</p> <p>3. Y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr a'r Pennaeth Cyllid i gyfarfod yn chwarterol i adolygu statws gwireddu holl arbedion a thoriadau y Cyngor ac i ystyried y cynlluniau sydd wedi llithro er mwyn cynnal asesiad gwrthrychol o pa mor realistig yw'r disgwyliad iddynt gael eu gwireddu.</p> <p>4. Adrodd i Gabinet 14 Hydref 2025 a 20 Ionawr 2026 ac i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 9 Hydref 2025 a 15 Ionawr 2026 ar statws gwireddu holl gynlluniau arbedion</p>	<p>1. Ydi</p> <p>2. Ydi</p> <p>3. Ydi</p> <p>4. Ydi</p>	<p>1. Arbedion gwerth £46.5 miliwn wedi'u cyflawni ers 2015/16. Cafodd y wybodaeth ddiweddaraf ei hadrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 15 Ionawr 2026 ac i'r Cabinet ar 20 Ionawr 2026.</p> <p>2. Yn ystod y flwyddyn, cafodd perfformiad ei fonitro a'i hadrodd i'r Cabinet ar 11 Tachwedd 2025 a 20 Ionawr 2026, ac i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 9 Hydref 2025 a 15 Ionawr 2026.</p> <p>3. Oherwydd pwysau a galwadau eraill, ni chynhaliwyd cyfarfodydd yn hanner cyntaf y flwyddyn; fodd bynnag, cynhaliwyd cyfarfod i drafod yr arbedion ym mis Ionawr, 2026.</p>

		<p>a thoriadau y Cyngor.</p> <p>5. Cydweithio gyda'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Adrannau ar gynlluniau arbedion a thoriadau 2025/26, gan edrych ar effeithlonrwydd a ffyrdd amgen o ddarparu gwasanaethau.</p>	5. Ydi	<p>4. Wedi adrodd i'r cyfarfodydd yma yn unol â'r cynllun.</p> <p>5. Yn dilyn sefydlu'r Bwrdd Rhaglen Cynllun Ariannol Tymor Canolig, mae Adran Gyllid, fel rhan o waith y Bwrdd, yn darparu gwybodaeth ar yr arbedion a'r toriadau ar gyfer 2025/26.</p>
--	--	---	--------	---

## Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 – Gweithrediadau Blwyddyn 3

**Gwynedd Effeithlon: Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n dda ac yn effeithiol**

Adran	Prosiect	Beth ydym am ei gyflawni yn ystod y <b>DRYDEDD</b> flwyddyn 2025-26 (cerrig milltir):	Ydi'r garreg filltir wedi ei chwblhau?	Beth sydd wedi ei gyflawni yn ystod y flwyddyn a'r effaith (neu effaith tebygol) ar bobl Gwynedd?  Dylid hefyd gynnwys gwybodaeth neu dystiolaeth i gadarnhau hyn (mesurau neu ddata sy'n cadarnhau ayyb)
Cyllid	Cynllun Digidol	Mae'r cynlluniau isod unai yn hunan-gyllidol oddi ar adnoddau sydd gan y Cyngor yn barod, neu wedi derbyn cefnogaeth lawn i'w rhoi ar waith yn ystod y ddwy flynedd nesaf:  Dyma'r prosiectau a roddir ar waith yn 2025/26:		
		<b>CC3 – ail ddylunio gwefan corfforaethol y Cyngor</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cytuno ar ddyluniad</li> <li>• Datblygu a phrofi'r newidiadau</li> <li>• Cyflwyno'r dyluniad newydd yn fyw</li> </ul>	Rhannol	Mae tudalennau newydd y wefan yn cael eu datblygu gyda'r disgwyliad y byddent yn fyw yn ystod mis Gorffennaf, 2026. Bydd y dyluniad newydd yn cyd-fynd gyda dyluniad newydd y Cyngor ac yn fwy hygyrch i ddefnyddwyr.
		<b>CC2 – gwelliannau i ddarpariaeth ffôn y Cyngor</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymarferiad caffael wedi'i gwblhau yn barod a'r gwaith wedi cychwyn ar beiriannu datrysiadau</li> <li>• Rheolwr prosiect yn ei lle</li> </ul>	Ydy	Mae'r ffrwd gwaith yma wedi ei gwblhau.

		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Swydd 'Arweinydd Gweithredol Llais' i'w llenwi yn Ch1</li> <li>• Datrysiad Canolfan Gyswllt i fynd yn fyw yn Ch1</li> <li>• Pawb wedi mudo i'r ddarpariaeth newydd erbyn diwedd Ch2</li> </ul>		
		<p><b>GCB1 – cyflwyno Deallusrwydd Artiffisial ar gyfer gweithgareddau trafodaeth a rheolaidd</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Datrysiadau ar gyfer dadansoddi cynnwys dogfennau ac e-byst wedi'u cyflwyno yn barod ar gyfer yr Adran Addysg</li> <li>• Asesiad addasrwydd Copilot i'w gynnal yn ystod Ch1 a Ch2 cyn bod modd cyflwyno'r dechnoleg yn llawn</li> <li>• Ymchwil papur am gyfleoedd eraill i gyflwyno datrysiadau DA</li> </ul>	<p>Ydy</p> <p>Rhannol</p> <p>Heb gychwyn</p>	Gwaith ar asesu'r addasrwydd o Co-Pilot wedi ei gwblhau a rhaglen waith yn cael ei ddatblygu o ran y camau nesaf.
		<p><b>GSB5 – adolygiad o systemau rheoli'r sefydliad</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Adolygiad wedi'i gynnal yn barod a bydd achos busnes ar gyfer cyflwyno system Cyflogau/Adnoddau Dynol yn mynd rhagddo yn Ch1</li> <li>• Gwaith o gyflwyno'r datrysiad newydd i gychwyn Ch3 ac i barhau hyd diwedd 2026/27</li> <li>• Adolygiad o systemau ariannol i barhau</li> </ul>	Ydy	Cyflenwr newydd (MHR - iTrent) wedi ei ddewis a chytundeb mewnosod yn ei le. Y nod yw talu cyflogau trwy'r system newydd ym mis Rhagfyr, 2026.
		<p><b>GWYD2- parhad gwasanaeth</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Swyddog cadernid seibr newydd wedi'i ychwanegu i'r tîm yn 2024/25</li> <li>• Sefydlu cynllun ymateb i ddigwyddiad</li> <li>• Profi'r cynllun ymateb i ddigwyddiad</li> </ul>	Yn rhannol	<p>Mae swyddog cadernid seibr wedi ei ychwanegu i'r tîm.</p> <p>Mae gwaith yn parhau ar sefydlu cynllun ymateb i ddigwyddiad a'i brofi.</p>

		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Sefydlu grwpiau cadernid seibr ac ymateb i ddigwyddiad seibr yn Ch2</li> <li>• Creu adroddiad blynyddol ar wytnwch ein gwasanaethau</li> </ul>		Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd sefydlu un grŵp cadernid seibr i ymateb i ddigwyddiad. Bydd y grŵp yn cyfarfod o fewn yr wythnosau nesaf.
		<p><b>GSB7 – gwneud y defnydd gorau o’r llwyfan Microsoft365</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynnal asesiad addasrwydd Copilot i fesur parodrwydd isadeiledd ac iechyd ein data/cynnwys i gyflwyno deallusrwydd artiffisial ar raddfa eang</li> <li>• Effaith o ddefnydd y pecynnau o safbwynt technegol a llywodraethu gwybodaeth</li> <li>• Gweinyddu’n defnydd o’r llwyfan gan leihau byrdwn costau’r llwyfan</li> <li>• Rhoi’r tîm estynedig ar waith i ddefnyddio’r llwyfan i’w lawn botensial</li> <li>• Dadansoddi effaith yr ymarferiad</li> <li>• Paratoi achos busnes ar gyfer cefnogaeth barhaol</li> </ul>	Nac ydy	Gwaith i gychwyn yn ystod 2026/27.
		<p><b>GWYD1 – uwchraddio llinellau analog i ddigidol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae’r dasg yma’n parhau gyda chynnydd sylweddol wedi’i wneud yn 2024/25</li> <li>• Blaenoriaethu’r adnodd canolog i barhau gyda gwaith sydd wedi’i gyflawni’n barod (Cam 1) i adnabod cysylltiadau analog sydd angen eu huwchraddio</li> <li>• Symud y prosiect i Gam 2, gan adnabod pa gysylltiadau sydd angen parhau a threfnu i ddiffodd y cysylltiadau nad oes eu hangen</li> <li>• Adnabod technoleg amgen ar gyfer y gwasanaethau sydd angen parhau</li> </ul>	Yn rhannol	<p>Mae’r ffrwd gwaith yma wedi ei gwblhau yn rhannol. Allan o 600 o linellau mae tua 80 o linellai ar ôl i’w trosglwyddo neu ganslo.</p> <p>Bydd y ffrwd gwaith yma yn dod i ben mis Awst.</p>

		<ul style="list-style-type: none"> <li>Cydweithio â'r adrannau fel eu bod yn perchnogi'r tasgau a chost o fudo i'r ddarpariaeth newydd</li> </ul>		
		<p><b>GWYD3 – uwchraddio darpariaeth darlledu yn siambrau'r Cyngor</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gwelliannau i ddarpariaeth darlledu gweledol yn Siambr Dafydd Orwig a Hywel Dda</li> <li>Cyflwyno darpariaeth fideo gynadleddau newydd i ystafell seminar newydd yn y Pencadlys</li> <li>Gwneud man addasiadau i ddiffygion llais yn yr ystafelloedd cyfarfod eraill</li> <li>Cyflwyno offer fideo gynadleddau addas ar gyfer ystafelloedd cyfarfod adrannol</li> </ul>	Yn rhannol	Bid drafft ar gyfer cyflwyno offer digidol newydd yn Siambrau'r Cyngor yn cael ei baratoi ar hyn o bryd gyda Bwrdd Prosiect wedi ei sefydlu. Rhagwelir bod mewn sefyllfa i gyflwyno bid ariannol terfynol ym mis Medi, 2026. Rhagwelir mewnosod y cyfarpar newydd yn ystod 2027.
		<p><b>GD2 – Siarter Data</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Is-grŵp data i greu siarter data</li> </ul> <p><b>GD4 – llwyfan adrodd ar ddata</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Dehongli'r anghenion</li> <li>Adolygu'r opsiynau sydd ar gael</li> <li>Caffael datrysiaid fel peilot</li> <li>Mesur effaith y peilot a pharatoi achos busnes ar gyfer ehangu'r ddarpariaeth</li> </ul> <p><b>GD6 – adrodd ar berfformiad</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Is-grŵp data i gydweithio â'r Tîm Rheoli Corfforaethol i greu argymhellion i wella adroddiadau adrodd ar berfformiad</li> </ul>	Yn rhannol	<p>Siarter Data wedi'i drafftio gan yr Is-grŵp. Caiff y fersiwn derfynol ei lansio a'i hyrwyddo i staff erbyn Medi 2026 er mwyn rhoi arweiniad ar ddefnyddio data'n gywir, yn gyfrifol ac yn gyson. Mae yna Fframwaith Aeddfedrwydd Data a hunanasesiad i dimau / unigolion i gyd-fynd â'r Siarter.</p> <p>Rydym wedi adolygu'r opsiynau ar gyfer llwyfan adrodd data gan ddod i gasgliad ynghylch defnydd Power BI a llwyfannau eraill yn y Cyngor a'r sefyllfa trwyddedu meddalwedd gysylltiedig. Bydd canllawiau ar hyn, a pholisïau a gweithdrefnau manwl ar y defnydd o Power BI, yn ffurfio rhan o'r Siarter Data. Byddwn hefyd yn cyhoeddi rhai dashfyreddau ar wefan newydd y Cyngor cyn diwedd 2026 ar ôl ffurfioli'r</p>

				<p>trefniadau ar gyfer gwneud hyn mewn modd diogel a hygyrch.</p> <p>Mae gwaith wedi digwydd mewn nifer o Adrannau yn ystod y flwyddyn i wella'r defnydd o ddata a dashfyrdau wrth adrodd perfformiad. Gwneir gwaith pellach yn ystod 2026 i archwilio'r posibilïadau ar gyfer safoni a rhesymoli'r trefniadau hyn ar draws y Cyngor.</p>
		<p><b>GWEI1 – cyflwyno cyfrif digidol i bob swyddog</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynnal gweithdai i adnabod yr anghenion</li> <li>• Asesu anghenion ar gyfer pob swyddog, gweithwyr achlysurol a gwirfoddolwyr</li> <li>• Paratoi achos busnes ar gyfer denu cefnogaeth ariannol</li> </ul>	Ydy	<p>Gwaith mapio anghenion manwl wedi digwydd ym mhob Adran a'r anghenion wedi eu hymgorffori i un bid am gyllideb. Bid wedi ei rannu i dri rhan gydag elfennau cyfalaf a refeniw.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfrifon newydd</li> <li>• Cyfarpar i weithleoedd sydd heb dechnoleg</li> <li>• Adnodd canolog Swydd Hyfforddi i wireddu rhaglen o hyfforddiant i staff rheng flaen.</li> </ul> <p>Bid ar gyfer cyfarpar ac offer wedi ei gymeradwyo. Nid yw'n ymddangos fod y bid am Swyddog Hyfforddi wedi bod yn llwyddiannus ac felly angen ail ymweld â'r bwriad yma gan nad oes adnodd arall.</p>
		<p><b>GSB6 – rhyngwrwyd y pethau</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cais am arian SPF wedi'i gyflwyno i gyflogi adnodd dros dro am flwyddyn i ymchwilio i</li> </ul>	Yn rhannol	<p>Bu'r cais am arian SPF yn llwyddiannus. Mae cyfarpar wedi ei archebu ac yn cael ei ffurfweddu</p>

		<p>ddatrysiadau a chreu ystod o ddadansoddiadau achos ar gyfer ei ddefnydd</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Paratoi achos busnes ar gyfer adnoddau parhaol</li> <li>• Cydweithio â'r Bwrdd Digidol yn Uchelgais Gogledd Cymru i gyflwyno rhwydwaith rhyngwrwyd y pethau yn rhanbarth y gogledd (LoRaWAN)</li> </ul>		<p>ar hyn o bryd. Gobeithir gallu osod yr offer yn ystod y misoedd nesaf.</p> <p>Ni oedd achos amlwg i baratoi achos busnes ar gyfer adnoddau parhaol.</p> <p>Cyflwynwyd cais am arian grant i Uchelgais Gogledd Cymru. Cymeradwywyd y grant, fodd bynnag, mae oedi wedi bod ar ochr Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru mewn rhyddhau'r arian.</p>
		<p><b>GWE14 – hyrwyddo Cyngor Gwynedd fel cyflogwr digidol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyflogi 'Hyfforddai Trawsnewid Digidol'</li> </ul>	Ydy	<p>Ymgais i benodi Hyfforddai Trawsnewid Digidol ddim wedi bod yn llwyddiannus.</p>

# **Adroddiad Perfformiad Mesurau Adran Gyllid (Gwasanaethau Ariannol)**

## **Cyfnod:**

- **Blwyddyn Ariannol 2025/2026**

Hyfforddiant Mandadol

Staff wedi cwblhau'r hyfforddiant Diogelu

100%

Hyfforddiant Mandadol

Staff wedi cwblhau'r hyfforddiant Cam-drin Domestig

99.3%

Gwasanaeth Yswiriant a Rheoli Risg

Hawliadau atebolrwydd cyhoeddus efo taliad o iawndal (Uned Yswiriant)

5

Gwasanaeth Yswiriant a Rheoli Risg

Hawliadau atebolrwydd cyhoeddus efo taliad o iawndal (Yswiriwr)

2

Gwasanaeth Budd-daliadau

Diwrnodau i brosesu cais budd-dal

16.80

Gwasanaeth Budd-daliadau

Diwrnodiau i brosesu hysbysiad newid mewn amgylchiadau

4.99

Gwasanaeth Cyflogau  
Achosion wedi arwain at addasiadau pellach yn y cyflog

Ionawr: 26  
Chwefror: 26  
Mawrth: 29  
Ebrill: 15

Gwasanaeth Cyflogau

Gwybodaeth statudol ar amser

100%

Gwasanaeth Pensiynau

Parhau i gyfrifo a thalu buddion ymdeol yn brydlon



Gwasanaeth Pensiynau

Fy Mhensiwn Ar-lein – cynnydd mewn aelodaeth ac ymweliadau



Gwasanaeth Taliadau

Nifer o ddyddiau cyfartalog i brosesu anfonebau lleol i'w talu

24

Gwasanaeth Archwilio Mewnol

Cynghorau cymuned wedi derbyn archwiliad

74

**Gwasanaeth Buddsoddi a  
Rheolaeth Trysorlys**

Cronfa Bensiwn – gwerth  
asedau wedi cynyddu i

**£3.6bn**

**Gwasanaeth Trethi**

Cyfradd casglu Ardrethi  
Annomestig y flwyddyn  
gyfredol

**93.76%**

**Gwasanaeth Archwilio Mewnol**

Cynllun blynyddol wedi ei  
gwblhau (2025/26)

**88%**

**Gwasanaeth Cyllid a Chyfrifeg**

Sefyllfa diwedd y flwyddyn  
2025/26 yr adrannau wedi ei  
derfynu



**Gwasanaeth Trethi**

Cyfradd casglu Treth Cyngor y  
flwyddyn gyfredol

**93.10%**

**Gwasanaeth Buddsoddi a Rheolaeth  
Trysorlys**

Cronfa Bensiwn -  
dychweliadau'r  
rheolwyr yn is na'r meincnod

**-0.2%**

**Gwasanaeth Cyllid a Chyfrifeg**

Cyllideb 2026/27 – Gwaith ar y  
gyllideb wedi ei gwblhau



**Gwasanaeth Taliadau**

Nifer o ddyddiau cyfartalog i  
brosesu anfonebau nad ydynt  
yn lleol i'w talu

**25**

**Gwasanaeth Incwm**


Gwerth dyledion  
amrywiol > 6 mis oed

**£1,927,815**

# Hyfforddiant Mandadol (Adran gyfan)

## Trosolwg o berfformiad:

Nodir isod ganran y staff yn yr Adran sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant mandadol. Yn ôl y data diweddaraf, mae pob aelod o staff y Gwasanaethau wedi cwblhau'r hyfforddiant Diogelu. Ni fydd modd i ni gyrraedd 100% o ran cwblhau gweddill yr hyfforddiant ar hyn o bryd, gan fod un aelod o staff ar absenoldeb hirdymor. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i ymdrechu i wella lefelau cwblhau ar draws pob maes hyfforddiant.



# Gwasanaeth Budd-daliadau

Rheolwr Gwasanaeth – Dylan Griffith

**Pwrpas gwasanaeth:** Prosesu ceisiadau Budd-dal Tai, Cynllun Gostyngiad Treth Cyngor, Budd-daliadau Addysg (Cinio am Ddim a Grant Datblygu Disgyblion) a Taliadau Tai Dewisol yn brydlon a chywir, er mwyn rhoi cymorth i ddinasyddion Gwynedd i dalu eu rhenti a biliau Treth Cyngor ac i sicrhau fod plant Gwynedd yn derbyn y gefnogaeth briodol.

**Trosolwg o berfformiad blwyddyn 2025/26 :** Roedd y cyfartaledd amser a gymerwyd i brosesu cais Budd-dal Tai/Gostyngiad Treth Cyngor newydd yn 2025/26 yn **16.80** diwrnod, o'i gymharu â 17.68 diwrnod yn 2024/25, sy'n welliant yn y mesur yma. Gwelwyd dirywiad bach ym mherfformiad y cyfartaledd amser a gymerwyd i brosesu hysbysiad newid mewn amgylchiadau Budd-dal Tai/Gostyngiad Treth Cyngor gan ei fod yn **4.99** diwrnod yn 2025/26, a 3.83 diwrnod yn 2024/25.

Proseswyd **2,248** o geisiadau newydd am Fudd-dal Tai/Gostyngiad Treth Cyngor yn 2025/26 i'w gymharu efo 2,238 yn 2024/25 yn ogystal â phrosesu **22,332** o hysbysiadau o newidiadau mewn amgylchiadau ein cwsmeriaid yn 2025/26 i'w gymharu efo 24,830 yn 2024/25.

Yn ogystal i'r uchod derbyniwyd y data canlynol drwy drefniadau rhannu gwybodaeth electroneg efo'r Adran Waith a Phensiynau :

**ATLAS** (Automated Transfer to Local Authority Systems) : **25,484** (27,582 yn 2024/25)

**UCDS** (Universal Credit Data Share) : **79,232** (65,586 yn 2024/25)



**VEP** (Verify Earnings and Pensions) : **245** (430 yn 2024/25)

Mae'r gwasanaeth hefyd yn gwirio ceisiadau ar gyfer y DWP, drwy gynllun Housing Benefit Accuracy Award (HBAA), er mwyn sicrhau nad oes camgymeriadau neu dwyll yn y llwyth gwaith.

Yn ystod 2025/26 proseswyd y gwiriadau canlynol : Full Claim Reviews (FCR) : **651** (575 yn 2024/25) Housing Benefit Data Matching (HBMS) : **91** (68 yn 2024/25)

Self Employed Reviews (SER) : **0** (9 yn 2024/25)

Yn ôl i'r  
dashfwrdd



# Gwasanaeth Budd-daliadau

Rheolwr Gwasanaeth – Dylan Griffith

**Gwerth ariannol i drigolion Gwynedd am y flwyddyn ariannol 2025/26 :**

**Budd-dal Tai :**

Mae yna **2,497** o ddinasyddion Gwynedd yn derbyn Budd-dal Tai gennym ar hyn o bryd gyda gwerth ariannol o **£16,648,417.41** wedi ei dalu yn ystod 2025/26.

**Gostyngiad Treth Cyngor :**

Yn ogystal i'r uchod, mae yna **8,467** o ddinasyddion Gwynedd yn derbyn Gostyngiad Treth Cyngor ar hyn o bryd gyda gwerth ariannol o **£11,836,539** wedi ei dalu yn ystod 2025/26.

**Taliadau Tai Dewisol :**

Mae'r gwasanaeth Budd-daliadau wedi cynorthwyo **1,392** o deuluoedd gyda gwerth ariannol o **£662,561.05** o'r Gronfa Taliadau Tai Dewisol (DHP), sy'n gymorth ychwanegol tuag at dalu rhent. Drwy hyn, rydym wedi gallu cynorthwyo nifer sylweddol o denantiaid Gwynedd i aros yn eu cartref presennol neu i symud i eiddo newydd.

**Grant Hanfodion Ysgol & Cinio am Ddim :**

Yn ogystal, mae'r Gwasanaeth Budd-daliadau wedi prosesu grant gwsg ysgol / grant hanfodion ysgol gyda gwerth ariannol o **£283,625 i 2,158** o blant, ac wedi asesu hawl cinio am ddim i **3,046** o blant Gwynedd.

Yn ogystal â'r gwaith a ddisgrifir uchod, mae rôl yr Aseswyr Budd-dal wrth adnabod anghenion trigolion tu hwnt i'w hawliadau budd-dal wedi cryfhau'r cyswllt gyda'r prosiect Cefnogi Pobl sy'n cael ei gynnal ar draws y Cyngor. Trwy'r gwaith yma, mae trefniadau mewn lle sy'n caniatáu i'r Aseswyr Budd-dal gyfeirio'r ceiswyr budd-dal at gymorth pellach sydd ar gael gan y Cyngor.

Yn ôl i'r  
dashfwrdd

# Gwasanaeth Cyflogau

Rheolwr Gwasanaeth – Martin Morris


**Pwrpas gwasanaeth:** I dalu staff yn gywir ac ar amser, a hefyd cadw cyfrifon priodol ar gyfer talu cyrff allanol fel CThEF (HMRC).

Trosolwg o berfformiad:

Oddeutu 60 o eitemau wedi eu derbyn fel rhan o gyflogresi Ionawr ond yn perthyn i gyfnodau cynharach, gyda 115 o eitemau tebyg wedi eu derbyn fel rhan o gyflogresi Chwefror, 263 fel rhan o gyflogresi Mawrth a 84 fel rhan o gyflogresi Ebrill. (Noder bod y ffigwr yn uwch ym Mawrth oherwydd gwaith sydd yn cael ei wneud gennym ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol i adnabod swyddi achlysurol sydd heb eu talu am dros flwyddyn er mwyn eu cau ar y system)

Yn ystod y flwyddyn 2025/26 mae 79,867 o daliadau cyflog wedi eu gwneud i weithwyr y Cyngor. Mae cyfanswm o 280 o addasiadau ychwanegol (0.35%) wedi eu gwneud yn ystod y flwyddyn gyda 89 o rain (0.11%) o ganlyniad i gamgymeriadau gan Gyflogau eu hunain, 145 o ganlyniad i wybodaeth hwyr (0.18%), a 46 yn deillio o wybodaeth anghywir (0.06%)

Gwaith statudol o gysoni diwedd flwyddyn, i bwrpasu adrodd i'r swyddfa dreth incwm, wedi ei gwblhau 16eg Ebrill (dyddiad terfynol er mwyn adrodd yn 22ain o'r mis).



Yn ôl i'r dashfwrdd

# Gwasanaeth Yswiriant a Rheoli Risg

## Rheolwr Gwasanaeth – Gwyn Varney

**Pwrpas gwasanaeth:** Cefnogi adrannau'r Cyngor wrth iddynt asesu'r bygythiadau a chyfleon all eu hwynebu wrth ddarparu eu gwasanaethau a blaenoriaethu eu gweithgareddau ar sail yr asesiad. Amddiffyn buddiannau trethdalwyr drwy sicrhau trefniadau yswiriant priodol ac ymdrin â hawliadau.


### Trosolwg o berfformiad:

Fel mae'r achos wedi bod ers peth amser bellach mae materion yn parhau i fod yn heriol iawn. Mae rhai o'r prif heriau diweddaraf yn cynnwys:

- Cymhlethdod hawliadau yn parhau i gynyddu. Hyn yn golygu rhagor o waith, amser a sylw ei angen gan yr Uned Yswiriant er mwyn gallu gwneud penderfyniad dilys ar atebolrwydd. Enghreifftiau i hyn yn cynnwys hawliadau llifogydd / dŵr, adfer o golled dŵr yn ysgol Cae Top, adroddiadau atgyweirio / gwaith cynnal a chadw Priffyrdd
- Yr hyn sydd ei angen fel gwybodaeth gan ein broceriaid ac ein hyswirwyr wedi cynyddu, sy'n golygu rhagor o waith tyrchu a holi gan yr Uned Yswiriant
- Datblygaeth yn yr hyn mae'r Cyngor yn ei wneud yn golygu heriau pellach a parhaus i'r gwasanaeth yma o ran adrodd a sicrhau bod mesurau pellach mewn lle - e.e. yswiriant cynnwys safle Cefnffyrdd, Ysgol Newydd Bontnewydd
- Fwy o herio penderfyniadau atebolrwydd sydd yn golygu fwy o sylw i hawliadau heb fod yn rhai newydd

Er gwaethaf yr heriau yma, mae modd cyfeirio at ambell lwyddiant, megis:

- Gallu gweithredu a gwneud penderfyniadau ar atebolrwydd yn sydyn iawn unwaith mae gwybodaeth ddigonol i alluogi hyn ddigwydd wedi cyrraedd yr Uned
- Parhau i gynnal perthnasau gwaith cryf
- Ymdrin â sawl achos heriol ac anodd yn broffesiynol a phriodol



Yn ôl i'r dashfwrdd

# Gwasanaeth Incwm

## Rheolwr Gwasanaeth – Stephen Williams

**Pwrpas gwasanaeth:** Prosesu incwm amrywiol a chasglu dyledion y Cyngor yn brydlon ac effeithlon er mwyn uchafu incwm, wrth ystyried anghenion yr adrannau a gweithredu'n sensitif i amgylchiadau ariannol dyledwyr.

### Trosolwg o berfformiad:

Perfformiad casglu'r Uned Incwm fel ar ddiwedd mis Mawrth 2026  
Gwerth dyledion amrywiol > 6 mis oed.

Mae'r cyfanswm wedi gostwng ers y cyfarfod adrodd perfformiad blaenorol yn Rhagfyr 2025. Mae'r balans fel ar ddiwedd Mawrth 2026 yn £1,927,815 sef gostyngiad o £197,507. Yn ôl yr arfer y ddau gategori uchaf o ddyledion yw anfonebau'r Bwrdd Iechyd sef cyfanswm o £327K ac anfonebau a godwyd ar unigolion am eu gofal sef £1,022K. Os yn eithrio dyledion y Bwrdd Iechyd mae'r cyfanswm yn gostwng i £1,600,974.

Yn ôl yr arfer bwriedir targedu'r dyledion hynny sydd ddim yn perthyn i'r Bwrdd Iechyd i geisio lleihau'r dyledion.

Cyfradd casglu dyledion o fewn y mis.

Gweler y siart atodol ar gyfer y ffigyrau am 2025/2026.

Yn ystod 2025/2026 codwyd 40,897 o anfonebau gwerth £76,191,203 ac ar 27/04/2026 roedd 3,346 anfoneb gyda balans o £7,698,185 yn parhau yn daladwy sydd yn golygu fod £68,493,008 (89%) wedi eu clirio erbyn y 27/04/2026.


Mae'r adolygiad cynhwysfawr o sefyllfa'r hen ddyledion ynghyd â phrosesau gweithredu yr Uned yn parhau ac mae'r meysydd ble gellir awtomeiddio prosesau yn derbyn sylw gan yr Uned Technoleg Gwybodaeth. Cynhelir yr adolygiad ar y cyd gydag Ymgynghorydd Ffordd Gwynedd. Mae cynllun gweithredu wedi ei lunio ar gyfer yr Uned ac mae trefniadau ar droed i'w ddilyn.

Oherwydd y trafferthion sydd wedi eu hadrodd yn flaenorol gyda system taliadau "Call-Secure" mae uwchraddio i "Call Secure Plus-Voice Recognition" yn parhau o dan ystyriaeth a phan dderbynnir dyfynbris cymerir y penderfyniad ar ffordd ymlaen. Fel yr adroddwyd eisoes mae'r system wedi ei chyflwyno gan ei fod yn angenrheidiol i brosesau derbyn arian y Cyngor gydymffurfio a gofynion P.C.I.D.S.S. a'r newid mwyaf yw'r angen i'r cwsmer fewnbynnu manylion ei gerdyn i'w ffôn yn hytrach nag eu dyfynnu i'r aelod o staff ond yn anffodus mae'r drefn y tueddu i greu trafferth i rai dosbarthiadau o gwsmeriaid.

Yn ôl i'r  
dashfwrdd


# Gwasanaeth Incwm Rheolwr Gwasanaeth – Stephen Williams

Gwerth Dyledion Amrywiol > 6 mis Oed fel ar 31 Mawrth 2026



Yn ôl i'r  
dashfwrdd

# Cyfradd Casglu Mân Ddyledion o fewn y mis



Yn ôl i'r  
dashfwrdd

# Gwasanaeth Pensiynau

Rheolwr Gwasanaeth – Meirion Jones

**Pwrpas y gwasanaeth:** Gweinyddu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar ran dros 40 cyflogwr, gan gynnwys Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy er mwyn cyfrifo a thalu pensiynau yn brydlon a chywir.

Trosolwg o berfformiad:

Mesurau	Chwefror 2026	Mawrth 2026	Cyfartaledd 2024/25	Cyfartaledd 2025/26
Cyfartaledd nifer y ddyddiau gwaith a gymerwyd i anfon llythyr yn hysbysu gwerth buddion ymddeol - amcangyfrif.	1.2	0.9	0.88 (2618 achos)	1.1 (2502 achos)
Cyfartaledd nifer y ddyddiau gwaith a gymerwyd i anfon llythyr yn hysbysu gwerth buddion ymddeol - gwir werth.	0.4	0.7	0.74 (1001 achos)	0.8 (973 achos)
Cyfartaledd nifer o ddyddiau gwaith a gymerwyd i gyflawni cyfrifiadau a thaliadau dibynyddion yn dilyn marwolaeth aelod o'r cynllun.	6.3	5	4.02 (419 achos)	Dim ar gael*

## Fy Mhensiwn Ar-lein:

Mae'r system 'Fy Mhensiwn Ar-lein' yn parhau i fod yn boblogaidd iawn, gyda nifer fawr o aelodau yn ymweld â'r safle yn ddyddiol. Ers uwchraddio'r system yn Ebrill 2024 mae'n rhaid i bob aelod ail gofrestru ar gyfer y safle newydd. Gwelir o'r graff fod oddeutu 8,500 wedi cofrestru ar y system yn ystod y misoedd diwethaf. Rydym wedi cael adborth positif iawn i'r safle newydd, gydag aelodau yn mwynhau'r ychwanegiadau newydd i'r system e.e. datganiad fideo personol a chynllunydd ymddeol.





\*Mae'r ffordd o adrodd ar yr elfen yma o waith wedi newid yn ystod y flwyddyn, felly cymhariaeth gyda 2024/25 ddim yn bosib



## Arolwg Boddhad Aelodau:

Anfonir yr Arolwg Boddhad Aelodau ar ddiwedd pob proses - e.e. ymddeoliadau a thaliadau ad-daliadau - er mwyn casglu barn aelodau ar ansawdd y gwasanaeth. Mae'r arolwg yn gofyn a oedd yr amser prosesu'n dderbyniol, a oedd yr wybodaeth yn glir ac yn hawdd ei deall, ac am eu profiad o ryngweithio â staff, e.e. a oeddent yn gwrtais, yn brydlon ac yn wybodus. Dyma grynodedb o ganlyniadau 2025/26 (89 wedi ymateb):



Yn ôl i'r dashfwrdd

# Gwasanaeth Buddsoddi a Rheolaeth Trysorlys

## Rheolwr Gwasanaeth – Delyth Wyn Jones-Thomas

- **Pwrpas y gwasanaeth:** Uchafu budd o fuddsoddi'r Gronfa Bensiwn, a chadw cyfrifon priodol; Buddsoddi llif arian y Cyngor yn ddiogel, gyda llog derbynol; Rheoli benthyciadau hirdymor.
- **Trosolwg o berfformiad:**


Cronfa Bensiwn Gwynedd - Mae newidiadau ar y gweill i drefniadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Cymru a Lloegr, ac mae Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi bod yn cydweithio gyda Phartneriaeth Pensiwn Cymru dros y flwyddyn er mwyn cyfarch y datblygiadau yma. Mae oedi wedi bod yn ffurfioli'r ddeddfwriaeth gan y Llywodraeth ac felly mae'r dyddiad ffurfiol o lawnsio a symud i'r cwmni buddsoddi newydd wedi llithro.

Yn ystod y flwyddyn mae'r Gronfa wedi cytuno ar ddyraniad asedau strategol hirdymor newydd, gan sefydlu dyraniad newydd i gyfalaf naturiol a giltiau. Lleihaodd y Gronfa ei sefyllfa dros bwysau i ecwiti rhestredig, gan ail-fuddsoddi enillion mewn asedau diogelu. Cwblhaodd y Gronfa newid rhwng dyraniad ecwiti olrhain mynegai Carbon Isel BlackRock i ddatrysiad newydd sy'n ystyried effaith hinsawdd.

### Perfformiad Chwarterol (hyd at 31 Rhagfyr 2025)

Dychwelodd y Gronfa 2.5% dros y chwarter, gan berfformio'n hafal i'r meincnod. Cynyddodd cyfanswm yr asedau a ddangosir yn yr adroddiad hwn tua £120m i tua £3.621bn gyda pherfformiad positif gan asedau byd-eang rhestredig dros y chwarter.

Gwelodd y Gronfa enillion cadarnhaol dros flwyddyn ac er bod yr enillion absoliwt a ddarparwyd yn gryf, methodd y gronfa gyflawni ei feincnod o 0.2%. Mae'r meincnod a osodir yn heriol, ond roedd perfformiad Cronfa Bensiwn Gwynedd yn well na'r cyfartaledd yn ystod y flwyddyn. Nid yw tanberfformiad yn erbyn y meincnod yn destun pryder gan bod y Gronfa yn fuddsoddwyr hirdymor.



Rheolaeth Trysorlys y Cyngor – Mae nifer o ddangosyddion yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac mae perfformiad y flwyddyn i 31ain o Fawrth 2026 isod:

Dangosydd	wedi cydymffurfio
Meincnod Ymrwymadau	✓
Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau	✓
Datguddiad Hylifedd	✓
Datguddiad Diogelwch	✓
Cyfradd Llog cyfartalog	4.15%

Yn ôl i'r dashfwrdd

# Gwasanaeth Archwilio Mewnol

Rheolwr Gwasanaeth – Luned F Jones

**Pwrpas gwasanaeth:** Rhoi hyder i'r dinesydd a'r Cyngor am amgylchedd reolaeth a threfniadau llywodraethu'r Cyngor trwy adrodd yn annibynnol a gwrthrychol i'r Pennaeth Cyllid a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Mae Archwilio Mewnol yn cryfhau gallu'r sefydliad i greu, amddiffyn, gwarchod a chynnal gwerth drwy ddarparu sicrwydd gwrthrychol, annibynnol yn seiliedig ar risg, cyngor, mewnwelediad a rhagwelediad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

**Trosolwg o berfformiad:**

Roedd 49 darn o waith wedi eu cynnwys yng nghynllun archwilio 2025/26. Mae 43 o'r aseiniadau hyn wedi eu cwblhau erbyn 31 Mawrth 2026, sy'n cynrychioli 88% o'r cynllun. At bwrpasau'r mesur yma caiff aseiniad ei gyfrif wedi ei gwblhau os oes adroddiad drafft neu derfynol neu femorandwm terfynol wedi ei ryddhau neu os yw'r aseiniad wedi ei gau a ni ddisgwylir treulio mwy o amser arno. Uchelgais y perfformiad oedd 95%.

Mae diffinio, mesur a chyfathrebu gwerth ychwanegol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn her ganolog i'r proffesiwn ac i'w randdeiliaid. Mae hyn yn allweddol oherwydd ni ellir priodoli'n gyfan gwbl gwerth Archwilio Mewnol drwy nifer yr archwiliadau a gynhaliwyd, nifer camau gweithredu ayb. Mae'n hanfodol bwysig edrych ar y llun yn gyflawn, drwy ystyried yr amrywiol wasanaethau a ddarperir gan Archwilio Mewnol megis gwaith ymgynghorol, darparu cyngor a chynnal archwiliadau arbennig.

Yn ôl i'r dashfwrdd

# Gwasanaeth Trethi


Rheolwr Gwasanaeth – E Bleddyn Jones

**Pwrpas gwasanaeth:** Casglu trethi yn brydlon ac effeithlon, gan geisio bod yn hyblyg a chydymdeimladol i amgylchiadau unigolion.

**Trosolwg o berfformiad:**

Roedd cynnydd bychan yn ein cyfraddau casglu ar gyfer 2025/26 gyda 93.10% o'r trethi wedi eu casglu o fewn y flwyddyn, o'i gymharu â 92.90% yn 2024/25 a 96.78% yn 2019/20. Dadansoddwyd y gyfradd casglu ar gyfer 2025/26 ymhellach, sef i gyfrifon trethi gyda phremiwm ail gartrefi (87.09%), cyfrifon trethi gyda phremiwm eiddo gwag (80.38%) a chyfrifon trethi heb bremiwm (95.36%) a gwelir o'r ffigyrau yma bod y premiwm yn rhoi pwysau ychwanegol ar y gwasanaeth ac yn effeithio ar y cyfraddau casglu. Roeddem yn parhau gyda'r gyfradd casglu isaf yng Nghymru yn 2025/26 ond mae ymdrech i ddatrys hyn drwy fabwysiadau technoleg gyda thri chynllun ar y gweill dros y 6 mis nesaf i awtomeiddio 80% o wasanaethau'r Adran. Y cytundeb fwyaf yw gyda chwmni Govtech sydd yn darparu ffurflenni ar-lein fydd yn bwydo'r wybodaeth ymlaen i systemau'r Adran o fewn llai na 48awr. Fydd hyn yn rhyddhau staff i ddelio gyda'r 20% o waith sydd angen 'mwy' o sylw ac i fynd ar y droed flaen yn casglu ôl ddyledion a chynnig cymorth ac arweiniad i drethdalwyr. Yr ail ddarpariaeth fydd teclyn proffilio gallu trethdalwr i dalu, gan Ascendent Solutions, a'r olaf, dull cyfathrebu drwy neges destun ac e-bost Telsolutions a fydd yn ein galluogi i gysylltu yn fwy effeithiol ac amserol gyda chwsmeriaid.

Rydym yn falch iawn o adrodd erbyn hyn fod e-byst a gohebiaeth dan reolaeth. Yn ystod y cyfnod bilio roedd 1,200 e-bost yn aros am sylw ond niferoedd yn gostwng yn wythnosol (800 ar hyn o bryd) tra bod oed yr e-bost hynaf dan 14 niwrnod oed (mae niferoedd uchel i'w disgwyl ar ddiwedd / cychwyn blwyddyn ariannol). Gyda galwadau ffôn mae'r sefyllfa wedi bod yn fwy heriol gyda nifer fawr o drethdalwyr yn ceisio dod drwodd ar un amser i drafod ei bil newydd.



Yn ôl i'r dashfwrdd


# Gwasanaeth Trethi

## Ardrethi Annomestig

Erbyn diwedd Mawrth 2026 roedd casgliad Ardrethi Annomestig (h.y. casgliad o fewn blwyddyn) yn 93.76% o'i gymharu â 90% ar gyfer 2024/25. Mae hyn yn galonogol iawn o ran cynnydd ond dal yn fyr o'r targed o 97% a osodwyd yn 2019/20. Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud yn ystod 2026/27 i gynyddu ein cyfraddau casglu gan gynnwys trosglwyddo achosion unigol i'r asiantaeth casglu.

Mae eleni yn flwyddyn ail-brisio gyda rhestr newydd, hefyd mae nifer o newidiadau yn y modd mae bil yn cael ei gyfrifo; 3 lluosydd, rhyddhad trosiannol a chwtogi ar ryddhad i unedau 'darparu bwyd a diod' yn unig ar raddfa is o 15% (40% flwyddyn ddiwethaf). Mae prosiect Govtech hefyd yn ymestyn i Drethi Annomestig, ble fydd opsiwn i drethdalwyr ddarparu manylion mewn ffurf benodedig, fe fydd hyn yn hwyluso prosesu ceisiadau am wasanaethau o ganlyniad yr amser aros.

Ardaloedd Gwella Busnes - Cynllun Bangor wedi dod i ben. HWB Caernarfon wedi pleidleisio i gael 3ydd tymor, o ganlyniad, 410 bil wedi ei gyrru allan i 'drethdalwyr'. Cefais wahoddiad i roi cyflwyniad i'r Bwrdd a masnachwyr am waith Y Cyngor 29/04.



Yn ôl i'r dashfwrdd

# Gwasanaeth Cyllid a Chyfrifeg

- **Pennaeth Cyllid Cynorthwyol – Ffion Madog Evans**
- **Pwrpas y gwasanaeth:** Darparu gwasanaeth cyllid a chyfrifeg, a chynorthwyo a chefnogi gwasanaethau i fod yn effeithiol ac yn effeithlon.
- **Trosolwg o Berfformiad:**
- Y gwaith manwl o gau cyfrifon yr adrannau ar ddiwedd y flwyddyn 2025/26 wedi digwydd ac adroddiadau wedi eu cwblhau ar y sefyllfa diwedd y flwyddyn gyda'r adroddiadau ar yr ochr refeniw a chyfalaf i'w cyflwyno i'r Cabinet 19/05/26 ac yna i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 21/05/26. Y gwaith manwl o gwblhau'r gwaith ar Ddatganiadau o'r Cyfrifon sydd i gydymffurfio efo'r holl ofynion technegol wrthi'n cael eu cwblhau gan y Cyfrifwyr.
- Wrth gau'r cyfrifon gwnaethpwyd adolygiad manwl o gronfeydd y Cyngor fel bod y gwaith o gynaeafu cronfeydd yn cael ei gwblhau.
- Cyfarfodydd cychwynnol rheolaidd efo Archwilio Cymru i drafod archwiliad o gyfrifon 2025/26 eisoes yn digwydd.
- Y gyllideb ar gyfer 2026/27 wedi ei chwblhau a'i gymeradwyo gan y Cyngor llawn 5/3/2026. Llyfrau Cyllideb yr Aelodau a'r Swyddogion wedi eu cwblhau a'u cylchredeg yn amserol.
- Wedi adrodd ar y rhagolygon ariannol yn ystod y flwyddyn ar yr ochr refeniw, arbedion a chyfalaf i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac i'r Cabinet yn Nhachwedd 2025 ac yn Ionawr 2026.
- Llwyddwyd i gwblhau Cyfrifon terfynol yn dilyn archwiliad 2024/25 yn amserol gyda barn ddiamod ar gyfer cyfrifon Gwynedd, GwE a'r Harbyrau. Bu i Archwilydd Cyffredinol Cymru arwyddo ein cyfrifon yn Nhachwedd 2025.

[Yn ôl i'r dashfwrdd](#)


# Gwasanaeth Taliadau

Pennaeth Cyllid Cynorthwyol – Ffion M Evans; Rheolwr Gwasanaeth – Rhodri Shorney

**Pwrpas gwasanaeth:** Talu credydwy'r Cyngor yn gywir ac yn amserol.

**Trosolwg o Berfformiad:**

- Yn 2025/26, proseswyd anfonebau lleol i'w talu mewn 23.9 diwrnod ar gyfartaledd, tra bod yr anfonebau nad ydynt yn lleol wedi cymryd 25.4 diwrnod, o fewn y dyddiau yma, yr Uned Taliadau wedi cymryd 3.8 diwrnod i brosesu'r anfonebau, sydd yn welliant o'r 6.5 diwrnod ar gyfartaledd yn 23/24 a chynt. Mae'r Uned Taliadau yn cynnwys 7 aelod o staff.
- 85% o anfonebau lleol wedi eu talu o fewn 30 diwrnod, gyda'r gyfradd ar gyfer talu'r anfonebau nad ydynt yn lleol yn 81%.
- Ers mis Tachwedd 2025, mae 100% o daliadau wedi eu talu trwy BACS. Yr ymgyrch i symud mwy i BACS wedi ei gwblhau ac yn golygu ein bod wedi gallu symud i ffwrdd yn llwyr o dalu efo sieciau.
- Gwaith wedi bod yn digwydd dros y misoedd diwethaf i geisio moderneiddio a gwella effeithlonrwydd a hybu mwy o adrannau i yrru gwybodaeth yn electroneg er mwyn lleihau dyblygiad, fydd yn ei dro yn golygu y bydd modd prosesu'r anfonebau penodol hynny yn gynt.
- Fel rhan o'n cyfraniad tuag at brosiect blaenoriaeth Cynllun y Cyngor Gwynedd Lewyrchus, rydym bellach yn monitro ein perfformiad fesul telerau talu pob cwmni. Ers cychwyn cofnodi'r ffigur yma, talwyd 78% o'n hanfonebau o fewn telerau talu safonol y diwydiant, sef 7, 14 neu 28 diwrnod. Disgwylir i'r ffigur yma wella dros amser.



Yn ôl i'r dashfwrdd

# **Adroddiad Perfformiad Mesurau Adran Gyllid (Gwasanaethau Digidol)**

## **Cyfnod:**

- **Blwyddyn Ariannol 2025/26**

Hyfforddiant Mandadol

Staff wedi cwblhau'r  
hyfforddiant Diogelu (Adran)

100%

Hyfforddiant Mandadol

Staff wedi cwblhau'r  
hyfforddiant Cam-drin  
Domestig (Adran)

99.3%

TG (i gyd) 2025/26

Nifer ceisiadau wedi cofnodi  
gan TG

15189

TG (i gyd) 2025/26

Nifer o alwadau wedi ei  
ddiwallu

15136

TG (i gyd) 2025/26

Nifer o alwadau wedi ei  
ddiwallu oddi fewn **Wythnos**

84%

TG (i gyd) 2025/26

Nifer o alwadau wedi ei ddiwallu  
oddi fewn **1 diwrnod**

64%

Desg Gwasanaeth 2025/26

Galwadau wedi ei ddiwallu oddi  
fewn 1 diwrnod

73%

TG (i gyd) 2025/26

Bodlonrwydd: Canran hapus  
neu hapus iawn. *Awgrymu  
holiadur i POB defnyddiwr TG.*

100%

TG (Isadeiledd)

Nifer digwyddiadau seibr  
(Ebrill'25-Mawrth'26)

1

TG (Isadeiledd)

Nifer toriad gwasanaeth difrifol  
(Ebrill'25-Mawrth'26)

1

TG (Isadeiledd)

Argaeledd Rhwydwaith Craidd  
(Ebrill'25-Mawrth'26)

100%

TG (Datblygu)

Nifer datganwyd bodlonrwydd

100%

TG (Datblygu)

Galwadau o fethiant (gwiriadau)  
(Ebrill 2025-Mawrth 2026)

10%

TG (Gwasanaeth Dysgu Digidol)


Bodlonrwydd  
Gwasanaeth



# Hyfforddiant Mandadol (Adran gyfan)

## Trosolwg o berfformiad:

Ar sail y data ddiweddaraf, mae pob aelod o staff y gwasanaethau digidol wedi cwblhau'r hyfforddiant Diogelu a'r hyfforddiant Cam-drin Domestig.



Yn ôl i'r  
dashfwrdd

# Gwasanaeth TG – Cefnogol – Rheolwr Gwasanaeth – Bryn Goodman Jones






Yn ôl i'r dashfwrdd

**Pwrpas gwasanaeth:** Cydweithio a'n cwsmeriaid i gynnig, datblygu ac esblygu datrysiadau mewn ymateb i anghenion busnes.

Trosolwg o Berfformiad: 2025-2026

## Galwadau Ffôn i'r Ddesg Gymorth. (Medi i Ebrill yn unig)

- Galwadau ffon wedi ei dderbyn: **8781**
  - Canran wedi eu ateb: **87 %**
- ### Ceisiadau am gymorth Technegol
- Cyfanswm ceisiadau TG wedi cofnodi: **15189**
  - Cyfanswm ceisiadau TG ar e-byst: **8527 (56%)**
  - Cyfanswm ceisiadau TG agor a cau yn y cyfnod: **14406**
  - Ceisiadau wedi cwblhau (TG i gyd): 15136**
    - Wedi ei gwblhau oddi fewn **1 wythnos: 12700 (84%)**
    - O'r uchod wedi ei gwblhau mewn **24 awr: 9615 (64%)**
  - Ceisiadau wedi cwblhau (Desg Gymorth yn unig) 8934**
    - Wedi ei gwblhau oddi fewn **1 wythnos: 8238 (92%)**
    - O'r uchod wedi ei gwblhau mewn **24 awr: 6559 (73%)**
  - Newidiadau Technegol**
    - Newidiadau technegol isadeiledd wedi eu greu: **734**
    - Newidiadau technegol isadeiledd wedi cwblhau: **708**



## Adolygiad y flwyddyn -

Llawer iawn o newidiadau, diweddariadau a systemau newydd wedi eu cyflwyno.

Gwaith i uwchraddio POB ddyfais Windows y Cyngor i fersiwn Windows 11 cyn Hydref wedi ei gwblhau'n llwyddianus ac ar amser. Sicrhau diogelwch systemau digidol y Cyngor. Y gwaith yn cynnwys adnewyddu bron i 600 gliniadur/PC a diweddaru 2000 o bell heb orfod i staff ddychwelyd y cyfarpar i swyddfeydd y Cyngor.

Cynnig meddalwedd CoPilot chat i holl weithwyr y Cyngor. Hyn yn cynnig ffurf diogel o ddefnyddio DA er mwyn hwyluso gwaith a ymdrech staff i gwblhau tasgau.

Ymestyn defnydd Teams Rooms i hwyluso cyfarfodydd rhithiol mewnol ac allanol. Hwyluso cyfarfodydd o bell ac yn arbed amser swyddogion.

Cyflwyno fwy o apiau amgylchedd 365 yn ddiogel – hyn yn waith byddwn yn ehangu l'r flwyddyn 26-27

Gwaith cyson i dynhau diogelwch ein isadeiledd

Cynnig fwy o ffyrdd i staff gysylltu a systemau'r Cyngor yn ddiogel

# Gwasanaeth TG - Isadeiledd

Rheolwr Gwasanaeth – Gwyn Jones

**Pwrpas gwasanaeth:** Datblygu a chefnogi isadeiledd y Cyngor i ddarparu llwyfan gwydn a diogel i gynnal gwasanaethau technoleg gwybodaeth y Cyngor.


**Trosolwg o Berfformiad:**

## Ystadegau'r cyfnod

Ystadegau cofnodir drwy'r Ddesg Gymorth. Wrth i alwad gael ei gau, mae pob defnyddiwr sydd wedi logio'r alwad yna yn cael y cynnig i adael adborth.

Mae Newidiadau (cymhleth) yn gofnod mewnol o newidiadau gall effeithio system/gweinyddwr/rhwydwaith, ac felly sawl defnyddiwr. Rhan amlaf, cofnod gan ein defnyddwyr mewnol yw rhain a ddim yn cynnwys adborth.

Galwadau a Newidiadau		Diogelwch (SOC / E-bost / AV)	
Cyfanswm galwadau wedi'u logio	3,668	Ymosodiadau wal dân wedi eu blocio (cyfanswm)	888,902
Cyfanswm galwadau wedi'u cau	3,615	E-byst gelyniaethus wedi eu blocio (cyfanswm)	1,056,167
Galwadau yn agored ar ddiwedd y cyfnod	107	Rhybuddion gwrth-firws (cyfanswm)	344
Nifer adborth	82	Digwyddiadau SOC (cyfanswm)	42
Cyfarledd adborth	5.0	Digwyddiad Seibr	1
Cyfanswm newidiadau wedi'u logio	799		
Cyfanswm newidiadau wedi'u cau	792		
Newidiadau yn parhau ar ddiwedd y cyfnod	33		



## I'w nodi

- Cwblhau trosglwyddo'r system ffôn i wasanaeth newydd. 3 Canolfan Cyswllt/1719 ffôn meddal/1539 ffôn desg nawr yn fyw. (CC2)
- Llinellau ffôn analog i digidol. Wedi mudo rhai rhifau i'r system ffôn, a throsglwyddo peiriannau talu i'r rhwydwaith. Nifer fawr wedi eu canslo heb ddefnydd, neu bellach heb eu angen.
  - 98 llinell ar ôl i adrannau adnabod (allan o 493) oddeutu £190k arbedion (tua £40 y mis yr un) (GWYD1)
- Gosod system rheoli cyfeiriadau IP newydd. Gwella'r rheolaeth a diogelwch o systemau mewnol. (GWYD2)
- Cryfhau gwytnwch trydanol yng Nghanolfan Ddata Caernarfon (GWYD2)
- Mudo gweinyddwyr Ysgolion Uwchradd. Adeiladu llwyfan i fudo gweinyddwyr rhithiol ysgolion uwchradd sydd yn parhau i gael eu defnyddio i'r ganolfan ddata, arbed costau adnewyddu sylweddol ar galedwedd yn yr ysgolion, a chanoli rheolaeth systemau.
- Digwyddiad Seibr – Mai 2025
- Problem Rhwydwaith Tachwedd 2025

Yn ôl i'r dashfwrdd

# Gwasanaeth TG - Datblygu

Rheolwyr Gwasanaeth – Elfyn Evans, Rhodri Fretwell (Ebrill 2025 – Mawrth 2026)

**Pwrpas gwasanaeth:** Cydweithio â'n cwsmeriaid i gynnig, datblygu ac esblygu datrysiadau mewn ymateb i anghenion busnes.

**Datblygu** - prosiectau sydd yn galluogi gwasanaethau'r Cyngor i weithredu yn fwy effeithiol ac effeithlon, yn ogystal â rhoi budd uniongyrchol i bobol Gwynedd.

Cwblhawyd	Derbyniwyd	Ar waith	Aros am sylw
26	37	42	35

**Adborth bodlonrwydd** - Drwy adlewyrchu ar brosiectau a gwrando ar yr adborth gan ein cwsmeriaid, rydym yn parhau i ddysgu a gwella.

*'A oeddech yn hapus gyda'r cynigion, datrysiad ar gwasanaeth yn gyffredinol a dderbyniwyd gan yr uned datblygu?'*

Hapus	Hapus ond lle i wella	Dim yn hapus
15	0	0


**Cyfleoedd i wella - Dim i'w nodi yn y cyfnod yma**

**Cynnal a chadw** – ymateb i alwadau am gymorth gan ein cwsmeriaid / cynnal a chadw ein systemau

- **Galwadau o werth (90%):** gwelliannau i systemau, yn ogystal â rhoi cymorth technegol / arbenigol i ddefnyddwyr.
- **Galwadau o fethiant (10%):** cwsmeriaid yn cael trafferthion cyflawni yr hyn maent angen ei wneud neu adrodd diffygion mewn system.
- **69 o'r galwadau a gwblhawyd wedi derbyn adborth 5\***
- **1,366 ceisiadau ir Ddesg Gymorth yn ystod cyfnod 2025/26**

## Prosiectau o ddiddordeb

- Sefydlu systemau Cynllun Datblygu Unigol
- Sefydlu system Asedau Fflyd i Conwy. Awdudorau erill wedi dangos diddordeb
- Arain o gronfa Ffyniant Gyffredin i sefydlu synhwyrddion e.e. gofal cartref, monitro digwyddiadau "Vapio" mewn ysgolion
- Deallusrwydd artiffisial - Ymholiadau Cyffredinol / Chwilio ar y wefan
- Datblygiadau gweithio'n symudol



# Gwasanaeth TG – Gwasanaeth Dysgu Digidol


Rheolwr Gwasanaeth: Gwenan Pritchard

Pwrpas: Arwain, cefnogi a chydweithio â'n ysgolion i gynnal addysgu digidol o'r ansawdd uchaf a sicrhau'r cyfleon gorau i ddisgyblion Gwynedd.

Galwadau

	Ebr-25	Mai-25	Meh-25	Gorff-25	Awst-25	Medi-25	Hyd-25	Tach-25	Rhag-25	Ion-26	Chwef-26	Maw-26
Logio	314	420	646	460	126	1091	719	578	305	563	537	571
Datrys	436	396	551	405	81	852	743	736	281	490	493	627

Galwadau GDD 2025/26



- Prosiectau
- Gosod System MIS (Rheoli Gwybodaeth Ysgolion) newydd
- Mudo i fersiwn newydd o feddalwedd rheoli dyfeisiadau o bell
- Peirianu trefn ddiogel ar gyfer arholiadau digidol
- Peirianu system rheoli MacOS
- Symud oddi wrth systemau hanesyddol
- Gwaredu dyfeisiadau allan o gefnogaeth / diwedd oes
- Datblygu a gwella cynnig argraffu canolog i ysgolion
- Cyfarfodydd rheolaidd a chydweithio agos gyda swyddogion Diogelu yr Adran Addysg
- Cydlynu uwchraddio system cinio ysgolion
- Datblygu system newydd rheoli asedau

Dyfeisiadau mae'r GDD yn gefnogi	
Windows Athrawon	1929
Windows Disgyblion	6511
Chromebooks	6818
iPads	3003

Yn ôl i'r dashfwrdd

# Eitem 5

<b>CYFARFOD</b>	PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI
<b>DYDDIAD</b>	14 Gorffennaf 2026
<b>TEITL</b>	Adroddiad Ymchwiliad Craffu Trefniadau Diogelu mewn Ysgolion
<b>AELODAU'R YMCHWILIAD</b>	Cynghorwyr:  Cai Larsen (Cadeirydd) Dawn Lynne Jones Gwynfor Owen Richard Glyn Roberts  Aelod Cyfetholedig:  Sharon Roberts (Cynrychiolydd Rhieni/Llywodraethwyr Arfon)
<b>SWYDDOG ARWEINIOL YR YMCHWILIAD</b>	Bethan Adams, Ymgynghorydd Craffu
<b>AELOD CABINET</b>	Cynghorydd Dewi Jones, Aelod Cabinet Addysg

1. Sefydlwyd yr Ymchwiliad Craffu ar 13 Chwefror 2025 a chyflwynir yr Adroddiad Terfynol drafft i sylw'r Aelodau.
2. Gofynnir i Aelodau'r Pwyllgor Craffu i ystyried cynnwys yr Adroddiad ac i wneud sylwadau, a gofyn unrhyw gwestiynau perthnasol gan gynnig unrhyw welliannau a chymeradwyo'r Adroddiad.
3. Gofynnir i'r Aelod Cabinet Addysg am ei ymateb i'r prif ganfyddiadau a'r argymhellion, gan gadarnhau os yw'n derbyn yr argymhellion mewn egwyddor ac y bydd yn cyfleu'r argymhellion sydd yn benodol ar gyfer ysgolion a Llywodraeth Cymru er eu sylw.
4. Pe cymeradwyir adroddiad yr ymchwiliad, bydd angen dod i benderfyniad ar pryd i dderbyn diweddariad gan yr Aelod Cabinet Addysg ar weithrediad fesul argymhelliad.
5. Mae Cadeirydd yr ymchwiliad wedi derbyn gwahoddiad i gyfarfod y Bwrdd Cynllun Ymateb ar 15 Gorffennaf 2026, er mwyn adrodd ar y drafodaeth yn y cyfarfod hwn a phenderfyniad y Pwyllgor. Bydd Swyddog Arweiniol yr ymchwiliad craffu hefyd yn mynychu'r cyfarfod.

# Adroddiad Ymchwiliad Craffu Trefniadau Diogelu mewn Ysgolion

## Aelodau'r Ymchwiliad

Y Cynghorwyr:

Cai Larsen (Cadeirydd)

Dawn Lynne Jones

Gwynfor Owen

Richard Glyn Roberts

Aelod Cyfetholedig:

Sharon Roberts (Cynrychiolydd Rhieni/Llywodraethwyr Arfon)

## Swyddogion

Bethan Adams (Swyddog Arweiniol)

Vera Jones (Swyddog Cefnogol)

Dylan Owen (Cyfarwyddwr Cefnogol)

## Ymgynghorydd Allanol

E. D. Gareth Morgans

Dyddiad: Gorffennaf 2026



# CYNNWYS

<b>Rhagair y Cadeirydd</b>	<b>3</b>
<b>1. Argymhellion</b>	<b>4</b>
<b>2. Cyflwyniad</b>	<b>7</b>
<b>3. Cefndir</b>	<b>8</b>
<b>4. Cyfarfodydd</b>	<b>9</b>
<b>5. Ymweliadau i'r ysgolion</b>	<b>14</b>
<b>6. Llais Disgyblion</b>	<b>23</b>
<b>7. Y dystiolaeth a ystyriwyd</b>	<b>26</b>
<b>8. Argymhellion a Rhesymeg</b>	<b>27</b>
<b>9. Casgliad</b>	<b>41</b>
<b>Cydnabyddiaeth</b>	<b>42</b>
<b>Atodiadau:</b>	<b>43</b>
<b>Atodiad 1</b>	Brîff yr Ymchwiliad Craffu
<b>Atodiad 2</b>	Rolau/Cyfrifoldebau Diogelu mewn Ysgolion
<b>Atodiad 3</b>	Templed Cyd-destun Ysgolion
<b>Atodiad 4</b>	Cwestiynau cyn ymweliad
<b>Atodiad 5</b>	Cwestiynau a ofynnwyd yn yr ymweliadau
<b>Atodiad 6</b>	Rhestr Wirio - Amgylchedd a Diwylliant Diogelu Ysgolion
<b>Atodiad 7</b>	Cyflwyniad Gwaith Llais Disgyblion

# RHAGAIR Y CADEIRYDD

Mae diogelu plant a phobl ifanc ymysg cyfrifoldebau pwysicaf ysgolion, awdurdodau lleol a chymunedau. Nid mater o gydymffurfio â pholisïau yn unig sy'n sicrhau cyfundrefn diogelu effeithiol, ond ymrwymiad i greu diwylliant lle mae pob plentyn yn teimlo'n ddiogel, yn cael ei wrando arno ac yn gwybod at bwy i droi pan fo angen cymorth. Er mor bwysig yw polisïau, gweithdrefnau a hyfforddiant, diwylliant agored lle mae pobl yn teimlo'n hyderus i godi pryderon, lle mae arweinwyr yn gwrandao ac yn gweithredu, a lle mae gwersi'n cael eu dysgu'n barhaus, yw'r hyn sy'n sicrhau bod y trefniadau hynny'n gweithio'n effeithiol.

Cynhaliwyd yr ymchwiliad hwn mewn ysbryd adeiladol, gyda'r bwriad o ddeall sut mae trefniadau diogelu yn gweithredu yn ymarferol yng Ngwynedd ac i adnabod cyfleoedd i'w cryfhau. Drwy gydol y gwaith, cawsom dystiolaeth gan swyddogion, arbenigwyr, penaethiaid, staff, llywodraethwyr ac, yn bwysicaf oll cafwyd mewnbwn gan blant a phobl ifanc sy'n mynychu ein hysgolion.

Roedd llawer o'r hyn a welsom yn galonogol. Gwelsom ysgolion lle mae lles a diogelwch disgyblion wrth galon y gwaith dyddiol, gyda staff ymroddedig a llywodraethwyr cydwybodol yn gweithio'n ddiflino i greu amgylcheddau diogel a chefnogol. Mae hynny'n haeddu cael ei gydnabod a'i ganmol.

Ar yr un pryd, dangosodd yr ymchwiliad fod cyfleoedd i gryfhau trefniadau ymhellach. Mae'r argymhellion yn yr adroddiad yn canolbwyntio ar feysydd megis hyfforddiant, rhannu gwybodaeth, cefnogi llywodraethwyr, gwrandao ar lais disgyblion a sicrhau bod pryderon yn cael eu cofnodi a'u hystyried mewn modd sy'n galluogi adnabod patrymau risg cyn i niwed ddigwydd.

Rwy'n arbennig o falch bod llais plant a phobl ifanc wedi chwarae rhan bwysig yn y gwaith hwn. Mae eu safbwyntiau wedi ein hatgoffa mai ymddiriedaeth, oedolion hawdd mynd atynt a chyfathrebu clir yw sylfeini diogelu effeithiol.

Hoffwn ddiolch yn ddiffuant i'm cyd-aelodau ar yr ymchwiliad, i'r swyddogion a fu'n ein cefnogi, i'r ymgynghorydd allanol, i'r ysgolion a'r holl unigolion a gyfrannodd dystiolaeth ac amser i'r gwaith hwn. Heb eu cydweithrediad a'u parodrwydd i rannu eu profiadau, ni fyddai'r ymchwiliad wedi bod yn bosibl.

Gobeithiaf y bydd yr adroddiad yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gryfhau trefniadau diogelu yng Ngwynedd ac yn helpu sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn gallu dysgu a datblygu mewn amgylchedd lle maent yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu parchu ac yn cael eu clywed.

**Cynghorydd Cai Larsen,  
Cadeirydd yr Ymchwiliad**

# 1. Argymhellion

## Hyfforddiant Staff a Llywodraethwyr

1. Y dylid sicrhau fod hyfforddiant ar y lefel briodol yn cael ei gynnal yn flynyddol ar gyfer holl staff a llywodraethwyr a chynyddu'r nifer o staff mewn ysgolion sy'n cwblhau'r hyfforddiant lefel uwch.
2. Bod yr Adran Addysg yn addasu eu sleidiau hyfforddiant i gynnwys 1 sleid benodol ar ddechrau'r hyfforddiant sy'n cynnwys rhifau ffôn cyswllt a chyfeiriadau e-byst penodol fel y gall staff eu printio i'w cadw'n saff.
3. Dylai'r hyfforddiant diogelu fod hyd yn oed mwy clir, o ran y dylai staff gyfeirio unrhyw bryder at y Person Diogelu Dynodedig neu'r Dirprwy Person Diogelu Dynodedig yn syth, â pheidio ymchwilio na phenderfynu eu hunain a yw'r mater yn cyrraedd y trothwy. Dylid atgoffa staff o hyn yn barhaus.
4. Dylai'r Adran Addysg sicrhau fod pob corff Llywodraethu yn ymwybodol o'r camau penodol iddynt eu dilyn pan fo cynwys diogelu yn erbyn y Pennaeth a'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt, gan sicrhau cefnogaeth briodol a digonol i'r Llywodraethwyr mewn achosion o'r fath.

## Dealltwriaeth Disgyblion

5. Bod angen parhau i ddatblygu addysg ddiogelu sydd yn briodol i oedran a gallu sy'n adlewyrchu materion cyfoes sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc.
6. Dylai pob ysgol ffurfioli'r trefniadau o anfon holiadur yn rheolaidd at y disgyblion i'w holi a ydynt yn gwybod lle ac at bwy i droi mewn achos diogelu.
7. Dylai ysgolion gyfathrebu yn glir, ac mewn modd sydd yn briodol i oedran a gallu, gyda disgyblion ynghylch cyfrinachedd, prosesau diogelu, llwybrau atgyfeirio, cymorth dilynol a mynediad at wasanaethau llesiant arbenigol.

## **Cefnogaeth i ddisgyblion**

8. Dylai ysgolion barhau i fuddsoddi mewn mannau llesiant diogel y gall disgyblion eu defnyddio'n hyblyg a heb stigma, ochr yn ochr â chymorth bugeiliol gweladwy sy'n hyrwyddo llesiant emosiynol ac ymyrraeth gynnar.
9. Dylai ysgolion barhau i gryfhau dulliau diogelu sy'n seiliedig ar berthnasoedd, gan sicrhau bod pob disgybl yn cael mynediad at oedolion dibynadwy sy'n weladwy, yn hawdd mynd atynt ac yn ymatebol i'w hanghenion
10. Dylai ysgolion, lle mae'n briodol, barhau i gryfhau dulliau cymorth gan gyfoedion a darparu canllawiau cliriach ynghylch cyfrinachedd, ffiniau a phryd y mae angen cymorth gan oedolion cymwys.

## **Llais Disgyblion**

11. Dylai ysgolion gryfhau mecanweithiau gwranddo ar lais y disgybl wrth ddatblygu a monitro trefniadau diogelu drwy ddulliau megis cynghorau ysgol, grwpiau llesiant, arolygon disgyblion ac ymarferion ymgynghori rheolaidd.

## **Adolygu Trefniadau Diogelu**

12. Dylai ysgolion a'r Adran Addysg barhau i gynnal adolygiadau rheolaidd o drefniadau diogelu mewn ysgolion sy'n cynnwys lleisiau plant a phobl ifanc o bob oed a gallu.
13. Dylai ysgolion a'r Adran Addysg fonitro unrhyw batrymau risg a dysgu gwersi fel rhan o'r monitro diogelu rheolaidd. Dylid sicrhau fod y gwersi a ddysgir yn cael eu rhannu ar draws ysgolion a gwasanaethau perthnasol.

## **Rhannu Gwybodaeth, Cofnodi Materion Diogelu a Systemau**

14. Dylai pob ysgol yng Ngwynedd fod yn gweithredu ar y system cofnodi (Bromcom) sydd yn cael ei hariannu gan yr Adran Addysg i gofnodi materion diogelu am blentyn. Rhaid sicrhau fod y wybodaeth yn cael ei fwydo i'r system yn ddiodyn a bod gwybodaeth angenrheidiol yn cael ei rannu yn rhwydd ac amserol gyda swyddogion proffesiynol perthnasol (gan gynnwys Gwasanaethau Cymdeithasol).

15. Bod 1 ffurflen gwybodaeth electroneg graidd yn cael ei datblygu, sy'n tynnu gwybodaeth o'r holl systemau er mwyn rhannu gwybodaeth angenrheidiol rhwng ysgolion a hynny'n amserol.
16. Galw ar Lywodraeth Cymru i ariannu un system i holl ysgolion Cymru i sicrhau fod gwybodaeth am faterion diogelu yn trosglwyddo yn rhwydd gyda phlant a phobl ifanc wrth iddynt symud o ysgol i ysgol.
17. Galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu system ffurfiol i gofnodi a monitro patrymau o ymddygiad amheus, sydd ddim yn cyrraedd y trothwy cyfeirio, fel bod Gwasanaethau Cymdeithasol yn gallu ystyried addasrwydd unigolyn i weithio gyda phlant.

### **Cynyddu Dealltwriaeth Rhieni a'u cynnwys yn Nhrefniadau Diogelu**

18. Bod yr Adran Addysg yn datblygu trefn gyson ar sut y gall ysgolion egluro prosesau diogelu i rieni a sut i'w cynnwys yn y trefniadau diogelu.

### **Gwelededd Gwybodaeth Diogelu mewn ysgolion**

19. Bod pob ysgol yn addasu eu lanyards i staff, i gynnwys (ar y cefn) y wybodaeth angenrheidiol ar gyfer cysylltu gyda'r Tîm Derbyn a rhif ffôn y Person Diogelu Dynodedig fel ei fod yn hawdd i staff gael y rhifau ffôn perthnasol yn syth.
20. Bod pob ysgol yn llunio posteri clir ac addas at oedran a gallu, gan gynnwys lluniau'r Person Diogelu Dynodedig a'r Llywodraethwr Diogelu Dynodedig hefyd, a'u lleoli mewn mannau addas.
21. Bod ysgolion yn creu gofod penodol i arddangos gwybodaeth diogelu gyda mewnbwn gan ddisgyblion gan gynnwys lleoli blwch lle gall disgyblion godi pryder.

### **Cyrff Llywodraethu Ysgolion ac Atebolrwydd Penaethiaid Ysgolion**

22. Argymhell i Lywodraeth Cymru fod angen adolygu rôl Corff Llywodraethu Ysgolion, a rheolaeth llinell (atebolrwydd) Penaethiaid Ysgolion.

Gweler tudalen 27 ymlaen am fwy o wybodaeth.

## 2. Cyflwyniad

- 2.1** Craffwyd trefniadau diogelu mewn ysgolion yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar [18 Gorffennaf 2024](#). Cafwyd trafodaeth anffurfiol ar ôl y cyfarfod o ran y posibilrwydd o gynnal Grŵp Tasg a Gorffen neu Ymchwiliad Craffu i'r maes. Daethpwyd i'r casgliad y dylid cynnal trafodaeth bellach yng nghyfarfod anffurfiol y Pwyllgor ar 5 Medi 2024, lle mynegwyd pryder gan yr aelodau oedd yn bresennol ynghylch gweithredu'r trefniadau diogelu o fewn ein hysgolion.
- 2.2** Yng nghyfarfod anffurfiol y Pwyllgor ar 9 Ionawr 2025, ystyriwyd briff drafft ar gyfer yr ymchwiliad craffu. Croesawodd aelodau'r Pwyllgor y bwriad i gynnal ymchwiliad ac i wneud hynny mewn modd adeiladol gan wneud argymhellion o fudd yn seiliedig ar dystiolaeth.
- 2.3** Mae gan y Fforwm Craffu (cyfarfod cadeiryddion ac is-gadeiryddion craffu), rôl i gynghori ar flaenoriaethu ymchwiliadau craffu a hynny yng nghyd-destun yr adnoddau sydd ar gael. Yng nghyfarfod y Fforwm ar 29 Ionawr 2025, rhoddwyd ystyriaeth i'r briff drafft ac fe flaenoriaethwyd yr ymchwiliad.
- 2.4** Mabwysiadwyd briff yr ymchwiliad yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar [13 Chwefror 2025](#). Yn dilyn ethol aelodau yn y cyfarfod, tynnodd dau aelod eu henwau yn ôl am wahanol resymau. Yr aelodau sydd wedi bod yn ymgymryd â gwaith yr ymchwiliad yw:
- Y Cynghorwyr Cai Larsen (Cadeirydd), Dawn Lynne Jones, Gwynfor Owen a Richard Glyn Roberts.
  - Aelod Cyfetholedig - Sharon Roberts (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Arfon)
- 2.5** Mae'r ymchwiliad craffu wedi ei gynnwys yng Nghynllun Ymateb y Cyngor. Mabwysiadwyd y Cynllun Ymateb yng nghyfarfod y Cabinet ar 21 Ionawr 2025. Mae'r Cynllun Ymateb yn gynllun byw sydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Gweler mwy o wybodaeth am y Cynllun Ymateb ac adroddiad yr Adolygiad Ymarfer Plant 'Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder' ar [wefan y Cyngor](#).
- 2.6** Mae briff yr Ymchwiliad wedi ei ddiweddarau i'w weld yn **Atodiad 1**.

### 3. Cefndir

3.1 Mae'r canllawiau statudol "[Cadw dysgwyr yn ddiogel](#)" (Llywodraeth Cymru, Mawrth 2022) yn rhoi arweiniad i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgolion ar drefniadau ar gyfer diogelu plant o dan Ddeddf Addysg 2002. Mae'r canllawiau yn ymwneud yn uniongyrchol â'r gweithdrefnau a'r dyletswyddau diogelu o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

3.2 Nodir yn y canllawiau:

“Ystyr diogelu yw atal ac amddiffyn plant rhag cael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed, ac addysgu pobl o'u cwmpas i adnabod yr arwyddion a'r peryglon. At ddibenion y canllawiau hyn, diffinnir diogelu a hybu llesiant pob plentyn sy'n mynychu lleoliad addysg fel a ganlyn:

- amddiffyn plant rhag y risg o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed
- atal unrhyw beth sy'n amharu ar iechyd neu ddatblygiad plant
- sicrhau bod plant yn tyfu i fyny dan amgylchiadau sy'n gyson â darparu gofal diogel ac effeithiol
- gweithredu er mwyn galluogi pob plentyn i gyflawni'r deilliannau gorau.”<sup>1</sup>

3.3 Nid yw'r canllawiau yn gosod allan gweithdrefnau manwl. Nodir eu bod:

“...yn anelu at ddynodi'r canlyniadau y mae angen i sefydliadau eu sicrhau er mwyn galluogi staff i gyflawni'r amcan o gadw plant yn ddiogel rhag niwed, yn ogystal â'r hyn y mae angen ei wneud, neu ei roi ar waith, i wireddu hyn.”<sup>2</sup>

3.4 Mae'r canllawiau yn amlinellu ac yn manylu ar gyfrifoldebau o ran trefniadau diogelu mewn ysgolion. Mewn ymateb i gais gan aelodau'r ymchwiliad, lluniodd Gareth Morgans (Ymgynghorydd Allanol) ddogfen yn cynnwys cyfrifoldebau rhanddeiliaid gwahanol o ran diogelu plant a phobl ifanc. Roedd y ddogfen yn gymorth i'r aelodau wrth ymgymryd â gwaith yr ymchwiliad. Mae'r ddogfen i'w weld yn **Atodiad 2**.

---

<sup>1</sup> Llywodraeth Cymru, *Cadw dysgwyr yn ddiogel* (Mawrth 2022) - <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-04/220401-cadw-dysgwyr-yn-ddiogel.pdf>, 4

<sup>2</sup> Llywodraeth Cymru, *Cadw dysgwyr yn ddiogel* (Mawrth 2022) - <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-04/220401-cadw-dysgwyr-yn-ddiogel.pdf>, 6

## 4. Cyfarfodydd

- 4.1** 'Roedd yr ymchwiliad yn ystyried trefniadau cyfredol y Cyngor o ran y maes diogelu mewn ysgolion a'r trefniadau mewn sampl o ysgolion.
- 4.2** Cynhaliwyd pedwar cyfarfod o'r ymchwiliad rhwng Mawrth 2025 ac Ebrill 2025. Yn y cyfarfod cyntaf, ymgyfarwyddwyd gyda'r briff a thrafodwyd sut y gellid sicrhau fod disgyblion yn deall sut i godi pryder a gyda phwy i gysylltu. Rhoddwyd ystyriaeth i'r ffyrdd gwahanol o glywed llais y disgyblion, megis siarad gyda disgyblion yn uniongyrchol, trwy holiadur, ystyried gwybodaeth o'r ymweliadau gwirio ansawdd a gynhelir gan yr Adran Addysg a gwybodaeth o waith arolygu Estyn. Penderfynwyd ystyried y ffordd orau o weithredu wrth i'r ymchwiliad fynd rhagddo.
- 4.3** Derbyniwyd cyflwyniad ar y cyd-destun cyfreithiol ar gyfer diogelu mewn ysgolion gan y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol.
- 4.4** 'Roedd bwriad i ddewis ysgolion i'w cynnwys yn y sampl o ysgolion fyddai aelodau'r ymchwiliad yn ymweld â hwy yn y cyfarfod yma. Ystyriwyd y ffactorau a ganlyn wrth geisio dewis ysgolion i'w cynnwys yn y sampl: ysgolion o wahanol faint, gwahanol ardaloedd a chymysgedd o ysgolion trefol a gwledig, yn ogystal ag ystyriaeth i amseru arolygiad diweddaraf Estyn.
- 4.5** Yn ystod y drafodaeth, amlygwyd yr angen i dderbyn gwybodaeth am y nifer o gyfeiriadau fesul pen o ddisgyblion fesul ysgol er mwyn i aelodau'r ymchwiliad ystyried y ffactor yma hefyd wrth ddewis ysgolion, gan nodi fod angen enghreifftiau o nifer uchel a nifer isel o gyfeiriadau. Daethpwyd i'r casgliad y byddai aelodau'r ymchwiliad yn dewis yr ysgolion i'r sampl ar ôl derbyn y wybodaeth yma.
- 4.6** Yn yr ail gyfarfod, derbyniwyd cyflwyniad gan Arweinydd Ansawdd Diogelu a Llesiant yr Adran Addysg ar drefniadau diogelu ysgolion. 'Roedd Pennaeth yr Adran ynghyd â'r Swyddog Diogelu a Llesiant Addysg yn bresennol yn ogystal i ymateb i gwestiynau'r aelodau. Eglurwyd pa gefnogaeth oedd ar gael gan yr Adran Addysg ar drefniadau diogelu mewn ysgolion, gan ymhelaethu ar yr hyfforddiant, holiadur blynyddol, Awdit Trefniadau Diogelu a'r adnoddau ar gael i'r ysgolion godi ymwybyddiaeth o'r

trefniadau ymysg staff a disgyblion. Yn dilyn y cyfarfod, rhannwyd enghreifftiau o bosteri i godi ymwybyddiaeth disgyblion o'r hyn i'w wneud i godi pryder.

**4.7** Ymunodd swyddogion o'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd nes ymlaen yn y cyfarfod. 'Roedd y Pennaeth Cynorthwyol Diogelu ac Ansawdd a Rheolwr Tîm Derbyn yn bresennol i drafod y cydweithio rhwng ysgolion/yr Adran Addysg a'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd. Nodwyd bod diffyg gwybodaeth a chywirdeb mewn cyfeiriadau yn gallu bod yn her i'r Tîm Derbyn, ond bod trafodaethau'n cael eu cynnal gyda'r Adran Addysg i geisio adnabod a goresgyn y rhwystrau hyn. Ymhelaethwyd bod yr ail strwythuro o fewn yr Adran Addysg yn golygu fod y Tîm Diogelu a Llesiant yn yr Adran Addysg yn gallu cynghori swyddogion o'r ysgolion cyn iddynt gyfeirio materion i'r Tîm Derbyn yn yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd.

**4.8** Rhoddwyd ystyriaeth i'r camau nesaf a phenderfynwyd ar yr ysgolion i'w cynnwys yn y sampl. Dyma'r ysgolion y penderfynwyd ymweld â hwy:

Cynradd (6)	Ysgol Garndolbenmaen, Llanllechid, Maenofferen, Nefyn, Rhiwlas, Tanygrisiau
Uwchradd (3)	Ysgol Glan y Môr, Tryfan, Tywyn
Arbennig (1)	Ysgol Pendalar
Dilynol (1)	Ysgol Bro Idris (y prif safle, safle Dinas Mawddwy a safle Llanelltyd)

**4.9** Penodwyd Gareth Morgans, arbenigwr allanol annibynnol yn y maes, i gynorthwyo aelodau'r ymchwiliad. Mae ganddo brofiad eang o drefniadau diogelu mewn ysgolion ac wedi gweithio fel Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant yng Nghyngor Sir Gâr hyd ei ymddeoliad. 'Roedd yn bresennol yn y trydydd cyfarfod ac fe wahoddwyd cynrychiolydd o Estyn i'r cyfarfod i roi barn Estyn ar drefniadau'r awdurdod. Rhoddwyd cyfle i'r aelodau holi am fwy o wybodaeth er mwyn cael gwell dealltwriaeth o drefniadau arolygu Estyn.

**4.10** Bu i'r Ymgynghorydd Allanol a Chyfarwyddwr Cynorthwyol Estyn ymhelaethu ar ymarfer da o ran trefniadau diogelu mewn ysgolion. Amlygwyd y themâu canlynol:

- Diwylliant cadarn o ddiogelu a lles disgyblion
- Hyfforddiant addas
- Mannau dysgu diogel
- Gwyliadwriaeth a chymorth i ddisgyblion
- Polisiâu a gweithdrefnau clir
- Ymateb i fygythiadau ehangach
- Lleisio barn (disgyblion ac athrawon)
- Hunan arfarniad effeithiol

**4.11** Ym mhedwerydd cyfarfod yr ymchwiliad, ystyriwyd gwybodaeth am drefniadau diogelu ysgolion yn y sampl. Cyflwynwyd adroddiad a oedd yn cynnwys:

- detholiad o wybodaeth o adroddiadau diweddaraf Estyn ynghyd â dolen i'r adroddiadau;
- gwybodaeth ynghylch Polisi Diogelu Plant yr ysgolion ynghyd â nodiadau o eithriadau; a
- chrynodeb o ymatebion i holiadur blynyddol diogelu 2023/24 gan yr ysgolion yn y sampl.

**4.12** Amlygwyd yr angen i gael taflen cyd-destun ar gyfer pob ysgol er mwyn i'r aelodau fod yn ymwybodol o'r wybodaeth berthnasol cyn ymweld â'r ysgolion. Gweler templed taflen cyd-destun ysgol yn **Atodiad 3**.

**4.13** Cyflwynwyd rhestr o gwestiynau posib gan Gareth Morgans yr ymgynghorydd allanol, gan bwysleisio fod yr holl wybodaeth a nodwyd uchod hefyd yn gyd-destun allweddol pwysig i'w ystyried a'i gofio cyn mynd ar unrhyw ymweliad i ysgol.

**4.14** Cadarnhawyd yr angen i gadw cysondeb ar gyfer y cwestiynau i'r gwahanol ysgolion yn y sampl, gan gydnabod y gall y cwestiynau dilynol amrywio rhywfaint o ysgol i ysgol. Trafodwyd y cwestiynau ac yn dilyn y sylwadau fe grynhowyd a miniogwyd y cwestiynau.

**4.15** Penderfynwyd rhannu rhai o'r cwestiynau gyda'r ysgolion o flaen llaw. Mae'r cwestiynau a rannwyd ymlaen llaw yn **Atodiad 4**. Gyda'r cwestiynau a ofynnwyd yn yr ymweliadau yn **Atodiad 5**.

- 4.16** Adnabuwyd yr angen i greu rhestr wirio amgylchedd a diwylliant diogelu ysgolion. Gweler yn **Atodiad 6** y rhestr wirio a luniwyd gan yr ymgynghorydd allanol er mwyn galluogi'r aelodau i nodi sylwadau wrth fynd o gwmpas yr ysgolion a'u hargraffiadau ar derfyn yr ymweliadau.
- 4.17** Bu i gynrychiolaeth o aelodau'r ymchwiliad (isafswm o ddau aelod) yn ogystal â'r Swyddog Arweiniol neu'r Swyddog Cefnogol ymweld â'r 11 ysgol yn y sampl yn ystod Mai – Gorffennaf 2025. Gweler mwy o wybodaeth am yr ymweliadau ar dudalen 14. Bu'r ymweliadau yn fodd i aelodau'r ymchwiliad gasglu tystiolaeth yn uniongyrchol gan staff a llywodraethwyr ysgolion.
- 4.18** Ym mhumed cyfarfod yr ymchwiliad, bu trafodaeth am argraffiadau cychwynnol yr aelodau yn dilyn ymweliadau i'r ysgolion.
- 4.19** Cynhaliwyd chweched cyfarfod yr ymchwiliad ym mis Medi, trafodwyd canfyddiadau yn deillio o'r ymweliadau ac ystyriwyd argymhellion posib. Yn ogystal, rhoddwyd sylw i'r gwaith o gomisiynu darparwr i gwblhau'r gwaith o glywed llais disgyblion. Manylwyd ar y camau a gymerwyd i adnabod darparwr posib a rhannwyd gwybodaeth am opsiynau a dderbyniwyd gan un darparwr i gwblhau'r gwaith. Adroddwyd y rhagwelwyd y gallai'r darparwr gyflawni'r gwaith ym mis Rhagfyr 2025.
- 4.20** Yn seithfed cyfarfod yr ymchwiliad, cafwyd trafodaeth gyda swyddogion o'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd. Roedd y Pennaeth Adran Plant Gweithredol, Pennaeth Cynorthwyol Diogelu ac Ansawdd a Swyddog Derbyn Cyfeiriadau yn bresennol. Cafwyd trafodaeth am faterion wedi codi yn sgil ymweliadau â'r ysgolion yr oedd aelodau'r ymchwiliad yn dymuno eu holi ymhellach.
- 4.21** Adroddwyd yn y cyfarfod bod y darparwr a adnabuwyd i fod yn cynnal y gwaith i glywed llais y disgybl wedi cysylltu yn nodi eu bod o'r farn nad oedd y sampl yn ddigonol. Rhoddwyd ystyriaeth i'r camau nesaf gan ystyried cyd-destun a brîff yr ymchwiliad. Cytunwyd i gysylltu gyda'r darparwr yn gofyn iddynt gyflawni'r gwaith yn unol â'r brîff gwreiddiol. Derbyniwyd ymateb gan y darparwr na allent gyflawni'r gwaith ar y sail yma ond eu bod yn fodlon trafod. O ganlyniad, penderfynwyd symud ymlaen i chwilio am ddarparwr arall i wneud y gwaith ar y sail a oedd yn ofynnol er mwyn cyflawni gwaith yr ymchwiliad.

- 4.22** Yn wythfed cyfarfod yr ymchwiliad, bu sgwrs am faterion adnoddau dynol. ‘Roedd y Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol ac Arweinydd Tîm Ymgynghorydd Adnoddau Dynol yn bresennol. Gosodwyd y cyd-destun ganddynt ar gyfer gwaith Adnoddau Dynol mewn cyswllt ag ysgolion. Esboniwyd mai cyfrifoldeb yr ysgolion yw materion sy’n codi, ond fod y Gwasanaeth Adnoddau Dynol ar gael i gynnig cefnogaeth ac arweiniad. Bu cyfle i aelodau’r ymchwiliad ofyn cwestiynau a thrafod senarios posib gyda’r swyddogion.
- 4.23** Yn y nawfed cyfarfod, bu i’r aelodau gael sgwrs gyda’r Pennaeth Addysg a’r Arweinydd Ansawdd Diogelu a Llesiant am y berthynas cydweithio rhwng yr Adran a’r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ac am faterion asesu addasrwydd unigolyn i fod yn gweithio gyda phlant.
- 4.24** Bu i’r aelodau ystyried argymhellion posib yn codi o gyfarfodydd yr ymchwiliad gan gadw mewn cof yr argymhellion posib a luniwyd yn dilyn yr ymweliadau i’r ysgolion.
- 4.25** Cadarnhawyd yn y cyfarfod bod Dr Ceryl Teleri Davies wedi ei phenodi i gwblhau’r gwaith o glywed llais disgyblion, gyda’r bwriad o gwblhau’r gwaith erbyn diwedd mis Mai 2026.
- 4.26** Cwblhawyd y gwaith yn unol â’r amserlen ac fe dderbyniwyd cyflwyniad ar y gwaith ar yr 8fed o Fehefin. Gwahoddwyd aelodau’r Bwrdd Ymateb i fod yn bresennol er mwyn clywed canfyddiadau ac argymhellion yn deillio o’r gwaith. Nodwyd gwerthfawrogiad o’r cyflwyniad a’r cyfle i fod yn bresennol. Mae copi o’r cyflwyniad yn **Atodiad 7**. Manylir ar y gwaith yma ar dudalen 23.
- 4.27** Yn negfed cyfarfod yr ymchwiliad, bu i aelodau’r ymchwiliad drafod yr holl argymhellion posib gan gynnwys yr argymhellion yn deillio o waith llais disgyblion. Nodwyd addasiadau a newidiadau posib i’r argymhellion.
- 4.28** Yng nghyfarfod olaf yr ymchwiliad, trafodwyd adroddiad drafft terfynol yr ymchwiliad gyda’r Aelod Cabinet Addysg a’r Pennaeth Addysg yn ogystal â’r Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd a’r Pennaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd.


## 5. Ymweliadau i'r Ysgolion

5.1 Bu i gynrychiolaeth o aelodau'r ymchwiliad (isafswm o ddau aelod) yn ogystal â'r Swyddog Arweiniol neu'r Swyddog Cefnogol ymweld â'r 11 ysgol yn y sampl yn ystod mis Mai, Mehefin a Gorffennaf 2025.

5.2 Roeddent yn ymweliadau o leiaf hanner diwrnod o hyd i bob ysgol gydag ymweliad i'r Ysgol Ddilynol yn golygu ymweld â'r prif safle a dau safle arall.

5.3 Cynhaliwyd sgysiau agored anffurfiol gyda Phenaethiaid, Personau Diogelu Dynodedig (PDD), Dirprwyon Diogelu Dynodedig, Athrawon, Staff Ategol ynghyd â Chadeiryddion a Llywodraethwyr Diogelu Dynodedig. Mae'r cwestiynau a oedd yn sail i'r sgysiau i'w gweld yn **Atodiad 5**.

5.4 Yn ystod yr holl ymweliadau bu i aelodau sgwrsio gyda:



5.5 Y nifer a gymerodd ran fesul sector:



5.6 Yn ogystal â chynnal sgysiau bu aelodau yn cymryd sylw o amgylchedd a diwylliant diogelu'r ysgolion gan nodi sylwadau ar y rhestr wirio. Ar derfyn yr ymweliadau bu i aelodau drafod eu hargraffiadau a chwblhawyd tabl a oedd ar yr un daflen a'r rhestr wirio. Gweler y ddogfen yn **Atodiad 6**.

**5.7** Gwerthfawrogwyd yn fawr y croeso a dderbyniwyd gan yr ysgolion a'r trafodaethau agored a oedd yn rhoi mewnwleidiad i'r aelodau o sut mae trefniadau diogelu yn cael eu gweithredu yn ymarferol mewn ysgolion.

**5.8** Dyma'r prif ganfyddiadau yn deillio o'r ymweliadau o dan themâu penodol:

### **Diogelu**

- Trefn ar gyfer adrodd ar faterion diogelu i weld ar flaen bysedd staff o bob lefel a threfniadau cofnodi clir gyda chyfathrebu cyson am hyn yn yr ysgolion.
- Trefniadau diogelu mewn ysgol arbennig yn hynod bwysig, ond cyfathrebu gyda phob disgybl yn her oherwydd natur yr anghenion - yn aml mae 'pryder' neu ddigwyddiad yn cael ei ddangos yn ymddygiad y plant yn hytrach na datgeliad penodol.
- Staff ar draws yr ysgolion yn ymwybodol bod angen cofnodi a chadw golwg ar faterion llai sy'n codi gan y gallai batrwm amlygu sydd o bosib yn arwain at fater diogelu.
- Staff yn gwybod sut i ymateb i ddatgeliad gan ddisgybl. Mewn un ysgol gynradd, gwelwyd bod dealltwriaeth rhai aelodau o staff yn cymylu o ran y drefn gyda Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Trefniadau mewn rhai ysgolion lle mae staff yn cofnodi'r pryder ac yn mynd at y PDD, galwad ffôn neu'n anfon e-bost i nodi eu bod wedi cofnodi pryder. Pan fo'r mater yn ddifrifol / bod risg i'r plentyn, dealltwriaeth i fynd at y PDD neu aelod o Dîm Diogelu'r ysgol.
- Yn gyffredinol, mae staff yn cael adborth yn dilyn adrodd ar bryder diogelu. Yr adborth yn amrywio o wybod bod y pryder yn cael ei ddelio gydag ef, cael gwybod y camau sydd wedi eu cymryd mewn ymateb, i gael cadarnhad o'r canlyniad.
- Materion diogelu yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd staff wythnosol. Trefniadau cadarn yn yr ysgolion uwchradd gyda'r Tîm Diogelu yn trafod pryderon (newydd a rhai sy'n parhau) gan roi cynllun mewn lle o ran camau i'w cymryd mewn ymateb i'r pryder.

## **Materion o dan y trothwy diogelu**

- Mwy o faterion o dan y trothwy yn codi yn gyson mewn ysgolion. Y materion yma yn cymryd amser yr ysgol/Pennaeth gan fod angen ymateb iddynt (gallu bod yn her mewn ysgolion bychain).
- Mae llawer o weithwyr/asiantaethau yn ymwneud ag anghenion lles. Nodwyd bod angen mwy o *joined up thinking* gan fod y ddarpariaeth ar hyn o bryd yn fratiog.
- Rhwystredigaeth wedi ei nodi gan 2 ysgol gynradd ac 1 ysgol uwchradd bod yr ysgol yn derbyn arweiniad i siarad gyda rhieni am faterion dan y trothwy. Nodwyd ei fod yn anodd pan fo rhiant ddim eisiau gwybod am y mater a'i fod yn gallu effeithio ar y berthynas gyda'r ysgol.
- Nodwyd mewn un ysgol uwchradd ei fod yn haws i'r ysgol wneud cyswllt gyda'r rhieni gan fod y berthynas yn bodoli eisoes. Roedd yn gweithio'n dda efo materion sydd ddim yn fater diogelu.

## **Systemau**

- 9 ysgol gyda system electroneg i gofnodi pryder, 1 ysgol gynradd gyda system electroneg a ffurflenni papur (yn sganio'r ffurflenni i'r system) ac 1 ysgol gynradd gyda system ffeilio papur.
- 8 ysgol yn defnyddio MyConcern gan gynnwys ysgol uwchradd sydd yn ei ddefnyddio a'r system Provision Map yn ogystal. Un ysgol uwchradd yn defnyddio Microsoft Forms a'r ysgol uwchradd arall yn defnyddio ClassChart a'r 'Meetings Log' yn system Provision Map (y ddwy system yn siarad efo'i gilydd).
- Systemau cofnodi a thracio gwahanol yn yr ysgolion yn gallu arwain at ddiffyg wrth rannu gwybodaeth yn rhwydd am ddisgyblion/unigolyn sy'n symud o ysgol i ysgol.

Nodwyd sylwadau yn yr ysgolion uwchradd a'r ysgol ddilynol yn gysylltiedig â disgyblion sydd yn trosglwyddo o ysgol neu ardal cyngor arall. Nodwyd fod y wybodaeth yn araf yn cyrraedd ysgolion.

Cyfeiriwyd yn ogystal at effeithlonrwydd trosglwyddo gwybodaeth o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Nodwyd oherwydd systemau gwahanol nid oedd yn bosib trosglwyddo'r wybodaeth yn awtomatig.

Yn ogystal, codwyd pryder am sicrhau gwybodaeth am blant oedd yn parhau yn ddisgyblion mewn ysgol yng Ngwynedd ond oedd wedi gorfod ffoi dros dro ar sail eu diogelwch i gyngor arall. Roedd sicrhau gwybodaeth gyfredol amdanynt yn her.

### **Hyfforddiant**

- Hyfforddiant diogelu yn cael ei gynnal ar ddiwrnod 'Hyfforddiant Mewn Swydd (HMS)' cychwyn mis Medi, gyda staff yr ysgol i gyd yn bresennol (gan gynnwys cymorthyddion a staff ategol) mewn 8 ysgol.
- Hyfforddiant diogelu yn cael ei gynnal ar ddiwrnod 'HMS' cychwyn mis Medi, gyda staff addysgol yr ysgol i gyd yn bresennol, a hyfforddiant ar wahân yn cael ei gynnal i staff ategol yn y tair ysgol arall. Nodwyd mewn un ysgol bod bwriad i newid hyn ar gyfer Medi 2025.
- 2 ysgol wedi nodi yn benodol eu bod yn cynnal 'refresher' o'r hyfforddiant / atgoffa staff ar ddiwrnodau HMS yn ystod y flwyddyn.
- Ymarfer da i ysgolion gyda mwy na un safle – 2 berson ar bob safle wedi derbyn hyfforddiant lefel 2 ac yn gymwys i ymdrin â materion diogelu.
- Nododd Llywodraethwr Diogelu Dynodedig a oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant lefel 2 y byddai'r cyfle i weithio trwy senarios gwahanol fel rhan o'r hyfforddiant yn fuddiol ac yn cyfoethogi'r hyfforddiant.
- Trefniadau ysgolion o ran hyfforddi staff llanw yn amrywio.

### **Llywodraethwyr**

- Llywodraethwyr yn cymryd y cyfrifoldeb am ddiogelu o ddifri ac yn gyffredinol yn herio'r Pennaeth yn gyson am faterion diogelu (a diogelwch y safle) gan sicrhau fod y Pennaeth yn gweithredu ar eu hargymhellion.

- Llywodraethwyr yn rhan bwysig o drefniadau diogelu. Yn adolygu polisïau yn flynyddol ac yn cadw mewn cof bod angen i'r polisïau fod yn ymarferol ac yn helpu'r Pennaeth/Staff i gyflawni eu rôl.
- Sôn am faterion yn ymwneud â diogelu ym mhob cyfarfod llawn o'r corff llywodraethol. Diogelu yn eitem benodol ar y rhaglen gan rhai ac eraill ddim.
- Pwysau a chyfrifoldeb rôl Llywodraethwyr - teimlad o fod 'allan o'u dyfnder' gyda'r disgwyliadau a'r cyfrifoldebau, gan gofio mai pobl lleyg ydynt. Anoddach fyth wrth dderbyn cwyn/ymdrin â mater, a ddim yn gwybod yn iawn lle i droi os yw'r honiad am y Pennaeth.
- Aelodau o'r corff llywodraethol sydd gyda chefnidir mewn meysydd yn ymwneud â diogelu a/neu'r maes addysg yn gymorth ac yn rhoi sicrwydd i'r ysgol a llywodraethwyr eraill wrth drafod materion diogelu.
- Yn yr un modd staff sy'n llywodraethwyr yn siarad o brofiad ac yn bwydo gwybodaeth i'r corff llywodraethol.
- Enghreifftiau o Lywodraethwyr Diogelu Dynodedig yn trafod materion diogelu un i un gyda'r Pennaeth.

### **Staff**

- Yr holl staff yn cymryd y cyfrifoldeb o ddifri ac yn nodi eu bod yno i'r plant ac mai nhw sydd bwysicaf. Yn nodi y byddent yn adrodd yn syth ar unrhyw bryder. Er yn cydnabod pe byddai'n ymwneud ag aelod arall o staff neu'r Pennaeth na fyddai'n hawdd y byddai'n rhaid codi'r mater.
- Nodwyd mewn un ysgol fod staff yn trafod ymysg ei gilydd os nad oeddent yn siŵr a ddylid cofnodi pryder neu beidio. Lle i sicrhau bod yr hyfforddiant diogelu yn hollol glir y dylid cyfeirio at y PDD os oes unrhyw gonsyrn.
- Staff weithiau ddim yn gwahaniaethu o ran pryd y byddent yn cysylltu gyda'r Tîm Diogelu Addysg neu'r Tîm Derbyn.
- Penodiadau yn yr ysgolion yn dilyn canllawiau'r Adran Addysg gan gynnwys cynnal gwiriadau DBS a'u cofnodi.

## **Rhieni**

- Cyfathrebu yng nghyswllt materion diogelu yn amrywio o ysgol i ysgol.
- Yr ysgolion uwchradd yn cyfeirio at holiadur diogelu yn cael ei anfon at rieni. Yn gyfle i nodi os yw eu plentyn yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, unrhyw bryderon ac os yn fodlon gyda sut mae'r ysgol wedi ymateb i bryderon.

## **Disgyblion**

- Disgyblion yn cael cyfleoedd cyson e.e. drwy 'dydd llun lles', gwasanaethau, trafod perthnasau iach gan gynnwys cyffwrdd priodol ac amhriodol, atgoffa gan athrawon ayyb fel eu bod yn ymwybodol o'r angen i adrodd ar faterion diogelu ac yn gwybod lle i droi.
- Asiantaethau eraill megis NSPCC, yr Heddlu yn dod i mewn i'r ysgolion.
- Arfer da – ysgol wedi anfon holiadur at y disgyblion i'w holi a ydynt yn gwybod lle ac at bwy i droi mewn achos diogelu.
- Posterï yn nodi pwy all disgyblion droi atynt ond hefyd yn cael eu gwneud yn ymwybodol eu bod yn gallu mynd at staff arall hefyd.

## **Presenoldeb**

- Proses i wirio absenoldebau a threfniadau tracio presenoldeb ym mhob ysgol.

## **Materion Gweledol / Adeilad**

- Posterï diogelu wedi eu gweld ar lefel gywir a phriodol i'r plant gyda'r ieithwedd yn syml a phriodol ac yn cynnwys lluniau, a phosterï gwahanol i'r staff yn cynnwys mwy o fanylion mewn pum ysgol gynradd a'r ysgol arbennig. O ran yr ysgol arbennig, yn anodd cael posterï addas ar gyfer bob disgybl.
- Gwelwyd er bod gwybodaeth diogelu yn cael ei arddangos yn yr ysgolion, nid oeddent ar bob achlysur ar lefel llygaid y disgyblion ieuengaf.

- Posterï gwybodaeth am y personau diogelu dynodedig, manylion cyswllt y Tîm Diogelu Addysg a'r Tîm Derbyn yn ogystal â Chadeirydd y Llywodraethwyr ym mhob ysgol.
- Pob ysgol yn cynnwys lluniau personau diogelu dynodedig yr ysgol heblaw am un ysgol. Yr ysgol wedi bod yn rhoi lluniau yn y gorffennol ond wedi derbyn arweiniad i dynnu'r lluniau o'r poster. Tempel diweddaraf a dderbyniwyd gan yr Adran Addysg gyda lle i roi lluniau ond wedi penderfynu peidio gwneud.
- Esiamplau o waliau diogelu yn yr ysgolion cynradd gyda mewnbwn gan y disgyblion e.e. disgyblion wedi creu posterï sy'n nodi pwy sy'n gallu eu helpu, gwybodaeth am hawliau, gwybodaeth NSPCC.
- Gwelwyd enghreifftiau o flychau megis 'worry monster' lle gallai disgyblion sgwennu ar ddarn o bapur eu henw a beth sydd yn eu poeni, blychau siarad yn y dosbarth i ddisgyblion roi nodyn os eisiau codi pryder/siarad, blwch postio tu allan i'r Hafan "Hoffwn i fy athro wybod".
- Bob ysgol heblaw am un ysgol gynradd gyda threfniadau mewngofnodi ac allgofnodi. Boed yn system electroneg neu'n drefn bapur.
- Bathodynau ymwelwyr yn cael eu darparu gan ran fwyaf o'r ysgolion. Un ysgol gynradd ddim yn eu darparu a threfniadau gan un ysgol uwchradd bod ymwelwyr sydd yn gysylltiedig â'r Cyngor yn defnyddio eu bathodynau adnabod swyddogol.
- Trefniadau rheoli mynediad trwy ddrysau gyda defnydd o 'fob' yn rhan fwyaf o'r ysgolion. Un ysgol uwchradd wedi cryfhau eu trefniadau o fynediad trwy'r dderbynfa o ddefnyddio keypad i 'fob' yn dilyn archwiliad gan swyddog o'r Tîm Diogelu Addysg.
- Mynediad i ddysgwyr yn yr ysgolion uwchradd ddim trwy'r dderbynfa, mynediad trwy ddrysau gwahanol sydd yn agor ar gychwyn y diwrnod ac yn cau cyn cael eu hail-agor ar ddiwedd y diwrnod. Giât mynediad ychwanegol i'r safle yn cael ei agor a'i gau yn yr un modd.

- Amgylchedd yr ysgolion o ran diogelwch ffiniau'r safle yn safonol gyda'r ysgolion sydd angen cryfhau unrhyw wendidau yn y ffensys o gwmpas y safle yn ymwybodol ac yn rhoi sylw i'r mater.
- Trefniadau mewn lle gan yr ysgolion i wirio cyflwr y safle ac yn rhoi sylw i faterion iechyd a diogelwch.

### **Cyswllt gyda'r Adran Addysg**

- Pob ysgol yn ymwybodol y gallent gysylltu gyda'r Tîm Diogelu Addysg i gael arweiniad am faterion dan y trothwy, heblaw am un ysgol gynradd.
- Ysgolion yn cydweithio gyda Swyddogion Lles Addysg sydd yn darparu cefnogaeth ar gyfer teuluoedd.
- Nodwyd mewn un ysgol uwchradd bod cefnogaeth wedi gwella yn dilyn sefydlu'r Tîm Diogelu Addysg. Ymhelaethwyd bod mwy o swyddogion a'i fod yn haws i gael gafael arnynt i dderbyn cyngor ac arweiniad.
- Gwnaed sylw mewn un ysgol uwchradd bod ymweliadau'r Tîm Diogelu yn hynod fuddiol.

### **Cyswllt gyda'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd**

- Hapus i ofyn am gymorth y Tîm Derbyn, teimlo'n well cael barn arall ar y ffordd ymlaen. Yn cydweithio, codi ffôn ac maent yn ateb yn syth. Fel arfer yr ymateb yn reit sydyn.
- Yn derbyn ymateb amserol gan y Tîm Derbyn. Nodwyd ei fod yn teimlo'n amser hir i aros pan fo mater diogelu yn codi, yr ysgol yn rhoi blaenoriaeth i'r mater, ond yn deall mai'r drefn yw penderfyniad 24 awr. Pan fo'r mater yn bryder lefel uwch, nid oedd enghraifft o sefyllfa pan nad oedd ymateb wedi ei dderbyn cyn amser gorffen yr ysgolion.
- Nodwyd mewn rhai ysgolion bod lle i wella cyfathrebu am faterion 'dan y trothwy' fel bo'r ysgol yn gallu cefnogi'r disgybl yn briodol.

- Rhai enghreifftiau o anghytuno o ran y ffordd ymlaen rhwng ysgolion â'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd. Yr ysgolion yn ystyried bod angen parhau efo'r gefnogaeth i'r disgybl/teulu am gyfnod hirach.
- Rhai ysgolion yn teimlo eu bod yn cychwyn ymchwilio i faterion diogelu wrth orfod mynd yn ôl at y teulu 3 i 4 gwaith i holi cwestiynau pellach yn dilyn arweiniad gan Wasanaethau Cymdeithasol.

## 6. Llais Disgyblion

- 6.1** Yng nghyfarfod cyntaf yr ymchwiliad, adnabuwyd yr angen i ystyried sut y gellir cynnwys llais disgyblion yng ngwaith yr ymchwiliad.
- 6.2** Yn ystod y trafodaethau dilynol am y dull gorau o glywed llais disgyblion, pwysleisiwyd sensitifrwydd y sefyllfa a'r angen i swyddogion proffesiynol ymgymryd â'r gwaith hwn gan fod ganddynt yr hyfforddiant a'r cymwysterau angenrheidiol a phrofiad o gynnal gwaith cyfranogi gyda phlant a phobl ifanc ar bynciau sensitif.
- 6.3** Adnabuwyd darparwr i gwblhau'r gwaith a daeth aelodau'r ymchwiliad i gasgliad ar yr opsiwn gorau i glywed llais disgyblion ond yn anffodus nid oedd modd symud ymlaen i gydweithio gyda hwy oherwydd eu bod o'r farn bod angen mynd ymhellach na'r hyn a gytunwyd arno.
- 6.4** Llithrodd yr amserlen ar gyfer cynnal y gwaith llais disgyblion o ganlyniad. Nid oedd amheuaeth mai drwy gynnal gwaith trylwyr a chyflawn y byddai'r ymchwiliad craffu yn cael yr effaith fwyaf posib ar wella trefniadau diogelu mewn ysgolion gan wneud argymhellion sydd wedi eu llunio gan roi sylw dyledus a haeddiannol i lais y disgyblion.
- 6.5** Ail-gychwynwyd ar y broses i benodi darparwr a bu'r ymchwiliad yn ffodus i benodi darparwr i gwblhau'r gwaith o fewn amserlen hynod heriol.
- 6.6** Cwblhawyd y gwaith ar ran yr ymchwiliad gan Dr Ceryl Teleri Davies, CTD Social Care and Research Consultancy Limited.
- 6.7** Cynhaliwyd grwpiau ffocws ym mis Mai 2026 gyda 57 o blant a phobl ifanc o ysgolion cynradd ac uwchradd, gan gynnwys aelodau o Fforwm Ieuencid Gwynedd.

**Cynradd**

**4 Grŵp Ffocws – Blynyddoedd 3 i 6**

**26 o ddisgyblion**

## Uwchradd

### 4 Grŵp Ffocws – Blynyddoedd 7 i 9

### 31 o ddisgyblion

**6.8** Pwrpas y gwaith oedd archwilio dealltwriaeth disgyblion o drefniadau diogelu mewn ysgolion, yn benodol:

- Sut byddai plant a phobl ifanc yn codi pryder;
- Pwy fyddent yn mynd atynt am help neu gymorth;
- Sut maent yn gwybod pwy i gysylltu â nhw o fewn yr ysgol;
- A ydynt yn teimlo'n ddiogel, a bod rhywun yn gwranddo arnynt a'u cefnogi o fewn amgylchedd yr ysgol.

**6.9** Oherwydd yr amserlen ac ymrwymadau cyfnod arholiadau, nid oedd yn bosib cynnwys lleisiau disgyblion ym mlynnyddoedd 10 – 13. Cydnabyddir y byddai wedi bod yn hynod werthfawr i'w cynnwys yn y gwaith hwn ond wrth ystyried gwahanol ffactorau, daethpwyd i'r casgliad y dylid cyhoeddi adroddiad ac argymhellion yr ymchwiliad craffu fel bod modd gweithredu yn amserol.

**6.10** Prif ganfyddiadau cyffredinol y gwaith oedd:

Profiad o ddiogelu drwy berthnasoedd a diwylliant yr ysgol

Oedolion dibynadwy a diogelwch emosiynol yn themâu canolog

Gweld bod cysylltiad cryf rhwng lles, tegwch a pherthyn â theimlo'n ddiogel

Disgyblion yn gwerthfawrogi staff sy'n agos-atoch ac sy'n ymateb i emosiynau

**6.11** Deilliodd 8 argymhelliad o'r gwaith yma:

**Argymhelliad 1 - Parhau i gryfhau arferion diogelu ar sail perthnasoedd**

Cryfhau diogelu sy'n seiliedig ar berthnasoedd a chael oedolion dibynadwy wrth law.

**Argymhelliad 2 - Gwella'r eglurder ynghylch llwybrau diogelu a mynediad at gymorth.**

Gwella'r cyfathrebu ynghylch cyfrinachedd, llwybrau cyfeirio a chymorth dilynol.

**Argymhelliad 3 - Parhau i gryfhau manau lles a chymorth bugeiliol**

Cynnal a datblygu'r manau lles a'r gefnogaeth emosiynol gynnar sydd ar gael.

**Argymhelliad 4 - Parhau i ddatblygu addysg ar ddiogelu sy'n oed-briodol**

Darparu addysg ar ddiogelu sy'n ymwneud â materion cyfredol, sy'n ymarferol ac yn golygu trafod.

**Argymhelliad 5 - Cryfhau llais a rhan y disgyblion wrth ddatblygu'r maes diogelu**

Ymgorffori llais disgyblion mewn prosesau i adolygu trefn ddiogelu a gwella ysgolion.

**Argymhelliad 6 - Adolygu systemau ymddygiad**

Cryfhau tegwch, cysondeb a chyfathrebu o fewn systemau ymddygiad.

**Argymhelliad 7 - Cryfhau'r gefnogaeth ynghylch diogelu cyfoedion**

Rhoi arweiniad cliriach ynghylch cefnogi cyfoedion, ffiniau a gofyn am gymorth.

**Argymhelliad 8 - Adolygu'r trefniadau diogelu yn rheolaidd**

Parhau i gynnal adolygiadau diogelu yn rheolaidd sy'n cynnwys llais disgyblion ar draws pob grŵp oedran.

**6.12** Mae'r holl argymhellion heblaw am un wedi eu hymgorffori yn argymhellion yr ymchwiliad craffu, sef argymhelliad 6.

**6.13** Penderfynwyd er bod perthynas rhwng ymddygiad a diogelu, bod yr argymhelliad i ysgolion adolygu systemau ymddygiad yn mynd tu hwnt i frîff yr ymchwiliad craffu. Credir ei fod yn fater i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ei ystyried wrth graffu'r eitem 'Presenoldeb, ymddygiad a chyrhaeddiad disgyblion yn ysgolion Gwynedd'.

**6.14** Mae copi o'r cyflwyniad ar y gwaith llais disgyblion i'w weld yn **Atodiad 7**.

## 7. Y dystiolaeth a ystyriwyd

### 7.1 Bu i'r Grŵp Ymchwiliad Craffu ystyried tystiolaeth:

- Drwy dderbyn **cyflwyniad gan y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol ar y cyd-destun cyfreithiol a chyflwyniad gan Arweinydd Ansawdd Diogelu a Llesiant ar drefniadau diogelu mewn ysgolion.**
- Drwy dderbyn **gwybodaeth am arfer da** gan arbenigwyr yn y maes.
- Drwy **roi sylw i ddata, polisïau diogelu plant a gwybodaeth cyd-destun** ynghyd ag **adroddiadau arolygiadau Estyn a chrynodeb o ymatebion i holiadur blynyddol diogelu 2023/24** yr ysgolion yn y sampl.
- Drwy **dderbyn ymateb ysgrifenedig** gan yr ysgolion i gwestiynau a anfonwyd ymlaen llaw.
- **Ymweld â'r 11 ysgol yn y sampl a chynnal sgysiau** gyda'r canlynol:

Penaethiaid, Personau Diogelu Dynodedig (PDD), Dirprwyon Diogelu Dynodedig, Athrawon, Staff Ategol ynghyd â Chadeiryddion a Llywodraethwyr Dynodedig Diogelu.

- **Cynnal 11 cyfarfod** o'r ymchwiliad gan drafod gyda swyddogion o'r Adrannau Addysg, Plant a Chefnogi Teuluoedd a Gwasanaethau Corfforaethol.
- Comisiynu darparwr i gwblhau **gwaith i glywed llais disgyblion** ac ystyried y canfyddiadau a'r argymhellion yn deillio o'r gwaith.

## 8. Argymhellion a Rhesymeg

8.1 Yn yr adran yma o'r adroddiad, mae argymhellion yr ymchwiliad craffu. Rhoddwyd ystyriaeth ddwys i'r holl argymhellion er mwyn sicrhau eu bod yn cloriannu'r holl dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr ymchwiliad.

8.2 Dymuna aelodau'r ymchwiliad dynnu sylw at egwyddor sydd yn holl bwysig ac yn greiddiol i sicrhau bod diwylliant diogelu agored a chynhwysfawr –

**Mae gweithredu ar unrhyw bryder diogelu yn gyfrifoldeb moesol a chyfreithiol ar bob unigolyn beth bynnag eu rôl. Rhaid rhoi ystyriaeth uchel i ddiogelu drwy'r amser mewn unrhyw waith ac unrhyw ddatblygiad.**

8.3 Mae'r argymhellion wedi eu gosod o dan themâu penodol. Nid ydynt wedi eu rhestru mewn trefn blaenoriaeth. Credir y bydd yr argymhellion yn eu cyfanrwydd yn arwain at gryfhau trefniadau diogelu mewn ysgolion ymhellach.

### 8.4 Hyfforddiant Staff a Llywodraethwyr

**Argymhelliad 1 – Y dylid sicrhau fod hyfforddiant ar y lefel briodol yn cael ei gynnal yn flynyddol ar gyfer holl staff a llywodraethwyr a chynyddu'r nifer o staff mewn ysgolion sy'n cwblhau'r hyfforddiant lefel uwch.**

Mae'r argymhelliad yma yn berthnasol i staff dysgu, staff arlwyyo a glanhau, staff llanw a Llywodraethwyr.

Gwelwyd esiampl o ymarfer da yn yr ysgol ddilynol lle mae 2 berson ar bob safle yn gymwys i ymdrin â materion yn dilyn cwblhau hyfforddiant lefel 2. Yn ogystal, nodwyd ymarfer da o'r bwriad i gynyddu'r nifer yn Nhîm Diogelu ysgol uwchradd a rhoi ystyriaeth hefyd i benaethiaid blwyddyn wneud hyfforddiant diogelu i'r un lefel a'r tîm diogelu.

Byddai gwydnwch trefniadau diogelu mewn ysgolion yn cryfhau o ganlyniad i fwy o staff wedi cwblhau'r hyfforddiant ar lefel uwch.

Fel rhan o ystyriaeth o'r argymhelliad yma, amlygir yr angen i gryfhau trefniadau sicrhau fod athrawon llanw/achlysurol wedi derbyn hyfforddiant diogelu ac yn

ymwybodol o drefniadau diogelu fesul ysgol. Nodwyd arfer da mewn rhai ysgolion fod yr ysgol (Pennaeth) yn mynd drwy'r drefn diogelu cyn i'r athro/athrawes fynd ar lawr y dosbarth. Dylid ystyried os ddylai'r Adran Addysg fod yn cymryd cyfrifoldeb am sicrhau fod pob/unrhyw athro llanw wedi derbyn yr hyfforddiant priodol ac wedi derbyn gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Yn ystod ymweliad i un ysgol, nodwyd cais i gael diweddarau hyfforddiant lefel 2 i Lywodraethwyr yn fwy aml gan fod hyn am gynorthwyo cadw'r gofynion ar flaen eu meddyliau.

Nododd Llywodraethwr Diogelu Dynodedig a oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant lefel 2 y byddai'r cyfle i weithio trwy senarios gwahanol fel rhan o'r hyfforddiant yn fuddiol ac yn cyfoethogi'r hyfforddiant.

Croesawir bod tri maes hyfforddiant penodol ar gam-feithrin/meithrin perthnasoedd amhriodol (*grooming*), materion Rhan 5 Gweithdrefnau Diogelu Cymru (honiadau / pryderon diogelu ynghylch ymarferwyr a'r rhai hynny mewn swyddi o ymddiriedaeth), a threfniadau canu'r gloch ar gyfer athrawon a gweithlu Gwasanaethau Cymdeithasol.

Mae aelodau'r ymchwiliad yn ymwybodol bod y Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol yn edrych ar hyn o bryd ar ddynodi lefelau hyfforddiant diogelu penodol ar gyfer swyddi gan ddilyn arweiniad Gofal Cymdeithasol Cymru. Bydd hyn yn sicrhau fod staff yn cael eu hyfforddi i'r lefel briodol o ran diogelu. Gofynnir bod staff ysgolion yn cael eu cynnwys yn y gwaith i sicrhau fod lefel hyfforddiant priodol ar gael i bob aelod o staff.

**Argymhelliad 2 - Bod yr Adran Addysg yn addasu eu sleidiau hyfforddiant i gynnwys 1 sleid benodol ar ddechrau'r hyfforddiant sy'n cynnwys rhifau ffôn cyswllt a chyfeiriadau e-byst penodol fel y gall staff eu printio i'w cadw'n saff.**

Credir y bydd amlygu gwybodaeth bwysig ar un sleid fel ei fod ar gael yn hawdd i staff yn eu galluogi i weithredu yn ddiymdroi. Dylid cynnwys enwau a rhifau ffôn ar gyfer cysylltu gyda'r Tîm Diogelu a Llesiant Addysg, y Tîm Derbyn Cyfeiriadau ynghyd â gwybodaeth cysylltu tu allan i oriau.

**Argymhelliad 3 - Dylai'r hyfforddiant diogelu fod hyd yn oed mwy clir, o ran y dylai staff gyfeirio unrhyw bryder at y Person Diogelu Dynodedig neu'r Dirprwy Berson Diogelu Dynodedig yn syth, â pheidio ymchwilio na phenderfynu eu hunain a yw'r mater yn cyrraedd y trothwy. Dylid atgoffa staff o hyn yn barhaus.**

Yn ystod yr ymchwiliad cafwyd trafodaethau am yr angen i'r hyfforddiant diogelu gynnwys y wybodaeth angenrheidiol mewn modd clir a hawdd i'w ddeall.

Nodwyd mewn un ysgol fod staff yn trafod ymysg ei gilydd os nad oeddent yn siŵr a ddylid cofnodi pryder neu beidio. Mae angen sicrhau bod yr hyfforddiant diogelu yn hollol glir y dylid cyfeirio at y Person Diogelu Dynodedig (PDD) neu'r Dirprwy Berson Diogelu Dynodedig os oes unrhyw gonsyrn.

Dylai'r hyfforddiant hefyd egluro'r camau i'w cymryd pan nad yw'r PDD ar gael, pan fo risg uniongyrchol, pan nad yw'r PDD wedi gweithredu, neu pan fo'r pryder yn ymwneud â'r PDD, y Pennaeth neu aelod arall o staff.

Byddai amlygu yn glir yn yr hyfforddiant diogelu y dylai pob aelod o staff gofnodi a rhannu unrhyw bryder yn syth gyda'r Person Diogelu Dynodedig neu'r Dirprwy Berson Diogelu Dynodedig, heb geisio ymchwilio na phenderfynu eu hunain os yw mater yn cyrraedd y trothwy, yn arwain at weithredu pendant. Dylid atgoffa staff o hyn yn barhaus.

**Argymhelliad 4 - Dylai'r Adran Addysg sicrhau fod pob corff Llywodraethu yn ymwybodol o'r camau penodol iddynt eu dilyn pan fo cwyn diogelu yn erbyn y Pennaeth a'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt, gan sicrhau cefnogaeth briodol a digonol i'r Llywodraethwyr mewn achosion o'r fath.**

Un mater a oedd yn codi wrth drafod gyda Llywodraethwyr oedd pwysau a chyfrifoldeb rôl Llywodraethwyr. Nodwyd teimlad o fod 'allan o'u dyfnder' gyda'r disgwyliadau a'r cyfrifoldebau, gan gofio mai pobl lleyg ydynt. Mae'r sefyllfa yn anoddach fyth wrth dderbyn cwyn/ymdrin â mater diogelu. Nodwyd sylwadau nad oedd Llywodraethwyr yn gwybod yn iawn lle i droi os yw'r honiad am y Pennaeth.

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd o'r ymweliadau yn dangos fod Llywodraethwyr yn gadarn o'r trefniadau diogelu ond yn ddibynnol ar y Pennaeth gan amlaf. Dylid rhoi ystyriaeth i'r gefnogaeth sydd ar gael i Lywodraethwyr gan y Cyngor pan fo sefyllfa yn

codi am gŵyn diogelu yn erbyn y Pennaeth. Hefyd, mae'n hanfodol bod Cadeiryddion Cyrff Llywodraethu Ysgolion yn ymwybodol bod cefnogaeth briodol ar gael iddynt er mwyn eu harfogi i ymateb i sefyllfa o'r fath.

#### **8.4 Dealltwriaeth Disgyblion**

**Argymhelliad 5 – Bod angen parhau i ddatblygu addysg ddiogelu sydd yn briodol i oedran a gallu sy'n adlewyrchu materion cyfoes sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc.**

Mae addysg diogelu sydd yn briodol i oedran a gallu yn hanfodol er mwyn uchafu dealltwriaeth disgyblion o ran materion diogelu.

Dylai ysgolion ddarparu addysg diogelu ar y cyd gydag asiantaethau allanol sy'n adlewyrchu materion cyfoes sy'n effeithio ar bobl ifanc, gan gynnwys, niwed ar-lein, perthnasoedd, fepian, pwysau gan gyfoedion, llesiant emosiynol, cydsyniad a pherthnasoedd iach.

Yn y grwpiau ffocws llais disgyblion pwysleisiodd disgyblion yn arbennig bwysigrwydd addysg ddiogelu ymarferol ac yn seiliedig ar drafodaeth. 'Roedd dulliau rhyngweithiol, fideos a sesiynau trafodaethol yn ymddangos yn arbennig o effeithiol.

Byddai parhau i ddatblygu addysg ddiogelu sydd yn briodol i oedran a gallu gan ddefnyddio dulliau rhyngweithiol arwain at wella dealltwriaeth disgyblion o faterion diogelu.

**Argymhelliad 6 - Dylai pob ysgol ffurfioli'r trefniadau o anfon holiadur yn rheolaidd at y disgyblion i'w holi a ydynt yn gwybod lle ac at bwy i droi mewn achos diogelu.**

Byddai ffurfioli trefniadau anfon holiadur at ddisgyblion yn fodd o wirio dealltwriaeth disgyblion o ran gwybod lle ac at bwy i droi mewn achos diogelu.

Nodwyd yn yr ymweliad i'r ysgol ddilynol yr anfonwyd holiadur at y disgyblion i'w holi a ydynt yn gwybod lle ac at bwy i droi mewn achos diogelu.

Dylid ffurfioli'r trefniant yma fel ei fod yn ddull rheolaidd i ganfod dealltwriaeth disgyblion o'r trefniadau diogelu.

**Argymhelliad 7 – Dylai ysgolion gyfathrebu yn glir, ac mewn modd sydd yn briodol i oedran a gallu, gyda disgyblion ynghylch cyfrinachedd, prosesau diogelu, llwybrau atgyfeirio, cymorth dilynol a mynediad at wasanaethau llesiant arbenigol.**

Mae'r gwaith llais disgyblion yn dangos er bod disgyblion yn gyffredinol yn deall ble i gael cymorth, disgrifiodd disgyblion cynradd ac uwchradd ansicrwydd ynghylch beth sy'n digwydd ar ôl codi pryderon. 'Roedd rhai disgyblion hefyd yn ansicr ynghylch sut i gael mynediad at wasanaethau penodol, gan gynnwys gwasanaethau nyrsio ysgol a chwrsela.

Roedd disgyblion yn awyddus i gael gwybodaeth gliriach am gyfrinachedd, llwybrau cyfeirio ar gyfer cymorth a'r gefnogaeth ddilynol sydd ar gael.

Fe ddylai'r eglurder gynnwys esboniadau clir o weithdrefnau diogelu, siartiau llif gweledol, gwasanaethau ysgol, posterï ac atgoffa'n rheolaidd er mwyn helpu disgyblion i deimlo'n wybodus ac yn dawel eu meddwl wrth gael mynediad i gymorth.

## **8.5 Cefnogaeth i ddisgyblion**

**Argymhelliad 8 – Dylai ysgolion barhau i fuddsoddi mewn mannau llesiant diogel y gall disgyblion eu defnyddio'n hyblyg a heb stigma, ochr yn ochr â chymorth bugeiliol gweladwy sy'n hyrwyddo llesiant emosiynol ac ymyrraeth gynnar.**

'Roedd mannau llesiant megis "Hafan" a "Noddfa" yn cael eu gweld yn hynod gadarnhaol gan ddisgyblion ac yn ymddangos fel ffynonellau pwysig o gymorth emosiynol ataliol.

Yn y grwpiau ffocws oed cynradd, roedd disgyblion yn cyfeirio'n gyson at oedolion dibynadwy, athrawon, yr Hafan, posterï, blychau pryder, blychau rhannu a "bwystfilod pryder" fel ffyrdd o godi pryderon. Roedd plant yn gwerthfawrogi'r dulliau hyn oherwydd eu bod yn cynnig preifatrwydd, dewis a hyblygrwydd, yn enwedig i ddisgyblion a allai deimlo embaras neu'n bryderus am siarad yn uchel. Esboniodd nifer o ddisgyblion y gall ysgrifennu pryderon i lawr deimlo'n haws oherwydd "does dim rhaid i bawb wybod."

Yn y grwpiau ffocws oed uwchradd, roedd disgyblion yn gweld y manau hyn fel cymorth ataliol yn hytrach nag ymyriadau argyfwng yn unig. Pwysleisiodd pobl ifanc dro ar ôl tro y gall pob disgybl fod angen cymorth emosiynol ar adegau gwahanol a mynegwyd pryder na ddylai mynediad at gymorth cael ei gyfyngu na'i stigmatiddio.

Bydd parhau i fuddsoddi yn y manau llesiant a'r cymorth bugeiliol mewn ysgolion yn cynyddu ymddiriedaeth disgyblion a'u parodrwydd i godi unrhyw bryder.

**Argymhelliad 9 – Dylai ysgolion barhau i gryfhau dulliau diogelu sy'n seiliedig ar berthnasoedd, gan sicrhau bod pob disgybl yn cael mynediad at oedolion dibynadwy sy'n weladwy, yn hawdd mynd atynt ac yn ymatebol i'w hanghenion.**

Ar draws ysgolion cynradd ac uwchradd, roedd disgyblion yn gyson yn gwerthfawrogi oedolion hawdd mynd atynt, gofalgar a theg, ffynonellau cymorth gweledol ac amgylchedd lle'r oeddent yn teimlo eu bod yn cael eu gwrando arnynt, eu parchu a'u cynnwys.

Amlygodd canfyddiadau'r gwaith llais disgyblion fod plant a phobl ifanc yn profi diogelu yn bennaf drwy berthnasoedd a rhyngweithiadau bob dydd gydag oedolion.

Dylai hyfforddiant staff barhau i atgyfnerthu pwysigrwydd cymorth perthynol ar draws pob rôl yn yr ysgol, nid yn unig o fewn timau diogelu dynodedig.

Bydd parhau i gryfhau dulliau diogelu sy'n seiliedig ar berthnasoedd a sicrhau bod pob disgybl yn cael mynediad at oedolion dibynadwy yn cryfhau ymdeimlad disgyblion o allu siarad gyda staff yn agored am unrhyw beth sydd yn eu poeni. Mae diwylliant agored a chynhwysol yn hynod bwysig er mwyn sicrhau bod trefniadau diogelu yn cael eu gweithredu yn effeithiol.

**Argymhelliad 10 – Dylai ysgolion, lle mae'n briodol, barhau i gryfhau dulliau cymorth gan gyfoedion a darparu canllawiau cliriach ynghylch cyfrinachedd, ffiniau a phryd y mae angen cymorth gan oedolion cymwys.**

Yn y grwpiau ffocws, dangosodd disgyblion empathi cryf a pharodrwydd i gefnogi eu cyfoedion, ond roedd rhywfaint o ansicrwydd yn parhau ynghylch sut i ymateb yn briodol pan fydd ffrindiau yn datgelu pryderon neu ofidiau.

Lle mae'n briodol, dylid parhau i gryfhau dulliau cymorth gan gyfoedion. Gallai hyn gynnwys mentora gan gyfoedion, llysgenhadon llesiant neu drafodaethau strwythuredig ynghylch ymddygiadau ceisio cymorth priodol.

Dylid darparu canllawiau cliriach ynghylch cyfrinachedd, ffiniau a phryd y mae angen cymorth gan oedolion cymwys fel bod disgyblion yn glir o'r angen i dderbyn cymorth gan oedolion cymwys mewn achosion diogelu.

## **8.6 Llais Disgyblion**

**Argymhelliad 11 - Dylai ysgolion gryfhau mecanweithiau gwranddo ar lais y disgybl wrth ddatblygu a monitro trefniadau diogelu drwy ddulliau megis cynghorau ysgol, grwpiau llesiant, arolygon disgyblion ac ymarferion ymgynghori rheolaidd.**

Gwelwyd o'r grwpiau ffocws bod plant a phobl ifanc yn gwerthfawrogi cyfleoedd i ddylanwadu ar ddatblygiad trefniadau diogelu.

Dylai diogelu fod yn eitem i'w drafod yng nghyfarfodydd Cyngor Ysgol a chyfarfodydd eraill gan sicrhau fod yr eitem yn addas i'r oedran a'r gallu.

Byddai defnyddio gwahanol ddulliau eraill hefyd megis arolygon disgyblion ac ymarferion ymgynghori rheolaidd yn sicrhau bod llais disgyblion yn rhan greiddiol o ddatblygu a chryfhau trefniadau diogelu mewn ysgolion. Dylid rhoi sylw arbennig i sicrhau bod disgyblion yn deall sut mae eu barn yn cyfrannu at newid a gwelliannau o fewn ysgolion.

## **8.7 Adolygu Trefniadau Diogelu**

**Argymhelliad 12 - Dylai ysgolion a'r Adran Addysg barhau i gynnal adolygiadau rheolaidd o drefniadau diogelu mewn ysgolion sy'n cynnwys lleisiau plant a phobl ifanc o bob oed a gallu.**

Dylid cynnal adolygiadau rheolaidd o drefniadau diogelu sy'n cynnwys lleisiau plant a phobl ifanc yn weithredol fel rhan o drefniadau sicrhau ansawdd a gwella gwasanaethau parhaus.

Dylai adolygiadau yn y dyfodol gynnwys disgyblion o bob grŵp oedran, gan gynnwys Blynyddoedd 10 -13, gan nad oedd eu safbwyntiau wedi'u cynnwys yn y gwaith llais disgyblion oherwydd ymrwymadau arholiadau. Bydd hyn yn cryfhau dealltwriaeth o anghenion diogelu ar draws yr ystod oedran addysgol cyfan.

Ochr yn ochr â hyn, mae angen datblygu ffordd o fesur effaith newidiadau i systemau ac i fesur a gwerthuso'r trefniadau diogelu mewn ysgol. Cyfeiriodd ysgolion at yr Awdit Trefniadau Diogelu sydd yn cael eu cynnal gan y Tîm Diogelu a Lles Addysg. Nodwyd gwerthfawrogiad o'r awdit ac ystyriwyd ei fod yn hynod werthfawr gyda modd ymateb i ganfyddiadau'r awdit er mwyn cryfhau trefniadau diogelu yn yr ysgolion. Pwysleisir yr angen i adolygu newidiadau i drefniadau diogelu mewn ysgolion gan ddysgu gwersi ac addasu i wella trefniadau ymhellach. Byddai llunio mesuryddion perfformiad penodol er mwyn galluogi sicrhau cynnydd a gwerthuso trefniadau yn ychwanegiad cadarnhaol.

**Argymhelliad 13 – Dylai ysgolion a'r Adran Addysg fonitro unrhyw batrymau risg a dysgu gwersi fel rhan o'r monitro diogelu rheolaidd. Dylid sicrhau fod y gwersi a ddysgir yn cael eu rhannu ar draws ysgolion a gwasanaethau perthnasol.**

Dylai timau rheoli, cyfarfodydd staff a chorff Llywodraethol pob ysgol fod yn monitro diogelu'n gyson gan nodi strwythur cadarn i fod yn gwneud hyn (e.e. eitem benodol ar raglen cyfarfod).

Bu i aelodau'r ymchwiliad glywed am esiamplau o arfer da yn yr ymweliadau i'r ysgolion. Er enghraifft, materion diogelu yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd staff wythnosol. Nodwyd bod trefniadau cadarn yn yr ysgolion uwchradd gyda'r Tîm Diogelu yn trafod pryderon (newydd a rhai sy'n parhau) gan roi cynllun mewn lle o ran camau i'w cymryd mewn ymateb i'r pryder.

O ran Llywodraethwyr, nodwyd bod materion yn ymwneud â diogelu yn cael sylw ym mhob cyfarfod llawn o'r corff llywodraethol. 'Roedd diogelu yn eitem benodol ar y rhaglen gan rhai ac eraill ddim.

Dylai diogelu fod yn eitem benodol ar raglenni cyfarfodydd tîm rheoli'r ysgol, cyfarfodydd staff a chyrrff llywodraethol yn rheolaidd. Dylid monitro unrhyw batrymau risg a dysgu gwersi.

Dylai Llywodraethwyr dderbyn gwybodaeth am dueddiadau, gwybodaeth am y nifer o gyfeiriadau Rhan 5, Gweithdrefnau Diogelu Cymru (addasrwydd unigolyn i weithio gyda phlant) a gwybodaeth am y gwersi a ddysgwyd.

Dylid rhoi sylw penodol i adnabod pryderon sy'n ailadrodd neu sy'n ymddangos yn fychan ar eu pennau eu hunain ond sydd, gyda'i gilydd, yn gallu dynodi risg sylweddol.

Mae rôl hefyd i'r Adran Addysg fonitro patrymau a dysgu gwersi gan roi trosolwg ac ystyried themâu o faterion yn codi yn yr ysgolion. Dylid sicrhau fod y gwersi a ddysgir yn cael eu rhannu ar draws ysgolion a gwasanaethau perthnasol.

## 8.9 Rhannu Gwybodaeth, Cofnodi Materion Diogelu a Systemau

**Argymhelliad 14 - Dylai pob ysgol yng Ngwynedd fod yn gweithredu ar y system cofnodi (BromCom) sydd yn cael ei hariannu gan yr Adran Addysg i gofnodi materion diogelu am blentyn. Rhaid sicrhau fod y wybodaeth yn cael ei fwydo i'r system yn ddiodyn a bod gwybodaeth angenrheidiol yn cael ei rannu yn rhwydd ac amserol gyda swyddogion proffesiynol perthnasol (gan gynnwys Gwasanaethau Cymdeithasol).**

Ar adeg yr ymweliadau i'r ysgolion sampl, roedd 9 ysgol gyda system electroneg i gofnodi pryder, 1 ysgol gynradd gyda system electroneg a ffurflenni papur (yn sganio'r ffurflenni i'r system) ac 1 ysgol gynradd gyda system ffeilio papur.

Roedd 8 ysgol yn defnyddio *MyConcern* gan gynnwys ysgol uwchradd sydd yn ei ddefnyddio a'r system *Provision Map* yn ogystal. Un ysgol uwchradd yn defnyddio Microsoft Forms a'r ysgol uwchradd arall yn defnyddio ClassChart a'r 'Meetings Log' yn system *Provision Map* (y ddwy system yn siarad efo'i gilydd).

Byddai un system sydd yn hwyluso rhannu gwybodaeth yn rhwydd gyda swyddogion proffesiynol perthnasol yn gwella effeithlonrwydd trefniadau diogelu. Dylai pob ysgol yng Ngwynedd fod yn gweithredu ar y system cofnodi (Bromcom) sydd yn cael ei hariannu gan yr Adran Addysg i gofnodi materion diogelu am blentyn.

Nodir bod rhaid sicrhau fod y wybodaeth yn cael ei fwydo i'r system yn ddiodyn a bod gwybodaeth angenrheidiol yn cael ei rannu yn rhwydd ac amserol gyda swyddogion proffesiynol perthnasol (gan gynnwys Gwasanaethau Cymdeithasol).

Pwysleisir pwysigrwydd sicrhau fod cronoleg digwyddiadau'n cael eu cofnodi, ynghyd â'r rhesymeg dros benderfyniadau.

**Argymhelliad 15 - Bod 1 ffurflen gwybodaeth electroneg graidd yn cael ei datblygu, sy'n tynnu gwybodaeth o'r holl systemau er mwyn rhannu gwybodaeth angenrheidiol rhwng ysgolion a hynny'n amserol.**

Nodwyd sylwadau yn yr ysgolion uwchradd a'r ysgol ddilynol yn gysylltiedig â disgyblion sydd yn trosglwyddo o ysgol neu ardal cyngor arall. Nodwyd fod y wybodaeth yn araf yn cyrraedd ysgolion. Cyfeiriwyd yn ogystal at effeithlonrwydd trosglwyddo gwybodaeth o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Nodwyd oherwydd systemau gwahanol nid oedd yn bosib trosglwyddo'r wybodaeth yn awtomatig.

Yn ogystal, codwyd pryder am sicrhau gwybodaeth am blant oedd yn parhau yn ddisgyblion mewn ysgol yng Ngwynedd ond oedd wedi gorfod ffoi dros dro ar sail eu diogelwch i ardal cyngor arall. Roedd sicrhau gwybodaeth gyfredol amdanynt yn her.

O ystyried enghreifftiau pan fo disgybl yn symud o sir i sir arall, gan gynnwys y tu allan i Gymru hefyd. Gyda'r cyfrifoldeb i sicrhau gwybodaeth am unigolyn/plentyn sydd yn trosglwyddo yn disgyn ar yr ysgol i ofyn i ysgolion/cynghorau eraill am y wybodaeth.

Dylai'r Cyngor ymgynghori gyda chynghorau cyfagos a dod i gytundeb ynghylch pryd a pham mae gwybodaeth yn cael ei rannu. Dylai'r trafodaethau gynnwys siroedd y Gogledd yn ogystal â Cheredigion a Phowys.

Amlygir o waith yr ymchwiliad, pwysigrwydd cydweithio ar draws ffiniau er mwyn sicrhau trefniadau diogelu cadarn.

Mae'r argymhelliad yma yn seiliedig ar ymarfer da o Geredigion, lle mae 1 ffurflen gwybodaeth electroneg wedi ei ddatblygu.

**Argymhelliad 16 - Galw ar Lywodraeth Cymru i ariannu un system i holl ysgolion Cymru i sicrhau fod gwybodaeth am faterion diogelu yn trosglwyddo yn rhwydd gyda phlant a phobl ifanc wrth iddynt symud o ysgol i ysgol.**

Mae aelodau'r ymchwiliad yn cydnabod bod hawl gan bob ysgol unigol i brynu system o'u dewis. Er hyn, credir y dylid galw ar Lywodraeth Cymru i ariannu un system i holl ysgolion Cymru.

Byddai buddsoddi yn y system BromCom ar draws Cymru yn hwyluso trosglwyddo gwybodaeth pan fo plant a phobl ifanc yn symud o ysgol i ysgol.

Nodir bod Llywodraeth Gogledd Iwerddon wedi ariannu'r system yma ar gyfer yr holl ysgolion yng Ngogledd Iwerddon.

Byddai defnyddio un system yn genedlaethol yn cryfhau trefniadau diogelu mewn ysgolion ac yn fodd o sicrhau bod gwybodaeth am faterion diogelu yn trosglwyddo yn rhwydd gyda phlant a phobl ifanc wrth iddynt symud o ysgol i ysgol.

**Argymhelliad 17 - Galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu system ffurfiol i gofnodi a monitro patrymau o ymddygiad amheus, sydd ddim yn cyrraedd y trothwy cyfeirio fel bod Gwasanaethau Cymdeithasol yn gallu ystyried addasrwydd unigolyn i weithio gyda phlant.**

Bu i aelodau'r ymchwiliad drafod gyda swyddogion o'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd o ran senario lle'r oedd cwyn yn cael ei wneud am yr un unigolyn (oedolyn) dro ar ôl tro er nad oedd achos yn cyrraedd y trothwy. Esboniwyd y byddai cofnod yn cael ei gadw os oedd cwyn am unigolyn mewn safle o ymddiriedaeth, gyda herio'n digwydd ar bob cyfeiriad sy'n cyrraedd y Tîm Derbyn cyn dod i benderfyniad. Os nad oes camau pellach neu fod y cyflogwr yn delio gyda'r mater, yna bydd cofnod yn cael ei wneud am yr oedolyn ar system System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS). Gellir ystyried os oes patrwm yn codi bryd hynny.

Byddai ffurfioli trefniadau i gofnodi a monitro patrymau o ymddygiad amheus, sydd ddim yn cyrraedd y trothwy cyfeirio i fonitro patrymau ar lefel cenedlaethol, fel bod Gwasanaethau Cymdeithasol yn gallu ystyried addasrwydd unigolyn i weithio gyda phlant, yn cryfhau trefniadau diogelu ac yn lleihau risg. Gan arwain at ystyried addasrwydd unigolyn i weithio gyda phlant mewn ffordd ystyrlon a gwybodus.

## 8.10 Cynyddu Dealltwriaeth Rhieni a'u cynnwys yn Nhrefniadau Diogelu

**Argymhelliad 18 - Bod yr Adran Addysg yn datblygu trefn gyson ar sut y gall ysgolion egluro prosesau diogelu i rieni a sut i'w cynnwys yn y trefniadau diogelu.**

Byddai datblygu trefn gyson ar sut y gall ysgolion egluro prosesau diogelu i rieni a sut i'w cynnwys yn y trefniadau diogelu fod yn hynod werthfawr er mwyn sicrhau bod gan rieni ffydd yn y trefniadau diogelu mewn ysgolion ac yn teimlo'n rhan o'r broses.

Gwelwyd yn yr ymweliadau i'r ysgolion bod cyfathrebu yng nghyswllt materion diogelu yn amrywio o ysgol i ysgol. Gwybodaeth wedi ei gynnwys yn llawlyfr yr ysgol, gwefan yr ysgol, y polisi diogelu, cylchlythyrau, e-byst, negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol a hysbysu unrhyw gymorth ychwanegol e.e. cefnogi teuluoedd.

Dylai'r ysgolion a'r Adran Addysg sicrhau fod Polisiâu Diogelu a Chwynion ynghyd â Llawlyfr yr ysgol ar wefannau'r ysgolion.

Mae lle i wella a datblygu cyfathrebu gyda rhieni ar draws y sir. Cyfeiriodd yr ysgolion uwchradd at holiadur diogelu yn cael ei anfon at rieni. Roedd yn gyfle i rieni nodi os yw eu plentyn yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, unrhyw bryderon ac os yn fodlon gyda sut mae'r ysgol wedi ymateb i bryderon.

Nodwyd gan un ysgol gynradd eu bod yn gwahodd rhieni i'r ysgol unwaith y flwyddyn i drafod pwysigrwydd materion diogelu e.e. diogelwch ar y we ayyb gan ddefnyddio gwybodaeth gyfredol e.e. defnyddio'r ffilm 'Adolescence'. Gallai hyn fod yn rhywbeth i ysgolion ystyried ei wneud os yn ymarferol, yn ddibynnol ar faint yr ysgol.

Nododd un ysgol uwchradd eu bod wedi adnabod bod ymgysylltu gyda rhieni yn rhywbeth efallai sydd angen ei ddatblygu. Nodwyd y bwriad i edrych ar wella gwefan yr ysgol gan roi mwy o wybodaeth diogelu yno a rhoi botwm 'Adrodd ar broblem' ar gyfer materion diogelu fel sydd eisoes ar gael ar gyfer bwlio.

Mae angen egluro wrth rieni sut mae'r prosesau diogelu'n gweithio a beth yw hawliau plant a rhieni o fewn y prosesau hynny, gan gyfleu'r neges mewn modd hawdd i'w ddeall.

## 8.11 Gwelededd Gwybodaeth Diogelu mewn ysgolion

**Argymhelliad 19 - Bod pob ysgol yn addasu eu lanyards i staff, i gynnwys (ar y cefn) y wybodaeth angenrheidiol ar gyfer cysylltu gyda'r Tîm Derbyn a rhif ffôn y Person Diogelu Dynodedig fel ei fod yn hawdd i staff gael y rhifau ffôn perthnasol yn syth.**

Roedd esiamplau o ysgolion yn cynnwys y wybodaeth angenrheidiol ar gyfer cysylltu gyda'r Tîm Derbyn a rhif ffôn y Person Diogelu Dynodedig ar gefn cerdyn adnabod staff a/neu ymwelwyr.

Mae gwneud hyn yn arfer da gan ei wneud yn hawdd i staff gael y rhifau ffôn perthnasol yn syth. Argymhellir bod pob ysgol yng Ngwynedd yn addasu eu lanyards i staff yn yr un modd.

**Argymhelliad 20 - Bod pob ysgol yn llunio posteri clir ac addas at oedran a gallu, gan gynnwys lluniau'r Person Diogelu Dynodedig a'r Llywodraethwr Diogelu Dynodedig hefyd, a'u lleoli mewn mannau addas.**

Yn ystod yr ymweliadau gwelwyd posteri diogelu ar lefel gywir a phriodol i'r plant gyda'r ieithwedd yn syml a phriodol ac yn cynnwys lluniau, a phosteri gwahanol i'r staff yn cynnwys mwy o fanylion mewn pum ysgol gynradd a'r ysgol arbennig. O ran yr ysgol arbennig, mae aelodau'r ymchwiliad yn cydnabod ei fod yn anodd cael posteri addas ar gyfer bob disgybl.

Gwelwyd er bod gwybodaeth diogelu yn cael ei arddangos yn yr ysgolion, nid oeddent ar bob achlysur ar lefel llygaid y disgyblion ieuengaf.

Roedd pob ysgol yn cynnwys lluniau personau diogelu dynodedig yr ysgol heblaw am un ysgol uwchradd. Bu'r ysgol yn rhoi lluniau yn y gorffennol ond wedi derbyn arweiniad i dynnu'r lluniau o'r poster. Templed diweddaraf a dderbyniwyd gan yr Adran Addysg gyda lle i roi lluniau ond wedi penderfynu peidio gwneud.

Byddai cefnogaeth gan yr Adran Addysg i'r ysgolion o ran llunio posteri clir ac addas at oedran a gallu yn fanteisiol. Dylid cynnwys lluniau'r Person Diogelu Dynodedig a'r Llywodraethwr Diogelu Dynodedig ar bosteri, a'u bod wedi eu lleoli mewn mannau

addas. Pwysleisir bod angen sicrhau bod posteri yn blentyn gyfeillgar ac yn hygyrch ac addas i ddisgyblion gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

**Argymhelliad 21 - Bod ysgolion yn creu gofod penodol i arddangos gwybodaeth diogelu gyda mewnbwn gan ddisgyblion gan gynnwys lleoli blwch lle gall disgyblion godi pryder.**

Bu i aelodau'r ymchwiliad weld esiamplau o waliau diogelu yn yr ysgolion cynradd gyda mewnbwn gan y disgyblion e.e. disgyblion wedi creu posteri sy'n nodi pwy sy'n gallu eu helpu, gwybodaeth am hawliau, gwybodaeth NSPCC.

Gwelwyd enghreifftiau o flychau megis '*worry monster*' lle gallai disgyblion sgwennu ar ddarn o bapur eu henw a beth sydd yn eu poeni, blychau siarad yn y dosbarth i ddisgyblion roi nodyn os eisiau codi pryder/siarad, blwch postio tu allan i'r Hafan "Hoffwn i fy athro wybod".

Mae'r gwaith llais disgyblion wedi dangos bod disgyblion yn gwerthfawrogi defnydd o flychau i godi pryder. Byddai gofod penodol i arddangos gwybodaeth diogelu a lleoli blwch lle gall disgyblion godi pryder ym mhob ysgol yn sicrhau bod disgyblion yn cael mewnbwn penodol ac yn cael cyfle i nodi pryder ar bapur os nad ydynt yn ddigon cyfforddus i godi'r mater ar lafar.

## **8.12 Cyrff Llywodraethu Ysgolion ac Atebolrwydd Penaethiaid Ysgolion**

**Argymhelliad 22 – Argymell i Lywodraeth Cymru fod angen adolygu rôl Corff Llywodraethu Ysgolion, a rheolaeth llinell (atebolrwydd) Penaethiaid Ysgolion.**

Ym mis Hydref 2025, cyhoeddodd Lynne Neagle AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, bod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o gyrff llywodraethu ysgolion yng Nghymru. Sefydlwyd grŵp cyfeirio sy'n gynrychioliadol o'r sector ysgolion i lywio'r adolygiad. Y nod oedd cyflwyno'r opsiynau ymarferol sy'n deillio o'r gwaith hwn i'r Gweinidogion o fewn blwyddyn.<sup>3</sup>

---

<sup>3</sup> Llywodraeth Cymru, *Datganiad Ysgrifenedig: Adolygiad o gyrff llywodraethu ysgolion* (Hydref 2025) - <https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-adolygiad-o-gyrff-llywodraethu-ysgolion>

Yn dilyn Etholiad y Senedd a gynhaliwyd ar y 7fed o Fai 2026, mae Llywodraeth newydd mewn grym. O ystyried y dystiolaeth a ystyriwyd fel rhan o'r ymchwiliad craffu a'r pwysau a chyfrifoldeb ar lywodraethwyr sy'n lleygwyr, credir bod angen pwysleisio'r angen i adolygu rôl Corff Llywodraethu Ysgolion. Argymhellir hefyd bod angen ystyried rheolaeth llinell (atebolrwydd) Penaethiaid Ysgolion gan gynnwys y berthynas gyda'r Adran Addysg er mwyn sicrhau fwy o gysondeb ar weithredu ar draws ysgolion.

## **9. Casgliad**

- 9.1** Mae aelodau'r ymchwiliad yn gwerthfawrogi'n fawr yr amser, y gonestrwydd a'r ymrwymiad a ddangoswyd gan bawb a gyfrannodd dystiolaeth yn ystod yr ymchwiliad. Roedd y trafodaethau agored gyda staff, llywodraethwyr, swyddogion ac arbenigwyr, ynghyd â mewnbwn uniongyrchol gan blant a phobl ifanc, yn allweddol i lunio'r adroddiad hwn. Cafwyd budd o'r trafodaethau a oedd yn dangos gweithrediad trefniadau diogelu mewn ysgolion.
- 9.2** Daeth yr ymchwiliad i'r casgliad bod llawer o arfer da eisoes yn bodoli yn ysgolion Gwynedd, gyda staff a llywodraethwyr yn dangos ymrwymiad cryf i ddiogelwch a lles plant. Ar yr un pryd, nodwyd cyfleoedd i gryfhau trefniadau ymhellach drwy wella cysondeb, rhannu gwybodaeth, datblygu hyfforddiant, cefnogi llywodraethwyr ac adnabod patrymau risg yn gynnar. Mae aelodau'r ymchwiliad yn gobeithio y bydd yr argymhellion yn cyfrannu at adeiladu ar y diwylliant a welwyd yn yr ysgolion lle mae pob pryder yn cael ei gymryd o ddifri, gan ddysgu'n barhaus a bod pob plentyn yn gwybod ble i droi am gymorth er mwyn sicrhau'r safonau uchaf posibl o ddiogelu.

# CYDNABYDDIAETH

Mae aelodau'r Ymchwiliad Craffu yn dymuno diolch i'r canlynol wnaeth gyfrannu tystiolaeth a rhoi cefnogaeth werthfawr i'r ymchwiliad:

- Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu, Swyddog Arweiniol yr Ymchwiliad, Adran Gwasanaethau Corfforaethol)
- Vera Jones (Rheolwr Democratiaeth ac Iaith, Swyddog Cefnogol yr Ymchwiliad, Adran Gwasanaethau Corfforaethol)
- Dylan Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol, Cyfarwyddwr Cefnogol yr Ymchwiliad, Tîm Arweinyddiaeth)
- E D Gareth Morgans (Ymgynghorydd Allanol)
- Y Cynghorydd Dewi Jones (Aelod Cabinet Addysg)
- Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Addysg)
- Llion Williams (Arweinydd Diogelu a Llesiant, Adran Addysg)
- Bethan Helen Jones (Swyddog Diogelu a Llesiant Addysg, Adran Addysg)
- Sharron Williams Carter (Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd)
- Elliw Haf Hughes (Pennaeth Cynorthwyol Diogelu ac Ansawdd, Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd)
- Suzanne Gwyn (Swyddog Derbyn Cyfeiriadau, Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd)
- Nia Grisdale (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Tîm Arweinyddiaeth)
- Tony Bate (Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Estyn)
- Penaethiaid, Personau Diogelu Dynodedig (PDD), Dirprwyon Diogelu Dynodedig, Athrawon, Staff Ategol ynghyd â Chadeiryddion a Llywodraethwyr Dynodedig Diogelu yr ysgolion yn y sampl
- Dr Ceryl Teleri Davies, CTD Social Care and Research Consultancy Limited
- Daniel Llŷr Roberts (Cydllynydd Ymgysylltu a Chyfathrebu, Gwasanaeth Ieuencid, Adran Addysg)
- Y disgyblion Cynradd, Uwchradd ac aelodau o'r Fforwm Ieuencid Ysgolion a gymerodd rhan yn y grwpiau ffocws.
- Ian Jones (Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol)
- Sandra Elizabeth Evans (Arweinydd Tîm Ymgynghorydd Adnoddau Dynol)

# ATODIADAU

**Atodiad 1** – Brîff yr Ymchwiliad Craffu

**Atodiad 2** – Rolau/Cyfrifoldebau Diogelu mewn Ysgolion

**Atodiad 3** – Tabled Cyd-destun Ysgolion

**Atodiad 4** – Cwestiynau cyn ymweliad

**Atodiad 5** – Cwestiynau a ofynnwyd yn yr ymweliadau

**Atodiad 6** – Rhestr Wirio - Amgylchedd a Diwylliant Diogelu Ysgolion

**Atodiad 7** – Cyflwyniad Gwaith Llais Disgyblion

## BRÏFF YMCHWILIAD CRAFFU – TREFNIADAU DIOGELU MEWN YSGOLION

A	<p><u>Beth yw'r mater sy'n cael ei ystyried?</u></p> <p>Ychwanegwyd yr eitem 'Trefniadau Diogelu mewn Ysgolion' fel eitem ychwanegol i raglen waith blynyddol y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar ôl y gweithdy blynyddol ar gais yr aelodau craffu.</p> <p>Craffwyd y trefniadau yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 18 Gorffennaf 2024. Cafwyd trafodaeth anffurfiol ar ôl y cyfarfod o ran y posibilrwydd o gynnal Grŵp Tasg a Gorffen neu Ymchwiliad Craffu i'r maes. Daethpwyd i'r casgliad y dylid cynnal trafodaeth bellach yng nghyfarfod anffurfiol y Pwyllgor ar 5 Medi 2024 lle mynegwyd pryder gan yr aelodau oedd yn bresennol ynghylch gweithredu'r trefniadau diogelu o fewn ein ysgolion.</p> <p>Mae'r Cabinet wedi cymeradwyo a mabwysiadu 'Cynllun Ymateb i Droseddu' yn ei gyfarfod ar 21 Ionawr 2025, sy'n cynnwys ymchwiliadau a gwaith pellach i sicrhau trefniadau diogelu, ymysg amcanion eraill. Mae'r cynllun ymateb yn edrych yn eang ar nifer o wahanol feysydd, ac mae'r ymchwiliad craffu – trefniadau diogelu mewn ysgolion wedi ei gynnwys fel un o'r ffrydiau gwaith yn y Cynllun. Mae'r ymchwiliad yn edrych ar drefniadau diogelu cyfredol mewn ysgolion.</p> <p>Yn ogystal, yn dilyn trafodaethau cadarnhaol rhwng y Comisiynydd Plant, swyddogion ac Aelodau Cabinet yn Tachwedd, a chyfarfod pellach rhwng y Prif Weithredwr a'r Comisiynydd ar y 9fed o Ragfyr, gwahoddwyd y Comisiynydd i roi mewnbwn i'r Cynllun Ymateb a chynnig i'w swyddogion fod yn rhan o'r drefn i fonitro cynnydd ar y gwahanol ffrydiau gwaith. Mae'r drafodaeth honno'n parhau ac yn drafodaeth gadarnhaol iawn.</p>
B	<p><u>Nod yr Ymchwiliad</u></p> <p>Y prif gwestiwn i'w gyfarch fydd:</p> <p><b>'A yw trefniadau diogelu yn ysgolion y sir yn briodol ac yn cael eu gweithredu'n gyson?'</b></p> <p>Bwriedir gwneud hyn trwy ofyn y cwestiynau allweddol canlynol:</p> <p><u>Gwaith ymchwil a sefydlu ffeithiau:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Beth yw'r gofynion gan gynnwys arweiniad mewn cylchlythyrau a chanllawiau ynghylch 'gofynion diogelu' mewn ysgolion? (<i>Gwasanaethau Cyfreithiol</i>)</li> <li>• Beth yw trefniadau diogelu ar gyfer ysgolion yng Ngwynedd? (<i>Arbenigwyr mewnol y Cyngor ym maes diogelu, Adran Addysg ynghylch polisïau diogelu</i>)</li> <li>• Sut mae'r cydweithio rhwng ysgolion/yr Adran Addysg a'r Adran Plant yn gweithio? (<i>Arbenigwyr mewnol y cyngor – Adran Addysg a'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd + ymatebion holiadur i ysgolion</i>)</li> <li>• Beth yw canfyddiadau/barn Estyn (y rheoleiddwyr yn y maes) ar drefniadau yn ysgolion Gwynedd? (<i>trefniadau'r Awdurdod</i>)</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• A oes esiamplau o ymarfer da yn genedlaethol, a sut y byddai trefniadau diogelu o'r radd flaenaf yn edrych mewn ysgolion? (hy sut y gellir sicrhau trefniadau da).</li> <li>• Beth mae'r ysgolion yn ddweud am eu trefniadau diogelu a'r gefnogaeth gan yr awdurdod – a oes themâu penodol? (<i>canlyniadau holiadur blynyddol gan yr ysgolion</i>)</li> </ul> <p><u>Sampl o ysgolion</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sut mae'r trefniadau yn gweithio yn ymarferol yn yr ysgolion?</li> </ul> <p>Rhoi'r ffocws ar yr ysgolion penodol a ganlyn:  6 ysgol gynradd (o'r 78)  3 ysgol uwchradd (o'r 12)  1 ysgol dilynol (o'r ddwy)  1 ysgol arbennig (o'r ddwy)</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Beth yw canfyddiadau/barn Estyn (y rheoleiddwyr yn y maes) ar drefniadau yn ysgolion Gwynedd? (<i>Trefniadau'r ysgolion o'r sampl</i>)</li> <li>• Beth mae'r ysgolion eu hunain yn ddweud am eu trefniadau diogelu? – (<i>holiadur blynyddol diogelu ysgolion</i>)</li> </ul> <p><u>Ymweliadau:</u></p> <p>Siarad gyda Llywodraethwyr (gan gynnwys y Llywodraethwr dynodedig diogelu), Pennaeth a Staff (gan gynnwys y Swyddog dynodedig diogelu) ym mhob lleoliad.</p>
C	<p><u>Cefndir</u></p> <p>Dogfennau cefndirol</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2020</li> <li>- Arweiniad atodol ar gyfer arolygu Diogelu gan Estyn</li> <li>- Adroddiad Estyn 2023 – am yr awdurdod</li> <li>- Polisi Diogelu Cyngor Gwynedd</li> <li>- Cylch Gorchwyl y Panel Strategol Diogelu a'r Grŵp Gweithredol</li> <li>- Polisi Enghreifftiol Diogelu Plant yn Ysgolion Gwynedd</li> <li>- Adroddiadau/Polisiâu Diogelu ar gyfer yr ysgolion yr ymwelir â hwy</li> <li>- Adroddiadau diweddaraf gan Estyn</li> <li>- Holiadur blynyddol 'diogelu ysgolion'</li> </ul>
CH	<p><u>Casglu Tystiolaeth</u></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Arbenigwr Allanol yn y maes</li> <li>- Arbenigwyr Mewnol y Cyngor yn y maes <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Swyddogion diogelu (Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol, Pennaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd, Tîm Derbyn (Adran Plant), Pennaeth Cynorthwyol Diogelu ac Ansawdd - Adran Plant; Arweinydd Ansawdd Diogelu a Llesiant, Swyddog Diogelu a Llesiant Addysg - Adran Addysg)</li> <li>○ Pennaeth Addysg</li> <li>○ Gwasanaethau Cyfreithiol</li> </ul> </li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Mewn 11 ysgol <ul style="list-style-type: none"> <li>o Llywodraethwyr (Llywodraethwyr cyfrifol/dynodedig am faes diogelu)</li> <li>o Pennaeth</li> <li>o Aelod staff gyda chyfrifoldeb diogelu dynodedig o fewn yr ysgol</li> <li>o Staff</li> </ul> </li> </ul>		
D	<u>Dadansoddiad</u> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Pwysu a mesur tystiolaeth a gasglwyd gan y rhai a gyfwelwyd</li> <li>- Ystyried gwybodaeth ymchwil a gwybodaeth cefndir</li> </ul>		
DD	<u>Llunio'r Adroddiad</u> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Nodi a thystiolaethu'r prif ganfyddiadau</li> <li>- Nodi argymhellion</li> <li>- Trafod a chytuno'r Adroddiad drafft gydag arweinwyr y gwaith o fewn y Cyngor</li> <li>- Cyflwyno'r Adroddiad Terfynol drafft i'r Pwyllgor Craffu am sylwadau a chadarnhad</li> <li>- Cyhoeddi'r Adroddiad Terfynol</li> </ul>		
E	<u>Cynllun Gweithredu</u> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Cabinet/Aelod Cabinet/Adran Addysg i lunio cynllun gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion</li> <li>- Gwahodd yr Aelod Cabinet Addysg a swyddogion i drafod y cynllun gweithredu ar y cyd gyda'r Craffwyr</li> </ul>		
F	<u>Tracio Cynnydd</u> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Diweddariad i alluogi'r craffwyr i asesu cynnydd</li> </ul>		
FF	<u>AMSERLEN</u>		
	Beth	Arwain	Dyddiad
1	Mabwysiadu'r Briff	Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi	13 Chwefror 2025
2	Cyfarfod Cyntaf Aelodau'r Ymchwiliad <ul style="list-style-type: none"> <li>- Cyd-destun – Aelod Cabinet Addysg, Pennaeth Addysg, Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaeth Cyfreithiol</li> <li>- Ystyried sut i glywed llais disgyblion fel rhan o'r ymchwiliad</li> </ul>	Aelodau'r Ymchwiliad a'r Swyddog Arweiniol	10 Mawrth 2025
3	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Cyfarfod i ystyried trefniadau diogelu mewn ysgolion a threfniadau'r Awdurdod</li> <li>- Dewis ysgolion i'w cynnwys yn y sampl</li> </ul>	Aelodau'r Ymchwiliad a'r Swyddog Arweiniol	17 Mawrth 2025
4	Cyfarfod i ystyried: <ul style="list-style-type: none"> <li>- Barn Estyn ar drefniadau'r Awdurdod</li> </ul>	Aelodau'r Ymchwiliad a'r Swyddog Arweiniol	31 Mawrth 2025

	<ul style="list-style-type: none"> <li>- Ymarfer da</li> <li>- Ymatebion ysgolion i gwestiynau am y maes diogelu yn yr holiadur blynyddol gan yr Awdurdod</li> </ul>		
5	Ystyried adroddiadau/gwybodaeth am yr ysgolion yn y sampl a llunio cwestiynau ar eu cyfer	Aelodau'r Ymchwiliad a'r Swyddog Arweiniol	7 Ebrill 2025
6	Ymweld â'r ysgolion (11 ysgol)	Aelodau'r Ymchwiliad a'r Swyddog Arweiniol	Mai / Mehefin / Gorffennaf 2025
7	Cyfarfod i drafod argraffiadau cychwynnol yn dilyn yr ymweliadau	Aelodau'r Ymchwiliad a'r Swyddog Arweiniol	22 Gorffennaf 2025
8	Cyfarfod i drafod yr ymweliadau	Aelodau'r Ymchwiliad a'r Swyddog Arweiniol	10 Medi 2025
9	Trafodaeth gyda swyddogion o'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd	Aelodau'r Ymchwiliad a'r Swyddog Arweiniol	28 Tachwedd 2025
10	Trafodaeth gyda swyddogion o'r Adran Gwasanaethau Corfforaethol	Aelodau'r Ymchwiliad a'r Swyddog Arweiniol	2 Mawrth 2026
11	Penodi darparwr i gyflawni'r gwaith llais disgyblion	Aelodau'r Ymchwiliad a'r Swyddog Arweiniol	Ebrill 2026
12	Trafodaeth gyda swyddogion o'r Adran Addysg	Aelodau'r Ymchwiliad a'r Swyddog Arweiniol	23 Ebrill 2026
13	Cyflwyniad ar waith llais disgyblion	Dr Ceryl Teleri Davies	8 Mehefin 2026
14	Cyfarfod i ystyried gwaith llais disgyblion ac argymhellion drafft	Aelodau'r Ymchwiliad a'r Swyddog Arweiniol	10 Mehefin 2026
15	Dadansoddiad ac Adroddiad drafft	Aelodau'r Ymchwiliad a'r Swyddog Arweiniol	Mehefin 2026
16	Adroddiad Drafft Terfynol <ul style="list-style-type: none"> <li>- Cyfarfod i rannu drafft terfynol adroddiad yr ymchwiliad craffu gyda'r Aelod Cabinet Addysg a'r Pennaeth Addysg yn ogystal â'r Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd a Phennaeth Plant a Chefnogi Teuluoedd</li> </ul>	Aelodau'r Ymchwiliad Swyddog Arweiniol Cyfarwyddwr Corfforaethol	1 Gorffennaf 2026
17	Cyflwyno'r adroddiad drafft i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi	Cadeirydd yr ymchwiliad	14 Gorffennaf 2026

## CYFRIFOLDEBAU RHANDDEILIAID GWAHANOL O RAN DIOGELU PLANT A PHOBL IFANC

### Crynodeb

Yr allwedd i ddiogelu effeithiol mewn ysgol yw cyfathrebu clir, cyfrifoldebau diffiniedig, a hyfforddiant parhaus i'r holl staff. Mae pob unigolyn o fewn cymuned yr ysgol yn chwarae rôl wrth nodi ac adrodd risgiau posibl i ddiogelwch a lles plant, gan gyfrannu at amgylchedd mwy diogel i ddysgwyr.

Mae diogelu plant a phobl ifanc mewn ysgolion yn flaenoriaeth, ac mae rolau amrywiol gyda chyfrifoldebau penodol i sicrhau eu bod yn cael eu hamddiffyn. Mae'r rolau hyn yn cael eu dylanwadu gan ganllawiau cenedlaethol, megis **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**, a gweithdrefnau diogelu lleol.

Isod ceir rhestr o rolau o fewn amgylchedd ysgol, ynghyd â'u cyfrifoldebau o ran diogelu plant a phobl ifanc:

Rôl	Cyfrifoldebau
<b>Pennaeth</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfrifoldeb cyffredinol am ddiogelwch a lles yr holl ddysgwyr a staff.</li> <li>• Cwblhau'r hyfforddiant diogelu angenrheidiol.</li> <li>• Cynnal ffiniau proffesiynol gyda dysgwyr, gan osgoi unrhyw sefyllfaoedd a allai arwain at niwed posibl.</li> <li>• Sicrhau bod polisiau diogelu ar waith a bod staff yn cael eu hyfforddi.</li> <li>• Hyrwyddo diwylliant o ddiogelu a chynhwysiant ledled yr ysgol.</li> <li>• Monitro a gwerthuso effeithiolrwydd trefniadau diogelu.</li> <li>• Cadw cyfrinachedd a chefnogi'r broses ddiogelu.</li> <li>• Sicrhau gwiriadau recriwtio a DBS priodol ar gyfer yr holl staff.</li> <li>• Sicrhau bod y cwricwlwm yn cynnwys addysg a chodi ymwybyddiaeth o ddiogelu.</li> <li>• Sicrhau bod yr holl staff yn derbyn hyfforddiant diogelu priodol.</li> </ul>
<b>Y Person Diogelu Dynodedig</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfrifoldeb arweiniol am ddiogelu yn yr ysgol.</li> <li>• Cwblhau'r hyfforddiant diogelu angenrheidiol.</li> <li>• Sicrhau bod polisiau diogelu'r ysgol yn cael eu dilyn a bod staff yn cael eu hyfforddi.</li> <li>• Cynnal ffiniau proffesiynol gyda dysgwyr, gan osgoi unrhyw sefyllfaoedd a allai arwain at niwed posibl.</li> <li>• Gweithredu fel y prif bwynt cyswllt ar gyfer pryderon diogelu.</li> <li>• Gwnewch atgyfeiriadau at asiantaethau allanol fel Gwasanaethau Cymdeithasol pan fo angen a chadw cofnodion.</li> <li>• Cadw cyfrinachedd a chefnogi'r broses ddiogelu.</li> <li>• Cadw cofnodion cywir o bryderon, camau gweithredu a chanlyniadau diogelu</li> </ul>

<p><b>Dirprwy Berson Diogelu Dynodedig</b> (<i>Os oes un yn bodoli yn ôl Polisi Diogelu'r Ysgol</i>)</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cefnogi'r Person Diogelu Dynodedig a chymryd drosodd eu dyletswyddau yn eu habsenoldeb.</li> <li>• Cwblhau'r hyfforddiant diogelu angenrheidiol.</li> <li>• Cynorthwyo wrth reoli pryderon diogelu a chadw cofnodion.</li> <li>• Cadw cyfrinachedd a chefnogi'r broses ddiogelu.</li> <li>• Cynnal ffiniau proffesiynol gyda dysgwyr, gan osgoi unrhyw sefyllfaoedd a allai arwain at niwed posibl.</li> </ul>
<p><b>Staff Addysgu</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cwblhau'r hyfforddiant diogelu angenrheidiol.</li> <li>• Cynnal ffiniau proffesiynol gyda dysgwyr, gan osgoi unrhyw sefyllfaoedd a allai arwain at niwed posibl.</li> <li>• Adnabod ac adrodd arwyddion o ddiogelu, camdriniaeth, esgeulustod, neu niwed.</li> <li>• Meithrin perthynas agored ac ymddiriedol, lle mae plant yn teimlo'n gyfforddus i rannu unrhyw bryderon neu brofiadau o gamdriniaeth.</li> <li>• Creu amgylchedd diogel i ddysgwyr fyfyrwyr ddatgelu pryderon.</li> <li>• Dilyn gweithdrefnau diogelu ar gyfer adrodd ac ymateb i bryderon.</li> <li>• Cefnogi dysgwyr agored i niwed a sicrhau eu lles.</li> <li>• Cadw cyfrinachedd a chefnogi'r broses ddiogelu.</li> <li>• Dilyn polisiau a gweithdrefnau diogelu'r ysgol bob amser.</li> </ul>
<p><b>Staff Cynorthwyol</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cwblhau'r hyfforddiant diogelu angenrheidiol.</li> <li>• Cynnal ffiniau proffesiynol gyda dysgwyr, gan osgoi unrhyw sefyllfaoedd a allai arwain at niwed posibl.</li> <li>• Meithrin perthynas agored ac ymddiriedol, lle mae plant yn teimlo'n gyfforddus i rannu unrhyw bryderon neu brofiadau o gamdriniaeth.</li> <li>• Adnabod ac adrodd arwyddion o ddiogelu, camdriniaeth, esgeulustod, neu niwed.</li> <li>• Dilyn gweithdrefnau diogelu ar gyfer adrodd ac ymateb i bryderon</li> <li>• Cefnogi dysgwyr agored i niwed a sicrhau eu lles.</li> <li>• Cadw cyfrinachedd a chefnogi'r broses ddiogelu.</li> <li>• Dilyn polisiau a gweithdrefnau diogelu'r ysgol bob amser.</li> </ul>
<p><b>Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cwblhau'r hyfforddiant diogelu angenrheidiol.</li> <li>• Cynnal ffiniau proffesiynol gyda dysgwyr, gan osgoi unrhyw sefyllfaoedd a allai arwain at niwed posibl.</li> <li>• Meithrin perthynas agored ac ymddiriedol, lle mae plant yn teimlo'n gyfforddus i rannu unrhyw bryderon neu brofiadau o gamdriniaeth.</li> <li>• Cefnogi dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig a all fod yn agored i niwed</li> <li>• Gweithio gyda'r Person Diogelu Dynodedig i sicrhau diogelwch dysgwyr ag anghenion ychwanegol</li> <li>• Hyrwyddo arferion diogelu cynhwysol.</li> <li>• Cadw cyfrinachedd a chefnogi'r broses ddiogelu.</li> <li>• Dilyn polisiau a gweithdrefnau diogelu'r ysgol bob amser.</li> </ul>

<b>Llywodraethwyr/ Llywodraethwr Diogelu Dynodedig</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cwblhau'r hyfforddiant diogelu angenrheidiol.</li> <li>• Sicrhau bod gan yr ysgol bolisiau a gweithdrefnau diogelu priodol a chadarn.</li> <li>• Monitro a gwerthuso effeithiolrwydd trefniadau diogelu.</li> <li>• Cefnogi'r Pennaeth i greu a hyrwyddo diwylliant diogelu.</li> <li>• Sicrhau bod yr ysgol yn cydymffurfio â'r holl ofynion diogelu statudol, gan gynnwys recriwtio a gwiriadau DBS.</li> <li>• Sicrhau bod y Pennaeth a'r staff diogelu yn cael eu cefnogi yn eu cyfrifoldebau.</li> <li>• Cynnal ffiniau proffesiynol gyda dysgwyr, gan osgoi unrhyw sefyllfaoedd a allai arwain at niwed posibl.</li> <li>• Dilyn polisiau a gweithdrefnau diogelu'r ysgol bob amser.</li> </ul>
<b>Staff Derbynfa Ysgol / Staff Gweinyddol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cwblhau'r hyfforddiant diogelu angenrheidiol.</li> <li>• Cynnal ffiniau proffesiynol gyda dysgwyr, gan osgoi unrhyw sefyllfaoedd a allai arwain at niwed posibl.</li> <li>• Sicrhau bod protocolau diogelu yn cael eu dilyn ar gyfer ymwelwyr a dysgwyr.</li> <li>• Adrodd am unrhyw bryderon ynghylch diogelwch neu les myfyrwyr.</li> <li>• Cadw cyfrinachedd a chefnogi'r broses ddiogelu.</li> <li>• Dilyn polisiau a gweithdrefnau diogelu'r ysgol bob amser.</li> </ul>
<b>Cwnselydd Ysgol / Ymarferwyr Iechyd Meddwl</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cwblhau'r hyfforddiant diogelu angenrheidiol.</li> <li>• Cynnal ffiniau proffesiynol gyda dysgwyr, gan osgoi unrhyw sefyllfaoedd a allai arwain at niwed posibl.</li> <li>• Darparu cefnogaeth emosiynol i ddysgwyr sy'n wynebu problemau diogelu.</li> <li>• Cyfeirio pryderon at y Person Diogelu Dynodedig wrth gadw cyfrinachedd.</li> <li>• Cyflwyno gweithdai ar iechyd meddwl a lles.</li> <li>• Dilyn polisiau a gweithdrefnau diogelu'r ysgol bob amser.</li> </ul>
<b>Gofalwyr / Staff y Safle</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cwblhau'r hyfforddiant diogelu angenrheidiol.</li> <li>• Cynnal ffiniau proffesiynol gyda dysgwyr, gan osgoi unrhyw sefyllfaoedd a allai arwain at niwed posibl.</li> <li>• Sicrhau bod yr amgylchedd ffisegol yn ddiogel.</li> <li>• Rhoi gwybod am unrhyw weithgaredd amheus neu bryderon diogelwch i'r Person Diogelu Dynodedig.</li> <li>• Monitro'r safle am beryglon neu risgiau i ddysgwyr.</li> <li>• Dilyn polisiau a gweithdrefnau diogelu'r ysgol bob amser.</li> </ul>
<b>Staff Arlwy, Staff Cinio, Staff Clwb Brecwast a Chlybiau Ar-ôl Ysgol</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cwblhau'r hyfforddiant diogelu angenrheidiol.</li> <li>• Cynnal ffiniau proffesiynol gyda dysgwyr, gan osgoi unrhyw sefyllfaoedd a allai arwain at niwed posibl.</li> <li>• Sicrhau diogelwch myfyrwyr yn ystod oriau gofal estynedig.</li> <li>• Bod yn wylidwrs a rhoi gwybod am bryderon diogelu i'r Person Diogelu Dynodedig</li> <li>• Dilyn y polisiau diogelu a chynnal amgylchedd diogel.</li> </ul>

<p><b>Staff Cyflenwi / Gweithwyr</b>  <b>Proffesiynol</b> <i>Allanol (e.e., Swyddogion y Cyngor Sir, Hyfforddwyr Chwaraeon, Siaradwyr Gwadd)</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cwblhau'r hyfforddiant diogelu angenrheidiol.</li> <li>• Cynnal ffiniau proffesiynol gyda dysgwyr, gan osgoi unrhyw sefyllfaoedd a allai arwain at niwed posibl.</li> <li>• Dilyn gweithdrefnau diogelu ac adrodd unrhyw bryderon i'r Person Diogelu Dynodedig</li> <li>• Cynnal ffiniau proffesiynol priodol gyda dysgwyr.</li> <li>• Sicrhau eu bod yn gyfarwydd â pholisïau diogelu'r ysgol</li> <li>• Dilyn polisïau a gweithdrefnau diogelu'r ysgol bob amser.</li> </ul>
<p><b>Gwirfoddolwyr</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cadw at bolisïau diogelu'r ysgol ac adrodd pryderon.</li> <li>• Cynnal ffiniau proffesiynol priodol gyda dysgwyr.</li> <li>• Cwblhau'r hyfforddiant diogelu angenrheidiol.</li> <li>• Dilyn polisïau a gweithdrefnau diogelu'r ysgol bob amser.</li> </ul>
<p><b>Dysgwyr</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Adrodd ar unrhyw arwyddion o gamdriniaeth, bwlio, neu esgeulustod sy'n ymwneud â nhw eu hunain neu eraill i oedolyn dibynadwy</li> <li>• Trin eraill gyda pharch, anrhydeddu ffiniau personol, preifatrwydd, a hyrwyddo perthnasoedd iach, diogel.</li> <li>• Gofyn am help os ydynt yn teimlo'n anniogel, yn ofidus, neu'n profi anawsterau, ac annog cyfoedion i geisio help</li> <li>• Cadw at bolisïau diogelu'r ysgol ac ymddwyn yn gyfrifol.</li> </ul>
<p><b>Rhieni/Gofalwyr</b></p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Sicrhau bod eu cartref a'u hamgylchedd yn ddiogel, ac yn amddiffyn plant rhag niwed a chamdriniaeth.</li> <li>• Bod yn sylwgar i arwyddion o drallod, bwlio, neu newidiadau mewn ymddygiad, a mynd i'r afael ag unrhyw bryderon yn brydlon.</li> <li>• Addysgu eu plant am ddiogelwch personol, ffiniau, a sut i geisio help os ydyn nhw'n teimlo'n anniogel, ar-lein ac all-lein.</li> <li>• Meithrin perthynas agored ac ymddiriedol, lle mae plant yn teimlo'n gyfforddus i rannu unrhyw bryderon neu brofiadau o gamdriniaeth.</li> <li>• Os yn ymwybodol o faterion diogelu, rhoi gwybod am y pryderon i'r awdurdodau perthnasol neu arweinydd diogelu'r ysgol i sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd.</li> <li>• Gweithio gydag ysgolion i gefnogi ac atgyfnerthu arferion diogelu, mynychu cyfarfodydd a chefnogi lles eu plentyn yn amgylchedd yr ysgol.</li> </ul>

<b>Y Cyngor Sir</b>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Sicrhau bod ysgolion a darparwyr addysg yn cydymffurfio â deddfau, polisïau a gweithdrefnau diogelu.</li><li>• Goruchwylio datblygiad polisïau diogelu drafft a'u gweithredu ar draws ysgolion a lleoliadau addysgol.</li><li>• Darparu arweiniad a chefnogaeth i'r Personau Diogelu Dynodedig mewn ysgolion a lleoliadau addysgol eraill.</li><li>• Sicrhau bod yr holl staff addysg yn derbyn hyfforddiant diogelu priodol sy'n cael eu diweddarau'n rheolaidd.</li><li>• Gweithio gyda byrddau diogelu lleol, gwasanaethau cymdeithasol, ac asiantaethau eraill i fynd i'r afael â phryderon diogelu.</li><li>• Monitro effeithiolrwydd trefniadau diogelu mewn ysgolion a sicrhau bod unrhyw faterion yn cael eu trin yn briodol.</li><li>• Dal ysgolion i gyfrif am eu harferion diogelu ac ymyrryd lle bo angen i amddiffyn plant a phobl ifanc.</li><li>• Hyrwyddo diwylliant o ddiogelu ar draws yr holl wasanaethau addysgol, gan sicrhau bod diogelwch a lles plant yn cael eu blaenoriaethu.</li></ul>
---------------------	---

## TAFLEN CYD-DESTUN YR YSGOL

Enw a chyfeiriad yr ysgol	
Rhif ffôn yr ysgol	
Enw'r Pennaeth	
Enw Cadeirydd y Llywodraethwyr	
Enw'r Llywodraethwr Diogelu	
Enw'r Person/au Diogelu Dynodedig	

Nifer dysgwyr	
Canran cinio am ddim	
Canran ADY	
Presenoldeb	
Gwaharddiadau - data 3 mlynedd	gan gynnwys gwybodaeth am yr amser roedd disgybl wedi ei wahardd tra'n disgwyl penderfyniad gan Banel Apêl
Nifer o athrawon	
Nifer staff cynorthwyol	

### Gwybodaeth berthnasol o adroddiad diweddaraf Estyn –

Dolen at yr adroddiad -

# CWESTIYNAU CYN YMWELIAD

## HUNAN ARFARNU

<p>Pa mor aml ydych chi'n cynnal Adolygiadau/Hunan Arfarniad o ran eich systemau Diogelu?</p>	
<p>Pa mor aml y mae polisiâu diogelu yn cael eu hadolygu a'u diweddarau?</p>	
<p>Sut ydych chi yn sicrhau bod diogelu yn flaenoriaeth ar draws pob lefel o arweinyddiaeth a llywodraethu?</p>	
<p>Sut mae'r ysgol yn sicrhau bod diogelu yn parhau i fod yn ffocws allweddol mewn cynllunio strategol a gweithrediadau o ddydd i ddydd?</p>	

## GWIRIO ALLANOL

<p>A oes unrhyw wirio allanol yn digwydd o ran eich prosesau a gweithdrefnau diogelu a beth oedd eu canlyniadau?</p> <p>A oedd materion i'w datblygu ymhellach?</p>	
---	--

## HYFFORDDIANT A DEALLTWRIAETH

Allwch chi ddisgrifio sut mae'r ysgol yn olrhain ac yn sicrhau bod yr holl staff wedi derbyn yr hyfforddiant priodol yn unol â <b>Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan</b> ?	
A yw rhanddeiliaid eraill e.e. llywodraethwyr, staff arlwyo wedi derbyn hyfforddiant ar y lefel briodol?	
Sut ydych chi'n sicrhau bod staff newydd yn deall gweithdrefnau diogelu'r ysgol?	

## CODI YMWYBYDDIAETH

<p>A oes cyfleoedd cwricwlaidd yn cael eu defnyddio, sy'n briodol i oedran y dysgwyr am ddiogelu?</p> <ul style="list-style-type: none"><li>○ <i>A oes gwaith ar ddiogelwch personol, diogelwch ar-lein, perthnasoedd iach, iechyd meddwl, hawliau a chyfrifoldebau a sut i geisio help os ydynt yn profi niwed yn cael eu cyflwyno?</i></li><li>○ <i>Sut ydych chi'n mynd ati i sicrhau fod lleisiau dysgwyr yn rhan o'r sgwrs am ddiogelu?</i></li><li>○ <i>Oes gyda chi cynlluniau/arfer dda ar waith y gellir eu rhannu gydag eraill o ran diogelu?</i></li></ul>	
---	--

Pa gamau ydych chi'n eu cymryd i sicrhau bod dysgwyr, staff a rhieni yn gwybod sut i adrodd pryderon diogelu yn gyfrinachol a heb ofni effeithiau?

## MATERION SAFLE/DIOGELU

A oes gennych chi asesiad risg cyfredol o'r safle a threfniadau cadarn o ran diogelwch safle sydd wedi'u deall ac sy'n cael eu gweithredu gan staff a dysgwyr?

- *A ganfuwyd unrhyw ddiffygion yn eich asesiad diweddaraf?*
- *Beth sydd wedi ei wneud/am gael ei wneud mewn ymateb?*

Pa drefniadau sydd gennych mewn lle er mwyn sicrhau diogelwch –

- *ar yr adeg cynhelir clwb brechwast a chlybiau ar ôl ysgol?*
- *pan fo'r gymuned yn defnyddio'r safle tu allan i oriau craidd yr ysgol?*

## RECRIWTIO A RHEOLI STAFF

A yw'r ysgol wedi mabwysiadu Polisiâu a gweithdrefnau Adnoddau Dynol y Cyngor o ran recriwtio a rheoli staff gan gynnwys gweithdrefnau fetio?

Sut ydych chi'n sicrhau bod gweithdrefnau recriwtio diogel ar waith?	
--	--

### **GWEITHIO GYDAG ERAILL**

Sut ydych chi'n gweithio gydag asiantaethau eraill mewn perthynas â phryderon amddiffyn plant? Ble fel Pennaeth allech chi fynd am gefnogaeth?	
--	--

## Cwestiynau - ymweliadau

### Person Diogelu Dynodedig (PDD) neu'r Ail Berson Diogelu Dynodedig os mai'r Pennaeth yw'r PDD

1. Pa mor gadarn yw diogelu yn eich ysgol a sut ydych chi'n gwybod?
  - Beth yw eich cryfderau a'ch pryderon mwyaf? A oes gyda chi ymddiriedaeth yn y system?
2. A oes unrhyw faterion wedi dod i'r amlwg yn dilyn eich adolygiad diweddaraf?
  - Beth oedden nhw a beth ydych chi wedi ei wneud am y materion hynny?
3. Beth yw eich trefniadau o ran cofnodi pryderon diogelu?
  - Sut fyddwch chi'n monitro a sicrhau fod cadw cofnodion o ran materion diogelu yn effeithiol ac o safon? (*dogfennaeth glir, gywir, ac amserol o bryderon, camau a gymerwyd, a phenderfyniadau a wneir, gan sicrhau cyfrinachedd a hygyrchedd*)
  - Lle ydych chi'n cadw'r wybodaeth am bryderon diogelu?
4. Gan ystyried cyfrinachedd, disgrifiwch sut yr ymatebodd yr ysgol yn llwyddiannus i ddigwyddiad diogelu?
5. Sut ydych chi'n atgoffa dysgwyr o'r gweithdrefnau diogelu a phwy i fynd atynt os oes ganddynt unrhyw bryder?
6. Sut ydych chi'n sicrhau fod pob aelod o staff yn deall beth yw diogelu a sut i godi pryder?
7. Sut ydych chi'n ymgysylltu â rhieni/gwarcheidwaid o ran diogelu a'u hannog i fod yn rhan o ddiogelu eu plant?
8. Beth yw eich barn am ansawdd cefnogaeth yr Awdurdod Lleol e.e. yr Adran addysg a chymorth Gwasanaethau Cymdeithasol?
  - Ydych chi'n hyderus eich bod yn cael ymateb amserol a defnyddiol?
9. A oes unrhyw agweddau ar ddiogelu y gellid eu gwella?

## **Staff addysgu**

1. Sut mae staff/ydy staff yn cael eu gwneud yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau diogelu?
  - Pa mor aml ydych chi'n cael cyfle i drafod materion?
2. Beth sy'n digwydd pan fydd disgybl yn absennol?
3. Allwch chi siarad â mi trwy beth fydddech chi'n ei wneud pe bai dysgwr yn gwneud datgeliad?
  - Beth fyddai'n digwydd yn eich ysgol? Ydych chi'n cael unrhyw adborth?
  - Unrhyw gefnogaeth? A oes gyda chi ymddiriedaeth yn y system?
4. Pe baech chi'n poeni am ymddygiad proffesiynol aelod o staff / Pennaeth/ Llywodraethwr, beth fyddai eich ffordd orau o ymdrin ag ef?
  - Pa mor hyderus fydddech chi wrth wneud hyn?
5. A oes unrhyw agweddau ar ddiogelu y gellid eu gwella?

## **Staff ategol**

1. Sut mae staff/ydy staff yn cael eu gwneud yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau diogelu?
  - Pa mor aml ydych chi'n cael cyfle i drafod materion?
2. Allwch chi siarad â mi trwy beth fydddech chi'n ei wneud pe bai dysgwr yn gwneud datgeliad?
  - Beth fyddai'n digwydd yn eich ysgol? Ydych chi'n cael unrhyw adborth?
  - Unrhyw gefnogaeth? A oes gyda chi ymddiriedaeth yn y system?
3. Pe baech chi'n poeni am ymddygiad proffesiynol aelod o staff/ Pennaeth/ Llywodraethwr, beth fyddai eich ffordd orau o ymdrin ag ef?
  - Pa mor hyderus fydddech chi wrth wneud hyn?
4. A oes unrhyw agweddau ar ddiogelu y gellid eu gwella?

## **Llywodraethwyr gan gynnwys y Cadeirydd a'r Llywodraethwr Diogelu Dynodedig**

1. Allwch chi esbonio rôl y Corff Llywodraethu wrth adolygu a goruchwyllo arferion diogelu yn eich ysgol?
2. Pa mor aml y trafodir diogelu yng nghyfarfodydd y Llywodraethwyr?
  - Sut ydych chi'n monitro ac adolygu trefniadau diogelu?
3. A oes unrhyw faterion wedi dod i'r amlwg yn dilyn eich adolygiad diweddaraf?
  - Beth oedden nhw a beth ydych chi wedi ei wneud am y materion hynny?
4. Beth yw'r berthynas Llywodraethwr/Ysgol? Rhowch enghraifft o sut rydych chi'n herio o ran diogelu.
5. Pa mor gadarn yw diogelu yn eich ysgol a sut ydych chi'n gwybod?
  - Beth yw eich cryfderau a'ch pryderon mwyaf?
  - A oes gyda chi ymddiriedaeth yn y system?
6. Sut, fel Llywodraethwyr, ydych chi'n sicrhau bod gweithdrefnau recriwtio diogel ar waith?
7. Beth yw eich barn am ansawdd cefnogaeth yr Awdurdod Lleol e.e. yr Adran addysg a chymorth Gwasanaethau Cymdeithasol?
  - Ydych chi'n hyderus eich bod yn cael ymateb amserol a defnyddiol?
8. A oes unrhyw agweddau ar ddiogelu y gellid eu gwella?

## Pennaeth

1. Sut ydych chi'n monitro presenoldeb ac absenoldeb?
  - A ydych chi'n ystyried fod eich ymateb yn amserol a phriodol?
2. Sut ydych chi'n atgoffa dysgwyr o'r gweithdrefnau diogelu a phwy i fynd atynt os oes ganddynt unrhyw bryder?
3. Sut ydych chi'n ymgysylltu â rhieni/gwarcheidwaid o ran diogelu a'u hannog i fod yn rhan o ddiogelu eu plant?
4. Sut mae staff yn cael eu gwneud yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau diogelu?
  - Pa mor aml ydych chi'n trafod materion diogelu gyda staff?
5. Sut ydych chi'n sicrhau fod pob aelod o staff yn deall beth yw diogelu a sut i godi pryder?
6. Pa mor gadarn yw diogelu yn eich ysgol a sut ydych chi'n gwybod?
  - Beth yw eich cryfderau a'ch pryderon mwyaf?
  - A oes gyda chi ymddiriedaeth yn y system?
7. A oes unrhyw faterion wedi dod i'r amlwg yn dilyn eich adolygiad diweddaraf?
  - Beth oedden nhw a beth ydych chi wedi ei wneud am y materion hynny?
8. Beth yw eich trefniadau o ran cofnodi pryderon diogelu?
  - Sut fyddwch chi'n monitro a sicrhau fod cadw cofnodion o ran materion diogelu yn effeithiol ac o safon? (*dogfennaeth glir, gywir, ac amserol o bryderon, camau a gymerwyd, a phenderfyniadau a wneir, gan sicrhau cyfrinachedd a hygyrchedd*)
  - Lle ydych chi'n cadw'r wybodaeth am bryderon diogelu?
9. Gan ystyried cyfrinachedd, disgrifiwch sut yr ymatebodd yr ysgol yn llwyddiannus i ddigwyddiad diogelu?
10. Beth yw eich barn am ansawdd cefnogaeth yr Awdurdod Lleol e.e. yr Adran addysg a chymorth Gwasanaethau Cymdeithasol?
  - Ydych chi'n hyderus eich bod yn cael ymateb amserol a defnyddiol?
11. A oes unrhyw agweddau ar ddiogelu y gellid eu gwella?

**AMGYLCHEDD A DIWYLLIANT DIOGELU**

Mae awyrgylch cyffredinol yr ysgol hefyd yn ddangosydd da o ba mor ddiogel mae pobl yn teimlo.

Ystyriwch yr amgylchedd ffisegol a'r protocolau ar gyfer ymwelwyr. Nid yw'r mesurau hyn ar eu pennau eu hunain yn ddigon i gyfiawnhau'r teimlad o ddiogelwch. Fe ddylech chi ystyried sut mae ethos ac awyrgylch yr ysgol yn dangos diwylliant diogelu a lefel briodol o ofal i bob dysgwr.

<b>Maes i'w ystyried</b>	<b>Tystiolaeth/Eich sylwadau</b>
<p><b>Trefniadau Mynediad</b></p> <p><i>ffyrdd o gyrraedd a gadael sy'n ddiogel, giatiau a drysau sy'n ddiogel ac yn cael eu monitro.</i></p>	
<p><b>Gweithdrefnau cyrraedd a gadael ymwelwyr</b></p> <p><i>cadarnhewch fod yn ofynnol i bob ymwelydd fewngofnodi a gwisgo bathodyn adnabod.</i></p>	
<p><b>Goruchwyliaeth staff digonol</b></p> <p><i>Gwiriwch fod plant yn cael eu goruchwyllo'n briodol yn ystod egwylliau, amser cinio, ac amseroedd eraill heb oruchwyliaeth.</i></p>	
<p><b>Gwybodaeth ddiogelu weladwy</b></p> <p><i>Gwiriwch fod polisïau, gweithdrefnau a chysylltiadau diogelu yn hawdd eu cyrraedd i staff ac ymwelwyr.</i></p> <p><i>Nodi'r Person Diogelu Dynodedig a sicrhau bod eu manylion cyswllt yn weladwy ac yn hysbys.</i></p>	
<p><b>Amgylchedd Ffisegol</b></p> <p><i>Cyfleusterau glân wedi eu cynnal yn dda: Chwiliwch am unrhyw arwyddion o ddifrod a allai greu peryglon (e.e. teils llawr rhydd, ffensys wedi torri).</i></p>	
<p><b>Ffiniau diogel</b></p> <p><i>Cadarnhau bod ardaloedd chwarae awyr agored wedi'u ffensio yn ddiogel ac na all plant adael y safle heb oruchwyliaeth.</i></p>	
<p><b>Allanfeydd a gweithdrefnau brys</b></p> <p><i>Gwiriwch fod allanfeydd brys wedi'u marcio'n glir ac yn hygyrch, a bod larymau tân mewn cyflwr gweithiol da.</i></p>	
<p><b>Arwyddion clir</b></p> <p><i>Sicrhau bod arwyddion priodol ar gyfer llwybrau gwacáu, lleoliadau cymorth cyntaf, a gwybodaeth diogelu.</i></p>	
<b>UNRHYW BETH ARALL PERTHNASOL</b>	

**MATERION I'W HYSTYRIED AR DDIWEDD/WEDI'R YMWELIAD O RAN EICH  
YMDEIMLAD AM DDIWYLLIANT Y SEFYDLIAD**

<b><i>Maes i'w ystyried</i></b>	<b><i>Tystiolaeth/Eich sylwadau</i></b>
<p>O'r trafodaethau/gwybodaeth a gyflwynwyd i chi:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>➤ a ydych chi wedi eich argyhoeddi bod gan y Pennaeth/Uwch Dim Rheoli/ Cadeirydd y Llywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o beth yw DIOGELU? a sut i ymateb i unrhyw honiadau /pryderon gan staff a dysgwyr?</li> </ul>	
<p>O'ch trafodaethau gyda staff yr ysgol a ydych chi wedi eich argyhoeddi fod <b>diogelu yn gyfrifoldeb pawb?</b></p>	
<p>O'ch trafodaethau gyda staff yr ysgol a ydych chi yn hyderus bod ganddynt y sgiliau i adnabod arwyddion cynnar o gamdriniaeth, yn deall protocolau amddiffyn plant, a gwybod sut i ymateb i ddatgeliadau.</p> <p>A yw staff yn cyfeirio at y Polisiâu a Gweithdrefnau Diogelu?</p>	
<p>O'r trafodaethau/gwybodaeth a gyflwynwyd i chi a yw'r berthynas rhwng yr ysgol a'r Cyngor yn gadarn, agored a bod cyfathrebu effeithiol rhyngddynt?</p>	
<p>O'r trafodaethau a ydych chi wedi eich argyhoeddi bod perthnasoedd positif rhwng staff a rhwng staff a dysgwyr ar waith yn yr ysgol?</p>	
<p>Wrth gerdded o gwmpas yr ysgol a welsoch chi unrhyw fater o gonsyrn o ran yr adeilad/safle e.e. drysau allanol ar agor, mynedfeydd i'r safle ar agor, toiledau...</p>	
<p><b>UNRHYW BETH ARALL PERTHNASOL</b></p>	

# Trefniadau Diogelu mewn Ysgolion

---

Adroddiad ar Lais Disgyblion

Dr Ceryl Teleri Davies

Mai 2026

# Cyflwyniad

---

Arfarniad annibynnol wedi'i gomisiynu i archwilio  
llais disgyblion mewn trefniadau diogelu yn  
Ysgolion Gwynedd

Rhan o adolygiad ehangach y Pwyllgor Craffu Addysg ac  
Economi a chynllun ymateb diogelu Cyngor Gwynedd

Mae'r adroddiad yn nodi cryfderau allweddol, profiadau  
disgyblion a meysydd i'w datblygu o ran ymwybyddiaeth o  
ddiogelu a llais disgyblion ar draws ysgolion

# Pwrpas yr Arfarniad

---

---

**Archwilio** Archwilio dealltwriaeth disgyblion o drefniadau diogelu mewn ysgolion

---

**Deall** Deall sut mae plant a phobl ifanc yn codi pryderon ac yn cael cefnogaeth

---

**Holi** Holi a ydi disgyblion yn teimlo'n ddiogel, a bod rhywun yn gwrando arnynt a'u cefnogi

---

**Cefnogi** Cefnogi adolygiad diogelu ehangach Cyngor Gwynedd

---

# Cefndir

---

- Mae gan blant a phobl ifanc yr hawl i fod yn rhan o drafodaethau diogelu (Erthygl 12 CCUHP)
- Mae deddfwriaeth a chanllawiau Cymru yn cefnogi llais disgyblion mewn prosesau diogelu (Llywodraeth Cymru, 2022).
- Mae diogelu effeithiol yn cynnwys bod plant yn teimlo'n ddiogel, bod rhywun yn gwranddo arnynt a'u bod nhw'n gallu cael mynediad at gymorth (Estyn, 2022).
- Gall datgelu fod yn anodd oherwydd ofn, cywilydd, pryderon am gyfrinachedd a phoeni na fydd neb yn eu credu (Cossar et al., 2013).
- Mae oedolion dibynadwy a pherthnasoedd cefnogol yn helpu plant i geisio cymorth (Abdul Latiff et al., 2023).
- Mae ysgolion yn lleoliadau allweddol ar gyfer adnabod ac ymateb i bryderon diogelu (Cossar et al., 2013).
- Mae diogelwch emosiynol, preifatrwydd a chyfathrebu clir yn cryfhau mynediad at gymorth (Nohilly a Treacy, 2024).
- Ychydig o waith ymchwil sydd yna ynghylch sut brofiad mae disgyblion yn ei gael o systemau diogelu mewn ysgolion.
- Drwy gasglu llais disgyblion, mae hyn yn gymorth i bwysu a mesur a yw trefniadau diogelu yn weledol, yn hygyrch ac yn gefnogol ar lefel ymarferol.

# Y Fethodoleg

---

Cynhaliwyd grwpiau ffocws ym mis Mai 2026

Bu 57 o blant a phobl ifanc yn cymryd rhan

Disgyblion cynradd: Blynyddoedd 3 i 6

Disgyblion uwchradd: Blynyddoedd 7 i 9 a Fforwm Ieuenctid Gwynedd

Trafodaethau Cymraeg, oed-briodol a moesegol

# Prif Ganfyddiadau: Cyffredinol

---

Profiad o ddiogelu drwy  
berthnasoedd a  
diwylliant yr ysgol

Oedolion dibynadwy a  
diogelwch emosiynol  
yn themâu canolog

Gweld bod cysylltiad cryf  
rhwng lles, tegwch  
a pherthyn â theimlo'n  
ddiogel

Disgyblion yn  
gwerthfawrogi staff sy'n  
agos-atoch ac sy'n  
ymateb i emosiynau

# Ysgol Gynradd: Themâu Allweddol

---

- 3.1 Deall diogelwch a diogelu**  
Dealltwriaeth gadarn oed-briodol o ddiogelwch corfforol, emosiynol a diogelwch ar-lein
- 3.2 Lles emosiynol a chael cymorth**  
Ymwybyddiaeth gref o les emosiynol a phwysigrwydd siarad am bryderon
- 3.3 Oedolion dibynadwy a perthnasoedd**  
Oedolion dibynadwy a pherthnasoedd cefnogol yn ganolog i deimlo'n ddiogel a bod cefnogaeth ar gael
- 3.4 Codi pryderon a mynediad at gymorth**  
Amryw o lwybrau ar gael i godi pryderon, gan gynnwys bocsys pryderon a chymorth bugeiliol
- 3.5 Amlygrwydd gwybodaeth am ddiogelu**  
Gwybodaeth am ddiogelu yn hynod amlwg, ar gael, ac yn addas i blant ar draws yr ysgol
- 3.6 Asiantaethau allanol ac addysg ar ddiogelwch**  
Effaith gadarnhaol yr heddlu, SCCH ac addysg ataliol ar ddiogelu
- 3.7 Cymorth gan gyfoedion a helpu ffrindiau**  
Empathi cryf ac anogaeth gan gyfoedion i ofyn am gymorth gan oedolion dibynadwy
- 3.8 Crynodeb cyffredinol**  
Profiad o ddiogelu fel rhan o ddiwylliant ehangach o ofal, lles a chymorth emosiynol

# Canfyddiadau Ysgol Gynradd

---

Ymwybyddiaeth gref o ddiogelwch, lles a llwybrau cymorth

Gwerthfawrogi oedolion dibynadwy a chefnogaeth fugeiliol yn fawr

Bocsys pryderon a gwybodaeth weledol am ddiogelu yn cael eu gweld yn bethau cadarnhaol

Ymwybyddiaeth gref o ddiogelwch ar-lein a bwlio

Cymorth ac empathi gan gyfoedion yn amlwg ar draws grwpiau

# Cryfderau Ysgol Gynradd

---

Cymorth bugeiliol yn amlwg ac oedolion dibynadwy

Cyfathrebu hygyrch ynghylch diogelu

Ymwybyddiaeth gref o les emosiynol

Addysg ataliol gan ysgolion a'r heddlu

Amryw o lwybrau i gael cymorth

# Ysgol Gynradd: Meysydd i'w Datblygu

---

- Esbonio'n gliriach yr hyn sy'n digwydd ar ôl rhannu pryder
- Cryfhau dealltwriaeth disgyblion o gyfrinachedd a'r cymorth dilynol
- Parhau i ddatblygu ymwybyddiaeth o sut i fynd at wasanaethau a chymorth arbenigol
- Cyfathrebu'n gyson ynghylch prosesau diogelu ar draws yr ysgol
- Parhau i gryfhau addysg ar ddiogelwch ar-lein wrth i ddisgyblion fynd yn hŷn
- Cefnogi disgyblion ymhellach i ddeall sut mae oedolion yn ymateb i bryderon am ddiogelu
- Parhau i hyrwyddo gwybodaeth hygyrch a chynhwysol am ddiogelu i bob disgybl
- Cynnal cyfleoedd parhaus i gael llais ac adborth disgyblion ar les a threfniadau diogelu

# Ysgol Uwchradd: Themâu Allweddol

---

## 4.1 Perthnasoedd a Diogelwch Emosiynol

Profiad o ddiogelu yn bennaf drwy berthnasoedd dibynadwy, diogelwch emosiynol a staff cefnogol

## 4.2 Oedolion Dibynadwy ac Amlygrwydd Cefnogaeth

Pwysigrwydd dewis, staff sy'n agos-atoch a systemau cymorth sy'n amlwg ar draws yr ysgol

## 4.3 Lles Emosiynol a Diogelu

Cysylltiadau cryf rhwng diogelu, lles emosiynol, straen a chymorth efo iechyd meddwl

## 4.4 Systemau Ymddygiad a Thegwch

Tegwch, cysondeb a cyfathrebu clir o fewn systemau ymddygiad yn effeithio ar ddiogelwch emosiynol ac ymddiriedaeth

## 4.5 Addysg Allanol ar Ddiogelu

Roedd disgyblion yn gwerthfawrogi addysg ar ddiogelu oedd yn ymarferol, yn realistig ac yn golygu trafod

## 4.6 Fepio, Toiledau ac Ymddygiad Cyfoedion

Pryderon am fepio, pwysau gan gyfoedion, manau anniogel a phwysigrwydd cymorth gan gyfoedion a chymryd rhan

## 4.7 Crynodeb Cyffredinol

Diogelu yn cael ei ddeall fel mater sy'n ymwneud â pherthnasoedd, emosiynau a diwylliant yr ysgol gyfan yn hytrach na dim ond gweithdrefnau

# Canfyddiadau Ysgol Uwchradd

---

Gweld cysylltiad agos rhwng diogelu a lles emosiynol

Gwerthfawrogi mannau lles fel Hafan a Noddfa yn fawr

Roedd disgyblion yn gwerthfawrogi tegwch, cysondeb a sgysiau adferol

Codwyd cwestiynau am gyfrinachedd a chymorth dilynol

Systemau ymddygiad yn effeithio ar ddiogelwch emosiynol

# Heriau Ysgol Uwchradd

---

Pryderon am systemau ymddygiad anghyson

Fepio a theimlo'n anniogel mewn toiledau

Ansicrwydd ynghylch prosesau cyfeirio

Yr angen am gyfathrebu cliriach ar ôl datgelu

Gweld bod rhywfaint o addysg ar ddiogelu yn anghyson

# Ysgol Uwchradd: Cryfderau

---

- Perthnasoedd cryf rhwng disgyblion ac oedolion dibynadwy
- Roedd y disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n emosiynol, bod rhywun yn gwranddo arnynt a'u parchu
- Gweld manau lles fel "Hafan" a "Noddfa" yn gadarnhaol iawn
- Cymorth a phosteri ynghylch diogelu a staff dibynadwy yn amlwg iawn
- Ymwybyddiaeth gref o les emosiynol a chymorth efo iechyd meddwl
- Roedd disgyblion yn gweld gwerth addysg ar ddiogelu oedd yn ymarferol ac yn golygu trafod
- Ymwybyddiaeth gadarnhaol o ddiogelwch ar-lein, perthnasoedd a phwysau gan gyfoedion
- Cefnogaeth, empathi ac anogaeth gref gan gyfoedion i gael cymorth
- Pobl ifanc yn gwerthfawrogi cyfleoedd ar gyfer llais a rhan disgyblion
- Profiad o ddiogelu fel rhan o ddiwylliant ehangach o ofal, lles a chymorth emosiynol

# Yng Ngeiriau'r Disgyblion

---

“Os 'da chi'n ei gadw o mewn, mae'r bag yn mynd yn drymach ac yn drymach.”

“Mae pobl yn helpu chi pan fydd pethau'n anodd.”

“Tydi pethau negyddol ddim yn helpu.”

“Fedrwch chi ei ysgrifennu o ar bapur os 'da chi ddim isio ei ddeud o.”

# Cryfderau Allweddol

Cefnogaeth fugeiliol yn amlwg

Staff dibynadwy

Mannau lles

Addysg ataliol ar ddiogelu

Cymorth gan gyfoedion

# Crynodeb

---

Roedd y disgyblion cynradd yn canolbwyntio mwy ar ddiogelwch ymarferol a pherthnasoedd dibynadwy

---

Roedd y disgyblion uwchradd yn fwy ymwybodol o degwch, systemau ymddygiad, cysondeb a diwylliant yr ysgol

---

Roedd y disgyblion hŷn eisiau mwy o eglurder am gyfrinachedd, llwybrau cyfeirio a chymorth dilynol

---

Mae'r canfyddiadau yn dangos pwysigrwydd dulliau diogelu sy'n seiliedig ar berthnasoedd ac emosiynau

---

Mae diogelu effeithiol yn dibynnu ar gael cymorth sy'n weledol, hygyrch a theg, ac sy'n ymateb i anghenion lles plant a phobl ifanc

# Casgliad

---

Mae diogelu yn cael ei weld fel rhywbeth perthynol a holistaidd

Mae plant yn gweld gwerth perthnasoedd dibynadwy a diogelwch emosiynol

Mae systemau cymorth gweledol yn rhoi mwy o hyder i ofyn am gymorth

Mae tegwch, perthyn a lles yn themâu allweddol mewn diogelu

# Cryfderau a Chyfyngiadau

Cipolwg ansoddol a  
chyfoethog o lais  
disgyblion

Ystod oedran eang ar  
draws lleoliadau  
addysgol

Sampl ansoddol  
bach yn cyfyngu ar y  
gallu i gyffredinoli

Disgyblion Blwyddyn  
10 i 13 heb gymryd  
rhan oherwydd  
pwysau arholiadau

# Argymhellion

---

## **7.1 Parhau i gryfhau arferion diogelu ar sail perthnasoedd**

Cryfhau diogelu sy'n seiliedig ar berthnasoedd a chael oedolion dibynadwy wrth law

**7.2 Gwella'r eglurder ynghylch llwybrau diogelu a mynediad at gymorth** Gwella'r cyfathrebu ynghylch cyfrinachedd, llwybrau cyfeirio a chymorth dilynol

## **7.3 Parhau i gryfhau manau lles a chymorth bugeiliol**

Cynnal a datblygu'r manau lles a'r gefnogaeth emosiynol gynnar sydd ar gael

## **7.4 Parhau i ddatblygu addysg ar ddiogelu sy'n oed-briodol**

Darparu addysg ar ddiogelu sy'n ymwneud â materion cyfredol, sy'n ymarferol ac yn golygu trafod

## **7.5 Cryfhau llais a rhan y disgyblion wrth ddatblygu'r maes diogelu**

Ymgorffori llais disgyblion mewn prosesau i adolygu trefn ddiogelu a gwella ysgolion

## **7.6 Adolygu systemau ymddygiad**

Cryfhau tegwch, cysondeb a chyfathrebu o fewn systemau ymddygiad

## **7.7 Cryfhau'r gefnogaeth ynghylch diogelu cyfoedion**

Rhoi arweiniad cliriach ynghylch cefnogi cyfoedion, ffiniau a gofyn am gymorth

## **7.8 Adolygu'r trefniadau diogelu yn rheolaidd**

Parhau i gynnal adolygiadau diogelu yn rheolaidd sy'n cynnwys llais disgyblion ar draws pob grŵp oedran

# Diolch yn fawr

---

- Diolch i'r holl blant a'r bobl ifanc a fu'n cymryd rhan
- Diolch i'r ysgolion a fu'n cymryd rhan ac i Fforwm Ieuenctid Gwynedd
- Cwestiynau/sylwadau

# Cyfeiriadau

---

- Abdul Latiff, L., Tajik, E., Ibrahim, N., Abubakar, A. and Ali, S.S.S. (2023) 'Barriers and facilitators to child disclosure of abuse in institutional settings: A systematic review', *Child Abuse Review*, 32(4), tud. 1–17.
- Cossar, J., Brandon, M., Bailey, S., Belderson, P., Biggart, L. and Sharpe, D. (2013) 'It takes a lot to build trust': Recognition and telling: Developing earlier routes to help for children and young people. London: Office of the Children's Commissioner.
- Canllawiau fframwaith arolygu Estyn (2022): Diogelu ac amddiffyn plant. Caerdydd: Estyn.
- Nohilly, M. and Treacy, D. (2024) 'School climate, emotional safety and help-seeking behaviours in educational safeguarding contexts', *Children and Youth Services Review*, 158, 107409.
- Llywodraeth Cymru (2022) Cadw dysgwyr yn ddiogel: Rôl awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a pherchnogion ysgolion annibynnol o dan Ddeddf Addysg 2002. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

# Eitem 6

<b>CYFARFOD</b>	Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
<b>DYDDIAD</b>	14eg o Orffennaf 2026
<b>TEITL</b>	Adfywio Canol Tref
<b>RHESWM DROS GRAFFU</b>	Adroddiad Dilyniant / Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Lewyrchus
<b>AWDUR</b>	Esyllt Rhys Jones, Rheolwr Gwasanaeth Rhaglenni Adfywio Llŷr B Jones, Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned
<b>AELOD CABINET</b>	Y Cynghorydd R. Medwyn Hughes

## 1. Pam fod angen ei graffu?

- 1.1 Un o cynlluniau blaenoriaethau Cynllun y Cyngor 2023-28 ydi 'Adfywio Cymunedau a Canol Trefi'. Efen o'r cynllun yw paratoi cynlluniau gweithredu canol tref/dinas ar gyfer trefi unigol.
- 1.2 Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 8 Mehefin 2023 craffwyd y camau cychwynnol i baratoi cynllun prosiect, y trefniadau ar gyfer paratoi Cynlluniau Canol Trefi a sail blaenoriaethu gwaith o adfywio canol trefi Gwynedd. Mae'r adroddiad blaenorol hefyd yn gosod cyd-destun ac yn amlygu heriau a newidiadau sydd yn wynebu canol trefi ac wedi ei gynnwys fel Atodiad 1. Pwrpas yr adroddiad yma yw cynnig diweddariad ar y gwaith sydd wedi ei gyflawni ers hynny.
- 1.3 Bydd craffu cynnydd yn gyfle i'r Pwyllgor dderbyn diweddariad ar y gwaith ac ystyried beth yw eu heffaith.

## 2. Beth yn union sydd angen ei graffu?

- 2.1. Gofynnir yn benodol i'r Pwyllgor Craffu graffu'r isod:
  - Beth sydd wedi ei gyflawni?
  - Pwy sydd wedi eu cynnwys wrth ddatblygu'r cynlluniau?
  - Beth yw effaith y cynlluniau?
  - Beth sydd wedi ei ddysgu wrth weithredu'r cynlluniau?

## 3. Trosolwg o weithgaredd adfywio canol trefi

- 3.1 Mae canol trefi ac ardaloedd stryd fawr wedi wynebu heriau a chyfnod o newidiadau dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r newidiadau hyn yn sgil rhesymau megis siopau dros y we, newidiadau mewn patrymau cymdeithasol, datblygu canolfannau siopa ar gyrion trefi, trethi busnes a rhentu uchel. Mae'r sefyllfa wedi dwysau ers cyfnod Covid ac mae hyn wedi golygu fod edrych yn fanwl ar sut i adfywio ein canol trefi.
- 3.2 Gyda'r holl newid ar droed mae'n her real i ail bwrsu canol trefi ac i ddatblygu a gweithredu ymyraethau gyda'r bwriad o geisio eu gwneud yn ganolfannau bywiog, atyniadol ac yn lefydd braf i fyw, i weithio ac i dreulio amser ynddynt.

3.3 I bwrpas yr adroddiad yma, mae ystod eang o weithgareddau wedi eu ymgorffori i'r gwaith adfywio canol, yn cynnwys

- Paratoi a datblygu cynlluniau canol trefi / cynlluniau adfywio lleol
- Datblygu a gweithredu prosiectau canol trefi Cyngor Gwynedd gan cefnogi a darparu grantiau i sefydliadau a grwpiau allanol sydd yn cyfrannu at adfywio canol tref neu gymuned leol
- Cyd-lynu ymyraethau eiddo gwag mewn canol trefi

3.4 Rhoddir amlinelliad o'r rhain yn rhannau nesaf o'r adroddiad.

3.5 Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar weithgareddau sydd yn cael eu cyflawni gan y Gwasanaeth Rhaglenni Adfywio o fewn Adran Economi a Chymuned. Tim bychan sydd o fewn y Gwasanaeth, gan gynnwys rheolwr a thri swyddog adfywio parhaol. Mae'r Gwasanaeth yn ddibynnol iawn ar sicrhau grantiau ar gyfer datblygu a gweithredu prosiectau, gan gynnwys swyddogion prosiect dros dro.

#### 4. Paratoi a datblygu cynlluniau canol tref ('Cynlluniau Creu Lleoedd')

4.1 Yn ail Sir fwyaf ei maint yng Nghymru, yn anochel, mae gan Gwynedd nifer helaeth o drefi a'r rheiny o wahanol natur, swyddogaeth a maint. Gellir dehongli diffiniad o dref mewn sawl ffordd. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd Gwynedd a Môn 2011-2026 a Chynllun Datblygu Lleol Eryri 2016 - 2031 yn cynnig y fframwaith isod:

Canolfan Fanwerthu Is-ranbarthol	Bangor
Canolfan Fanwerthu Drefol	Caernarfon, Porthmadog, Pwllheli
Canolfan Fanwerthu Lleol	Abersoch, Abermaw, Bethesda, Blaenau Ffestiniog, Criccieth, Llanberis, Nefyn, Penrhyndeudraeth, Penygroes, Tywyn
<i>Canolfan Wasanaeth Leol *</i>	<i>Dolgellau, Y Bala</i>
<i>Aneddiad Gwasanaeth *</i>	<i>Aberdyfi, Harlech</i>

*\* Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016 - 2031*

4.2 Yn seiliedig ar y dosbarthiad uchod, aethpwyd ati i ddatblygu rhaglen waith ar gyfer datblygu Cynlluniau Canol Tref (neu 'Cynlluniau Creu Lleoedd') ar gyfer y prif drefi. Mae copïau o'r cynlluniau hyn i'w canfod ar safle we'r Cyngor : [Cynlluniau Canol Tref](#) sef

- Cynllun Creu Lleoedd Bangor (Awst 2023)
- Cynllun Creu Lleol : Canol Tref Caernarfon (Awst 2023)
- Cynllun Creu Lleoedd Porthmadog (Chwefror 2024)
- Cynllun Creu Lleoedd Pwllheli (Mehefin 2024)
- Cynllun Creu Lleoedd Canol Tref y Bala (Mehefin 2024)
- Cynllun Creu Lle Dolgellau

- 4.3 Prif bwrpas cynlluniau hyn yw creu gweledigaeth ar gyfer sut y dylai lle ddatblygu, gwella a gweithredu i'r bobl sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld yno. Mae'n helpu i sicrhau bod datblygiad yn y dyfodol yn canolbwyntio ar greu lleoedd o ansawdd uchel, cynaliadwy, deniadol a chynhwysol yn hytrach na darparu adeiladau neu seilwaith yn unig.
- 4.4 Wrth baratoi'r Cynlluniau Creu Lleoedd, mae'n werth nodi :
- Derbyniwyd cefnogaeth ariannol Llywodraeth Cymru drwy raglen Trawsnewid Trefi
  - Dilynwyd canllawiau Comisiwn Dylunio Cymru wrth lunio'r cynlluniau
  - Roedd y broses o lunio'r Cynlluniau Canol Trefi yn gynhwysol – gan gynnwys cyfres o sesiynau ymgysylltu ac ymgynghori gyda rhanddeiliaid, Aelodau ac Adrannau'r Cyngor.
- 4.5 Yn ogystal wrth gwrs, fel rhan o Fframwaith Adfywio Gwynedd, mae cynlluniau adfywio lleol wedi eu datblygu ar gyfer pob un o'r 13 ardal adfywio lleol drwy'r Sir. Mae'r Cynlluniau Canol Tref yn canolbwyntio ar ardaloedd penodol, ac sydd wedi eu ymgorffori i'r cynlluniau adfywio ardal.
- 4.6 Yn gyson gyda un o brif egwyddorion y Fframwaith Adfywio, mae'r Cynlluniau Canol Trefi hefyd yn cydnabod rôl, pwysigrwydd a chyfranogiad busnesau, grwpiau a sefydliadau lleol wrth adfywio canol trefi.
- 4.7 Mae'r dull o gydweithio yn amrywio o dref i dref ond yn ei hanfod mae'r Gwasanaeth Rhaglenni Adfywio wedi bod yn rhan greiddiol o gydlynu a chefnogi cerbyd ar gyfer adfywio y dref. Mae partneriaethau adfywio, aml asiantaeth yn bodoli ym Mangor a Caernarfon, a ceir cyfarfodydd cyson i ddatblygu ac adrodd ar gynnydd cynlluniau adfywio, i adnabod cyfleon newydd ac i adlewyrchu ar effaith cynlluniau.
- 4.8 Mae'r gwaith o ddatblygu sefydliadau adfywio yn Pwllheli, Porthmadog, Dolgellau a'r Bala mewn cyfnod llawer mwy datblygedig, gyda chynnydd cadarnhaol yn cael ei wneud ar draws pob tref.
- 4.9 Mae'r Cynlluniau Gweithredu sydd yn gysylltiedig a'r Cynlluniau Creu Lleoedd yn ganolog i drafodaethau'r sefydliadau adfywio. Maent yn ddogfennau byw sydd yn cael eu perchnogi gan y sefydliadau lleol ac yn cael eu hadolygu yn rheolaidd. Maent hefyd yn sail strategol ar gyfer ymgeisio am gyfleon cyllido i wireddu cynlluniau lle mae tystiolaeth eu bod yn flaenoriaeth lleol.
- 4.10 Yn dilyn cwblhau Cynllun Creu Lle ar gyfer trefi unigol mae pwyslais wedyn ar ddatblygu a gweithredu rhaglenni neu brosiectau sydd wedi eu hadnabod o fewn y cynlluniau.

## **5. Datblygu a Gweithredu Prosiectau Adfywio Canol Trefi**

- 5.1 Yn arferol, bydd gallu'r Gwasanaeth i weithredu prosiectau adfywio canol tref yn ddibynnol ar sicrhau grantiau allanol. Gall yr Gwasanaeth hefyd ddefnyddio grantiau allanol i sefydlu cronfeydd gan gynnig grantiau trydydd parti.
- 5.2 Ers 2022/3, mae'r Gwasanaeth wedi sicrhau grantiau gwerth £31.8m ar gyfer datblygu a gweithredu prosiectau adfywio canol trefi. Mae rhestr o brosiectau wedi ei gynnwys yn Atodiad 2.
- 5.3 Yn ystod y cyfnod yma, mae'r prif raglenni grantiau yw
- Rhaglen Trawsnewid Trefi, Llywodraeth Cymru
  - Rhaglen Cronfa Ffyniant Bro, Llywodraeth DU
  - Rhaglen Cronfa Ffyniant Cyffredin, Llywodraeth DU
  - Rhaglen Cronfa Effaith Balchder Bro, Llywodraeth DU
- 5.4 Bydd Rhaglenni ariannol unigol gyda amcanion, canllawiau a gofynion penodol, ac felly mae angen sicrhau fod cynigion a cheisiadau yn cyd-ymffurfio gyda rhain. Hefyd, mae tueddiad dros y blynyddoedd diwethaf i raglenni ariannol cael eu gweithredu am gyfnod gymharol fyr, ac o ganlyniad, mae'r cyfnod gweithredu yn gymharol fyr, a'r pwyslais yn aml iawn ar cynlluniau gyda'r gallu i'w gweithredu o fewn cyfnod byr.
- 5.5 Dylid nodi hefyd fod y buddsoddiadau grant yma uwchlaw gwaith craidd gwahanol Wasanaethau / Adrannau a bod cyfle i wneud mwy i'r dyfodol.
- 5.6 Yn ystod cyfnod 2026/7, mae trefniadau hefyd ar waith i weithredu arian sydd wedi ei glustnodi drwy raglennu Cronfa Effaith Balchder Bro a Cronfa Twf Leol.
- 5.7 Yn ei gyfarfod ar 10fed Chwefror 2026, penderfynodd y Cabinet i gyfeirio £1.5m sydd yn dod o Gronfa Effaith

Cynlluniau	Yn Arwain	Cronfa Balchder Bro	Cyfanswm Cost
<b>Cynlluniau Sirol</b>			
Cronfa Cyngorau Tref a Chymuned	Cyngorau Lleol	£400,000	£400,000
Isadeiledd a llwybrau trefol	Priffyrdd, Bwrdeistrefol & YGC	£240,000	£258,000
<b>Rhaglen Adfywio Canol Dinas Bangor</b>			
Canolfan Iechyd a Lles Bangor	Economi a Chymuned	£50,000	£850,000
Cynllun Gwella Eiddo Bangor	Economi a Chymuned	£75,000	£75,000
Gwelliannau Ffordd y Coleg	Priffyrdd, Bwrdeistrefol & YGC	£76,500	£76,500
Gwelliannau safle Storiell	Economi a Chymuned	£125,000	£300,000
<b>Cynlluniau Gwella Canol Trefi</b>			
Grant Gwella Eiddo Pwllheli	Economi a Chymuned	£75,000	£75,000
Cynllun Arwyddo Pwllheli	Economi a Chymuned	£50,000	£200,000
Gwella Sgwâr Eldon, Dolgellau	Priffyrdd, Bwrdeistrefol & YGC	£50,000	£84,000
Cyfleusterau cyhoeddus Abermaw	Priffyrdd, Bwrdeistrefol & YGC	£75,000	£98,000

Gwelliannau Llyfrgelloedd			
Llyfrgell Caernarfon	Economi a Chymuned	£100,000	£650,000
Uwchraddio Llyfrgell Tywyn	Economi a Chymuned	£125,000	£450,000
Costau cyd-lynu	Economi a Chymuned	£58,500	£58,500
	Cyfanswm	<b>£1,500,000</b>	<b>£3,575,000</b>

5.8 Pan yn paratoi'r adroddiad yma, mae bwriad o gyflwyno adroddiad ar Cronfa Twf Lleol - Cynlluniau 2026/27 i'r Cabinet ar 7fed Orffennaf : [Cabinet 07/07/26](#)

5.9 Tra bod y Gronfa Twf Lleol blaenoriaethu datblygu'r economi a sicrhau twf gan bwysleisio gweithgaredd sydd o bwys rhanbarthol, fe welir hefyd fod y pecyn arfaethedig yn cynnwys rhaglen cymorth a chefnogaeth Menter Gwynedd; rhaglen Ganol Dinas Bangor, a rhaglen Cynllun Diwylliant er Twf gyda prosiectau sydd wedi eu cynnwys o fewn cynlluniau creu lle Pwllheli, Bala a Porthmadog.

## 6. Eiddo Gwag

6.1 Mae delio gyda eiddo gwag wedi ei adnabod fel blaenoriaeth gan y Cyngor, ac yn rhan o pecyn gwaith 'Adfywio cymunedau a chanol trefi' o fewn Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28. Mae'r Adran yn cyd-gordio Grwp Eiddo Gwag traws-adrannol wedi ei sefydlu er mwyn cyd-lynu materion sy'n ymwneud ag eiddo gwag.

6.2 Mae'r Grŵp yn cynnwys swyddogion o Adrannau Amgylchedd (Gwasanaethau Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu), Economi a Chymuned (Adfywio); Tai ac Eiddo (Gorfodaeth Tai a Tai Gwag), Cyllid (Trethi a Budd-dal) a Chyfreithiol.

6.3 Mae wahanol Wasanaethau / Adrannau'r Cyngor yn gweithredu gwahanol ymyraethau sydd yn ymwneud ag eiddo gwag megis :

- darparu gwybodaeth a chyngor (cyffredinol)
- darpariaeth / cefnogaeth dechnegol
- darparu cefnogaeth ariannol (grantiau neu fenthyciadau)
- bygythiad camau gorfodaeth
- ad-ennill dyledion ariannol
- gorfodaeth ffurfiol (opsiwn olaf)

6.4 Yn gyffredinol, mae'r gofyn am adnoddau ac amser yn dwysau wrth weithio i lawr y rhestr yma.

## 7. Mesuryddion a Data Canol Tref

7.1 Fel rhan o drefniadau rheoli perfformiad y Gwasanaeth Rhaglenni Adfywio, mae dangosyddion craidd dros y 3 flynedd ddiwethaf fel a ganlyn.

Dangosydd	2023/4	2024/5	2025/6
Cyfanswm buddsoddiad wedi ei ddenu ar gyfer prosiectau canol tref	£8,336,970	£8,495,308	£8,173,692

Unedau gwag yn dod i ddefnydd	3	10	15
Adeiladu wedi eu gwella	34	26	13

- 7.2 Bydd y Gwasanaeth hefyd yn adrodd ar allbynnau prosiectau unigol ar gyfer rhaglenni ariannol sydd yn amrywio.
- 7.3 Yn fwy diweddar, mae gwaith yn cael ei wneud i werthuso cynlluniau penodol. Er enghraifft yn ystod 2024/5 buddsoddwyd £1.8m drwy rownd gyntaf y Gronfa Ffyniant Cyffredin hon ar gynllun Canol Trefi: Gosod Sylfaen ar gyfer Buddsoddiad, Balchder a Bwrlwm sef pecyn oedd yn cyfarch cynlluniau ar draws y Sir. Roedd y pecyn hwn yn drawstoriad o gynlluniau trawsadrannol yn cynnwys gwelliannau i Gei'r Gogledd yn Pwllheli, arwyddion i ddinas Bangor, cynlluniau celf cyhoeddus i drefi llechi, Bala, Bangor a Harlech, uwchraddio Maes Criccieth ynghyd a chynllun dodrefn stryd clyfar, cynlluniau diogelwch cymunedol a chynllun hyrwyddo Prynu'n Lleol ar draws y Sir.
- 7.4 Mae'r linc hwn yn rhoi crynodeb o llwyddiannau ac effaith y cynllun hwn - Prosiectau rhaglen 'Gosod Sylfaen ar gyfer Buddsoddiad, Balchder a Bwrlwm Canol Trefi'. Prif allbynnau y rhaglenni hyn oedd uwchraddio adeiladau a mannau cyhoeddus, datblygiadau creadigol a threftadaeth, datblygiadau i rwydwaith llwybrau cyhoeddus ynghyd a gwaith rhagbaratoi a dichonoldeb wedi ei gwblhau. Mae copi o adroddiad gwerthuso'r cynllun wedi ei gynnwys fel Atodiad 3.
- 7.5 Yn ystod 2025/6 sicrhawyd £1.4m o arian pellach drwy Gronfa Ffyniant Bro a gwelwyd y cynllun yn esblygu i fod yn Gwynedd Ni lle roedd pecyn ehangach, trawsadrannol o fuddsoddiadau. Mae copi a adroddiad gwerthuso'r cynllun wedi ei gynnwys fel Atodiad 4.
- 7.6 Gan gydnabod rôl a chyfraniad sefydliadau lleol sefydlwyd Gronfa Cyngorau Tref a Chymuned led-led y Sir. Mae rhestr o brosiectau a gefnogwyd drwy'r Gronfa yn ystod 2025/6 wedi ei gynnwys fel Atodiad 5. Yn dilyn llwyddiant y Gronfa yn ystod 2025/6, mae Cronfa Cyngorau Tref a Chymuned arall wedi ei sefydlu ar gyfer 2026/7 gyda adnoddau Cronfa Effaith Balchder Bro.

#### Data Eiddo Gwag a Chanol Tref

- 7.7 Ym mis Mai 2024, cynhaliwyd ymarferiad mapio eiddo gwag yng nghanol trefi Gwynedd gan y Gwasanaeth a'r Uned Ymchwil, fel rhan o weithgarwch y Grŵp Traws-Adrannol Eiddo Gwag. Nod y gwaith oedd darparu darlun cyfredol a chyson o sefyllfa eiddo gwag ar draws trefi'r sir.
- 7.8 Er mwyn sicrhau dull cyson o gasglu a chymharu data, defnyddiwyd ffiniau canol trefi'r Cynllun Datblygu Lleol fel y sail ddadansoddol. Gellir dadlau bod y dull hwn yn gallu dylanwadu ar ganrannau mewn rhai ardaloedd – er enghraifft, drwy gynnwys adeiladau nad ydynt yn rhan annatod o'r stryd fawr – ond roedd yn hanfodol ar gyfer sicrhau cysondeb ar draws lleoliadau a chaniatáu cymariaethau tros amser.
- 7.9 Dyma'r tabl yn dangos nifer yr eiddo gwag yn ogystal â'r canran ym mis Mai 2024, 2025 a 2026 (drafft) , wedi'u trefnu yn ôl categorïau'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) a'r trefi unigol:

Categori CDLI	Tref	Nifer Eiddo Gwag [2024]	Nifer Eiddo Gwag [2025]	Nifer Eiddo Gwag [2026]
<b>Canolfan Fanwerthu Is-ranbarthol</b>	Bangor	48	43	50
<b>Canolfan Fanwerthu Drefol</b>	Caernarfon	34	21	28
	Porthmadog	14	10	11
	Pwllheli	25	23	29
<b>Canolfan Wasanaeth Leol</b>	Dolgellau	16	7	15
	Y Bala	9	8	7
<b>Canolfan Fanwerthu Lleol</b>	Blaenau Ffestiniog	6	6	8
	Bethesda	5	5	9
	Llanberis	4	4	6
	Penrhyndeudraeth	3	3	1
	Penygroes	4	2	2
	Abermaw	12	8	11
	Tywyn	6	6	5
	Criccieth	1	3	0
	Abersoch	1	0	0
	Nefyn	2	2	3
<b>Aneddiad Gwasanaeth</b>	Harlech	5	5	3
	Aberdyfi	0	0	4
<b>Cyfanswm</b>		195	156	192

Ffynhonnell : Arolwg Cyngor Gwynedd

- 7.10 Bydd nifer o eiddo gwag o fewn trefi unigol yn newid yn gyson, ac felly mae canlyniadau'r arolwg uchod yn cynnig syniad bras ar amser penodol, ac yn seiliedig ar ardaloedd penodol. Serch hynny, mae'r ffigurau yn awgrymu fod nifer eiddo gwag o fewn canol trefi wedi lleihau rhwng 2024 a 2025, ac wedi cynyddu eto yn 2026. Gwelir hefyd fod nifer fwyaf o eiddo gwag yn chanol dinas Bangor a chanol tref Pwllheli sydd yn flaenoriaethau ar gyfer 2026/7.
- 7.11 Rydym hefyd yn datblygu proffil data blynyddol ar gyfer canol trefi Gwynedd. Mae'r proffiliau hyn yn cynnig darlun o sefyllfa presennol trefi Gwynedd – gan gynnwys data ar boblogaeth, defnyddiau adeiladau ac eiddo gwag. Mae copiâu o broffil data 2025 wedi eu cynnwys fel Atodiad 6 ac i'w gweld drwy'r linc isod (bydd data 2026 ar gael yn ystod yr wythnosau nesaf : [Proffil Canol Trefi](#)).

#### Mesur Effaith Cynlluniau Adfywio

- 7.12 Mae ymdrechion y Gwasanaeth i dargedu a sicrhau grantiau allanol ar gyfer datblygu a gweithredu prosiectau adfywio wedi bod yn llwyddiannus iawn. Er hynny, mae'n anodd iawn profi beth yw effaith y cynlluniau hyn ar ardaloedd canol trefi. Mae'r Gwasanaeth yn casglu allbynnau uniongyrchol fesul cynllun (yn aml yn unol â gofynion rhaglenni ariannol) nad ydynt mewn gwirionedd yn mesur effaith. Yn yr un modd, bydd y Gwasanaeth yn comisiynu adroddiadau gwerthuso ar brosiectau penodol sydd yn werthfawr i ystyried pa

agweddau oedd yn llwyddiannus, ynghyd ag unrhyw wersi i'w dysgu. Dylid nodi hefyd fod bwrlwm canol trefi yn cael ei ddylanwadu ai effeithio gan ystod eang iawn o ffactorau yn hytrach na allbwn prosiect unigol.

- 7.13 O ganlyniad, mae'n agwedd mae'r Gwasanaeth wedi ceisio ymateb iddo – a hynny drwy gyfrwng y [Strategaeth Economaidd](#) sydd wedi ei mabwysiadu yn ddiweddar.
- 7.14 Gweledigaeth y Strategaeth yw economi arloesol, gynhyrchiol a charbon isel sy'n cryfhau'r Gymraeg, yn creu cyfleodd newydd ac yn cyfrannu ar lesiant pawb – yn cynnwys prif themâu Mentergarwch, Pobl a Lle. Un o flaenoriaethau thema Lle yw sicrhau y cysyllted a'r isadeiledd gorau posib – yn cynnwys cefnogi adfywio canol trefi.
- 7.15 O fewn y Strategaeth, mae Fframwaith Monitro a Gwerthuso, ac mae copi wedi ei gynnwys fel Atodiad 7. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r allbynnau a'r dangosyddion sydd yn berthnasol i weithgareddau adfywio canol trefi.

<b>Fframwaith Monitro a Gwerthuso</b>	<b>Elfennau perthnasol adfywio canol trefi</b>
<p>ALLBYNNAU</p> <p>Cynnyrch uniongyrchol prosiect neu weithgaredd yn y tymor byr</p>	<p>A14 : Buddsoddiad sector gyhoeddus i brosiectau cyfalaf</p> <p>A29 : Nifer swyddi wedi eu creu</p> <p>A30 : Trefi wedi derbyn buddsoddiad</p> <p>A31 : Adeiladau gwag wedi dychwelyd i ddefnydd</p> <p>A32 : Mannau cyhoeddus wedi gwella</p>
<p>CANLYNIADAU</p> <p>Dangosyddion tymor canol sy'n deillio o gynlluniau a gweithgaredd, ac yn adlewyrchu newid mewn ymddygiad</p>	<p>C22 : Trigolion yn byw/ymweld â threfi wedi derbyn buddsoddiad</p> <p>C24 : Cynnydd yn nifer ymwelwyr â chanol trefi</p>
<p>EFFAITH</p> <p>Dangosyddion o newid hirdymor, strategol dros gyfnod o flynyddoedd</p>	<p>E19 : Canol trefi sy'n fwy gwydn a chynaliadwy, gyda llai o adeiladau sydd wedi dirywio neu'n wag</p>

- 7.16 Drwy gael detholiad cyson o ddangosyddion bydd modd gwerthuso effaith gweithgareddau ac adolygu cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r Strategaeth.
- 7.17 Gyda'r fframwaith bellach wedi sefydlu, bydd gwaith pellach i'w wneud eleni yn benodol ar gyfer adfywio canol trefi – gan geisio cysoni data a dangosyddion ar gyfer gweithgareddau'r Gwasanaeth.

## **8. Casgliadau a Gwersi a Ddysgwyd**

- 8.1 Mae'r adroddiad yn ceisio crynhoi prif weithgareddau'r Gwasanaeth Rhaglenni Adfywio wedi geisio cefnogi ac adfywio canol trefi. Wrth gwrs mae agenda canol trefi yn gorgyffwrdd gyda nifer o wasanaethau o fewn yr Adran Economi, yn cynnwys Cefnogi Busnes, Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau, Morwrol, Amgueddfeydd a'r Celfyddydau, a Llyfrgelloedd.

8.2 Yn yr un modd, mae materion canol tref hefyd yn berthnasol i nifer o Adrannau'r Cyngor sydd yn gweithredu mewn meysydd megis cynllunio, trafndiaeth, meysydd parcio, priffyrdd, gofal stryd ac ati.

8.3 Wrth fynd i'r afael a'r newid a heriau sy'n wynebu ein canol trefi, mater materion isod wedi amlygu wrth weithredu rhaglenni a phrosiectau canol trefi :

- Mae canol trefi yn parhau i fynd drwy gyfnod o newid ac ansicrwydd. Mae newidiadau o'r fath yn cael eu dylanwadu gan faterion macro sydd yn llawer ehangach nac ardal Gwynedd neu Chymru
- Mae ymdrechion dros y blynyddoedd diwethaf wedi canolbwyntio ar dargedu grantiau allanol er mwyn gallu datblygu a gweithredu prosiectau yn anelu i wella neu bywiocau canol trefi
- Mae materion sylfaenol megis lefelau trethi busnes, ffioedd parcio a delwedd yn faterion sy'n cael eu codi fel rhwystrau i gynyddu bwrlwm canol trefi. Awgrymir fod angen rhoi sylw pellach i faterion o'r fath yn ogystal a denu buddsoddiad i ganol trefi.
- Dros y blynyddoedd diwethaf mae ymdrech wedi ei wneud i geisio lledaenu budd ar draws y Sir. Pan gaiff buddsoddiad adfywio ei ledaenu'n rhy eang ar draws nifer o ardaloedd, gall yr effaith wanhau a dydi'r canlyniadau a'r effaith mor amlwg. Mewn cyferbyniad, dull amgen fyddai targedu a chanolbwyntio buddsoddiad ar lai o gynlluniau gyda photensial o greu effaith amlycach.
- Yn ystod y dair blynedd diwethaf, mae peth ansicrwydd wedi bod ynghylch prif raglenni adfywio gyda amserlen gyllidol gymharol fyr. Mae hyn yn golygu fod pwyslais ar cynlluniau tymor byr ble mae modd eu gweithredu o fewn amserlen dynn.
- Yn lleol gall cydlynu rhwng partneriaid (awdurdodau lleol, busnesau, perchnogion tir sefydliadau, y gymuned) fod yn gymhleth a heriau oherwydd gwahanol flaenoriaethau. Mae'r buddsoddiad mewn datblygu'r Cynlluniau Creu Lleoedd a chefnogi'r partneriaethau lleol yn ymdrech i liniaru'r heriau yma.
- Mae materion ymarferol a thechnegol hefyd yn aml heriol wrth weithredu prosiectau adfywio. Mae hyn yn cynnwys y baich megis cynnal a chadw seilwaith, datrys materion perchnogaeth tir, a sicrhau bod rhywun yn cymryd cyfrifoldeb clir dymor hir dros y datblygiad. Mae'r cyfrifoldebau yma yn aml yn gysylltiedig a chost all ddim eu cynnwys fel rhan o gynllun.
- Mae parhau i gryfhau a chefnogi'r partneriaethau lleol yn gam pwysig wrth edrych ymlaen ar flaenoriaethau'r dyfodol. Mae'r partneriaethau cyfrwng cydweithio pwysig sy'n galluogi cymunedau, busnesau ac awdurdodau i rannu gwybodaeth, cydlynu prosiectau ac adeiladu hyder. Bydd cynnal hyn yn sicrhau bod y gwaith adfywio'n parhau yn ganolog ac yn adlewyrchu anghenion lleol.
- O safbwynt eiddo gwag, mae ymdrechion y Gwasanaeth dros y blynyddoedd diwethaf wedi anelu ar cefnogi datblygwyr a pherchnogion eiddo gwag drwy amryw grantiau a benthyciadau ariannol. Yn ystod 2026/7 byddwn hefyd yn scopio cyfleoedd posib ar gyfer datblygu ymyraethau fwy rhagweithiol allai gynnwys prynu ac adfer eiddo gwag yn uniongyrchol, neu gefnogi partneriaid lleol i wneud hynny.
- Mae angen gwaith pellach (fel rhan o'r Strategaeth Economi newydd) er mwyn datblygu gyfundrefn fonitro a gwerthuso ar gyfer y maes gwaith adfywio canol trefi

er mwyn ceisio mesur yr hyn mae cynlluniau a gweithgareddau yn eu cyflawni yn unigol a'u heffaith cyfansawdd.

- 8.4 Yn dilyn sefydlu'r Llywodraeth newydd yn y Senedd ym mis Mai, byddwn hefyd yn ystyried unrhyw newidiadau mewn polisiau neu raglenni adfywio canol trefi.

## **9. Ymgynghori**

- 9.1 Mae ymgynghori wedi bod yn greiddiol wrth baratoi'r 13 Cynllun Ardal Gwynedd Ni a'r Cynlluniau Creu Lleoedd. Mi roedd yn rhoi cyfle i'r cymunedau, busnesau, rhanddeiliaid lleol ac adrannau'r Cyngor i adnabod cyfleon a siapio'r blaenoriaethau ar gyfer eu hardaloedd. Mae'r un egwyddor hefyd wedi bod yn bwysig wrth sefydlu a chefnogi partneriaethau canol trefi, lle mae trafod wedi ac yn parhau i fod yn hanfodol i ffurfio trefniadau cydweithio llwyddiannus.

- 9.2 I'r dyfodol, wrth ddatblygu unrhyw gynlluniau newydd ac adolygu'r rhai presennol, mae ymgynghori parhaus yn mynd i fod yn allweddol er mwyn ymateb i anghenion sy'n newid dros amser.

## **10. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

- 10.1 Mae gwaith adfywio Cyngor Gwynedd yn adlewyrchu egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy gydweithio yn eang i greu cymunedau cryf a chynaliadwy. Mae prosiectau adfywio strategol yn cael eu datblygu i wella'r economi, y cymunedau, yr amgylchedd a diwylliant Gwynedd yn dymor hir.

- 10.2 Mae'r gwaith adfywio yn integredig a chynhwysol gan ei fod yn golygu cydweithio yn draws adrannol (yn cynnwys Adrannau Tai ac Eiddo, Amgylchedd a Priffyrdd, Peirianeg a YGC), ynghyd a gweithio gyda amrywiaeth o bartneriaid, sefydliadau a'r gymuned i adnabod blaenoriaethau a gweledigaeth.

## **11. Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg a'r Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol**

- 11.1 Mae materion cydraddoldeb a ieithyddol yn greiddiol i holl gynlluniau adfywio a bydd Asesiad Effaith yn cael ei ddatblygu a'i weithredu i Raglenni Adfywio.

## **12. Argymhelliad**

- 12.1 Gwahoddir sylwadau gan y Pwyllgor Craffu ar gymwys yr adroddiad.

## **Atodiadau**

Atodiad 1 : Adroddiad Pwyllgor Craffu 8fed o Fehefin 2023

Atodiad 2 : Crynodeb Grantiau Adfywio 2022 – 2026

Atodiad 3 : Gwerthusiad o Raglen SPF Canol Trefi Gwynedd

Atodiad 4 : Gwerthusiad o Rhaglen Gwynedd Ni 2026

Atodiad 5 : Cronfa Cynghorau Lleol Gwynedd 2025/6

Atodiad 6 : Proffil data canol trefi 2025

Atodiad 7 : Fframwaith Monitro a Gwerthuso Strategaeth Economaidd

Cyfarfod	Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi
Dyddiad	8fed o Fehefin, 2023
Teitl	<b>Canol Trefi Gwynedd</b>
Awdur	Esyllt Rhys Jones, Rheolwr Rhaglenni Adfywio, Adran Economi a Chymuned  Llyr B Jones, Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned
Aelod Cabinet	Cyng. Nia Jeffreys

### Manylion i'w craffu

Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu ystyried y canlynol yng nghyd destun mai elfen o'r prosiect "Adfywio cymunedau a chanol tref" yng Nghynllun y Cyngor 2023-28 yw paratoi cynlluniau gweithredu Canol Tref/Dinas ar gyfer trefi unigol:

- Y trefniadau ar gyfer paratoi cynlluniau gweithredu;
- Pwy sydd yn cael ei gynnwys wrth eu datblygu?
- Sut bwriedir mesur effaith y cynlluniau gweithredu?

## 1. Cefndir a Chyd Destun

1.1. Mae canol trefi ac ardaloedd stryd fawr mewn cyfnod o newid. Mae heriau yn sgil siopau dros y we, newidiadau mewn patrymau cymdeithasol a disgwyliadau cwsmeriaid wedi eu dwysau gan COVID ac yn gorfodi llefydd i addasu yn gyflymach.

1.2. Yn fwy diweddar mae rhyfeloedd a'r argyfwng prisiau ynni yn ychwanegu at yr ansicrwydd i fusnesau ac yn ei sgil i ddyfodol canol trefi. Mae canolfannau sydd yn medru esblygu ac arallgyfeirio yn fwy tebygol o lwyddo a ffynnu. Yn Mawrth 2022 roedd 16% o siopau stryd fawr ym Mhrydain yn wag, gyda un o bob 20 wedi bod yn wag ers 3 blynedd.

1.3. Mae sawl her yn wynebu canol trefi gan gynnwys:

- Cynnydd mewn pryniant ar y we - yn mis Mai 2022 roedd ei werth tua 33% o holl werthiannau. Rhagwelir y bydd y patrwm yn parhau oherwydd ei fod yn gyfleus, yn cynnig dewis a chost / pris is;
- Newid mewn patrymau cymdeithasol - dros yr ugain mlynedd diwethaf gwelwyd cynnydd mewn gwariant ar brofiadau, ac i ffwrdd o nwyddau.
- Nifer unedau manwerthu - gyda'r cynnydd mewn siopau ar y we, mae nifer o ganol trefi yn cynnig fwy o unedau manwerthu na ellir eu cynnal. Mae hyn wedi arwain at gynnydd mewn unedau gwag – sydd yn amharu ar hyfywedd y stryd fawr. Hefyd mae llawer o unedau manwerthu yn rhy fawr i ofynion y farchnad, ac felly yn anodd i'w gosod gyda nifer yn wag am gyfnod hir, eu cyflwr yn dirywio ac yn amharu yn amgylcheddol ar ardaloedd amlwg o fewn ein trefi.
- Twf archfarchnadoedd - dros gyfnod o sawl degawd gwelwyd cynnydd sylweddol yn werthiannau bwyd (groser) yr archfarchnadoedd gan hefyd ymestyn i nwyddau.
- Siopau neu ddatblygiadau ar gyrion trefi - gwelwyd cynnydd sylweddol yn ystod yr 1980au a'r 1990au o siopau a datblygiadau ar gyrion y prif drefi sydd fel arfer yn leoliadau haws ei cyrraedd, yn cynnig parcio am ddim, ac yn aml o dan un tô. (Noder fod safleoedd yma hefyd yn wynebu heriau tebyg i ardaloedd canol tref).
- Trethi Busnes a rhenti - mae busnesau yn dadlau fod trethi busnes – sy'n seiliedig ar werth eiddo yn hytrach na trosiant – yn uwch o'i gymharu a lleoliadau ar gyrion trefi neu busnesau sy'n gwerthu ar lein.

1.4. Mae cyfle hefyd i edrych ar gyfleon sydd yna i drefi, ac yn benodol i drefi Gwynedd gyda nifer o'n trefi yn cynnig amrywiaeth o gynigion megis:

- Strydoedd unigryw gyda nifer uchel o siopau annibynnol a marchnadoedd;
- Trawstoriad o gyfleoedd, digwyddiadau a phrofiadau drwy'r Gymraeg;
- Amgylchedd a thirlun atyniadol gyda statws Safleoedd Treftadaeth Byd o fewn ein trefi.

1.5. Gyda'r holl newid ar droed mae'n her real i ail bwrpasu canol trefi ac i ddatblygu a gweithredu ymyraethau gyda'r bwriad o geisio eu gwneud yn ganolfannau bywiog, atyniadol ac yn lefydd braf i fyw, i weithio ac i dreulio amser ynddynt.

## **2. Cyd destun Strategol**

2.1. Mae'r tueddiadau yng Ngwynedd yn gyffredin i rai drwy'r wlad ac mae polisiâu a rhaglenni ar bob lefel, o Lywodraeth y Deyrnas Unedig i raglenni lleol, wedi eu datblygu i geisio ymateb i'r heriau hyn.

- 2.2. Yn yr wythnosau diwethaf cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ddatganiad Sefyllfa ar Ganol Trefi sydd yn amlinellu yr heriau a sut y byddant yn eu cefnogi i'w hadfywio. Mae'r Egwyddor Canol Trefi yn Gyntaf a'u Rhaglen Ariannu Adfywio Trawsnewid Trefi yn enghraifft o'u hymrwymiad i adfywio ein hardaloedd trefol.
- 2.3. Ar lefel Ranbarthol hefyd mae adfywio canol trefi yn chwarae rhan ganolog yn Strategaeth Adfywio Gogledd Cymru (2018-35). Mae'r weledigaeth yn anelu tuag at *"2035 bydd Gogledd Cymru yn profi llai o anghydraddoldeb, cynnydd mewn cyflogaeth, canol trefi wedi'u adfywio, cynnig tai o well safon, economi gryfach i ymwelwyr, economi wledig wydn, a gwell iechyd ar gyfer pobl leol"*.
- 2.4. Yn lleol, mae'r gwaith o lunio Fframwaith Adfywio Gwynedd, ac o ymgysylltu i lunio 13 Cynllun Ardal o fewn y Sir, wedi amlygu pryderon ar draws y Sir am ddyfodol canol trefi, a'r angen i gefnogi hyfywdra busnesau canol trefi. Fel ragwelwyd, o'r ymgynghori cychwynnol, mae heriau canol trefi yn cael eu hadnabod yn y mwyafrif o Gynlluniau Ardal Gwynedd.
- 2.5. Mae gan Gwynedd nifer helaeth o drefi a'r rheiny o wahanol natur, swyddogaeth a maint. Gellir dehongli diffiniad o dref mewn sawl ffordd. Drwy'r Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd Gwynedd a Môn 2011-2026 a Chynllun Datblygu Lleol Eryri 2016 - 2031 mae'r dehongliad o drefi ar sawl haen fel a ganlyn:

Canolfan Fanwerthu Is-ranbarthol	Bangor
Canolfan Fanwerthu Drefol	Caernarfon, Porthmadog, Pwllheli
Canolfan Fanwerthu Lleol	Abersoch, Abermaw, Bethesda, Blaenau Ffestiniog, Criccieth, Llanberis, Nefyn, Penrhyndeudraeth, Penygroes, Tywyn
<i>Canolfan Wasanaeth Leol *</i>	<i>Dolgellau, Y Bala</i>
<i>Aneddiad Gwasanaeth *</i>	<i>Aberdyfi, Harlech</i>

\* Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016 - 2031

- 2.6. Ar y sail uchod mae'r gwaith canol trefi wedi ei weithredu ers 2020. Er hyn yn fwy diweddar, ceir dehongliad gwahanol o fewn Adroddiad Blaenoriaethau Adfywio Canol Trefi Gogledd Cymru (Hatch 2022):

Canolfan Is-Ranbarthol	Bangor
Tref Farchnad neu Hwb Cymudo	Dolgellau, Porthmadog, Pwllheli, Caernarfon
Tref Arfordirol Draddodiadol	Abermaw, Criccieth, Tywyn
Canolfannau Gwledig	Bala, Nefyn, Blaenau Ffestiniog, Bethesda, Penrhyndeudraeth, Penygroes
Canolfannau Ymwelwyr	Abersoch, Llanberis, Harlech

### 3. Gwynedd Lewyrchus: Adfywio cymunedau a chanol trefi

3.1. Mewn ymateb i'r ymgynghori cychwynnol drwy drefniadau Fframwaith Adfywio Gwynedd mae Adfywio Cymunedau a Chanol Trefi wedi ei gynnwys fel prosiect blaenoriaeth o dan y thema Gwynedd Lewyrchus yn Cynllun y Cyngor 2023-28. Mae'r Adran Economi a Chymuned yn paratoi Cynllun Prosiect a camau gweithredol ar hyn o bryd.

3.2. Bydd y Cynllun Prosiect yn gynllun 5 mlynedd fydd yn datblygu a gweithredu ymyraethau i gefnogi canol trefi gyda'r bwriad o'u gwneud yn ganolfannau bywiog ac atyniadol eto ac a fydd yn lefydd braf i fyw, i weithio ac i dreulio amser ynddynt. Rhagwelir y gallai y cynllun gynnwys y cerrig milltir canlynol yn ystod Blwyddyn 1:

- Gosod gwaelodlin ar gyfer sefyllfa bresennol trefi Gwynedd;
- Cynlluniau Canol Tref wedi eu comisiynu ar gyfer Bangor a Caernarfon;
- Ceisiadau ariannol a rhaglen mewn lle ar gyfer paratoi Cynlluniau Canol Tref eraill megis, Bala, Pwllheli, Porthmadog, Dolgellau ac Abermaw;
- Ystyried opsiynau ar gyfer adolygu cynlluniau / strategaethau presennol trefi treftadaeth byd - Bethesda, Blaenau Ffestiniog, Penygroes, Llanberis, Tywyn a Harlech;
- Cynllun Buddsoddi Canol Dinas Bangor wedi ei lunio a'i cytuno gyda partneriaid allweddol yn cynnwys Llywodraeth Cymru, Prifysgol Bangor, a'r Bwrdd Iechyd;
- Gweithredu rhaglen ymyraethau cefnogi canol trefi yn sgil buddsoddiadau Rhaglenni megis Cronfa Ffyniant Bro a Chronfa Ffyniant Gyffredin;
- Gwahodd prosiectau adfywio canol trefi gan sefydliadau allanol i'w ystyried fel rhan o Rhaglen Traws Newid Trefi Llywodraeth Cymru.

3.3. Mae paratoi Cynlluniau Canol Tref ar gyfer nifer o drefi yn allweddol. Pwrpas y rhain yr adnabod a chytuno ar gynlluniau gweithredu a blaenoriaeth i drefi unigol. Byddai'r Cynlluniau Canol Tref yn rhoi sylw penodol i ardaloedd stryd fawr, ac yn cynnig cyfle i roi sylw i faterion megis:

- Unedau preswyl (er enghraifft gofod gwag uwchben siopau);
- Cymorth (grantiau/benthyciadau) ar gyfer adfer neu drosi eiddo gwag;
- Isadeiledd a llecynnau gwyrdd;
- Gwella manau a gofod cyhoeddus;
- Marchnadoedd a digwyddiadau;
- Cefnogaeth i fusnesau canol tref;
- Trefi Digidol (darparu a defnyddio technoleg);
- Trafnidiaeth a theithio gwyrdd;
- Cyfleusterau o fewn canol tref;
- Hybu a marchnata canolfannau lleol;
- Mentrau lleol a chymunedau mentrus.

- 3.4. Mae'r gwaith o lunio Cynllun Canol Tref eisoes wedi ei gomisiynu ym Mangor a Caernarfon. Cychwynnwyd y gwaith yn y ddwy dref gan iddynt eu hadnabod fel trefi o angen yn Strategaeth Adfywio Gogledd Cymru. Mynegai Amddifadedd Luosog Cymru 2019 oedd sail y dadansoddiad hwn. Mae'r broses o sicrhau cyllideb gan Lywodraeth Cymru ar waith i drefi eraill megis Porthmadog, Pwllheli, Dolgellau, Abermaw a Bala bellach ar waith.
- 3.5. Mae gofynion penodol gan Lywodraeth Cymru a Comisiwn Dylunio Cymru wrth lunio Cynllun Canol Tref effeithiol. Mewn trefi ble mae cynlluniau neu strategaethau mewn lle yn barod, bydd ystyriaeth i opsiynau ar gyfer diweddarau ac adolygu'r rhain er mwyn osgoi dyblygu. Mae hyn yn berthnasol i drefi megis Blaenau Ffestiniog, Bethesda, Llanberis, Penygroes, Tywyn a Harlech.

#### **4. Y broses o ddatblygu Cynlluniau Canol Trefi**

- 4.1. Mae llunio Cynllun Canol Tref yn broses cynhwysol. Mae'r drafodaeth gychwynnol gyda'r Aelodau Lleol i amlygu y trefniadau, cyfleon a heriau sydd yn y dref. Yn yr modd bydd trafodaethau gyda'r Adrannau perthnasol o fewn y Cyngor er mwyn amlygu'r bwriad i wneud y gwaith ac i amlinellu'r broses.
- 4.2. Fel cam cyntaf mae angen sicrhau adnoddau i ymgymryd a'r gwaith. Mae gan Lywodraeth Cymru gronfa refeniw sydd yn cefnogi hyn. Dilynir hyn gan drefniadau caffael i gomisiynu ymgynghorwyr arbenigol.
- 4.3. Rôl gychwynnol yr ymgynghorwyr yw i ymgyfarwyddo efo'r dref, i ddeall blaenoriaethau a heriau ynghyd ag unrhyw waith ymchwil ac ymgynghori lleol cyfredol. Mae'r gwaith hefyd yn cynnwys adnabod sefyllfa bresennol y dref fel sail i fesur unrhyw welliannau yn ei erbyn.
- 4.4. Mae ymgynghori yn ran allweddol o'r broses. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys cyfres o sesiynau ymgysylltu ac ymgynghori gyda Aelodau, sefydliadau, grwpiau a rhanddeiliaid yn y trefi. Mae'r math o ymgynghori yn amrywio yn ddibynnol ofynion lleol a ymgynghoriadau diweddar o fewn y dref.
- 4.5. Er mai yr Adran Economi a Chymuned sydd yn arwain ar y Cynllun mae sawl Adran/Gwasanaeth ar draws y Cyngor yn darparu gwasanaethau, cynlluniau neu welliannau o fewn canol trefi. Bydd y Cynlluniau Canol Tref yn cynnig cyfrwng traws adrannol i gyd-lynu ymdrechion y Cyngor. Yn ehangach, mae'r Cynlluniau Canol Tref yn gyfle i asiantaethau ehangach i rannu eu gweledigaeth ar gyfer y trefi. Mae'r hanfodol fod y gwaith ymgysylltu yn adlewyrchu hyn.
- 4.6. Bydd cyfle i gyflwyno'r canfyddiadau efo'r Aelodau cyn eu cyflwyno yn ôl i'r gymuned yn ehangach. Bydd Cynllun Gweithredu yn gysylltiedig a phob Cynllun

Canol Tref fydd yn amlinellu beth yw'r cynlluniau blaenoriaeth y dref, pwy fydd yn arwain a pa gyfleoedd ariannu sydd ar gael.

## 5. Trefniadau Gweithredu

- 5.1. Mae'r cyfleon sydd wedi eu hadnabod yn amlygu'r angen i gydlynu yr ymdrechion er mwyn sicrhau fod y cynlluniau yn cyfrannu tuag at yr un weledigaeth. Mae datblygu y Cynlluniau Canol Trefi yn gyfrwng o wneud hyn.
- 5.2. Rhagwelir y trefniadau gweithredu i gynnwys Bwrdd Prosiect i gynnwys prif rhanddeiliaid y trefi. Rhagwelir cyswllt rheolaidd gyda'r Aelodau Lleol i ddatblygu, gweithredu a monitro'r Cynlluniau Canol Tref.
- 5.3. O fewn y Cyngor rhagwelir trefniadau traws-adrannol, gyda adrannau perthnasol, er mwyn rhannu gwybodaeth am gynlluniau a gaiff eu datblygu a'u gweithredu o fewn y trefi Gwynedd.

## 6. Rhaglenni a Chynlluniau Adfywio Cysylltiedig

- 6.1. Rhagwelir cyfleoedd i adfywio canol trefi drwy gydblethu'r gwaith o lunio cyfeiriad strategol efo'r rhaglenni a chynlluniau ariannu sydd ar gael. Mae'r isod yn amlinellu rhai o'r cyfleon hyn:

### Rhaglenni Llywodraeth Prydain

- 6.2. Mae Llywodraeth Prydain wedi sefydlu cyfres o gronfeydd i gefnogi'r maes adfywio. Mae'r tabl isod yn amlinellid o'r rhain:

Enw'r Gronfa	Disgrifiad
Cronfa Ffyniant Bro	Rhaglen gyfalaf gyda 3 thema; Adfywio Canol Trefi, Isadeiledd a Diwylliant. Cyfleon am gyllidebau hyd at £20m ar gyfer cynlluniau aeddfed a strategol.
Cronfa Ffyniant Gyffredin	Rhaglen yn cyfuno arian cyfalaf a refeniw yn canolbwyntio ar dair blaenoriaeth sef Cymuned a Lle, Cynorthwyo Busnesau Lleol, a Phobl a Sgiliau.
Cronfa Perchnogaeth Cymunedol	Cronfa i grwpiau cymunedol geisio am arian i brynu a/neu adnewyddu asedau a chyfleusterau er lles y gymuned.

- 6.3. Derbyniwyd cymeradwyaeth i gynllun Llewyrch o'r Llechi yn ail rownd Cronfa Ffyniant Bro. Bydd y cynllun yn buddsoddi i uchafu budd yn sgil dynodiad diweddar Safle Treftadaeth Byd Dyffrynnoedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru. Mae'r pecyn gwerth £26m yn cynnwys pecyn o gynlluniau a datblygiadau penodol yng nghanol trefi Llanberis, Bethesda a Blaenau Ffestiniog.

6.4. Mae nifer o gyfleon posibl wedi eu hadnabod drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin i gefnogi adfywio canol trefi. Mae cynlluniau prosiect a cheisiadau ariannol yn cael eu paratoi ar gyfer y cynlluniau isod:

- *Gwella Profiad Canol Trefi Gwynedd* - cyfres o ymyraethau traws-adrannol i wella delwedd, uwchraddio cyfleusterau ac ymgyrchoedd hyrwyddo i gynyddu bwrlwm.
- *Diwylliesiant* – cynllun yn hyrwyddo diwylliant ac economi ymweld cynaliadwy er lles cymunedau, amgylchedd a busnesau Gwynedd.
- *Datblygu Busnes Gwynedd* - cyfres o gronfeydd a chyfleon i gefnogi busnesau i sefydlu, datblygu a ffynnu.
- *Cronfeydd Allweddol* – Cronfeydd i gefnogi cymunedau a busnesau i ddatblygu cynlluniau er budd cymunedau y Sir.

#### Rhaglenni Llywodraeth Cymru

6.5. Ceir nifer o gyfleon drwy rhaglenni Llywodraeth Cymru. Y prif raglen yw Trawsnewid Trefi ble mae cefnogaeth ariannol i gynlluniau aeddfed. Mae Cynlluniau Canol Tref yn hanfodol er mwyn sicrhau buddsoddiad.

6.6. Mae rhaglenni a chyfleoedd ariannu pellach gan Lywodraeth Cymru megis:

- Benthyciadau Canol Trefi;
- Trefi Smart (Cynllun Trefi Digidol);
- Cynllun Economi Gylchol;
- Cynllun Pethau Pwysig;
- Cynllun Teithiau Llesol.

Mae sawl ffynhonnell ariannu eraill megis y Loteri Genedlaethol allai gefnogi cynlluniau mewn canol trefi.

6.7. Mae cyfleon a chynlluniau ehangach sydd yn cynnwys cefnogi partneriaid trydydd parti i ddatblygu, ymgeisio am gyllidebau a gweithredu eu cynlluniau er budd adfywio trefi y Sir.

6.8. Ceir sawl raglen o fewn adrannau'r Cyngor sydd yn cyfrannu tuag at y weledigaeth a'r rhain yn cynnwys y Cynllun Datblygu Tai, Tim Tacluso 'Ardal Ni' ac amryw o gynlluniau gan yr Adran Amgylchedd yn datblygu ffabrig drefol.

## **7. Argymhellion**

7.1. Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu ystyried a chynnig sylwadau ar y canlynol:

- Sylwadau ar y cynigion a champau cychwynnol wrth baratoi Cynllun Prosiect ar gyfer y thema Gwynedd Lewyrchus: Adfywio cymunedau a chanol trefi.

- Y trefniadau ar gyfer paratoi Cynlluniau Canol Trefi;
- Y sail i flaenoriaethu gwaith o adfywio canol trefi Gwynedd mewn ymateb i'r categorïau a mathau a drefi a nodir yn 2.5. a 2.6.

**Cynlluniau Chanol Trefi wedi eu cefnogi 2022-2026**

Enw'r Grŵp/Sefydliad	Enw Prosiect	Grant	Gwerth y Prosiect	Cyfnod	Gweinyddwyd gan Wasanaeth Rhaglenni Adfywio			
					Rhaglen Trawsnewid Trefi	Cronfa Ffyniant Bro	Gwynedd Ni / Cronfa Adfywio	Cronfa Effaith Balchder Bro
<b>Cynlluniau Sirol</b>								
Adran Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd	Grantiau Gwella Eiddo Bach (Canol Trefi Gwynedd)	£500,000	£714,304	2022/23	✓			
Adran Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd	Finyls Ffenestri Eiddo Gwag (Canol Trefi Gwynedd)	£25,583	£25,583	2023/24			✓	
Adran Prifffyrdd, Peirianeg a YGC	Cynllun Dodrefn Stryd Clyfar (Canol Trefi Gwynedd)	£67,450	£67,450	2025/26			✓	
Adran Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd	Cynlluniau Dyffrynnoedd Llechi (Amrywiol)	£125,000	£125,000	2025/26			✓	
Adran Prifffyrdd, Peirianeg a YGC	Gwelliannau i Gaeau Chwarae (Amrywiol)	£76,000	£76,000	2025/26			✓	
Adran Prifffyrdd, Peirianeg a YGC	Gwelliannau i lwybrau trefi Gwynedd	£240,000	£258,000	2026/27				✓
Adran Amgylchedd	Gwelliannau Gorsafoedd Bysiau (Amrywiol)	£30,000	£30,000	2025/26			✓	
Adran Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd	Gwaith rhagbaratoi cynlluniau cyfalaf	£592,791	£600,148	2023/24/25/26			✓	
<b>Ardal Bangor</b>								
Cynghorau Tref a Chymuned y Dalgylch	Amrywiol gynlluniau gan Gynghorau Tref a Chymuned	£10,500	£10,500	2025/26			✓	
Prifysgol Bangor	Parc y Coleg, Bangor	£1,070,257	£2,050,082	2022/23	✓		✓	
Cwmni Fran Wen	Nyth, Bangor	£1,039,430	£3,916,888	2022/23	✓			
Adran Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd	Gwedd 1 Canolfan Iechyd a Lles	£992,230	£992,230	2024/25	✓			
Adran Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd	Cynllun Arwyddo Bangor	£45,861	£60,000	2024/25	✓		✓	
Adran Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd	Cynllun Celf Cyhoeddus	£7,530	£7,530	2024/25			✓	
Cyngor Dinas Bangor	Gwelliannau Amgylcheddol Bangor	£101,975	£146,275	2024/25	✓			
Adran Prifffyrdd, Peirianeg a YGC	Cynlluniau Camp Rhufeinig, Bangor	£24,073	£40,000	2025/26	✓		✓	
Adran Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd	Cynllun Adfywio Eiddo Bangor (BEPI)	£996,115	£2,256,657	2025/26	✓			
Adran Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd	Gwelliannau allannol Storiol	£139,860	£199,800	2022/23	✓			
Grŵp Llandrillo Menai	Tŷ Cyfle, Bangor	£52,366	£1,199,946	2024/25	✓			
Adran Oedolion, Cyngor Gwynedd	Cynllun Uwchraddio CCTV	£139,530	£139,530	2024/25			✓	
Adran Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd	Cyswllt Pontio a Storiol	£40,000	£40,000	2025/26/27	✓			✓
Adran Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd	Grant Uwchraddio Eiddo Bangor	£155,000	£300,000	2026/27	✓			✓
Adran Prifffyrdd, Peirianeg a YGC	Uwchraddio Wal Gerddi Beiblaidd	£20,000	£20,000	2024/25			✓	
Adran Prifffyrdd, Peirianeg a YGC	Gwelliannau Ffordd y Coleg	£76,500	£76,500	2026/27				✓
<b>Ardal Caernarfon</b>								
Cynghorau Tref a Chymuned y Dalgylch	Amrywiol gynlluniau gan Gynghorau Tref a Chymuned	£16,100	£16,100	2025/26			✓	
Adran Tai ac Eiddo, Cyngor Gwynedd	Uwchraddio Adeilad Mona	£218,887	£818,887	2024/25	✓			
Galeri Caernarfon Cyf	Cynllun Eiddo Gwag	£500,000	£1,190,000	2024/25	✓		✓	
Galeri Caernarfon Cyf	Cynllun Canfas	£50,000	£110,700	2023/24	✓			
Ymddiriedolaeth Harbwr Caernarfon	Gwelliannau Amgylcheddol Cei Llechi	£10,500	£15,000	2025/26	✓			
Llety Arall	Gwelliannau Llety Arall	£160,147	£165,100	2025/26	✓		✓	
Adran Oedolion, Cyngor Gwynedd	Cynllun Uwchraddio CCTV	£136,365	£136,365	2024/25			✓	
Adran Tai ac Eiddo, Cyngor Gwynedd	Datblygiad Menai Bank, Caernarfon	£824,876	£824,876	2024/25	✓			
Adran Tai ac Eiddo, Cyngor Gwynedd	Datblygiad Lle Da	£665,000	£950,000	2022/23	✓			
Adran Tai ac Eiddo, Cyngor Gwynedd	Gwelliannau Eiddo Pencadlys Cyngor Gwynedd	£163,728	£163,728	2024/25			✓	
Adran Prifffyrdd, Peirianeg a YGC	Gwelliannau Y Maes, Caernarfon	£50,000	£50,000	2025/26			✓	
Adran Economi a Chymuned	Uwchraddio Llyfrgell Caernarfon	£350,000	£1,010,000	2026/27	✓			✓
<b>Ardal Dyffryn Ogwen</b>								
Cynghorau Tref a Chymuned y Dalgylch	Amrywiol gynlluniau gan Gynghorau Tref a Chymuned	£20,935	£20,935	2025/26			✓	
Adran Amgylchedd, Cyngor Gwynedd	Llwybr Ogwen i'r Tirwedd Llechi	£1,901,908	£2,261,908	2022/23		✓		
Partneriaeth Ogwen	Datblygiad Yr Hen Bost	£1,946,121	£2,804,293	2022/23	✓	✓		
Partneriaeth Ogwen	Murlun Canolfan Gymunedol Tregarth	£5,000	£5,000	2022/23		✓		

Adran Oedolion, Cyngor Gwynedd	Cynllun Uwchraddio CCTV	£3,748	£3,748	2024/25			✓	
Adran Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd	Adfywio Canol Tref Bethesda Llechi Cymru	£489,614	£489,614	2022/23		✓		
Cwmni Tabernacl Cyf	Uwchraddio Neuadd Ogwen	£648,973	£701,092	2022/23		✓		
Cwmni Tabernacl Cyf	Tafarn y Fic	£47,540	£67,516	2022/23	✓			
<b>Ardal Dyffryn Peris</b>								
Cynghorau Tref a Chymuned y Dalgylch	Amrywiol gynlluniau gan Gyngorau Tref a Chymuned	£44,021	£44,021	2025/26			✓	
Adran Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd	Gwelliannau Gilfach Ddu, Parc Padarn	£2,207,000	£2,783,000	2022/23		✓	✓	
Adran Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd	Adfywio Canol Tref Llanberis (Llechi Cymru)	£469,936	£469,936	2022/23		✓		
Cyngor Tref Llanberis	Campfa awyr agored	£24,678	£24,678	2022/23		✓		
Amgueddfa Cymru	Datblygiad Amgueddfa Lechi Cymru (Gwedd 1)	£6,200,000	£12,400,000	2022/23		✓		
Adran Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd	Isadeiledd Digwyddiadau Llanberis	£30,000	£30,000	2024/25			✓	
<b>Ardal Bro Lleu a Nantlle</b>								
Cynghorau Tref a Chymuned y Dalgylch	Amrywiol gynlluniau gan Gyngorau Tref a Chymuned	£29,347	£29,347	2025/26			✓	
Adra	Cynllun Tŷ Gwyrddfai	£230,000	£729,000	2022/23	✓		✓	
Siop Griffiths	Cymru Fydd, Penygroes	£158,373	£237,560	2022/23	✓			
Theatr Bara Caws	Datblygiad Canolfan	£30,000	£30,000	2025/26			✓	
Adran Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd	Adfywio Canol Tref Penygroes (Llechi Cymru)	£180,396	£180,396	2024/25			✓	
Adran Economi a Chymuned Cyngor Gwynedd	Datblygiadau unedau busnes a llwybrau Glynllifon	£125,000	£125,000	2024/25			✓	
<b>Ardal Pen Llŷn</b>								
Cynghorau Tref a Chymuned y Dalgylch	Amrywiol gynlluniau gan Gyngorau Tref a Chymuned	£27,649	£27,649	2025/26			✓	
Adran Economi a Chymuned	Uwchraddio ffordd i draeth Abersoch	£30,000	£30,000	2025/26			✓	
Cyngor Tref Nefyn	Diogelu Llwybr Penrallt	£120,424	£134,424	2024/25			✓	
Melin Daron	Cynllun Melin Daron (Gwedd 2)	£91,666	£445,000	2024/25			✓	
Menter Rabar	Uwchraddio hen ysgol Abersoch	£58,991	£98,991	2025/26			✓	
Adran Prifffyrdd, Peirianeg a YGC	Toiledau Cyhoeddus Y Bont, Abersoch	£85,843	£85,843	2025/26			✓	
<b>Ardal Pwllheli</b>								
Cynghorau Tref a Chymuned y Dalgylch	Amrywiol gynlluniau gan Gyngorau Tref a Chymuned	£21,698	£21,698	2025/26			✓	
Menter y Tŵr	Cynllun Tŵr, Pwllheli (Gwedd 1)	£282,727	£854,911	2024/25	✓		✓	
Adran Oedolion, Cyngor Gwynedd	Cynllun Uwchraddio CCTV	£126,490	£126,490	2024/25			✓	
Adran Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd	Traeth Pwllheli	£100,000	£120,000	2025/26			✓	
Adran Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd	Paneli Dehongli Pwllheli	£14,656	£14,656	2024/25			✓	
Adran Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd	Uwchraddio Cei'r Gogledd	£284,631	£284,631	2024/25			✓	
Adran Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd	Arwyddion Canol Tref Pwllheli	£150,000	£150,000	2026/27	✓			✓
Adran Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd	Grant Uwchraddio Eiddo Pwllheli	£155,000	£300,000	2026/27	✓			✓
<b>Ardal Porthmadog a Phenrhyndeudraeth</b>								
Cynghorau Tref a Chymuned y Dalgylch	Amrywiol gynlluniau gan Gyngorau Tref a Chymuned	£38,954	£38,954	2025/26			✓	
Adran Amgylchedd, Cyngor Gwynedd	Gwelliannau Cob Crwn	£55,400	£130,000	2025/26	✓		✓	
Pwyllgor y Ganofan	Gwelliannau I'r Ganolfan Porthmadog	£205,607	£315,152	2025/26	✓		✓	
Adran Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd	Mynedfa Traeth Morfa Bychan	£60,000	£260,000	2025/26			✓	
Adran Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd	Adfywio Canol Tref Porthmadog (Llechi Cymru)	£207,491	£207,491	2024/25			✓	
Adran Oedolion, Cyngor Gwynedd	Cynllun Uwchraddio CCTV	£2,978	£2,978	2024/25			✓	
Adran Prifffyrdd, Peirianeg a YGC	Uwchraddio Maes Criccieth	£99,999	£99,999	2024/25			✓	
<b>Ardal Bro Ffestiniog</b>								
Cynghorau Tref a Chymuned y Dalgylch	Amrywiol gynlluniau gan Gyngorau Tref a Chymuned	£19,569	£19,569	2025/26			✓	
Llywodraeth Cymru	Llwybr Ffestiniog i'r Tirwedd Llechi	£1,782,186	£2,030,769	2022/23		✓		
Antur Stiniog	Datblygiadau Eiddo Canol y Dref	£1,369,654	£1,584,654	2022/23	✓	✓		
Adran Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd	Adfywio Canol Tref Blaenau Ffestiniog (Llechi Cymru)	£435,612	£435,612	2022/23		✓		
Adran Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd	Gwelliannau Llyfrgell Blaenau Ffestiniog	£50,000	£50,000	2026/27				✓
Cyngor Tref Blaenau Ffestiniog	MUGA Blaenau Ffestiniog	£59,002	£59,002	2022/23		✓		
Antur Stiniog	Aelwyd yr Urdd	£32,500	£45,000	2022/23	✓			
Antur Stiniog	22/23 Stryd y Farchnad, Blaenau Ffestiniog	£70,000	£100,000	2022/23	✓			

<b>Ardal Ardudwy</b>								
Cynghorau Tref a Chymuned y Dalgylch	Amrywiol gynlluniau gan Gyngorau Tref a Chymuned	£23,132	£23,122	2025/26			✓	
Cyngor Cymuned Dyffryn Ardudwy	Maes Parcio Llidiart	£66,095	£66,095	2024/25			✓	
Harlech and Ardudwy Leisure	Cynllun Keeping Afloat	£28,300	£138,180	2024/25			✓	
Dragon Theatr	Uwchraddio cynladwyedd yr adeilad	£10,000	£12,600	2023/24			✓	
Adran Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd	Cynllun Celf Cyhoeddus	£51,135	£51,135	2024/25			✓	
Adran Priffyrdd, Peirianeg a YGC	Toiledau Cyhoeddus Promenâd y Gogledd, Abermaw	£94,144	£94,144	2025/26			✓	
Adran Economi a Chymuned	Gwelliannau i'r Llyfrgell	£50,000	£50,000	2026/7				✓
Adran Priffyrdd, Peirianeg a YGC	Toiledau Cyhoeddus	£75,000	£98,000	2026/27				✓
<b>Ardal Y Bala Penllyn</b>								
Cynghorau Tref a Chymuned y Dalgylch	Amrywiol gynlluniau gan Gyngorau Tref a Chymuned	£32,417	£32,417	2025/26			✓	
Cwmni Pum Plwy Penllyn	Canolfan Bro Tegid	£208,721	£363,027	2024/25	✓		✓	
Canolfan Deulu Y Bala	Gwedd 2 - Canolfan Deulu Y Bala	£48,780	£51,781	2024/25			✓	
Adran Economi a Chymuned	Cynllun Celf Cyhoeddus	£10,858	£10,585	2024/5				
<b>Ardal Dolgellau</b>								
Cynghorau Tref a Chymuned y Dalgylch	Amrywiol gynlluniau gan Gyngorau Tref a Chymuned	£36,201	£36,201	2025/26			✓	
Adran Priffyrdd, Peirianeg a YGC	Gwelliannau Sgwaqr Eldon Dolgellau	£50,000	£84,000	2025/26				✓
Cwmni Tŷ Siamas	Uwchraddio Adeilad Tŷ Siamas	£43,633	£43,633	2024/25			✓	
<b>Ardal Bro Dysynni</b>								
Cynghorau Tref a Chymuned y Dalgylch	Amrywiol gynlluniau gan Gyngorau Tref a Chymuned	£40,425	£40,425	2025/26			✓	
Byw'n Iach	Cae Synthetig Tywyn	£47,000	£374,269	2025/26			✓	
Adran Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd	Adfywio Canol Tref Tywyn (Llechi Cymru)	£171,267	£171,267	2024/25			✓	
Adran Economi a Chymuned	Uwchraddio Jeti Aberdyfi	£50,000	£136,000	2025/26			✓	
Adran Economi a Chymuned	Gwelliannau i Lyfrgell Tywyn	£125,000	£450,000	2026/7				✓
Adran Economi a Chymuned	Gwelliannau Promenade Tywyn	£35,000	£35,000	2026/27				✓
<b>CYFANSWM</b>		<b>£31,842,079</b>	<b>£52,675,578</b>					



# wavehill

Social and economic research  
Ymchwil cymdeithasol ac economaidd

[wavehill.com](http://wavehill.com)

## Gwerthusiad o Raglen SPF Canol Trefi Gwynedd



Wedi ei ariannu gan  
Llywodraeth y DU

Funded by  
UK Government

# Wavehill: Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd

## Ein swyddfeydd

- Swyddfa Cymru: 21 Sgwâr Alban, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0DB (swyddfa gofrestredig)
- Swyddfa Gorllewin Lloegr: St Nicholas House, 31-34 High Street, Bryste, BS1 2AW
- Swyddfa Gogledd Lloegr: The Corner, 26 Mosley Street, Newcastle, NE1 1DF
- Swyddfa Llundain: 2.16 Oxford House, 49 Oxford Road, Llundain, N4 3EY

## Manylion cyswllt

Ffôn: 0330 1228658

E-bost: [wavehill@wavehill.com](mailto:wavehill@wavehill.com)

Twitter: [@wavehilltweets](https://twitter.com/wavehilltweets)

## Mwy o wybodaeth

[www.wavehill.com](http://www.wavehill.com)

<https://twitter.com/wavehilltweets>

© Wavehill: Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd

Mae hawlfraint ar yr adroddiad hwn. Dylid cydnabod awduron yr adroddiad (Wavehill: Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd) mewn unrhyw gyfeiriad a wneir at ei gynnwys.

## Awduron yr adroddiad

Dr Huw Lloyd-Williams, Stuart Merali-Younger, Greta Dennis

Dylid cyfeirio unrhyw gwestiynau mewn perthynas â'r adroddiad hwn yn y lle cyntaf at Huw Lloyd-Williams ([huw.lloyd-williams@wavehill.com](mailto:huw.lloyd-williams@wavehill.com))

Dyddiad y ddogfen: Chwefror

Fersiwn: Terfynol

## Manylion y cleient

Rhian Elin George ([rhianelingeorge@gwynedd.llyw.cymru](mailto:rhianelingeorge@gwynedd.llyw.cymru))

# Cynnwys

1.	Cyflwyniad .....	1
1.1	Nodau a Chwestiynau'r Gwerthusiad .....	1
1.2	Dull Gwerthuso .....	2
2.	Disgrifiad o'r Rhaglen.....	3
2.1	Angen a Rhesymeg ar gyfer y Rhaglen.....	3
2.2	Nodau'r Rhaglen .....	4
2.3	Mewnbynnau .....	4
2.4	Gweithgareddau a Gyflawnwyd.....	4
2.5	Dangosyddion Allbynnau a Chanlyniadau .....	7
2.6	Effeithiau Arfaethedig.....	8
3.	Perfformiad y Rhaglen .....	9
3.1	Perfformiad yn erbyn Targedau Gwariant.....	9
3.2	Perfformiad yn erbyn Targedau Allbynnau a Chanlyniadau.....	11
4.	Rheoli a Chyflawni'r Rhaglenni .....	14
4.1	Dyluniad Rhaglenni a Phrosiectau .....	14
4.2	Cyflawni Prosiectau.....	15
4.3	Rheoli'r Prosiect .....	16
4.4	Monitro'r Rhaglen .....	16
5.	Effeithiau'r Rhaglen .....	17
5.1	Tystiolaeth o Effeithiau Cynnar.....	17
5.2	Tystiolaeth o Effeithiau Tymor Hwyl.....	18
5.3	Manteision Ehangach y Rhaglen .....	20
5.4	Astudiaethau Achos Effaith.....	21
6.	Casgliadau a Gwersi.....	24
6.1	Casgliadau .....	24
6.2	Gwersi a Ddysgwyd .....	27

# 1. Cyflwyniad

Mae Cynllun Canol Tref Gwynedd yn gynllun gwerth £1.91m sydd â'r nod o gefnogi adfywiad canol trefi ar draws Gwynedd, gan gysylltu â blaenoriaeth buddsoddi Cymunedau a Lle Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Ariannodd y cynllun weithgareddau yn ymwneud â chelf gyhoeddus a gwelliannau amgylcheddol, celfi stryd, gwell arwyddion, gwell diogelwch cymunedol, siopau naid, marchnata ac ymgyrchoedd, a nifer o astudiaethau dichonoldeb i gefnogi prosiectau posibl a allai fywiogi canol trefi.

Mae'r rhaglen yn ymateb i'r heriau sylweddol sy'n wynebu canol trefi a strydoedd mawr sy'n brwydro i ddenu ymwelwyr yng Ngwynedd, gan arwain at eiddo gwag, gwaethygu cyfansoddiad canol trefi ac yn y pen draw gwneud canol trefi'n llai bywiog a lleihau balchder bro. Mae'r tueddiadau hyn yn deillio o amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys tueddiadau tymor hwy o ran twf manwerthu ar-lein a thu allan i'r dref, ond hefyd heriau mwy diweddar gan gynnwys cynnydd mewn costau byw ac effeithiau tymor hwy COVID-19 ar ymddygiad defnyddwyr.

Penodwyd Wavehill i gynnal gwerthusiad o'r rhaglen gan gwmpasu cynnydd yn erbyn targedau, adolygu prosesau a dadansoddi'r effeithiau a gynhyrchir gan y buddsoddiadau. Yr adroddiad hwn yw gwerthusiad terfynol y rhaglen.

## 1.1 Nodau a Cwestiynau'r Gwerthusiad

Mae'r gwerthusiad yn ceisio profi perthnasedd a phriodoldeb dyluniad y rhaglen, perfformiad yn erbyn targedau, effeithiolrwydd rheoli ac effeithiau'r rhaglen. Mae cyfres o gwestiynau gwerthuso manylach wedi'u nodi ar gyfer yr astudiaeth yn y tabl isod.

Tabl 1-1: Cwestiynau Gwerthuso

Pwnc	Cwestiwn y Gwerthusiad
Perthnasedd a Phriodoldeb Dyluniad y Rhaglen	<ul style="list-style-type: none"><li>• A ymatebodd y rhaglen i heriau economaidd-gymdeithasol clir sy'n wynebu'r ardal?</li><li>• A oedd y rhaglen a'r prosiectau unigol wedi'u cynllunio'n dda i fynd i'r afael â'r heriau hynny?</li><li>• Sut gwnaethpwyd penderfyniadau am ddylunio rhaglenni?</li><li>• A newidiodd y rhaglen neu brosiectau unigol y cynllun yn ystod y cyfnod cyflawni? Os felly, pam, ac a effeithiodd hynny ar eu gallu i ymateb i nodau'r rhaglen?</li><li>• A newidiodd unrhyw agweddau ar y cyd-destun cyflawni yn ystod y cyfnod cyflawni? Os felly, sut effeithiodd hynny ar berthnasedd a phriodoldeb y rhaglen?</li></ul>

Pwnc	Cwestiwn y Gwerthusiad
Perfformiad yn erbyn Targedau	<ul style="list-style-type: none"> <li>Sut perfformiodd y rhaglen yn erbyn ei thargedau gwariant?</li> <li>Pa gynnydd a wnaeth y prosiect tuag at gyflawni ei ddangosyddion o allbynnau a chanlyniadau?</li> <li>Pa ffactorau sy'n esbonio amrywiadau, gan gynnwys tanberfformiad neu orberfformiad yn erbyn targedau a gontractiwyd?</li> </ul>
Rheoli'r Prosiect	<ul style="list-style-type: none"> <li>Sut cafodd y prosiectau unigol eu cyflawni?</li> <li>Pa mor effeithiol oedd y dull cyflawni ar gyfer pob prosiect?</li> <li>Beth weithiodd yn dda neu ddim cystal o ran cyflawni prosiectau?</li> <li>Beth oedd strwythurau'r prosesau gwneud penderfyniadau ar gyfer y rhaglen?</li> <li>Pa mor effeithiol y gweithiodd y strwythurau a'r mecanweithiau hyn?</li> <li>Sut mae cyflawniadau cyflawni, gwariant ac effaith yn cael eu mesur, eu monitro a'u gwerthuso?</li> </ul>
Effeithiau'r Rhaglen	<ul style="list-style-type: none"> <li>Pa ganlyniadau ac effeithiau mae'r rhaglen wedi'u cyflawni neu a fydd y rhaglen yn eu cyflawni?</li> <li>I ba raddau y mae'r rhaglen wedi cyflawni yn erbyn ei hamcanion gwreiddiol?</li> <li>Pa werth ychwanegol ehangach mae'r rhaglen wedi'i gynhyrchu?</li> <li>Pa ganlyniadau neu effeithiau annisgwyl neu anfwriadol sydd wedi digwydd, os o gwbl?</li> </ul>

## 1.2 Dull Gwerthuso

Mae'r gwerthusiad wedi cynnwys y tasgau allweddol canlynol:

- Adolygiad o ddogfennau cefndir ar gyfer y rhaglen, gan gynnwys yr achos busnes gwreiddiol a dogfennau cyflawni allweddol
- Dadansoddiad o wybodaeth rheoli rhaglen, gan gynnwys data gwariant ac allbwn
- Cynnal arolwg gydag 11 arweinydd prosiect i gasglu mewnwelediad ar eu profiad o gyflawni ac effeithiau'r buddsoddiadau (sy'n cynrychioli dros ddwy ran o dair o'r 16 o unigolion arweiniol sy'n cyflawni prosiectau a ariennir drwy'r rhaglen hon)
- Cynnal arolwg o 12 o randdeiliaid allweddol eraill, gan gynnwys cynrychiolwyr o gynghorau tref a sir a phartneriaid cyflawni eraill, i gael eu safbwyntiau ar gyflawni'r rhaglen a'i heffeithiau
- Cynnal tair astudiaeth achos fanylach gyda phrosiectau a ariennir i gael mewnwelediad manylach ynghylch effeithiau cynnar y buddsoddiadau hyn.

## 2. Disgrifiad o'r Rhaglen

Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o raglen Canol Trefi Gwynedd, gan gwmpasu crynodeb o'r angen gwreiddiol a'r rhesymeg dros y prosiect, nodau ac amcanion, mewnbynnau, gweithgareddau a gyflawnwyd, dangosyddion perfformiad allbwn a chanlyniadau, a'r canlyniadau terfynol y mae'r prosiect yn ceisio eu cyflawni.

### 2.1 Angen a Rhesymeg ar gyfer y Rhaglen

Roedd yr angen allweddol a'r rhesymeg sy'n sail i ddyluniad y prosiect yn cynnwys y canlynol:

- **Canol trefi a strydoedd mawr yn cael trafferth denu ymwelwyr yng Ngwynedd.** Mae'r heriau sy'n wynebu strydoedd mawr a chanol trefi Gwynedd yn adlewyrchu'r rhai ar draws y DU, gyda siopa y tu allan i'r dref ac ar y rhyngwrwyd, yn ogystal ag effeithiau cynnydd mewn costau byw ac effeithiau tymor hwy COVID-19 ar ymddygiad defnyddwyr, oll yn cyfrannu at amodau mwy heriol, ac yn arwain at lai o ymwelwyr.
- **Ansawdd gofodau canol tref yn dirywio, gan ychwanegu ymhellach at heriau.** Mewn llawer o achosion mae'r gostyngiadau yn nifer yr ymwelwyr yn golygu gostyngiadau mewn buddsoddiadau mewn mannau cyhoeddus, a chynnydd mewn eiddo gwag. Yn y pen draw, gall hyn arwain at amgylcheddau o ansawdd is a llai o falchder bro.
- **Mae Adfywio Canol Trefi yn un o flaenoriaethau Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28.** O dan hyn mae Fframwaith Adfywio Gwynedd a 13 o Gynlluniau Ardal, sy'n nodi blaenoriaethau unigol ar gyfer pob ardal. Ar draws yr holl gynlluniau mae angen cyffredin am fuddsoddiad i adfywio canol trefi, sy'n darparu sbardun allweddol ar gyfer y rhaglen hon.
- **Angen dod o hyd i ddefnyddiau newydd yng nghanol trefi a strydoedd mawr.** Mae angen y buddsoddiad hwn i helpu i drawsnewid ac ail-bwrpasu defnyddiau newydd ar gyfer canol trefi a strydoedd mawr, er mwyn cynyddu nifer yr ymwelwyr, bywiogrwydd a balchder bro eto. Nod buddsoddiad y rhaglen (ochr yn ochr â gweithgareddau ehangach) yw uwchraddio seilwaith a chyfansoddiad ac annog darpar fuddsoddwyr a defnyddwyr i ddod â gweithgareddau newydd, a allai gynnwys addysg, iechyd, y celfyddydau, atyniadau, hamdden, digwyddiadau, cyflogaeth neu ofod byw. Mae Cyngor Gwynedd yn cydnabod y bydd unrhyw fuddsoddiadau o'r gwelliannau hyn yn arwain at ddod ag adeiladau gwag yn ôl i ddefnydd, creu swyddi a dod â bywiogrwydd yn ôl i ganol trefi.
- **Bydd buddsoddiadau yn dod â buddion ehangach gan gyfrannu at flaenoriaethau Cyngor Gwynedd.** Yn ogystal â'r manteision adfywio, bydd y cynlluniau'n cael eu cyflawni ar sail trawsadrannol, fel eu bod hefyd yn ychwanegu gwerth at flaenoriaethau eraill o fewn Cynllun y Cyngor, megis thema Cymunedau Glân a Thaclus a Chynllun Hyrwyddo ein Diwylliant a'r Economi Ymwelwyr Cynaliadwy.

## 2.2 Nodau'r Rhaglen

Nodau allweddol y rhaglen yw:

- Gwella ansawdd y mannau cyhoeddus yng nghanol trefi a strydoedd mawr Gwynedd
- Cynyddu canfyddiadau o ddiogelwch yn y mannau hyn
- Cefnogi datblygiad defnyddiau newydd a defnyddwyr mannau canol tref a stryd fawr
- Denu mwy o ymwelwyr a gwariant yn y mannau hyn

## 2.3 Mewnbynnau

Mae Cynllun Canol Tref Gwynedd yn gynllun gwerth £1.91m, a ariennir yn bennaf drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU (£1.86m) ochr yn ochr â £45,654 o arian cyfatebol gan Raglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru. Arweiniwyd rheoli a chyflwyno cyffredinol y rhaglen gan Gyngor Gwynedd.

## 2.4 Gweithgareddau a Gyflawnwyd

Yn wreiddiol, roedd y rhaglen yn gyffredinol yn cynnwys pecyn o 18 o brosiectau i'w cefnogi. Dros amser, dynodwyd rhai o'r prosiectau hyn fel rhai na allai fynd yn eu blaenau, gydag arian wedi'i ailddyrranu i brosiectau hyfyw eraill a ddygwyd ymlaen. Mae'r prosiectau a'r statws, yn ogystal â'r dyraniadau cyllid gwreiddiol a diweddaraf wedi'u crynhoi yn y tabl isod.

Tabl 2-1: Crynodeb o'r Gweithgareddau a Gyflawnwyd

Enw'r Prosiect	Gwerth Gwreiddiol (£k)	Gwerth Diweddaraf (£k)	Disgrifiad a Statws
<b>Prosiectau Gwreiddiol</b>			
1. Prynu'n Lleol	45.0	39.8	Ymgyrch sirol i annog trigolion Gwynedd a thu hwnt i wario yn yr ardal leol drwy ymgyrchoedd ar-lein penodol a gan ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol. Mae sylfaen y gwaith hwn eisoes yn ei le gan Gyngor Gwynedd. <b>Statws: Wedi'i gwblhau</b>
2. Cynllun Arwyddion Bangor	25.6	27.2	Datblygu, cynhyrchu a gosod arwyddion 'mynegbyst' yng Nghanol Dinas Bangor yn unol â Strategaeth Arwyddion Bangor <b>Statws: Wedi'i gwblhau</b>

Enw'r Prosiect	Gwerth Gwreiddiol (£k)	Gwerth Diweddaraf (£k)	Disgrifiad a Statws
<b>Prosiectau Gwreiddiol</b>			
3. Cynllun Diogelwch Cymunedol	456.3	456.3	Bydd gosod Teledu Cylch Cyfyng yng Nghanol Dinas Bangor, canol tref Caernarfon a chanol tref Pwllheli ynghyd â sicrhau gwelliannau i'r polion goleuo yn galluogi gosod yr offer er mwyn gwella diogelwch y trefi hyn. <b>Statws: Ar fynd</b>
4. Astudiaeth Effaith Economaidd Canolfan Iechyd a Lles Bangor	15.0	26.0	Comisiynu Astudiaeth Effaith Economaidd Canolfan Iechyd a Lles ar gyfer safle Canolfan Menai ym Mangor. <b>Statws: Wedi'i gwblhau</b>
5. Astudiaeth Dichonoldeb Ardal Pen Llŷn, Caernarfon	70.0	-	Yn sgil datblygu ac agor Ffordd Osgoi Caernarfon, gwaith comisiynu ac astudiaeth sy'n edrych ar y posibilïadau a'r opsiynau ar gyfer ardal Pen Llŷn, Caernarfon ac sy'n canolbwyntio'n benodol ar y draphont a'r maes parcio. <b>Statws: Heb fynd ymlaen â'r prosiect</b>
6. Astudiaeth Dichonoldeb Cei Llechi	60.0	47.0	Gwaith comisiynu ac astudiaeth sy'n edrych ar ddichonoldeb ac opsiynau ar gyfer ardal Cei Llechi, Caernarfon <b>Statws: Ar fynd</b>
7. Astudiaeth Dichonoldeb Pendeitch	20.0	-	Gwaith comisiynu ac astudiaeth sy'n edrych ar ddichonoldeb ac opsiynau ar gyfer Adeilad Oriel Pendeitch Caernarfon. <b>Statws: Heb fynd ymlaen â'r prosiect</b>
8. Cei'r Gogledd	175.0	284.6	Gwelliannau amgylcheddol a gweledol i'r cyswllt rhwng canol tref Pwllheli a Glan Don ar hyd Cei'r Gogledd <b>Statws: Ar fynd</b>
9. Tŷ Siamas	19.4	19.4	Uwchraddio adeilad Tŷ Siamas, Dolgellau yn unol â'r cais a gyflwynwyd i Gronfa Adfywio SPF <b>Statws: Wedi'i gwblhau</b>
10. Llewyrch o'r Llechi 2	525.0	525.0	Cynllun sy'n cynnwys comisiynau celf, cynlluniau arwyddion a strwythur bychan yng nghanol tref Tywyn, Porthmadog a Phenygroes i ychwanegu gwerth at y gwaith fydd yn cael ei wneud yng nghanol tref Llanberis, Bethesda a Blaenau Ffestiniog o ganlyniad i fuddsoddiad Cronfa Ffyniant Bro <b>Statws: Ar fynd</b>

Enw'r Prosiect	Gwerth Gwreiddiol (£k)	Gwerth Diweddaraf (£k)	Disgrifiad a Statws
<b>Prosiectau Gwreiddiol</b>			
11. Cynllun Maes Cricieth	33.6	60.0	Gwelliannau amgylcheddol i Faes Cricieth <b>Statws: Wedi'i gwblhau</b>
12. Cynllun Uwchraddio Biniau a Meinciau'r Sir	66.0	67.0	Uwchraddio darpariaethau biniau a meinciau ar draws prif drefi'r Sir gan gynnig darpariaeth arloesol mewn rhai mannau <b>Statws: Wedi'i gwblhau</b>
13. Cynllun Fynl	50.0	18.0	Datblygu a gweithredu cynllun i osod finyl mewn eiddo gwag yng nghanol trefi Gwynedd <b>Statws: Wedi'i gwblhau</b>
14. Cynllun Siop Naid	50.0	-	Datblygu a gweithredu cynllun i sefydlu cynllun siop 'naid' yng nghanol dinas Bangor ar y cyd â'r Brifysgol / Coleg Llandrillo Menai <b>Statws: Heb fynd ymlaen â'r prosiect</b>
15. Cynllun Fynl Ardal yr Eisteddfod	8.0	8.0	Datblygu a gweithredu cynllun gosod finyl mewn eiddo gwag yng nghanol trefi ardal Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd <b>Statws: Wedi'i gwblhau</b>
16. Cynllun Celf	100.0	80.0	Datblygu a gweithredu cynllun celf yng nghanol tref Gwynedd <b>Statws: Ar fynd</b>
17. Astudiaeth Ymchwil	3.0	3.0	Gwaith comisiynu ac astudiaeth sy'n edrych ar waelodlin a data ar gyfer canol trefi Gwynedd <b>Statws: Wedi'i gwblhau</b>
18. Costau Rheolwr Prosiect	75.0	62.5	Penodi Rheolwr Prosiect i gydlynu'r gwaith. <b>Statws: Ar fynd</b>
<b>Prosiectau Ychwanegol</b>			
19. Arwyddion Caernarfon	-	15.0	Comisiynu strategaeth arwyddion i gerddwyr ar gyfer Tref Caernarfon <b>Statws: Wedi'i gwblhau</b>
20. Canolfan Porthmadog	-	10.0	Comisiynu pensaer i ddatblygu dyluniadau newydd ynghyd â chostau ar gyfer y Ganolfan, a allai gynyddu'r defnydd o'r ganolfan pe bai modd rhoi'r dyluniadau ar waith yn y dyfodol. <b>Statws: Wedi'i gwblhau</b>
21. Canolfan Bro Tegid	-	64.5	Uwchraddio adeilad Canolfan Bro Tegid, Y Bala yn unol â'r cais a gyflwynwyd i Gronfa Adfywio SPF <b>Statws: Wedi'i gwblhau</b>

Enw'r Prosiect	Gwerth Gwreiddiol (£k)	Gwerth Diweddaraf (£k)	Disgrifiad a Statws
<b>Prosiectau Ychwanegol</b>			
22. Bolardiau Caernarfon a Bangor	-	1.2	Uwchraddio rhai o'r bolardiau diogelwch ffyrdd yng Nghaernarfon a Bangor <b>Statws: Wedi'i gwblhau</b>
23. Mur Beiblaidd Bangor	-	20.0	Uwchraddio'r mur o amgylch Gardd Feiblaidd Bangor <b>Statws: Wedi'i gwblhau</b>
24. Isadeiledd Llanberis	-	30.0	Gwella isadeiledd ar gyfer digwyddiadau yn Llanberis <b>Statws: Ar fynd</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,797</b>	<b>1,865</b>	

Noder: Yn erbyn y gyllideb o £1.91m, mae hyn yn gadael £0.05m yn weddill i'w ddyrannu.

## 2.5 Dangosyddion Allbynnau a Chanlyniadau

Nododd y prosiect bedwar dangosydd allbwn a thri dangosydd canlyniad fel y nodir yn y tabl isod.

Categori Ymyrraeth Allbynnau	Dangosydd	Targed
W1: Gwelliannau i Ganol Trefi a'r Stryd Fawr	Nifer y prosiectau a gwblhawyd yn llwyddiannus	22
	Nifer yr amwynderau/cyfleusterau a grëwyd neu a wellwyd	2
	Nifer yr astudiaethau dichonoldeb a ddatblygwyd fel rhan o'r cymorth	4
W8: Cyllid i ddatblygu a hyrwyddo ymgyrchoedd a phrofiadau ehangach sy'n denu pobl i ymweld â'r ardal	Nifer y bobl a gyrhaeddwyd	10,000
<b>Canlyniadau</b>		
W1: Gwelliannau i Ganol Trefi a'r Stryd Fawr	Gwell canfyddiad o amwynderau/cyfleusterau	200
	Gwell canfyddiad o ddiogelwch	300
W8: Cyllid i ddatblygu a hyrwyddo ymgyrchoedd a phrofiadau ehangach sy'n denu pobl i ymweld â'r ardal	Cynyddu nifer yr ymwelwyr	10,000

## 2.6 Effeithiau Arfaethedig

Mae dangosyddion effaith allweddol y bydd y rhaglen yn ceisio cael effaith gadarnhaol arnynt yn y pen draw yn cynnwys y canlynol:

- Gwella ansawdd lle yng nghanol trefi a strydoedd mawr
- Lleihau nifer yr eiddo gwag yng nghanol trefi a strydoedd mawr
- Llai o droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yng nghanol trefi a strydoedd mawr
- Mwy o ymdeimlad o ddiogelwch yng nghanol trefi a strydoedd mawr
- Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr â chanol trefi a strydoedd mawr
- Gwella balchder bro cymunedol yng nghanol trefi a strydoedd mawr
- Mwy o wariant lleol yng nghanol trefi a strydoedd mawr
- Buddsoddiadau preifat a chyhoeddus newydd yn cael eu gwneud yng nghanol trefi a strydoedd mawr.


## 3. Perfformiad y Rhaglen

Mae'r adran hon yn amlinellu'r targedau perfformiad gwariant ac allbynnau/canlyniadau a'r hyn a gyflawnwyd ar adeg y gwerthusiad hwn ar lefel rhaglen gyffredinol a lefel prosiect unigol. Mae hyn yn cymryd data hyd at Ionawr 2025.

### 3.1 Perfformiad yn erbyn Targedau Gwariant

Mae'r siartiau isod yn amlinellu perfformiad cyffredinol y rhaglen hyd at Ionawr 2025. Mae hyn yn dangos, yn erbyn gwerth rhaglen gyffredol o £1.91m, bod cyfanswm o 61% o'r gwariant (£1.16m) wedi'i ddefnyddio hyd yma. Disgwylir i'r £0.75m sy'n weddill gael ei ddefnyddio dros y cyfnod cyflawni sy'n weddill hyd at ddiwedd mis Chwefror 2025.


Ffigur 3-1: Trosolwg o Wariant Rhaglenni yn erbyn Targedau



Mae'r siart dilynol isod yn dadansoddi hyn ar lefel prosiect unigol (noder nad yw prosiectau a derfynwyd wedi'u dangos ar y siart hwn). Mae hyn yn amlygu nad yw llawer o'r prosiectau newydd (tuag at waelod y siart) yn dangos eu bod wedi gwario unrhyw wariant eto, mae'r rhain yn bennaf yn brosiectau ar raddfa gymharol fach ac felly mae cwblhau'r gwariant hwnnw o fewn yr amserlenni sy'n weddill yn ymddangos yn ddichonadwy.

Y ddau brosiect mwyaf lle mae gwariant sylweddol yn weddill yw'r prosiectau Teledu Cylch Cyfyng a Llewyrch o'r Llechi 2. Ar gyfer y ddau brosiect mae dros 200k eto i'w ddefnyddio ar y prosiectau hyn erbyn diwedd Chwefror 2025. Serch hynny, mewn trafodaethau gyda Chyngor Gwynedd, deallwn ei bod yn gwbl ddisgwyliedig y bydd y rhain a phrosiectau eraill yn gwneud defnydd llawn o'r cyllid erbyn diwedd y cyfnod cyflawni.

Ffigur 3-2: Trosolwg o Wariant Lefel Prosiect hyd yma yn erbyn Targedau



## 3.2 Perfformiad yn erbyn Targedau Allbynnau a Chanlyniadau

Sefydlodd y rhaglen set gymharol dynn o dargedau allbynnau a chanlyniadau. Rhoddir trosolwg o'r targedau hyn a chynnydd yn eu herbyn yn y tabl isod.

Tabl 3-1: Crynodeb o Gynnydd yn erbyn Targedau Allbynnau a Chanlyniadau

Dangosydd	Targed	Hyd Yma	Disgwylir erbyn Diwedd y Prosiect	Disgrifiad
<b>Allbynnau</b>				
Nifer y prosiectau a gwblhawyd yn llwyddiannus	22	14	27	Mae'r rhaglen yn parhau i fod ar y trywydd cywir i gyflawni hyn
Nifer yr amwynderau/cyfleusterau a grëwyd neu a wellwyd	2	4	5	Mae prosiectau Tŷ Siamas, Maes Criccieth, Canolfan Bro Tegid a'r Golff Giamocs (Rhan o gynllun Llewyrch o'r Llechi 2) wedi cyrraedd y dangosydd allbwn, ac mae Ceir Gogledd ar y trywydd cywir i gael ei orffen.
Nifer yr astudiaethau dichonoldeb a ddatblygwyd fel rhan o'r cymorth	4	7	11	Mae'r prosiectau sy'n cefnogi Astudiaeth Effaith Economaidd Canolfan Iechyd a Lles Bangor, 2x Astudiaeth Dichonoldeb Ceir Llechi, Dyluniadau cysyniad ar gyfer Ceir Gogledd Pwllheli, Strategaeth Arwyddion Caernarfon, Dyluniadau Canolfan Porthmadog, Adroddiad Ymchwil a Strategaeth Arwyddion Penygroes, Porthmadog a Thowyn (fel rhan o gynllun Llewyrch i'r Llechi 2) yn cael eu hystyried yn rhai sydd wedi cyfrannu at y dangosydd hwn. Roedd dau brosiect arall: Astudiaeth Dichonoldeb Ardal Pen Llŷn ac Astudiaeth Dichonoldeb Pendeitch wedi'u cynllunio'n wreiddiol ond aethpwyd ymlaen â'r prosiectau

Dangosydd	Targed	Hyd Yma	Disgwylir erbyn Diwedd y Prosiect	Disgrifiad
<b>Allbynnau</b>				
Nifer y bobl a gyrhaeddwyd	10,000	100,300		Mae hyn yn ymwneud â nifer y bobl a gyrhaeddwyd gan ymgyrchoedd a marchnata yn enwedig mewn perthynas â phrosiect Prynu'n Lleol. Dylid nodi fodd bynnag mai diffiniad y dangosydd yw 'Nifer y bobl y mae ymyriad UKSPF yn effeithio'n uniongyrchol arnynt', nad yw'n ddangosydd â diffiniad clir iawn wrth feddwl am ymgyrch farchnata.
<b>Canlyniadau</b>				
Gwell canfyddiad o amwynderau/cyfleusterau	200	725		Ar gyfer y dangosydd hwn, mae Cyngor Gwynedd wedi ceisio'n ôl-weithredol i gasglu adborth ar ganfyddiadau o brosiectau a'u heffaith ar ganol trefi ym Mhenrhyndeudraeth, Bangor, Caernarfon a'r Bala, lle nododd 725 o bobl fod y Fynyl, Arwyddion Bangor a Murlun y Bala wedi rhoi gwell canfyddiad o amwynderau'r trefi. Dosbarthwyd cwestiynau'r arolwg trwy wefan yr awdurdod lleol ac ar gyfryngau cymdeithasol. Noder: nid yw'r canfyddiadau hyn yn cwrdd yn llawn â disgrifiad y dangosydd sy'n awgrymu bod angen i'r unigolion hynny adrodd bod yr amwynderau yn dda / dda iawn yn ogystal â bod yn well, na chasglwyd gwybodaeth yn eu cylch yn yr arolwg. Ymhellach, nododd cyfran sylweddol o ymatebwyr hefyd na fu gwelliannau mewn amwynderau.
Gwell canfyddiad o ddiogelwch	300	anhysbys		Roedd y dangosydd hwn yn ymwneud â newidiadau yn ymdeimlad pobl o ddiogelwch, ond ni chafodd ei gipio.

Dangosydd	Targed	Hyd Yma	Disgwylir erbyn Diwedd y Prosiect	Disgrifiad
Cynyddu nifer yr ymwelwyr	10,000	anhysbys		Roedd y dangosydd hwn yn ymwneud â nifer yr ymwelwyr ychwanegol a ddenwyd yn gysylltiedig ag ymgyrchoedd a marchnata, fodd bynnag ni chasglwyd gwaelodlin na niferoedd ymwelwyr gwirioneddol fel rhan o'r rhaglen.

Er bod casglu targedau allbwn a chanlyniadau ar gyfer y math hwn o ymyriad yn gallu bod yn heriol (yn enwedig ar gyfer canlyniadau lle gall fod oedi rhwng cwblhau prosiectau a gwireddu'r canlyniadau), mae rhai gwersi pwysig i'w cymryd o'r rhaglen hon mewn perthynas â'r dangosyddion hyn:

- **Eglurder ynghylch yr hyn y bydd y rhaglen yn ei gyflawni** – yn ddefnyddiol, dylid dewis y dangosyddion allbynnau a chanlyniadau ar sail y pethau pwysicaf y bydd y rhaglen yn eu cyflawni. Er na ellir meintio popeth mewn targed, dylai'r targedau roi syniad clir o'r hyn y mae'r rhaglen wedi'i gyflawni. Er enghraifft, gallai'r dangosyddion presennol fod wedi'u hategu gan ddangosydd ynghylch nifer y canol trefi neu'r strydoedd mawr gyda thir cyhoeddus gwell, a fyddai'n cynnwys allbwn allweddol o'r hyn y mae'r cyllid wedi'i gyflawni.
- **Gosod dangosyddion lle mae'n glir beth sy'n cael ei fesur** - mae'r dangosyddion canlyniadau o amgylch canfyddiadau gwell yn enghraifft lle gallai ystyr y dangosydd fod wedi'i wneud yn gliriach mewn perthynas â'r prosiect hwn.
- **Cynllunio ar gyfer sut i gasglu'r data gofynnol** – yn achos gwell canfyddiad o ddiogelwch a chynnydd yn nifer yr ymwelwyr, nid oedd y rhaglen wedi nodi ar y cychwyn sut y byddai'r rhain yn cael eu mesur, ac felly ni chafodd y ffigurau hyn eu holrhain dros amser, sy'n golygu nad yw data ar y dangosyddion hyn wedi bod ar gael ar gyfer y gwerthusiad.
- **Cynllunio ymlaen llaw i gasglu tystiolaeth sylfaenol cyn i weithgareddau'r prosiect ddechrau, lle bo angen** – yn gysylltiedig â'r pwyntiau uchod, yn achos sawl dangosydd, yn ogystal â diffinio sut y caiff dangosyddion eu mesur a rhoi dulliau monitro ar waith drwy gydol y cyfnod cyflawni, mae angen data sylfaenol ar rai o'r dangosyddion, er mwyn gallu dadansoddi newidiadau cyn ac ar ôl ymyrraeth, sef rhywbeth na wnaethpwyd ar gyfer y rhaglen hon.

## 4. Rheoli a Chyflawni'r Rhaglenni

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn rhoi crynodeb o agweddau allweddol ar reoli a chyflawni gan gynnwys trosolwg o gynllun prosiectau a rhaglenni, cyflawni prosiectau unigol a'r hyn a weithiodd yn dda neu ddim cystal, rheoli a monitro'r rhaglenni.

Mae'r dadansoddiad yn tynnu ar adolygiad desg gan y tîm gwerthuso, ochr yn ochr ag ymgysylltu ag arweinwyr prosiectau unigol a rhanddeiliaid ehangach, gan gynnwys cynghorau tref, perchnogion eiddo sy'n ymwneud â phrosiectau a ariennir a phartneriaid cyflawni ar gyfer y prosiectau.

### 4.1 Dyluniad Rhaglenni a Phrosiectau

Ar y cyfan mae'r gyfres o brosiectau a ariennir wedi alinio'n gryf â'r rhesymeg a nodwyd yn wreiddiol a'r angen am y rhaglen. Nod y rhesymeg, fel y'i hamlinellir yn Adran 2, yw mynd i'r afael â'r gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr, gwariant, bywiogrwydd a balchder yng nghanol trefi a strydoedd mawr drwy ddigwyddiadau/gweithgareddau newydd, gwell manau cyhoeddus a gofod mwy diogel, a buddsoddiad mewn adeiladau newydd.

Roedd natur y prosiectau a gefnogir yn cyd-fynd yn gryf â'r nodau hynny, er enghraifft:

- **Mannau cyhoeddus mwy deniadol a diogel** – megis buddsoddi yn Nheledu Cylch Cyfyng ym Mangor, prosiect gwella amgylcheddol a gweledol Cei'r Gogledd Pwllheli a Llewyrch o'r Llechi 2 yn ariannu comisiynau celf ac arwyddion yn Nhywyn, Porthmadog a Phen-y-groes.
- **Camau gweithredu wedi'u hanelu at ddenu a galluogi buddsoddiad newydd** – megis astudiaethau dichonoldeb ar gyfer Canolfan Iechyd a Lles canol dinas Bangor, a Chei Llechi – yn dadansoddi posibilïadau buddsoddi mewn ardal o Gaernarfon.
- **Denu ymwelwyr newydd a gwariant** – fel ymgyrch farchnata leol Prynu'n Lleol.

O'r un ar ddeg arweinydd prosiect a arolygwyd ar gyfer y gwerthusiad, nododd pob un ohonynt fod y prosiectau wedi cyflawni'r hyn a oedd wedi'i gynllunio'n wreiddiol: nododd saith fod hyn yn wir 'i raddau helaeth' a phedwar yn nodi mai dyma'r achos 'i raddau', gan adlewyrchu y gallai rhai agweddau ar y cynlluniau gwreiddiol fod wedi newid yn rhannol.

Ar draws y gyfres o brosiectau a ariannwyd roedd rhai newidiadau i weithgareddau, gan gynnwys cyllidebau wedi'u haddasu ar gyfer rhai prosiectau, rhai prosiectau na ellid eu symud ymlaen, ac eraill a ddygwyd ymlaen i ddefnyddio'r tanwariant a grëwyd gan y rhai a dynnwyd yn ôl. Amlinellir statws pob prosiect yn Adran 3. O ystyried yr ystod o brosiectau a ariannwyd, byddai disgwyl rhywfaint o addasiad yn ystod y cyfnod cyflawni, ac mae'r adolygiad o brosiectau newydd yn dangos bod y rhaglen wedi parhau i ariannu prosiectau a oedd yn cyd-fynd yn dda ag anghenion a rhesymeg y rhaglen.

## 4.2 Cyflawni Prosiectau

Mae adborth gan arweinwyr cyflawni prosiectau a rhanddeiliaid eraill sy'n ymwneud â chyflawni prosiectau yn datgelu amrywiaeth o ffactorau cyffredin a oedd yn bwysig i gyflawni prosiectau'n effeithiol ar gyfer prosiectau adfywio canol trefi – mewn rhai achosion mae'r rhain yn adlewyrchu ffactorau a oedd yn gyffredinol gadarnhaol ar gyfer y rhaglen hon, ac mewn achosion eraill yn adlewyrchu meysydd lle gellid bod wedi cryfhau dulliau gweithredu.

- **Roedd amserlenni cyflawni yn heriol ar gyfer sawl prosiect.** Nododd mwy na hanner yr arweinwyr prosiect a arolygwyd fod amserlenni cyflawni yn her i'w prosiectau, gan nodi'n arbennig yr oedi cynnar cyn cymeradwyo. Ar draws gwahanol brosiectau, amlygodd arweinwyr cyflawni fod angen i amserlenni gynnwys ymgynghoriadau â'r gymuned a rhanddeiliaid, datblygu cytundebau partner, prosesau recriwtio a chaffael, yn ogystal â dylunio a chyflawni prosiectau. Er bod prosiectau ar y cyfan yn gallu dod o hyd i ffyrdd o gyflawni o fewn amserlenni, roedd hyn weithiau'n golygu dod ag adnoddau ychwanegol i mewn, neu leihau rhai agweddau ar ymgynghori / ymgysylltu.
- **Roedd ymgysylltu â'r gymuned ac ymgynghori â rhanddeiliaid lleol yn bwysig iawn.** Amlygodd y rhan fwyaf o arweinwyr prosiectau bwysigrwydd ymgysylltu â'r gymuned a rhanddeiliaid lleol allweddol wrth ddylunio a chyflawni prosiectau o'r natur hon. Fel y nodwyd uchod, lle cafodd hyn ei leihau oherwydd pwysau amser, nid oedd hyn yn ddelfrydol ar gyfer optimeiddio cyflawni prosiectau.
- **Gallai ymgysylltu â rhai rhanddeiliaid fod yn heriol.** Er bod llawer o brosiectau wedi amlygu gwerth mawr a sicrhawyd drwy ymgysylltu â chymunedau lleol a rhanddeiliaid wrth ddylunio a chyflawni prosiectau, ar gyfer rhai prosiectau, roedd heriau ychwanegol o ymgysylltu â rhanddeiliaid penodol yn her i gyflawni'n effeithiol. Roedd hyn yn arbennig o berthnasol i brosiectau a oedd yn ceisio gweithio gyda pherchnogion adeiladau preifat, lle nad oeddent bob amser yn bosibl eu cyrraedd neu i ymgysylltu â hwy. Mewn rhai achosion roedd methiant i gysylltu â'r unigolion hyn yn cwtogi ar weithgareddau y gellid eu cyflawni fel rhan o'r prosiect, er enghraifft gyda'r prosiect Fynyl.
- **Roedd ymgorffori arbenigedd technegol yn bwysig ar gyfer sawl prosiect.** Er nad yw'n angenrheidiol ar gyfer pob prosiect, ar gyfer llawer o'r prosiectau roedd cynnwys sefydliadau a gaffaelwyd yn allanol a ddaw gydag arbenigedd penodol sy'n berthnasol i'r prosiect yn arbennig o bwysig, a gallai ychwanegu gwerth sylweddol at ddylunio yn ogystal â chyflawni, pe bai'n dod yn ddigon cynnar.
- **Roedd chwyddiant costau yn her i rai prosiectau.** Nododd tri o'r arweinwyr prosiect yn arbennig fod cynnydd mewn costau o'r cais cychwynnol am gyllid i'r camau cymeradwyo a chyflawni yn effeithio ar eu prosiectau. Lle'r oedd hyn yn wir, roedd yn rhaid gwneud addasiadau i gyflawniadau'r prosiect neu geisio cyllid ychwanegol i fynd i'r afael â'r diffyg.

- **Cydnabod bod cynllunio ar gyfer cynaladwyedd tymor hir yn hynod bwysig.** Roedd yn ofynnol i bob prosiect gael strategaethau ymadael clir, yn nodweddiadol yn cynnwys cytundebau cynnal a chadw a lofnodwyd gan sefydliad arweiniol. Bydd hyn yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod y prosiectau a ariennir yn gallu creu buddion tymor hwy.

### 4.3 Rheoli'r Prosiect

Ar y cyfan, roedd yr adborth ar reolaeth y rhaglen gan Gyngor Gwynedd yn gadarnhaol iawn, gan arweinwyr cyflawni'r prosiect a rhanddeiliaid ehangach sy'n ymwneud â'r rhaglen.

Fel rhan o'r camau cyflawni cynnar, roedd yn ofynnol i ymgeiswyr prosiect gyflwyno ffurflenni cais am y cyllid, a aeth drwy broses graffu a chymeradwyo – asesu ansawdd y cynigion a'u haddasrwydd i anghenion lleol, cyn dyfarnu cyllid i'r prosiectau llwyddiannus.

Mynegwyd rhai pryderon gan rhanddeiliaid ynghylch y broses hon, gyda rhai yn nodi eu bod yn teimlo bod hyd y ffurflenni cais yn rhy hir a swm y wybodaeth yn ormod, ac eraill yn amlygu bod yr amser a gymerir rhwng cyflwyno ceisiadau a derbyn cymeradwyaethau yn rhy hir. Fodd bynnag, roedd nifer yn cydnabod bod oedi yn y camau cynnar yn ymwneud yn bennaf ag oedi wrth gymeradwyo cyllid cychwynnol, yn gysylltiedig â phenderfyniadau ar lefel Llywodraeth genedlaethol.

Y tu hwnt i'r cyfnod cynnar hwn fodd bynnag, roedd rhanddeiliaid yn gadarnhaol iawn ar y cyfan am rôl Cyngor Gwynedd wrth reoli'r rhaglen, gyda saith o'r 11 o arweinwyr cyflawni'r prosiect yn nodi'n benodol bod Cyngor Gwynedd wedi cyfathrebu'n gryf ar sail barhaus ynglŷn â'r rhaglen, a rhai hefyd yn nodi bod y gefnogaeth gan dîm rheoli'r rhaglen yn gryf.

### 4.4 Monitro'r Rhaglen

Fel rhan o ofynion y rhaglen ar gyfer y cyllid, roedd yn ofynnol i Gyngor Gwynedd ddarparu adroddiadau diweddarar ar y rhaglen yn ôl i dîm y brif gronfa, ac felly yn ei dro angen diweddariadau monitro gan brosiectau unigol. Mewn adborth gan arweinwyr cyflawni prosiectau, tynnodd nifer fach o ymatebwyr sylw at deimlad bod y gofynion ar gyfer monitro ac adrodd yn rhy fawr a'u bod yn cymryd amser i ffwrdd o gyflawni. Fodd bynnag, fel gofyniad gan gyllidwyr, efallai y bydd cyfyngiadau o ran y potensial i leihau'r gofyniad gweinyddol hwnnw.

Yn fwy eang ar gasglu dangosyddion allbynnau a chanlyniadau allweddol ar gyfer y rhaglen, roedd set gyfyngedig o nodweddion mesuradwy, ac ni roddodd tîm cyflawni'r rhaglen ddulliau ar waith i sicrhau bod y dangosyddion hyn yn cael eu mesur yn gynnar, sy'n golygu nad oes data ar gael ar gyfer nifer o'r dangosyddion hyn. Ceir rhagor o fanylion am hyn yn Adran 3.

## 5. Effeithiau'r Rhaglen

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o dystiolaeth o'r effeithiau a gyflawnwyd gan y rhaglen hyd yma. Yn aml, natur prosiectau adfywio canol trefi yw ei bod yn bosibl na fydd y mathau o effeithiau y gallant eu cynhyrchu yn digwydd yn syth ar ôl hynny, ac felly mewn llawer o achosion, dim ond canlyniadau canolradd ac effeithiau mwy ansoddol a hanesiol y gellir eu cipio ar yr adeg hon.

Mae'r dadansoddiad yn tynnu ar fewnwelediadau gan arweinwyr cyflawni prosiectau a rhanddeiliaid cyflawni ehangach, yn ogystal â thystiolaeth o astudiaethau achos dyfnach sy'n cynnwys cyfweiliadau pellach â phartneriaid prosiect ar gyfer pedwar o'r prosiectau allweddol a ariennir.

Yn yr adrannau isod rydym wedi rhannu'r dadansoddiad o effeithiau yn dair prif adran – y gyntaf yn ymdrin ag effeithiau cynnar a brofwyd, yr ail yn canolbwyntio ar dystiolaeth ar gyfer effeithiau tymor hwy, a'r drydedd yn ymdrin ag effeithiau ehangach a gyflawnwyd gan y rhaglen. Yna nodir y pedair astudiaeth achos ar ddiwedd yr adran hon.

### 5.1 Tystiolaeth o Effeithiau Cynnar

Mae tystiolaeth a gasglwyd o'r prosiectau a gefnogwyd wedi amlygu'r effeithiau cynnar canlynol a welwyd:

- **Canol trefi mwy deniadol.** Roedd nifer o'r prosiectau a ariannwyd yn cefnogi canol trefi a strydoedd mawr mwy deniadol, trwy fuddsoddiadau fel gwelliannau i fannau cyhoeddus, gwell arwyddion a murluniau newydd. Nodwyd hwn yn benodol gan bedwar o'r 11 arweinydd cyflawni prosiect a arolygwyd fel un o effeithiau cynnar allweddol cynlluniau.
- **Mwy o ymdeimlad o ddiogelwch.** Nodwyd hyn yn fwyaf arwyddocaol yn achos y teledu cylch cyfyng newydd a osodwyd yng nghanol dinas Bangor, lle nododd yr arweinydd cyflawni bod adborth anecdotaidd gan fusnesau a'r cyhoedd wedi bod yn gadarnhaol am ymdeimlad gwell o ddiogelwch.
- **Hygyrchedd digidol gwell.** Yn gysylltiedig yn bennaf ag un prosiect a oedd yn cynnwys cyflwyno meinciau newydd i ganol y dref a oedd yn ymgorffori cysylltedd di-wifr, gan ddod â hygyrchedd digidol gwell i ganol y dref.

**Cynnydd yn nifer yr ymwelwyr.** Yn gysylltiedig â'r uchod i gyd, yn ogystal â thrwy brosiectau a oedd yn annog gweithgareddau newydd yng nghanol trefi, megis y buddsoddiad i gefnogi Golff Giamocs ym Mhorthmadog, nod allweddol yn y pen draw yw cefnogi twf nifer yr ymwelwyr a mwy o fywiogrwydd yng nghanol trefi a strydoedd mawr. Mewn llawer o ardaloedd gall effaith gwelliannau canol tref gymryd amser i drosi i fwy o ymweliadau a nifer yr ymwelwyr, a lle mae cyfrifwyr nifer yr ymwelwyr, ni fu digon o amser bob amser i gipio newidiadau gyda'r rhain. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae tystiolaeth anecdotaidd o hyn i'w gweld, er enghraifft yng Nghanol Dinas Bangor, lle mae arweinwyr cyflawni prosiectau wedi dweud eu bod wedi dechrau gweld cynnydd yn nifer yr ymwelwyr a gweithgarwch busnes newydd dros y flwyddyn ddiwethaf, yn gysylltiedig â phrosiectau a gefnogir o dan y rhaglen hon, ond hefyd ar y cyd â buddsoddiadau ehangach, sy'n gysylltiedig â'r cynllun adfywio ardal.

- **Gwell balchder a lles cymunedol.** Unwaith eto, yn gysylltiedig â mwy o atyniad a bywiogrwydd y canol, un o ganlyniadau'r rhaglenni yn y pen draw oedd cefnogi mwy o falchder a lles i bobl leol sy'n gysylltiedig â chanol eu trefi a'u strydoedd mawr. Unwaith eto, ar hyn o bryd, mae tystiolaeth anecdotaidd bod yr ymyriadau'n trosi i'r teimlad hwn, er enghraifft, cyfeiriodd rhanddeiliaid y prosiect sy'n ymwneud â chynlluniau murlun at enghreifftiau o ddefnyddwyr canol y dref yn stopio i ymgysylltu â'r tîm cyflawni a rhoi sylwadau ar ba mor ddeniadol yw'r gwaith celf newydd a mynegi teimladau o falchder yn y gwelliannau hyn.

## 5.2 Tystiolaeth o Effeithiau Tymor Hwyr

Sylw arwyddocaol a wnaed gan nifer o ymgylgoreion oedd y gydnabyddiaeth bod maint yr ymyriadau o dan y rhaglen hon yn gymharol fach, o gymharu â'r her sylweddol o ganol trefi a strydoedd mawr sy'n dirywio, sy'n her fawr ar draws Cymru gyfan a'r DU ehangach ac yr effeithir arni gan ffactorau economaidd a diwylliannol llawer mwy. Mae perygl felly y gallai cyfres o brosiectau bach a gwahanol o bosibl fethu â gwneud gwahaniaeth sylweddol o ystyried maint yr her sy'n wynebu canol trefi a strydoedd mawr.

Fodd bynnag, mae nifer o ffactorau sy'n dangos y potensial i'r ymyriadau o dan y rhaglen hon gyfrannu at effeithiau mwy hirdymor a mwy sylweddol, gan gynnwys y canlynol.

- **Buddsoddiadau seilwaith sylweddol.** Mae rhai o'r ymyriadau a wnaed yn fuddsoddiadau tymor hwyr sylweddol a all wneud gwahaniaeth nodedig i ansawdd canol trefi a strydoedd mawr. Mae'r buddsoddiadau mewn teledu cylch cyfyng yng nghanol dinas Bangor (£456k), a'r gwelliannau i Gei'r Gogledd ym Mhwllheli (£285k) yn enghreifftiau pwysig o'r rhain.

- **Astudiaethau dichonoldeb a all alluogi buddsoddiadau mwy.** Gall yr her o ddod o hyd i ffyrdd newydd ac arloesol o fywiogi strydoedd mawr a chanol trefi fod yn heriol, a gall gymryd amser, yn ogystal ag ymchwil a chynllunio manwl, i ddatblygu cyfleusterau cynaliadwy a gwasanaethau a gynigir. Lle mae'r cyllid hwn wedi'i ddefnyddio i symud cyfleusterau newydd a allai fod yn bwysig yn eu blaenau, megis y dadansoddiad dichonoldeb o amgylch Canolfan Iechyd a Lles Bangor, mae gan hyn botensial sylweddol i gael effaith sylweddol, pe bai'r cyfleuster hwnnw'n symud ymlaen yn y pen draw, wedi'i alluogi'n rhannol gan y gwaith a gefnogir gan y rhaglen hon.
- **Cyfrannu at strategaethau adfywio mwy.** Mae Cyngor Gwynedd wedi buddsoddi'n sylweddol mewn gwaith i ddatblygu cynlluniau adfywio strategol ar gyfer ardaloedd ar draws y sir sy'n amlgu gweithgareddau blaenoriaeth ar gyfer buddsoddi a all ategu ei gilydd ac ychwanegu'r gwerth mwyaf wrth fynd i'r afael â dirywiad canol trefi a strydoedd mawr a'i wrthdroi. Lle mae ymyriadau a ariennir wedi'u cysylltu'n agos â'r cynlluniau hynny, maent yn debygol o gael yr effeithiau strategol mwyaf. Mae astudiaeth achos arwyddion Bangor isod yn enghraifft lle mae'n bosibl y bydd yr arwyddion ei hun yn annhebygol o wrthdroi tueddiadau negyddol yn nifer yr ymwelwyr, ond ochr yn ochr ag ystod o ymyriadau eraill yng nghanol y ddinas, mae arweinwyr prosiectau wedi nodi bod rhai o'r tueddiadau hynny ynghylch nifer yr ymwelwyr a gweithgareddau busnes yn dechrau gwrthdroi a thyfu eto.
- **Datblygu cysylltiadau rhwng awdurdodau lleol a pherchnogion adeiladau canol tref.** O ystyried pwysigrwydd dod o hyd i ddefnyddiau ar gyfer adeiladau gwag yng nghanol trefi a strydoedd mawr i wella bywiogrwydd a lleihau canfyddiadau o ddirywiad, nododd rhai rhanddeiliaid bwysigrwydd cynlluniau ar raddfa fach fel y prosiectau Fynl o ran creu cysylltiadau newydd rhwng perchnogion eiddo ac awdurdodau lleol neu bartneriaid eraill. Tra'n cael effaith uniongyrchol lai, gallai'r fantais o gychwyn neu wella'r perthnasoedd hynny gael effaith fwy arwyddocaol yn y tymor hwy.
- **Ysgogi cymunedau a'u cynnwys yn fwy wrth ddatblygu canol trefi.** Yn yr un modd â'r pwynt uchod, gall ymgysylltu â grwpiau cymunedol i gefnogi bywiogrwydd canol tref gael effaith sylweddol iawn, felly gall hyd yn oed cyllid cymharol fach sy'n ymgysylltu ac yn ysgogi gweithgarwch grwpiau cymunedol yn well wrth ddatblygu a chyflawni prosiectau, digwyddiadau a gweithgareddau sy'n bywiogi ac yn gwella amgylchedd canol tref neu stryd fawr, arwain at fanteision mwy arwyddocaol yn y tymor hwy.

## 5.3 Manteision Ehangach y Rhaglen

Y tu hwnt i'r effeithiau cyflawni craidd, tynnodd y gwerthusiad sylw at ystod o fanteision ehangach a gynhyrchir drwy'r prosiectau a ariennir, gan gynnwys y canlynol.

- **Datblygu Ymgysylltiad Grwpiau Cymunedol a Gwaith Prosiect.** Nododd nifer o randdeiliaid y prosiect fod y prosiectau wedi annog mwy o bobl yn y gymuned i gyfranogi, wedi cefnogi gwell cydlyniant cymunedol ac wedi creu potensial i fwy o bobl yn y gymuned i ymgysylltu â phrosiectau yn y dyfodol.
- **Ymgysylltu a Gwella Lles Gwirfoddolwyr.** Roedd nifer o brosiectau'n cynnwys mewnbwn gwirfoddolwyr, gan greu'r potensial i unigolion ddysgu sgiliau newydd, cwrdd â phobl newydd a chael boddhad o weithio ar brosiectau lleol. Roedd gwaith ar rai o'r murluniau yng nghanol y dref yn enghraifft lle'r oedd gwirfoddolwyr yn ymwneud â phaentio'r murlun, gan gynnwys pobl ifanc ac oedolion ag anableddau, a thrwy adborth i'r timau dosbarthu nodwyd bod paentio'r murlun yn cyfrannu'n gadarnhaol at eu llesiant.

## 5.4 Astudiaethau Achos Effaith

### Astudiaeth Achos: Arwyddion Bangor

#### Trosolwg o'r Prosiect:

Roedd y prosiect £27,000 yn ymwneud â datblygu, cynhyrchu a gosod 24 arwydd 'mynegbyst' yng Nghanol Dinas Bangor yn unol â Strategaeth Arwyddion Bangor a ddatblygwyd fel rhan o Brif Gynllun Bangor.

#### Cyflawniad:

- **Penodi Contractwr** - Ar ôl rhai heriau tendro cynnar, penodwyd cwmni profiadol yn llwyddiannus i weithgynhyrchu a gosod y mynegbyst mewn lleoliadau y cytunwyd arnynt yng nghanol y ddinas. Un wers oedd y gallai cwmni gyda mwy o brofiad gydag enwau lleoedd Cymraeg fod wedi bod yn fuddiol.
- **Cydweithio gyda Rhanddeiliaid.** Roedd cydweithio cryf rhwng Cyngor Gwynedd a Chyngor Dinas Bangor, gyda chyfathrebu da ac eglurder ar y priod gyfrifoldebau. Roedd dod â'r rhanddeiliaid perthnasol ynghyd yn gynnar yn cael ei ystyried yn agwedd gadarnhaol bwysig ar y dull gweithredu.

#### Effeithiau:

- **Yn y tymor byr** fe wnaeth yr arwyddion gwell hybu atyniad canol y ddinas, gan helpu pobl i lywio'r ddinas ac annog pobl i gerdded o amgylch y ddinas yn fwy - gydag arwyddbyst yn nodi'r amser teithio ar droed, gan wella ymwybyddiaeth o hygyrchedd ar droed.
- **Yn y tymor canolig** mae hyn yn cysylltu'n dda â gweithgaredd ehangach o amgylch strategaeth dwristiaeth ar gyfer y ddinas, sy'n cael ei datblygu gyda Thwristiaeth Gogledd Cymru, a bydd yn hybu gweithgaredd economi ymwelwyr trwy ddarparu dull pwysig i ymwelwyr ganfod eu ffordd.
- **Yn y tymor hwy**, mae tîm y prosiect yn cydnabod bod angen i hyn fod yn rhan o strategaeth ehangach i wella'r ganolfan, i ddenu mwy o ymwelwyr a chynyddu bywiogrwydd. Mae'r prosiect hwn yn ategu gwaith ehangach fel datblygu map dinas newydd, arian ar gyfer gwella adeiladau a glanhau'r stryd fawr yn drylwyr. Mae pob un wedi cyfrannu at wneud canol y ddinas yn fwy deniadol, ac mae arwyddion cynnar o gynydd yn nifer yr ymwelwyr a busnesau newydd yn dechrau.

---

## Astudiaeth Achos: Murlun Bangor

---

### Trosolwg o'r Prosiect:

Comisiynodd y prosiect yr artist Jess Bala i weithio gyda'r gymuned a phaentio murlun ar ddiwedd wal dalcen adeilad Annedd Ni. Mae canolfan weithgareddau Anheddau, Annedd Ni, yn sefydliad elusennol nid er elw sy'n grymuso oedolion ag anghenion cymorth.

### Cyflawniad:

- **Penodi'r Artist:** Yn dilyn mynegi diddordeb mewn murlun yng nghanol tref Bangor gan Gyngor Dinas Bangor, ymgynghorwyd â'r gymuned ynglŷn ag arddull a chynnwys y murlun. Yna drafftwyd y brîff murlun i'w gomisiynu trwy Gwynedd Greadigol. Roedd hyn yn cynnwys panel sgorio gyda chynrychiolwyr o Gyngor Gwynedd, Cyngor Dinas Bangor, a pherchnogion adeilad Annedd Ni a ddewisodd yr artist, Jess Bala wedi hynny. Mae cyfathrebu da rhwng y Cynghorau a'r rhanddeiliaid perthnasol yn golygu bod cydgysylltu'r prosiect yn llyfn.
- **Ymgynghoriad Cymunedol:** Trefnwyd cyfres o weithdai rhwng y gymuned, elusen Anheddau a Jess Bala er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r hyn yr oedd aelodau'r gymuned eisiau i'r murlun fod. Roedd hon yn elfen gref o'r prosiect gan ei fod yn sicrhau bod pobl leol yn cymryd rhan ymarferol yn y prosiect a chymerwyd ymagwedd gydweithredol at gyflawni. Fodd bynnag, roedd amserlenni tynn ar gyfer cynllunio gweithdai yn golygu bod presenoldeb yn gymharol gyfyngedig. Gyda mwy o amser byddai'r prosiect wedi hoffi ymgysylltu'n ehangach i ymgynghori ar syniad y prosiect.

### Effeithiau:

- **Yn y tymor byr** fe wnaeth y murlun wella golwg y dref, codi ymdeimlad o falchder yn y gymuned a chodi ymwybyddiaeth o ddiwylliant a hanes yr ardal.
- **Yn y tymor canolig** mae'r murlun wedi tanio diddordeb mewn celf gymunedol, felly os oes mwy o gyllid, mae'n debygol y bydd mwy o alw am fwy o brosiectau celf cymunedol fel murluniau eraill yn y dref.
- **Yn y tymor hir** mae gan y murlun y potensial i ddenu mwy o ymwelwyr i'r dref trwy hyrwyddo atyniadau diwylliannol a hanesyddol yr ardal gan gynnwys y dreftadaeth lechi a'r Gadeirlan.

---

## Astudiaeth Achos: Golff Giamocs

---

### Trosolwg o'r Prosiect:

Oherwydd bod safle Golff Giamocs wedi dirywio'n arw ac angen ei adnewyddu, roedd y prosiect yn ymwneud ag adfywio safle Golff Giamocs i wella'r safle ac ychwanegu diddordeb i'r parc fel y gellid ei ddefnyddio'n iawn gan drigolion ac ymwelwyr Porthmadog.

### Cyflawniad:

- **Roedd y cyfathrebu rhwng staff Cyngor Gwynedd a phartneriaid cyflawni** yn effeithiol a olygai fod dealltwriaeth glir o'r briff adnewyddu safle ac o ganlyniad, aeth y broses dendro yn ddiraffferth, gyda phopeth wedi'i gostio'n gywir. Roedd hyn hefyd yn golygu bod y gyllideb wedi'i bodloni, a bod popeth wedi'i gwblhau ar amser.
- **Y gallu i ychwanegu elfennau ychwanegol at y prosiect:** Oherwydd nad oedd unrhyw gostau ychwanegol neu oedi i'r prosiect, roedd y tîm cyflawni yn gallu ychwanegu elfennau ychwanegol i gyd-fynd â'r prosiect. Roedd y rhain yn cynnwys gwefan ar gyfer y maes golff yn ogystal â byrddau gwybodaeth a baneri yn egluro hanes Porthmadog a'i rôl yn y diwydiant llechi.

### Effeithiau:

- **Yn y tymor byr** mae wedi gwella canol tref Porthmadog yn weledol, rhoi gweithgaredd ychwanegol i drigolion ac ymwelwyr i'w wneud a chodi ymwybyddiaeth am ddiwylliant a threftadaeth yr ardal trwy'r byrddau gwybodaeth a'r baneri o amgylch y maes golff.
- **Yn y tymor canolig** gall apêl weledol well isadeiledd cymunedol Porthmadog a mwy o ymwybyddiaeth ddiwylliannol a hanesyddol o'r dref wella balchder cymunedol.
- **Yn y tymor hir** mae rhanddeiliaid yn cydnabod y gall fod newid yn y canfyddiad o Borthmadog ymhlith trigolion ac ymwelwyr, gyda'r potensial i gefnogi cynnydd yn nifer yr ymwelwyr â'r dref.

## 6. Casgliadau a Gwersi

Mae'r adran hon yn dwyn ynghyd y canfyddiadau allweddol o'r gwerthusiad, gan ganolbwyntio ar bedwar prif bwnc cwestiwn y gwerthusiad: perthnasedd a phriodoldeb dyluniad y rhaglen, perfformiad yn erbyn targedau, effeithiolrwydd rheoli a chyflawni'r rhaglen ac effeithiau'r rhaglen. Mae cyfres o wersi i'w cymryd o'r gwerthusiad a all fod yn ddefnyddiol ar gyfer ymyriadau yn y dyfodol wedi'u nodi ar y diwedd.

### 6.1 Casgliadau

---

#### Perthnasedd a Phriodoldeb Dyluniad y Rhaglen

---

Mae canol trefi a strydoedd mawr Gwynedd, fel ar draws Cymru a gweddill y DU, yn wynebu heriau mawr o ostyngiad yn nifer yr ymwelwyr, amgylcheddau canol trefi sy'n dirywio a llai o fywiogrwydd a balchder bro. Mae adfywio'r canol trefi hyn yn un o flaenoriaethau Cynllun Cyngor Gwynedd, ac o dan hynny, Fframwaith Adfywio Gwynedd a 13 Cynllun Ardal. Mae'r angen am fuddsoddiad i gyflawni'r cynlluniau hyn yn sail i'r rhesymeg dros y rhaglen hon a ariennir gan UKSPF.

**Mae'r gwerthusiad wedi canfod bod gan y prosiectau a ariennir o dan y rhaglen hon aliniad cryf â'r angen a'r rhesymeg a nodwyd**, yn fwyaf nodedig cefnogi ymyriadau i greu mannau cyhoeddus mwy deniadol a diogel, gan ddenu a galluogi buddsoddiad newydd, a denu ymwelwyr a gwariant newydd.

**At ei gilydd, mae'r rhaglen wedi parhau'n hynod berthnasol a phriodol i'r anghenion a nodwyd.** Mae newidiadau i'r gyfres o brosiectau a ariennir wedi codi dim ond lle mae costau rhai prosiectau wedi newid, neu lle mae rhai prosiectau wedi'u nodi fel rhai anymarferol, gan greu cyllideb sydd ar gael i gynlluniau amgen ei ddefnyddio.

---

#### Perfformiad yn erbyn Targedau

---

Mae gan y cynllun gyfanswm cyllideb o £1.91m ac roedd £1.86m (97%) ohono o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU. **Erbyn canol Ionawr 2025 (amseriad yr adroddiad gwerthuso hwn), roedd 61% o'r cyllid hwnnw (£1.16m) wedi'i wario**, gyda £0.75m yn weddill i'w wario. Er bod hyn yn gadael gwerth sylweddol ar ôl i'w wario yn y cyflenwad sy'n weddill hyd at ddiwedd mis Chwefror 2025, **mae'r cleient yn rhagweld y bydd y rhaglen yn bodloni'r cyfanswm gwariant hwn yn y cyfnod hwnnw sy'n weddill.**

Mae prif dargedau allbynnau'r rhaglen yn gymharol syml ac yn ymwneud â nifer y prosiectau sy'n cael eu cwblhau. **Disgwylir i'r targed ar gyfer nifer cyffredinol y prosiectau a gwblhawyd (22) gael ei gyrraedd erbyn diwedd mis Chwefror 2025**, hefyd rhagorwyd ar yr is-darged ynghylch nifer yr astudiaethau dichonoldeb (targed o 4) hyd yma (7) a rhagwelir y bydd yn cyrraedd 11 erbyn diwedd y rhaglen.

**Bu'r targedau canlyniadau yn fwy heriol i'w mesur, ac nid oedd gan ddau o'r tair gwaelodlin wedi'i osod cyn i ymyriadau ddechrau, sy'n golygu na fydd mesurau cywir ar gyfer y canlyniadau hyn yn bosibl.** Mae'r adroddiad gwerthuso yn amlinellu'r gwersi i'w cymryd o hyn o ran sicrhau mwy o eglurder ynghylch yr hyn y bydd y rhaglen yn ei gyflawni a sicrhau bod hyn yn trosi i fesurau allbynnau a chanlyniadau priodol. Mae hyn yn gofyn am fod yn glir ynghylch sut y caiff dangosyddion eu mesur a sut y bydd y data gofynnol yn cael ei gasglu, a chasglu tystiolaeth sylfaenol cyn i weithgareddau'r prosiect ddechrau, lle bo angen.

---

## **Rheoli a Chyflawni'r Rhaglenni**

---

Tynnodd y gwerthusiad amrywiaeth eang o ffactorau cadarnhaol allan yn ogystal ag ystod o heriau a gafwyd wrth gyflwyno'r ymyriadau a ariannwyd. Y ffactor mwyaf arwyddocaol, a nodwyd gan dros hanner yr arweinwyr cyflawni prosiectau oedd **her amserlenni cyflawni tynn**, yn enwedig wrth ystyried yr angen am ymgynghoriadau cymunedol a rhanddeiliaid, datblygu cytundebau partner, prosesau recriwtio a chaffael, yn ogystal â dylunio a chyflawni prosiectau.

Roedd yr agweddau allweddol a nodwyd fel rhai effeithiol a phwysig i lwyddiant yn cynnwys **gwerth a phwysigrwydd ymgysylltu â'r gymuned a rhanddeiliaid lleol yn effeithiol a'u cynnwys** mewn cynlluniau, yr oedd yn ymddangos bod y rhan fwyaf o brosiectau yn eu cyflawni'n gryf, **cynnwys arbenigwyr technegol** lle'r oedd angen hynny, a **chynnwys strategaethau ymadael clir yn effeithiol ar gyfer prosiectau i sicrhau cynaliadwyedd effeithiau**, er enghraifft drwy gytundebau cynnal a chadw i sicrhau bod cyfleusterau neu amwynderau newydd yn cael eu cynnal.

Ar gyfer rhai prosiectau, roedd **heriau ychwanegol o ran ymgysylltu â rhanddeiliaid penodol**, megis perchnogion eiddo na ellid eu contractio'n hawdd, ac **mewn rhai achosion roedd amserlenni'n cyfyngu ar faint o ymgynghori â'r gymuned a rhanddeiliaid** y teimlai partneriaid cyflawni y byddai wedi bod yn optimaidd. Ar gyfer rhai prosiectau, **creodd chwyddiant costau** rhwng yr adeg y drafftwyd cynlluniau prosiect a phan ddechreuodd y prosiectau faterion ychwanegol.

Ar y cyfan, **roedd partneriaid cyflawni a rhanddeiliaid ehangach yn gadarnhaol ynglŷn â rheolaeth Cyngor Gwynedd o'r rhaglen**. Er bod rhai wedi mynegi rhwystredigaeth gydag oedi o ran cymeradwyo cyllid ac ynghylch faint o waith gweinyddol a oedd ynghlwm wrth adrodd ar gynnydd, teimlwyd bod y broses ymgeisio gyffredinol yn glir a nododd y rhan fwyaf o arweinwyr cyflawni prosiectau fod cyfathrebu'r Cyngor wedi bod yn gryf drwy gydol y cyfnod cyflawni.

---

## Effeithiau'r Rhaglen

---

Amlygodd tystiolaeth a gasglwyd o'r prosiectau a gefnogwyd ystod o effeithiau cynnar yn ymwneud â mwy o **atyniad i ganol trefi a strydoedd mawr, mwy o ymdeimlad o ddiogelwch, gwell hygyrchedd digidol canol trefi** (yn ymwneud ag un prosiect), tystiolaeth gynnar o **gynnydd yn nifer yr ymwelwyr** sy'n gysylltiedig ag ymyriadau (ochr yn ochr â gweithgareddau eraill), a **theimladau gwell o falchder a lles cymunedol**. Yn y rhan fwyaf o achosion bu'r rhain yn dystiolaeth fwy ansoddol neu anecdotaidd o effeithiau sy'n dod i'r amlwg, ond serch hynny maent yn rhoi arwyddion bod ymyriadau'n cyflawni'r mathau o ganlyniadau a ragwelwyd.

Nododd nifer o ymgynghoreion, er mwyn **cyfrannu at effeithiau mwy sylweddol yn y tymor hwy sy'n mynd i'r afael â maint yr her sy'n wynebu canol trefi a strydoedd mawr, fod angen ymgorffori nifer o ffactorau wrth ddylunio prosiectau**. Mae'r gwerthusiad yn tynnu sylw'n benodol at bwysigrwydd prosiectau sy'n:

- **Cyfrannu at strategaethau adfywio mwy** ar gyfer ardal, gyda chysylltiad clir â buddsoddiadau ehangach a chyfrannu at gynlluniau ar raddfa fwy
- **Cyfrannu buddsoddiad mwy sylweddol i isadeiledd strategol pwysig** sy'n mynd i'r afael â heriau lleol
- **Datblygu a helpu i ddatblygu cynlluniau ar gyfer buddsoddiad ar raddfa fwy**, megis astudiaethau dichonoldeb ar gyfer buddsoddiadau newydd a allai fod â manteision strategol ar raddfa fwy
- **Ychwanegu gwerth ehangach trwy brosiectau llai** er enghraifft trwy **sefydlu neu wella cysylltiadau â pherchnogion eiddo canol tref**, neu drwy helpu i **ysgogi a grymuso grwpiau cymunedol** i gymryd mwy o ran mewn prosiectau, digwyddiadau a gweithgareddau sy'n ysgogi bywiogrwydd canol tref.

Y tu hwnt i'r effeithiau ar leoedd, tynnodd nifer o'r prosiectau sylw hefyd at **fuddion ehangach** a gynhyrchir gan y rhaglen i'r rhai sy'n ymwneud â chyflawni, gan gynnwys **datblygu grwpiau cymunedol** sy'n ymwneud â phrosiectau lleol, a'r **manteision llesiant a brofir gan wirfoddolwyr** sy'n ymwneud â chyflawni prosiectau, megis cefnogi paentio'r murluniau.

## 6.2 Gwersi a Ddysgwyd

Gan dynnu ar ganfyddiadau'r gwerthusiad, mae nifer o wersi allweddol yn dod i'r amlwg a allai helpu i wella ymhellach brosiectau adfywio canol trefi a ariennir o dan raglenni yn y dyfodol. Mae'r rhain wedi'u gosod allan isod o dan dair prif wers

---

### 1. Sicrhau bod graddfeydd amser yn ddigonol i alluogi cyflawniad effeithiol.

---

Gall y profiad o'r cyfnodau lluosog ac weithiau ailadroddus sy'n ymwneud â chyd-ddylunio'n effeithiol, ymgynghori, cael caniatâd a chymeradwyaeth, recriwtio, caffael ar gyfer, ac yn olaf cyflawni prosiectau ofyn am amserlenni sylweddol, a oedd yn her benodol a nodwyd gan lawer o brosiectau (a waethygyd gan oedi cynnar wrth gymeradwyo cyllid UKSPF gan Lywodraeth y DU).

Ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol bydd yn fuddiol sicrhau bod prosiectau yn nodi cynlluniau amserlen manwl yn eu ceisiadau i'w hasesu fel rhan o'r broses gymeradwyo. Gall fod yn ddefnyddiol hefyd darparu canllawiau ariannu sy'n amlinellu'r cyfnodau cyflawni posibl hynny a amlinellwyd uchod, gyda sylwebaeth ar faint o amser y gallai fod ei angen ar gyfer pob gweithgaredd, lle bo modd. Byddai hyn yn helpu i roi awgrymiadau defnyddiol i ddarparu gyrrff cyflawni, i'w helpu i ystyried yn llawn a yw'r amserlenni cyflawni sydd ar gael yn ddigonol i gyflawni eu cynllun yn effeithiol, a helpu gyda'u cynllunio eu hunain.

---

### 2. Sicrhau bod cydweddiad strategol ac effaith strategol yn cael eu hystyried yn ofalus wrth ddylunio prosiectau.

---

Mae'r gwerthusiad wedi amlygu ystod o ffactorau a all gyfrannu at sicrhau bod pob prosiect, hyd yn oed buddsoddiadau cymharol fach, yn gallu cyfrannu at effeithiau strategol, a byddai'n werth cynnwys y rhain mewn asesiadau yn y dyfodol ynghylch yr hyn y dylid ei ariannu. Yn benodol, gallai fod yn ddefnyddiol ystyried rhai o'r agweddau canlynol ar ffurflenni cais a meini prawf asesu ar gyfer prosiectau o dan raglenni tebyg yn y dyfodol:

- **Cydweddiad strategol â Chynlluniau Adfywio Ardal** – gyda mwy o flaenoriaeth i brosiectau sy'n cyflawni'n gryf yn erbyn nodau buddsoddi strategol cytûn ar gyfer y lle hwnnw
- **Potensial ar gyfer denu neu alluogi buddsoddiad ar raddfa fwy** – er nad yw o reidrwydd yn syml i'w asesu, os oes tystiolaeth dda y gallai ariannu ymchwil neu astudiaeth ddichonoldeb alluogi buddsoddiad preifat / cyhoeddus ar raddfa fawr yng nghanol trefi, yna gallai hyn gael effeithiau strategol sylweddol iawn am gost buddsoddi cymharol isel.
- **Gwerth ychwanegol drwy feithrin perthnasoedd â rhanddeiliaid allweddol** – mewn meysydd lle bu heriau o ran ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol yng nghanol y dref megis y gymuned fusnes neu berchnogion eiddo penodol, gallai cynlluniau sy'n helpu i ymgysylltu ac adeiladu perthnasoedd â'r rhanddeiliaid hynny gael buddion strategol sylweddol y tu hwnt i'r allbynnau a gynhyrchir gan yr ymyriad ei hun.

- **Gwerth ychwanegol drwy ysgogi a grymuso grwpiau cymunedol** – lle mae angen mwy o gapasiti cymunedol ac ymgysylltu â bywiogi canol trefi, gallai gweithgareddau sy'n cefnogi a grymuso grwpiau lleol hefyd gael mwy o fanteision strategol sy'n mynd y tu hwnt i allbynnau'r prosiect a ariennir ei hun yn unig.

Wrth ddewis prosiectau i'w hariannu, gallai ychwanegu gwerth sylweddol at raglenni'r dyfodol i ymgorffori dulliau o asesu'r ffactorau hyn, er mwyn helpu i sicrhau bod y gyfres orau o brosiectau'n cael eu datblygu i'w cyflawni.

---

### **3. Datblygu dangosyddion ymhellach ar gyfer monitro llwyddiant.**

---

Mae'r gwerthusiad wedi amlygu y gall casglu canlyniadau ac effeithiau prosiectau adfywio canol trefi fod yn heriol o fewn yr amserlenni sydd ar gael ar gyfer monitro. Serch hynny, gellid bod wedi gwneud mwy i wella ansawdd y data monitro ar gyfer y rhaglen hon, sy'n darparu gwersi ar gyfer cynlluniau'r dyfodol. Yn benodol ar gyfer rhaglenni'r dyfodol byddai'n werthfawr gosod cynllun monitro clir o'r cychwyn cyntaf a chanllawiau clir ar hyn ar gyfer prosiectau unigol. Dylai hyn gynnwys:

- **Eglurder ynghylch yr hyn y bydd y rhaglen yn ei gyflawni a sicrhau bod y dangosyddion allbynnau a chanlyniadau yn cael eu dewis ar sail y pethau pwysicaf y bydd y rhaglen yn eu cyflawni.** Er na ellir meintioli popeth mewn targed, dylai'r targedau roi syniad clir o'r hyn y mae'r rhaglen wedi'i gyflawni.
- **Gosod dangosyddion lle mae'n glir beth sy'n cael ei fesur** – gyda disgrifiad clir o beth yn union y mae'r dangosydd yn ei gipio, a sut bydd y wybodaeth hon yn cael ei chasglu
- **Cipio data gwaelodlin ar gyfer dangosyddion canlyniadau lle mae angen hyn** – er enghraifft, os yw dangosyddion allweddol yn ymwneud â nifer yr ymwelwyr neu ganfyddiadau rhanddeiliaid penodol ynghylch atyniad, bywiogrwydd neu ddiogelwch canol y dref, yna mae angen casglu gwaelodlinau ar gyfer y dangosyddion hyn cyn i ymyriadau a ariennir ddigwydd yn ogystal ag ar ôl iddynt gael eu cwblhau, er mwyn gallu nodi unrhyw newidiadau yn y mesurau hyn.

## Cysylltwch â ni



0330 122 8658



[wavehill@wavehill.com](mailto:wavehill@wavehill.com)



[wavehill.com](http://wavehill.com)

## Dilynwch ni ar gyfryngau cymdeithasol



[@wavehilltweets](https://twitter.com/wavehilltweets)



[wavehill](https://www.linkedin.com/company/wavehill)



# Gwerthusiad o raglen Gwynedd Ni

*Paratowyd gan Lafan*

*Mawrth 2026*



Wedi ei ariannu gan  
Llywodraeth y DU

Funded by  
UK Government

Gyda diolch i Alys Rees Jones a Rhian Elin George am gydweithio'n agos â ni drwy gydol y cyfnod gwerthuso a rhannu'r data oedd ei angen arnom i gynghyrchu'r adroddiad hwn.



**Manylion cyswllt**

Lafan

M-Sparc

GAERWEN LL60 6AG

[post@lafan.cymru](mailto:post@lafan.cymru)

01248 665624

**Awdur yr adroddiad**

Dr Irfan Rais

Gofynnwn yn garedig i chi gyfeirio unrhyw gwestiynau sy'n ymwneud â'r adroddiad hwn at [irfan@lafan.cymru](mailto:irfan@lafan.cymru)

## Crynodeb gweithredol

Mae Gwynedd Ni yn rhaglen sy'n cael ei hariannu gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin ac sydd â'r nod o adfywio canol trefi a chryfhau cymunedau ar draws Gwynedd. Gyda chyfanswm o £1.28m o gyllid CFFG a chyfraniadau cyfatebol, mae'r rhaglen yn darparu gwelliannau i llefydd cyhoeddus, prosiectau cymunedol, mentrau diwylliannol, gwelliannau hygyrchedd, ac arbrofion arloesi.

Gwerthusiad ysgafn ydy hwn sy'n dangos ei bod y rhaglen yn symud yn gadarnhaol ymlaen, gyda 53.2% o'r gyllideb wedi'i gwario, a'r gwaith sy'n weddill i'w gwblhau erbyn mis Mehefin 2026. Cefnogodd y rhaglen amrywiaeth o brosiectau gan gynnwys uwchraddio caeau chwarae, gwelliannau i ardaloedd cyhoeddus mewn trefi, astudiaethau dichonoldeb ar gyfer datblygiadau'r dyfodol, a phrosiectau peilot IoT.

Mae'r ymgysylltiad â 55 o gynghorau tref a chymuned yn dangos cyrhaeddiad lleol cryf, gyda llawer yn canmol cefnogaeth glir ac ymatebol gan swyddogion y Cyngor. Roedd y Gronfa Cynghorau Tref a Chymuned yn arbennig o gadarnhaol, er bod rhai heriau wedi'u nodi o ran terfynau amser tynn a gofynion caffael mewn ardaloedd gwledig.

Mae effeithiau cynnar yn cynnwys gwell hygyrchedd, cyfleusterau cymunedol o ansawdd gwell, mwy o falchder lleol, a pherthnasoedd gwaith cryfach rhwng Cyngor Gwynedd a'r cynghorau cymunedau a threfi., Er nad oes modd asesu canlyniadau economaidd hirdymor eto, mae'r rhaglen eisoes yn creu sail cadarn ar gyfer adfywio egangach yn y Sir.

## Tabl Cynnwys

.....	<i>i</i>
<b><i>Crynodeb gweithredol.....</i></b>	<b><i>iv</i></b>
<b><i>Cyflwyniad .....</i></b>	<b><i>1</i></b>
<b><i>Y briff .....</i></b>	<b><i>1</i></b>
<b><i>Model rhesymeg a fframwaith gwerthuso.....</i></b>	<b><i>1</i></b>
<b><i>Methodoleg .....</i></b>	<b><i>2</i></b>
<b><i>Trosolwg o'r rhaglen .....</i></b>	<b><i>3</i></b>
<b><i>Theori newid y prosiect .....</i></b>	<b><i>3</i></b>
<b><i>Cynlluniau a gyflawnwyd.....</i></b>	<b><i>5</i></b>
<b><i>Perfformiad y rhaglen .....</i></b>	<b><i>9</i></b>
<b><i>Astudiaeth achos 1: Cronfa Cyngorau Tref a Chymuned.....</i></b>	<b><i>11</i></b>
<b><i>Astudiaeth achos 2: Gwelliannau ger Y Maes, Cricieth.....</i></b>	<b><i>15</i></b>
<b><i>Astudiaeth achos 3: Gwelliannau caeau chwarae.....</i></b>	<b><i>22</i></b>
<b><i>Effaith prosiect Gwynedd Ni .....</i></b>	<b><i>28</i></b>
<b><i>Crynodeb .....</i></b>	<b><i>29</i></b>

## Cyflwyniad

Un o'r blaenoriaethau Cyngor Gwynedd rhwng 2023 a 2028 yw adfywio canol trefi dros y Sir. Yn ddiweddar, bu i'r Cyngor yn cynnal ymgynghoriaeth estynedig wrth baratoi Fframwaith Adfywio Gwynedd sy'n cael ei gefnogi gan 13 cynllun ardal yn y sir, ac wrth adnabod blaenoriaethau unigol ar gyfer pob un o'r ardaloedd hyn. Thema gyffredin a gododd ym mhob cynllun ardal yw'r angen i adfywio canol trefi.

Yn 2025, llwyddodd Cyngor Gwynedd sicrhau cyllid o £1,278,000 o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin i gyflawni rhaglen Gwynedd Ni, sy'n cynnwys nifer o gynlluniau a fyddai'n arwain at yr adfywio o gymunedau a chanol trefi ar draws Gwynedd. Gobeithir y bydd y gwaith hwn yn creu bwrlwm yn y cymunedau.

Nod y prosiect hwn yw uwchraddio'r seilwaith o drefi yn yr ardal ac ailbwrpasu neu ysbrydoli defnyddiau newydd i strwythurau sy'n bodoli eisoes. Gallai hwn denu buddsoddiad mewn amrywiol meysydd, gan gynnwys addysg, y celfyddydau, hamdden, neu hyd yn oed gweithio.

Ym mis Tachwedd 2024, cafodd arweinwyr cynllun eu gofyn gan y rhaglen CFFG i adnabod unrhyw gyfleoedd i ymestyn unrhyw weithgareddau ar gyfer 2025/2026. O ganlyniad o nifer o sesiynau sgopio ar draws adrannau Cyngor Gwynedd, ynghyd â'r ystyriaethau a gododd o brosiect Ardal Ni, cafodd rhaglen o gynlluniau tymor byr ei hadnabod. Ffurfiodd y rhaglen hon y sail o raglen Gwynedd Ni hon sy'n cael ei gwerthuso yn yr adroddiad hwn.

### Y briff

Cafodd Lafan ei gomisiynu gan Gyngor Gwynedd i gynnal gwerthusiad ysgafn ar raglen Gwynedd Ni. Nod y comisiwn hwn oedd creu cynllun gwerthuso a chasglu data o aelodau allweddol sy'n gysylltiedig i'r prosiect, a chreu adroddiad gwerthuso dwyieithog.

Cafodd y gwaith gwerthuso ei gynnal rhwng mis Hydref 2025 a mis Ionawr 2026, a chyflwynwyd yr adroddiad hwn ym mis Chwefror 2026.

### Model rhesymeg a fframwaith gwerthuso

Yn unol â'r anghenion CFFG, rydym wedi datblygu model rhesymeg sy'n cysylltu cyd-destun y rhaglen â'i mewnbynnau, gweithgareddau, allbynnau, a chanlyniadau dymunol. Mae'r model rhesymeg hwn mewn ffurf Theori Newid.

Mae'r gwerthusiad hwn yn asesu perfformiad Gwynedd Ni yn erbyn targedau, effeithiolrwydd y rhaglen a'i effaith ar y cymunedau. Mae'r tabl isod yn dangos themâu'r gwerthusiad a chwestiynau sy'n berthnasol â nhw:


<b>Thema</b>	<b>Cwestiwn</b>
<b>Perfformiad yn erbyn targedau</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Sut wnaeth y rhaglen berfformio yn erbyn ei thargedau?</li> </ul>
<b>Effeithiolrwydd y rhaglen</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Sut gafodd y prosiectau ei gylawni?</li> <li>• Beth weithiodd yn dda wrth gyflawni'r prosiect?</li> <li>• Beth ydy'r gwersi a ddysgwyd?</li> </ul>
<b>Effaith y rhaglen</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Beth ydy canlyniadau'r prosiect?</li> <li>• Oedd unrhyw canlyniadau annisgwyl?</li> </ul>

## Methodoleg

Er mwyn casglu data, rydym wedi gwneud y canlynol:

- Adolygu dogfennau sy'n berthnasol â'r cynllun, gan gynnwys adroddiadau cynnydd, a ffurflenni cwblhau prosiect
- Cyfweld â 5 cynrychiolydd cyngor tref dros y ffôn er mwyn casglu mewnwelediadau ar ei brofiad cyflawni prosiectau wedi'u cefnogi gan y Gronfa Cynghorau Tref a Chymuned.
- Cyfweld â 3 cynrychiolydd prosiect i gasglu mewnwelediadau ar gyflawni eu cynlluniau.
- Cynnal holiadur ar lein wedi'i gyfeirio at fusnesau yng Nghricieth

## Trosolwg o'r rhaglen



### Theori newid y prosiect

Cafodd rhaglen Gwynedd Ni ei hariannu drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU (CFfG) ochr yn ochr â chyfanswm o £162,673.32 o arian cyfatebol: £79,473.32 o Raglen Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru, a £83,200 o Gyngor Gwynedd. Mae'r grant CFfG yn werth £1,278,000, sy'n cynnwys £1,005,125.16 o gyllid cyfalaf a £272,874.84 o gyllid refeniw.

Mae mewnbynnau eraill y rhaglen yn cynnwys gwaith gan contractwyr ac ymgynghoryddion.

Mae'r mewnbynnau uchod yn bwydo i fewn y gwahanol gynlluniau sy'n rhan o'r rhaglen. Gellir didoli'r cynlluniau hyn yn bum categori, gyda rhai ohonynt yn disgyn i sawl math o gategoriâu:

1. Prosiectau cymunedol
2. Prosiectau diwylliannol
3. Uwchraddio seilwaith trefi
4. Prosiectau trafndiaeth a hygyrchedd
5. Prosiectau arloesi

Disgwylir i'r cynlluniau a nodwyd wrth ddylunio'r rhaglen gynhyrchu'r canlynol yn y tymor byr:

1. Mannau cyhoeddus wedi'u huwchraddio
2. Arwyddion gwell
3. Asedau diwylliannol a threftadaeth wedi'u gwella
4. Cyflwyno prosiectau cymunedol
5. Peilot casglu data ac astudiaeth achos ar ddefnydd IoT

Yn y hirdymor, disgwylir rhaglen Gwynedd Ni gyrraedd yr isod:

1. Mwy o ddefnydd o gyfleusterau cymunedol
2. Gwell glendid a hygrychedd o ganol trefi
3. Mwy o ymwybyddiaeth o ddiwylliant lleol
4. Gwell llywio ymwelwyr a symudedd lleol
5. Mwy o ymgysylltiad cymunedol mewn safleoedd treftadaeth.

Gosodwyd cyfres o dargedau yn seiliedig ar fframwaith CFfG. Mae'r tabl isod yn dangos y dangosyddion allbwn a chanlyniad sy'n berthnasol i'r rhaglen a'u targedau:

<b>Allbynnau</b>	
<b>Disgrifiad o'r dangosyddion</b>	<b>Targed</b>
OP03 Faint o dir cyhoeddus sy'n cael ei greu neu ei wella	1,100m <sup>2</sup>
OP05 Nifer yr amwynderau/cyfleusterau a grëwyd neu a wellwyd	22
OP07 Cyfanswm hyn llwybrau beicio neu lwybrau troed newydd neu well	1km
OP25 Nifer y sefydliadau sy'n derbyn grantiau	64
OP28 Nifer yr astudiaethau dichonoldeb a ddatblygwyd o ganlyniad i gefnogaeth	9
<b>Canlyniad</b>	
<b>Disgrifiad o'r dangosydd</b>	<b>Targed</b>
OC02 Mwy o ddefnydd o lwybrau beicio neu droed	500 o bobl

Nod cyffredinol y rhaglen yw gwella ffabrig canol trefi ar draws Gwynedd fel rhan o ymdrech ehangach y Cyngor i adfywio'r ardaloedd hyn. Mae'r rhaglen yn rhan o gyflawni blaenoriaethau Cynllun y Cyngor 2023-2028 sy'n nodi adfywio canol trefi fel maes polisi allweddol.

Yn y pen draw, y bwriad yw denu defnyddiau newydd i ganol trefi, a thrwy hynny agor y drws i fuddsoddiad pellach a manteision economaidd sylweddol i'r cymunedau lleol. Yr amcan hirdymor y rhaglen yw datblygu trefi bywiog a gwydn gyda gwell ansawdd bywyd.

### Cynlluniau a gyflawnwyd


Mae'r tabl isod yn dangos y cynlluniau i gyd sy'n rhan o raglen Gwynedd Ni.

<b>Cynllun</b>	<b>Cyllideb SPF wedi ymrwymo</b>	<b>Cyllideb wedi hawlio</b>	<b>Statws (o fis Mawrth 2026)</b>
<p><b>Cronfa Cynghorau Tref a Chymuned</b></p> <p>Pwrpas y gronfa yw cefnogi Cynghorau Tref a Chymuned i ddatblygu a gweithredu prosiectau sy'n diwallu anghenion eu cymuned. Byddai hyn yn caniatáu i'r Cynghorau Tref a Chymuned chwarae rôl sylweddol wrth gyfrannu at adfywio eu cymunedau</p>	£341,998.94	£322,100.56	<b>Yn fyw</b>
<p><b>Trefi Llechi 2</b></p> <p>Cynllun fydd yn cynnwys cwblhau'r cynllun arwyddion i drefi llechi Gwynedd ynghyd a datblygu cynllun i ddehongli y celf mewn 4 tref (Llanberis, Blaenau Ffestiniog, Penygroes, a Phorthmadog)</p>	£115,000	£115,000	<b>Wedi'i gwblhau</b>
<p><b>Ychwanegu gwerth i gynllun Ceir Gogledd</b></p> <p>Ychwanegu gwerth i gynllun Ceir Gogledd drwy osod meinciau a chyflwyno cysylltiad cyfleustodau.</p>	£9,100	£5,000	<b>Yn fyw</b>
<p><b>Gwelliannau i gaeau chwarae</b></p> <p>Uwchraddio 7 cae chwarae yng Ngwynedd, gan gyflwyno offer newydd sydd yn hygyrch i bawb, a</p>	£76,000	£76,000	<b>Wedi'i gwblhau</b>

gwaith lefelu i sicrhau defnydd ym mhob tywydd.			
<b>Gwelliannau toiledau cyhoeddus</b>  Uwchraddio 2 toiled cyhoeddus yng Ngwynedd, drwy osod cyfarpar newydd a chyflawni gwaith strwythurol i'w gwneud yn ddiogel i'r cyhoedd.	£234,000	£92,614.97	<b>Yn fyw</b>
<b>Gwaith glanhau gorsafoedd bysus a gosod feinyls</b>  Prosiect i osod 'finyls' ar orsafoedd bysiau bydd yn cynnwys Bangor, Caernarfon, Porthmadog, Blaenau Ffestiniog, Bermo a Pwllheli. Bydd y gwaith hefyd yn cynnwys glanhau'r gorsafoedd.	£29,598.88	£29,598.88	<b>Wedi'i gwblhau</b>
<b>Gweithredu rhannau o gynllun Coach Park Caernarfon</b>  Creu taenlen gyfathrebu ar gyfer bysus sy'n ymweld â'r dref.	£5,100	£5,000	<b>Yn fyw</b>
<b>Gwelliannau priffyrdd ardaloedd hanesyddol Caernarfon</b>  Ailosod llechi a cherrig granit ym Maes Caernarfon.	£50,000	£34,000	<b>Yn fyw</b>
<b>Gwelliannau a dehongli llwybr Cob Crwn, Porthmadog</b>  Bydd gwaith uwchraddio a gwella i 0.7km o'r llwybr presennol ac bydd 0.3 km o lwybr o'r newydd yn cael eu greu.	£49,600		<b>Wedi cael estyniad</b>
<b>Strategaeth arwyddo Bala</b>  Penodi ymgynghorwyr i gynllunio, datblygu a dylunio strategaeth arwyddo i Dref Y Bala.	£10,206	£7,776	<b>Yn fyw</b>
<b>Gwaith rhagbaratoi i welliannau Roman Camp, Bangor</b>	£12,000	£12,000	<b>Wedi'i gwblhau</b>

Gwaith datblygu i greu dyluniad newydd yn y Gwersyll Rhufeinig ym Mangor, gyda'r nod o wella mynediad a darparu arwyddion er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r safle hanesyddol.			
<b>Astudiaeth dichonoldeb: Uwchraddio ffin Storiel</b>  Astudiaeth dichonoldeb i archwilio sut y gellir cysylltu Storiel a Pontio yn well ym Mangor, gyda nod o wella profiad trigolion ac ymwelwyr.	£20,500	£20,500	<b>Yn fyw</b>
<b>Arolwg parcio Caernarfon</b>  Comisiynu ymgynghorwyr i gario allan arolygon yn archwilio'r defnydd o feysydd parcio Caernarfon.	£4,550	£4,550	<b>Wedi'i gwblhau</b>
<b>Strategaeth arwyddo Pwllheli</b>  Penodi ymgynghorwyr i gynllunio, datblygu a dylunio strategaeth arwyddo i Dref Pwllheli.	£10,000	£6,695.25	<b>Yn fyw</b>
<b>Astudiaeth dichonoldeb i'r llyfrgell ym Mlaenau Ffestiniog</b>  Penodi ymgynghorwyr i gwblhau astudiaeth opsiynau ar gyfer adleoli'r llyfrgell.	£14,974	£14,974	<b>Wedi cwblhau</b>
<b>Peilot: Rhyngrwyd y Pethau Gwynedd</b>  Prosiect peilot i brynu ystod o synwryddion IoT fydd yn casglu data am yr amgylchedd a gofal. Bydd y data'n cael ei ddefnyddio i lunio astudiaethau achos er mwyn cyfiawnhau cyllid pellach ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol.	£63,075	£38,542.72	<b>Yn fyw</b>

<b>Adroddiad asesu adnoddau Hamdden Bangor</b>	£49,900	£34,260.50	<b>Yn fyw</b>
<b>Gwelliannau i Maes Criccieth</b>  Ychwanegu gwerth i gynllun uwchraddio maes Criccieth.	£40,000	£40,000	<b>Wedi'i gwblhau</b>
<b>Gwelliannau i adnoddau Tŷ Siamas, Dolgellau</b>  Gwelliannau i adnoddau Tŷ Siamas ynghyd a astudiaeth opsiynau ar gyfer y ganolfan.	£24,200	£24,200	<b>Wedi'i gwblhau</b>
<b>Clwb Chwaraeon Madog</b> Datblygu cynllun busnes a opsiynau cynlluniau pensaernïol ar gyfer Clwb Chwaraeon Madog.	£10,000		<b>Wedi cael estyniad</b>
<b>Llwybr Lon Abersoch</b> Uwchraddio y mynedfa traeth wrth ymyl maes parcio y golff	£26,000	£26,000	<b>Wedi cwblhau</b>
<b>Astudiaeth Hwb Iechyd a Llyfrgell Bangor</b>	£11,660	£1,674.84	<b>Wedi cael estyniad</b>
<b>CYFANSWM</b>	£1,207,462.82	£910,487.72	



Yn ôl y data yr ydym wedi casglu, hyd at 27/3/2026 mae cyfanswm o £910,487.72, sef 75% o'r gwariant, wedi'i defnyddio hyd yma.

## Perfformiad y rhaglen

Mae'r tabl isod yn dangos sut mae'r rhaglen wedi perfformio yn erbyn ei thargedau:

Allbynnau				
Disgrifiad o'r dangosyddion	Targed	Hyd yma	Erbyn diwedd y prosiect (disgwyledig)	Sylwadau
OP03 Faint o dir cyhoeddus sy'n cael ei greu neu ei wella	1,100m <sup>2</sup>	631m <sup>2</sup>	741m <sup>2</sup> +	Gall y nifer disgwyledig gynyddu yn ddibynnol ar brosiect Maes Caernarfon
OP05 Nifer yr amwynderau/cyfleusterau a grëwyd neu a wellwyd	22	7	21	
OP07 Cyfanswm hyn llwybrau beicio neu lwybrau troed newydd neu well	1km	0	1km	
OP25 Nifer y sefydliadau sy'n derbyn grantiau	64	13	55	Mae hwn yn cyfeirio at y nifer o Gynghorau tref a chymuned a wnaeth gais am y Gronfa. Yn y cyfanswm, gwnaeth 55 cyngor gais amdani.
OP28 Nifer yr astudiaethau dichonoldeb a ddatblygwyd o ganlyniad i gefnogaeth	9	0	9	
Canlyniad				
Disgrifiad o'r dangosydd	Targed	Hyd yma	Erbyn diwedd y prosiect	Sylwadau
OC02 Mwy o ddefnydd o lwybrau beicio neu droed	500 o bobl	0		Mae hwn yn ymwneud â nifer y bobl a fydd yn

				defnyddio'r llwybrau a ddatblygwyd fel rhan o brosiect Cob Crwn. Mae'r prosiect hwn wedi wynebu oedi ar y dechrau oherwydd y cais cynllunio ond mae wedi cael estyniad i fis Mehfin
--	--	--	--	--

# Astudiaeth achos 1: Peilot cronfa Cyngorau Tref a Chymuned

## Cefndir


Cafodd £341,998.94 ei ymrwymo o gyllid CFFG i weinyddu'r Gronfa Cyngorau Tref a Chymuned fel cynllun peilot, sy'n cynnig cefnogaeth ariannol benodol i bob cyngor tref a chymuned ar draws y Sir. Bwriad y Gronfa yw lledaenu budd y CFFG yn y sir, a gwella ansawdd bywyd trigolion Gwynedd drwy gefnogi cynlluniau adfywio bach sy'n bwriadu gwneud hynny.

Yn ôl ei chanllawiau, pwrpas y Gronfa yw "gwella edrychiad, cyfleusterau, a bwrlwm trefi a phentrefi Gwynedd". Nid yw'r Gronfa'n cefnogi elfennau o dalu benthyciadau neu gostau craidd neu arferol fel cadw a chynnal, a chyflogi swyddi. Hefyd, nid yw'r Gronfa'n cefnogi gweithgareddau y tu allan i ffiniau'r cyngorau tref na weithgareddau sy'n hyrwyddo crefydd.

Cafodd y Gronfa ei dyrannu yn ôl dalgylch y cyngor tref neu gymuned. Mae uchafswm o £7,500 ar gael i gynghorau tref o lai na 1,000 o bobl, ond mae'r uchafswm hwn yn cynnydd i £9,000 i gynghorau tref sydd â rhwng 1,000 a 4,999 o bobl. O ran cynghorau tref o 5000 o bobl a mwy, mae uchafswm o £10,500 ar gael iddynt.

Cafodd y Gronfa ei chyflawni gan Alys Rees Jones a Rhian Elin George. Roedd Alys yn gweithredu fel cydlynnydd, gyda chyfrifoldebau fel cefnogi'r cynghorau drwy'r proses ceisio, monitro cynnydd, a chasglu dogfennau tystiolaeth a ffurflenni cwblhau prosiect. Ar y llaw arall, darparodd Rhian oruchwyliaeth uwch drwy ddatblygu unrhyw ganllaw a chefnogi'r panel asesu.


Mae'r siart isod yn dangos y dyddiadau allweddol o ran cynnal y Gronfa:



Cafodd y ceisiadau gan aelod y cabinet, dau swyddog, ac Alys Rees Jones.

## Cyflawni'r gronfa

Mae'r Gronfa wedi cefnogi 55 o gynghorau tref ar draws y Sir. Mae'r map isod yn dangos lledaeniad budd y Gronfa gyda phob pin yn nodi lleoliad y cynghorau tref llwyddiannus:



Rydym wedi creu fersiwn rhyngweithiol o'r map uchod sy'n dangos y gwahanol brosiectau gan bob cyngor tref, a'r gyllideb a ymrymwyd iddynt.<sup>1</sup>

## Arferion da

Yn ôl y cyfweiliadau a'r holiadur y cynhaliwyd, mae'n amlwg bod y proses ymgeisio am y grant yn gadarnhaol iawn. Mae'r cynghorau wedi disgrifio'r proses fel "hawdd", "da iawn", a "briliant". Cafodd Alys ganmoliaeth hefyd yn ein cyfweiliadau â'r cynghorau.

Hefyd, mynegodd rhan fwyaf o gyfranogwyr yn y cyfweiliad bod nhw'n teimlo eu bod nhw'n cael eu cefnogi'n dda: roedd gan bawb gysylltiad uniongyrchol ag Alys

<sup>1</sup> <http://u.osmfr.org/m/1338626/>

i gael cymorth i lenwi ffurflenni. Pan gododd unrhyw broblemau neu gwestiynau, roedd yr ymatebion yn brydlon, ac mae un cyfranogwr wedi disgrifio'r cyfathrebu drwy gydol cyflawni fel un "rhagorol".

### *Heriau*

Er bod yr adborth cyffredinol yn gadarnhaol, cododd y cynghorau rhai o heriau a wnaethom wynebu.

O ran gwneud cais am y grant, roedd rhai o'r cynghorau yn cael trafferth gyda ffenestr y cais. Ar sail yr atebion yr ydym wedi derbyn yn y cyfweiliadau, amser ydy'r peth mwyaf heriol a wynebodd y cynghorau. Mynegodd un cyngor nad oedd ffenestr y cais yn caniatáu digon o amser i ymgynghori â chymunedau'n iawn. Hefyd, dwedodd ymatebwr arall yr oeddent angen mwy o amser i gasglu dyfynbrisiau. Her arall a oedd yn wynebu rhai o gynghorau ydy'r ffaith eu bod yn cyfarfod yn fisol, a allai fod wedi golygu nad oedd digon o oruchwyliaeth ar y broses ymgeisio.

Yn ogystal â hyn, o ran dyfynbrisiau, mynegodd un cyngor nad yw'r gofyniad am dri dyfynbris yn realistig mewn ardaloedd gwledig lle nad oes llawer o ddarparwyr.

O ran gwireddu'r prosiectau, adroddodd y rhan fwyaf o gynghorau ychydig neu ddim rhwystrau o gwbl. Pan gododd problemau, oedi gan gontractwyr oedd y mater mwyaf cyffredin. Cafodd problemau o ran logistaidd eu codi sawl gwaith hefyd, er enghraifft storio hen offer dros dro, neu gydlynu gwirfoddolwyr.

Wedi dweud hynny, mynegodd pob un ei fod Cyngor Gwynedd yn ddeallus ac yn gefnogol pan ddigwyddodd oediadau.

### *Effaith ar y gymuned*

Roedd y prif effeithiau ar y gymuned yn cynnwys:

- Hygyrchedd gwell, er enghraifft llwybrau hygyrch a chadeiriau olwyn i draethau
- Caeau chwarae mwy diogel i blant
- Mannau cyhoeddus mwy deniadol

Pwysleisiodd llawer o gynghorau na fyddai eu prosiect wedi digwydd heb gefnogaeth y Gronfa.

### *Gwersi a ddysgwyd*

Ar sail canfyddiadau ein cyfweiliadau â'r cynghorau, dyma'r gwersi a ddysgwyd o gyflawni'r Gronfa:

#### **Mae cefnogaeth gyson, ymatebol, a chyfeillgar yn gwneud gwahaniaeth mawr.**

Mynegodd yr ymatebwyr eu bod yn gwerthfawrogi cael cyngor da gan Gyngor Gwynedd gyda'r agwedd o fod eisiau i ymgeiswyr lwyddo. Mae hwn wedi bod o help yn arbennig i gynghorau bach gyda chapasiti cyfyngedig. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd o gefnogaeth. Felly, byddai'n dda cynnal y safon hon o gefnogaeth ar gyfer prosiectau tebyg yn y dyfodol.

**Cadwch brosesau mor syml â phosib.** Mynegodd rhai ymatebion yn ein cyfweiliadau eu bod yn gwerthfawrogi'r ffaith bod hawlio a chyflwyno tystiolaeth yn broses syml. Hefyd, dwedodd rhai ymatebwyr yr oedd Cyngor Gwynedd yn eithaf hyblyg wrth gyflawni'u prosiectau, a allai gael ei weld pan roedd Cyngor Gwynedd yn ddeallus ynglŷn ag oedi contractwyr ac yn caniatáu addasiadau bach i'w prosiectau nhw.

Fodd bynnag, mae lle i symleiddio'r broses ymgeisio o ran caffael. Rydym wedi clywed yr oedd y gofyniad i gasglu tri dyfynbris yn afrealistig ar gyfer rhai cymunedau gwledig, lle mae cyfyngiadau ar opsiynau. Rydym yn ymwybodol bod hwn yn rhan o reolau caffael i'r awdurdodau lleol, felly byddem yn awgrymu i lunwyr polisïau ystyried gweithio'n agos gyda chynghorau sir i greu eithriadau i'r rheol hon ar gyfer cymunedau fel y rhain yng Ngwynedd.

**Angen mwy o amser i gynghorau wneud eu ceisiadau.** Mynegodd rhai o gynghorau bod y terfynau amser i gyflwyno cais yn dynn, yn enwedig gan gynghorau sy'n cyfarfod yn fisol. Hefyd, nid oedd y ffenestr i wneud cais yn ddigon i rai cynghorau a oedd angen amser i gynnal ymgynghoriad â'r gymuned. Wrth gwrs, mae cyfnod y rhaglen ariannu gan Lywodraeth y DU wedi dylanwadu ar y ffenestr ymgeisio, felly rydym yn argymhell i lunwyr grantiau i ystyried y ffactorau hyn wrth lunio grantiau tebyg yn y dyfodol.

## Astudiaeth achos 2: Gwelliannau ger Y Maes, Cricieth


### *Cefndir y prosiect*

Estyniad gwaith dan Raglen Canol Trefi: Gosod Sylfaen ar gyfer Buddsoddiad, Balchder a Bwrlwm a arianwyd gan y GFFG yn 2024/25 oedd y gwelliannau ger Y Maes yng Nghricieth. Cafodd y cynllun hwn ei rannu i ddau wedd oherwydd nad oedd digon y gyllideb ar gael o fewn y rhaglen blaenorol i wneud yr holl welliannau.

Mae'r ardal a gafodd ei gwella fel rhan o'r prosiect Gwynedd Ni wedi'i lleoli gerllaw Y Maes yng Nghricieth. Marchnad bwyd stryd newydd yw Y Maes, a chafodd ei agor i'r cyhoedd yn 2025. Mae Y Maes wedi elwa o gyllid a ddarparwyd trwy raglenni eraill sydd wedi derbyn cefnogaeth ariannol drwy grantiau cefnogi busnes Cyngor Gwynedd yn flaenorol. Ar ôl cael ei agor, daeth angen i wella ymddangosiad y gofod cyfagos er mwyn gwella'r amgylchedd cyffredinol a'r profiad i drigolion ac ymwelwyr.

Yn 2025, cafodd uchafswm o £40,000 ei neilltuo i'r gwaith hwn, a chafodd y gwaith ei gyflawni gan Adran Priffyrdd, Peirianeg, ac YGC (Ymgynghoriaeth Gwynedd Consultancy) Cyngor Gwynedd. Cafodd y tendr i gynnal y gwaith ei wobrwyo i gwmni Adeiladwaith TJ Construction.

Mae siart isod yn dangos cynnydd y gwaith:



### *Gwaith a wnaed*

Er mwyn cyflawni'r gwaith, cafodd rhestr o weithgareddau eu nodi. I ddechrau, roedd angen i glirio'r safle trwy dynnu'r *block paving* presennol a chloddio cyfanswm o 220mm o ddyfnder i ddarparu ar gyfer yr arwyneb newydd.



*Delwedd 1: Yr ardal cyn y gwelliannau gyda'r hen "block paving"*

Ar ôl hynny, cafodd arwyneb newydd sy'n rhwymo â resin ei hadeiladu. Hefyd, gwnaethant roi a gosod ymylon newydd i ffinio'r arwyneb newydd gyda slabiau palmant concrit.



*Delwedd 2: Arwyneb newydd wrthi'n cael ei gosod ar ôl tynnu'r hen arwyneb*

O'r diwedd, cafodd meiciau newydd eu gosod ar sylfeini concrit.



*Delwedd 3: Meiciau newydd wedi'u gosod ar yr arwyneb newydd*

### *Heriau a rhwystrau*

Un her a gododd yn ystod cyflawni'r prosiect oedd rheoli disgwyliadau'r gwahanol rhanddeiliaid. Roedd y prosiect yn cynnwys adborth gan Gyngor Tref Cricieth, busnesau lleol, grwpiau cymunedol fel *Criccieth in Bloom*, a thrigolion y dref. Roedd gan bob grŵp eu blaenoriaethau eu hunain, a mynegodd Gareth a reolodd y prosiect ei fod yn heriol wrth wneud siŵr bod pawb yn hapus. Roedd hefyd rhaid iddo fe wrthsefyll ceisiadau y tu allan i sgôp y prosiect, fel gosod mwy o goed, ac roedd hyn wedi atal y sgôp rhag ymledu.

Rheoli cyllid oedd her arall i'r gwaith. Roedd angen i gyflawni'r prosiect o fewn pot cymharol fach o arian. Cyflawnwyd rhai arbedion cost cychwynnol mewn meysydd fel deunydd *subbase*, ond cafodd y rhain eu gwrthbwysu gan gostau uwch mewn mannau eraill, fel y strwythurau concrit a sylfaen.

Roedd pwys i gwblhau'r prosiect cyn y gaeaf. Roedd yr arwyneb resin angen amodau tymheredd penodol er mwyn cael ei gosod yn llwyddiannus, felly roedd y tîm yn gorfod cwblhau'r gwaith arwynebu cyn i'r tywydd fynd yn oerach. Roedd hwn yn golygu nad oedd lle i fod yn hyblyg o ran amserlennu, ac roedd yna bwysau i gwblhau'r gwaith o fewn ffenestr dynn.

Yn olaf, dylanwadodd llwyddiant o'r gwaith yn yr ardal yn 2024 ar gyflawni'r gwaith yn y cam presennol, a gosododd hwn feincnod i'r gymuned. Nododd Gareth ei fod gan y rhanddeiliaid ddisgwyliadau uwch oherwydd hyn, ac roeddent yn awyddus i sicrhau parhad yr ansawdd dylunio. Roedd hwn wedi dylanwadu trafodaethau rhanddeiliaid a phenderfyniadau o ran dylunio drwy gydol y gwaith yn y cam hwn.

### *Arferion da*

Un o gryfderau'r prosiect oedd y perthynas rhwng Cyngor Gwynedd a'r gymuned. Rydym yn deall bod cyfarfod cyson rhwng rheolwr y prosiect hwn a'r clerch o'r cyngor tref Cricieth, a hefyd, cafodd perchenogion busnes a chynrychiolwyr grwpiau cymuned eu cynnwys yn y trafodaethau. Mae'r berthynas hon wedi meithrin ymddiriedaeth ac yn gwneud siŵr bod pawb wedi'i alinio o ran disgwyliadau.

Hefyd, roedd y penderfyniad i aildefnyddio'r contractwr o'r cam cyntaf yn fanteisiol, gan fod nhw wedi bod yn gyfarwydd â'r safle a disgwyliadau'r gymuned.

Dangosodd y prosiect arferion da o ran cynllunio hefyd. Mae'r ardal wedi cael ei integreiddio i system rheoli asedau Adran Priffyrdd i sicrhau ei bod yn cael cynnal a chadw rheolaidd. Roedd dyluniad yr ardal ei hun yn fwriadol syml, yn cynnwys deunyddiau a gosodiadau y gellir eu cynnal a'r cadw'n hawdd.

Yn olaf, rydym yn nodi bod y prosiect wedi cael ei gwblhau ar amser ac o fewn y gyllideb a neilltuwyd.

### *Effaith y prosiect*

Mae'r gwelliannau ar Y Maes wedi gadael effaith cadarnhaol iawn i'r gymuned yng Nghricieth. Yn ôl sgwrs gyda chlerch y cyngor tref dros ebost, nododd hi fod y Cyngor Tref wedi bod yn gwthio am y gwelliannau hyn am sawl blwyddyn, ac maent yn fodlon gyda'r buddsoddiad a'r canlyniad.

Ym mis Hydref 2025, cyhoeddodd Cricieth Creadigol 2 bostiad ar Facebook yn dathlu'r gwaith ar y Maes. Mae'r postiadau wedi derbyn 137 likes a 17 loves, gyda'r sylwadau i gyd yn fod yn gadarnhaol iawn (gweler y sgrinluniau isod)

**Cricieth Creadigol - Creative Criccieth** is in Criccieth. ...  
 October 24, 2025 · 🎵 Collaboration · Music Byte · 🌐

Da gweld y gwaith ar y Maes wedi'i gwblhau - cydweithrediad rhwng Cyngor Gwynedd a'r Cyngor Tref ★  
 Great to see the work on the Maes completed- collaboration between Cyngor Gwynedd and the Town Council ★

122 21 comments 8 shares


Like Comment Share ✎

View more comments

Calon Cricieth ? Pardon my Welsh.  
 15w Like Reply ❤️

Author  
**Cricieth Creadigol - Creative Criccieth**  
 ❤️ yes indeed 😊  
 15w Like Reply

Delwedd 4: Sgrinlun o bostiad ar Facebook yn dathlu'r gwaith ar Y Maes



Delwedd 5: Sgrinlun yn dangos ymatebion i'r gwaith ar Y Maes

### *Gwersi a ddysgwyd*

Ar sail ein cyfweiliad â Gareth, rydym wedi adnabod y gwersi a ddysgwyd canlynol:

**Sefydlu llywodraethant clir o'r cychwyn cyntaf.** Mae'r prosiect wedi dangos y pwysigrwydd o adnabod pwy sy'n gyfrifol am wahanol agweddau ar y prosiect, a phwy sydd â'r awdurdod i wneud penderfyniadau. Helpodd yr eglurder hwn gyda sefyllfaoedd lle'r oedd angen rheoli disgwyliaidau'r rhanddeiliaid sydd â gwahanol flaenoriaethau.

**Glynu yn y briff.** Mae Gareth wedi dangos y gwerth o lynu yn y briff. Fel y crybwyllwyd yn y pwynt uchod, roedd achlysuron lle ceisiodd rhanddeiliaid ychwanegu elfennau newydd i'r gwaith, ond ataliodd tîm Adran Priffyrdd y sgôp rhag ymledu a diogelu'r gyllideb.

**Ailddefnyddio contractwyr lle bo'n bosib.** Roedd ailddefnyddio'r contractwr yn effeithlon gan fod y tîm yn deall elfennau fel gwybodaeth a disgwyliadau lleol eisoes. Mae'n amlwg y gall parhad partneriaid cyflawni symleiddio rheoli prosiectau yn sylweddol a gwella cysondeb.

**Creu perthynas da gyda'r rhanddeiliaid.** Wrth gyflawni'r gwaith hwn, creodd Cyngor Gwynedd berthynas da gyda'r Cyngor Tref a grwpiau cymunedol eraill yng Nghricieth drwy gynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda nhw. Gwnaeth hyn gryfhau perthnasoedd, gwella tryloywder, a helpu i osgoi unrhyw gamddealltwriaeth. Mewn geiriau eraill, mae cael perthynas da yn helpu i reoli disgwyliadau a chynnal ymddiriaeth gan y gymuned.

## Astudiaeth achos 3: Gwelliannau caeau chwarae

### *Cefndir y prosiect*

Cafodd £76,000 ei ymrwymo o gyllid CffG i gynnal gwaith uwchraddio ar 7 cae chwarae dros y sir. Nod y prosiect hwn yw gwella hygyrchedd y caeau chwarae hyn drwy osod offer newydd iddynt, a hefyd cynnal gwaith lefelu i sicrhau defnydd ym mhob tywydd. Cyflawnwyd y prosiect gan dîm a oedd yn cynnwys rheolwr asedau bwrdeistrefol, uwch beiriannydd bwrdeistrefol, archwilydd meysydd chwarae, a tri pheiriannydd cynorthwyol.

I ddechrau yn y cam cynllunio'r prosiect, roedd trafodaeth o fewn yr Uned Fwrdeistrefol o ran llefydd oedd wir angen offer chwarae newydd. Hefyd, ystyriodd y tîm uchod geisiadau gan y cyhoedd o ran gwelliannau caeau chwarae yr hoffent eu gweld yn eu cymunedau.


Y 7 cae chwarae a gafodd eu huwchraddio uw:

- 1) Marine Parade, Tywyn
- 2) Y Waun, Harlech
- 3) Cae Glyn, Caernarfon
- 4) Wembli, Pwllheli
- 5) Ffordd Cynan, Penrhosgarnedd
- 6) Hen Barc Sglefrio, Talysarn
- 7) Maes Chwarae Maes y Mor, Penygroes<sup>2</sup>

Mae'r map ar y dudalen drosodd yn dangos ble mae'r caeau chwarae wedi'u lleoli.

---

<sup>2</sup> Gan bod y prisiau yn rhatach na ddisgwyl, roedd dipyn o arian dros ben yn y cyfnod hawlio rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2025, roedd y rheolwr prosiect yn gallu ychwanegu lleoliad arall i'r cynllun, sef y cae chwarae hwn ym Mhenygroes.



*Delwedd 6: Map yn dangos lleoliadau'r caeau chwarae a uwchraddiwyd*

### *Gwaith a wnaed*

Cafodd y cwmnïau Wicksteed a GL Jones Playgrounds eu penodi i gynnal y gwaith uwchraddio ar y caeau chwarae yn Nhywyn, Harlech, Caernarfon, Pwllheli, a Phenrhosgarnedd yn ystod y cyfnod hawlio rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2025. Cafodd y gwaith hwn ei gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2025.

Yn y cyfamser, roedd cais gan gynghorydd i blant Talysarn i ddefnyddio'r hen barc sglefrio ar gyfer gemau pêl. Cafodd contractwr ei benodi ym mis Hydref 2025 i gynnal gwaith tarmacio ar y safle i greu cwrt chwarae pêl. Cafodd y gwaith hwn ei gwblhau ddiwedd mis Ionawr 2026.

Roedd arian dros ben ym mis Rhagfyr 2025 achos bod yr offer chwarae wedi bod yn rhatach na'r disgwyl. Oherwydd hyn, ychwanegodd y rheolwr prosiect safle arall ym Mhenygroes i'r cynllun. Cafodd yr offer ei osod erbyn diwedd mis Ionawr 2026.

Dyma'r gwaith penodol a gyflawnwyd:

**Marine Parade, Tywyn:** Gosod ffram aml-bwrpas newydd



**Y Waun, Harlech:** Gosod *roundabout* ar gyfer *cadair olwyn*



**Cae Glyn, Caernarfon:** Gosod *basket swing*



**Wembli, Pwllheli:** Gosod net spinner



**Ffordd Cynan, Penrhosgarnedd:** Gosod roundabout ar gyfer cadair olwyn.



Yn ôl ein cyswllt ni, aeth y prosiect yn ymswyth heb unrhyw heriau, er inni nodi bod rhywfaint o'r gwaith yn ddibynnol ar y tywydd a allai fod wedi achosi risgiau i'r gwaith.

Un arfer da yr ydym wedi adnabod yw'r proses cydweithredol wrth gyflawni'r prosiect. Yn fewnol, rydym yn deall bod y tîm wedi cael trafodaeth i nodi pa gaeau chwarae oedd angen mwy o sylw. Roedd hyn yn osgoi unrhyw fath o wneud penderfyniadau unochrog. Roedd y gymuned hefyd yn rhan o'r broses yn y cam cynllunio, gwelir hyn lle'r oedd y cyhoedd a chynghorwr yn gallu cyflwyno eu syniadau.

Arfer da arall yr ydym wedi adnabod yw ail-fuddsoddi'r gyllideb mewn prosiect arall, lle defnyddiwyd arian dros ben i ddarparu offer ychwanegol mewn cae chwarae arall ym Mhenygroes.

#### *Gwersi a ddysgwyd*

Ar sail y dogfennau a ddarparwyd inni, dyma'r gwersi a ddysgwyd o'r prosiect hwn:

**Pwysigrwydd ymgysylltu cymunedol ystyrlon.** Gwnaeth y prosiect elwi o syniadau a ddarparwyd gan aelodau'r gymuned a chynghorwyr lleol, a ddylanwadodd ar y math o offer a ddewiswyd a'r safleoedd a flaenoriaethwyd. Mae hyn yn dangos gwerth cynnal sianeli cyfathrebu â'r trigolion sy'n rhoi cipolwg lleol.

**Gwerth bod yn hyblyg o fewn cyllideb y prosiect.** Gan fod prisiau offer yn is na'r disgwyl, llwyddodd y tîm i ail-fuddsoddi'r arian sydd ar ôl mewn offer chwarae ychwanegol ar gyfer safle arall. Mae hyn yn tynnu llyw at sut y gall cynllunio ariannol addasadwy arwain at ganlyniadau gwell i'r gymuned.

## Effaith prosiect Gwynedd Ni

Er bod llawer o elfennau rhaglen Gwynedd Ni yn dal i gael eu cyflwyno, mae tystiolaeth o effaith gynnar ar bobl, lleoedd, a systemau cyflawni.

Mae'r rhaglen wedi creu gwelliannau o ran hygyrchedd ac ansawdd mannau cyhoeddus. Mae yna gaeau chwarae wedi'u huwchraddio sy'n darparu cyfleoedd hamdden mwy cynhwysol i blant drwy osod offer hygyrch. Mae gwelliannau i ardaloedd cyhoeddus, fel y rhai ar Y Maes yng Nghricieth, wedi gwella profiad dyddiol o drigolion y dref. Mae adborth gan gynghorau tref a chymuned yn dangos bod yr ymyriadau hyn yn werthfawr, gan gyfrannu at fwy o falchder lleol. Yn bwysig, mynegodd sawl cyngor na fyddai eu prosiectau yn fod yn bosib heb gefnogaeth y cynllun.

O ran effaith ar lefydd yn yr ardal prosiect, mae'r rhaglen yn gwella ffabrig corfforol canol trefi trwy uwchraddio amwynderau a gwaith dichonoldeb paratoadol. Yn yr achos o'r Maes yng Nghricieth, mae'r gwelliannau wedi ategu buddsoddiadau cynharach. Er na ellir eto ddangos tystiolaeth o ganlyniadau tymor hir fel cynnydd economaidd neu gynnydd mewn nifer o ymwelwyr, gallai'r newidiadau hyn gynrychioli rhagflaenydd i'r amcanion adfywio ehangach yn y Sir.

Yn ogystal â hyn, mae yna effeithiau cynnar ar lefel system hefyd. Mae'r Gronfa wedi ymgysylltu â 55 o gynghorau ledled y Sir, gan dangos cyrhaeddiad eang. Mae adborth yr ydym wedi casglu yn gyson yn tynnu sylw at werth cefnogaeth ymatebol swyddogion a chyfathrebu clir. Mae hyn wedi cryfhau hyder cyflawni ymysg cynghorau llai ac wedi cyfrannu at berthnasoedd gwaith cadarnhaol rhwng y Cyngor a rhanddeiliaid lleol.

## Casgliad

Mae gwerthusiad hwn yn dangos bod y Cyngor wedi llwyddo i osod sylfeini ar gyfer adfywio canol trefi a chymunedau ar draws Gwynedd. Er bod nifer o brosiectau'n dal ar ei gweill, mae tystiolaeth gynnar yn dangos gwelliannau i ansawdd mannau cyhoeddus, hygyrchedd, a phrofiad pobl leol.

